

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

24/11/2015

Cynnwys Contents

[1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog](#)

[1. Questions to the First Minister](#)

[2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)

[2. Business Statement and Announcement](#)

[3. Datganiad: Adroddiad ar Daith Cyllideb 2015—'Buddsoddi yn y Gymru a Garem'](#)

[3. Statement: Report on the Budget Tour 2015—'Investing in the Wales We Want'](#)

[4. Datganiad: Nodau'r Cenhedloedd Unedig a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#)

[4. Statement: The United Nations Goals and the Well-being of Future Generations \(Wales\) Act 2015](#)

[5. Datganiad: Y Bil Llywodraeth Leol \(Cymru\) Drafft](#)

[5. Statement: The Draft Local Government \(Wales\) Bill](#)

[6. Dadl ar Gyfnod 4 y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol \(Cymru\)](#)

[6. Debate on Stage 4 of the Regulation and Inspection of Social Care \(Wales\) Bill](#)

[7. Dadl ar Dargedau Tai Fforddiadwy](#)

[7. Debate on Affordable Housing Targets](#)

[8. Cyfnod Pleidleisio](#)

[8. Voting Time](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 13:29 gyda'r Dirprwy Lywydd (David Melding) yn y Gadair.

The Assembly met at 13:29 with the Deputy Presiding Officer (David Melding) in the Chair.

13:29 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order, order. The National Assembly is in session.

Trefn, trefn. Dyma ddechrau trafodion y Cynulliad Cenedlaethol.

1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Mae [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant. Mae [W] yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

1. Questions to the First Minister

[R] signifies the Member has declared an interest. [W] signifies that the question was tabled in Welsh.

13:30 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 1 is questions to the First Minister. Question 1, Altaf Hussain.

Eitem 1 yw cwestiynau i'r Prif Weinidog. Cwestiwn 1, Altaf Hussain.

Seilwaith Technoleg Gwybodaeth

Information Technology Infrastructure

13:30 **Altaf Hussain** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much, Deputy Presiding Officer, and good afternoon, First Minister.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd, a phrynhawn da, Brif Weinidog.

1. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella'r seilwaith technoleg gwybodaeth sydd ar gael i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(4)2590(FM)

1. What is the Welsh Government doing to improve the information technology infrastructure available to public services in Wales? OAQ(4)2590(FM)

- 13:30 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Through the new public sector broadband aggregation contract with BT, we are creating a faster, more reliable, higher capacity and cost-effective network for public services in Wales.
Drwy'r contract cydgasglu band eang y sector cyhoeddus newydd gyda BT, rydym yn creu rhwydwaith cyflymach, mwy dibynadwy, capasiti uwch a chost-effeithiol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.
- 13:30 **Altaf Hussain** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Thank you very much. First Minister, we have an IT infrastructure that's not fit for the twentieth, let alone twenty-first, century. We saw the tragic consequences earlier this month, when it was revealed that a young woman from Swansea died from peritonitis, because her urgent referral was lost by the hospital's IT system. Will you now look to employ experts from the private sector who can deliver improvements to our IT infrastructure, so that cases like that of Zoe Wilcox can never happen again?
Diolch yn fawr iawn. Brif Weinidog, mae gennym ni seilwaith TG nad yw'n addas ar gyfer yr ugeinfed ganrif, heb sôn am yr unfed ganrif ar hugain. Gwelsom y canlyniadau trasig yn gynharach y mis hwn, pan ddatgelwyd y bu farw menyw ifanc o Abertawe o beritonitis, oherwydd i'w hatgyfeiriad brys gael ei golli gan system TG yr ysbyty. A wnewch chi ystyried nawr cyflogi arbenigwyr o'r sector preifat a all wneud gwelliannau i'n seilwaith TG, fel na all achosion fel achos Zoe Wilcox byth ddigwydd eto?
- 13:31 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
I know that it is the case that some public authorities do employ contractors from the private sector to deliver ICT services, but the PSBA does, or should, enable secure collaboration and information sharing across the public sector. There is no reason why that should not work in practice, and I know that NHS Wales has made significant progress in using existing and new technology, so that a patient's information is available, or should be available, whenever and wherever treatment or care takes place.
Gwn ei bod yn wir bod rhai awdurdodau cyhoeddus yn cyflogi contractwyr o'r sector preifat i ddarparu gwasanaethau TGCh, ond mae'r PSBA, neu dylai'r PSBA, alluogi cydweithredu a rhannu gwybodaeth yn ddiogel ar draws y sector cyhoeddus. Nid oes unrhyw reswm pam na ddylai hynny weithio'n ymarferol, a gwn fod GIG Cymru wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran defnyddio technoleg bresennol a newydd, fel bod gwybodaeth claf ar gael, neu y dylai fod ar gael, pryd bynnag a lle bynnag y bo triniaeth neu ofal yn digwydd.
- 13:31 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
First Minister, some of our IT systems are actually excellent, and I met with GPs recently and they highlighted that. But the problem is that they're not always necessarily compatible with other parts of the IT systems in the health sector. There is a need for the GP services to talk to the hospital services, and to also talk to social care services, so that we get a holistic approach to dealing with patients. What progress is being made in actually getting that compatibility and that mix so that they can actually have a single system that delivers all, for all sectors?
Brif Weinidog, mae rhai o'n systemau TG yn ardderchog mewn gwirionedd, a chyfarfûm â meddygon teulu yn ddiweddar ac amlygwyd hynny ganddynt. Ond y broblem yw nad ydynt bob amser yn cyd-fynd â rhannau eraill o'r systemau TG yn y sector iechyd o reidrwydd. Mae angen i'r gwasanaethau meddygon teulu siarad â'r gwasanaethau ysbyty, a siarad â gwasanaethau gofal cymdeithasol hefyd, er mwyn i ni gael dull cyfannol o ymdrin â chleifion. Pa gynnydd sy'n cael ei wneud o ran sicrhau'r cysondeb hwnnw a'r gymysgedd honno fel y gallant gael un system sy'n cyflawni popeth, i bob sector?
- 13:32 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
We have invested £6.7 million in a new IT system that will allow health and social care practitioners to share information instantly. It's called the Welsh community care information system. That will support information sharing, case management and workflow between organisations. It's been the case, of course, that the out-of-hours doctors service has also had access to the records held by a patient's GP for a number of years, and, within the next few months, this vital information will be available for wherever patients receive care in the NHS, whether it's in the hospital, the GP surgery or in an emergency setting.
Rydym ni wedi buddsoddi £6.7 miliwn mewn system TG newydd a fydd yn caniatáu i ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol rannu gwybodaeth ar unwaith. System gwybodaeth gofal cymunedol Cymru yw ei henw. Bydd honno'n cefnogi rhannu gwybodaeth, rheoli achosion a llif gwaith rhwng sefydliadau. Mae wedi bod yn wir, wrth gwrs, y bu gan y gwasanaeth meddygon y tu allan i oriau fynediad at y cofnodion a gedwir gan feddyg teulu claf am nifer o flynyddoedd hefyd, ac, yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf, bydd y wybodaeth hanfodol hon ar gael ym mha le bynnag y mae cleifion yn derbyn gofal yn y GIG, boed yn yr ysbyty, y feddygfa deulu neu mewn lleoliad brys.

13:32 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

First Minister, despite the roll-out of superfast broadband, there are still a number of notspots, particularly in urban areas in my region, and I think even in Cardiff bay there are some notspots in terms of that. But, I think, the big issue is how we deal with working whilst on the move. So, having moved from superfast broadband, is the Welsh Government going to roll out 4G around Wales to enable businesses to maybe access that, particularly where superfast broadband is not going to be available?

Brif Weinidog, er gwaethaf cyflwyniad band eang cyflym iawn, ceir nifer o fannau gwan o hyd, yn enwedig mewn ardaloedd trefol yn fy rhanbarth i, ac rwy'n meddwl bod manau gwan o ran hynny ym mae Caerdydd hyd yn oed. Ond, yn fy marn i, y mater pwysig yw sut yr ydym ni'n ymdrin â gweithio wrth i ni fod ar grwydr. Felly, ar ôl symod o fand eang cyflym iawn, a yw Llywodraeth Cymru yn mynd i gyflwyno 4G ledled Cymru i alluogi busnesau i gael gafael ar hynny efallai, yn enwedig lle nad yw band eang cyflym iawn yn mynd i fod ar gael?

13:33 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

We are told by the providers of mobile broadband that they are ever improving mobile broadband provision. They tend to talk in terms of 3G rather than 4G. Of course, the difference is that we have a contract in place to deliver land-based broadband, which we can control. It's more difficult to do it, of course, with mobile broadband, but we do expect the providers to provide the people of Wales with a level of service that they would expect anywhere. It's always been a source of wonder for me, for example, that one of the most difficult areas to get reception on a mobile phone is Anglesey, which is mainly flat, and it's not acceptable that that should continue to be the case in years to come. We do expect providers to ensure that services are rolled out across the whole of Wales in an acceptable manner.

Fe'n hysbysir gan ddarparwyr band eang symudol eu bod yn gwella darpariaeth band eang symudol yn barhaus. Maen nhw'n tueddu i siarad yn nhermau 3G yn hytrach na 4G. Wrth gwrs, y gwahaniaeth yw bod gennym ni gontract ar waith i ddarparu band eang ar y tir, y gallwn ei reoli. Mae'n fwy anodd gwneud hynny, wrth gwrs, gyda band eang symudol, ond rydym ni'n disgwyl i'r darparwyr ddarparu lefel o wasanaeth i bobl Cymru y byddent yn ei ddisgwyl yn unrhyw fan. Mae wedi fy rhyfeddu i erioed, er enghraifft, mai un o'r ardaloedd anoddaf i gael derbyniad ar ffôn symudol yw Ynys Môn, sy'n wastad ar y cyfan, ac nid yw'n dderbyniol y dylai hynny barhau i fod yn wir yn y blynyddoedd i ddod. Rydym yn disgwyl i ddarparwyr sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cyflwyno ar draws Cymru gyfan mewn modd derbyniol.

Canlyniadau Addysgol yng Nghwm Cynon

Educational Outcomes in the Cynon Valley

13:34 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

2. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella canlyniadau addysgol yng Nghwm Cynon?
OAQ(4)2587(FM)

2. What is the Welsh Government doing to improve educational outcomes in the Cynon Valley?
OAQ(4)2587(FM)

13:34 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

We have implemented a range of actions to improve educational standards in schools. They are set out in 'Qualified for Life', which is our education improvement plan for three to 19-year-olds in Wales.

Rydym ni wedi cymryd amrywiaeth o gamau i wella safonau addysgol mewn ysgolion. Fe'u nodir yn 'Cymwys am Oes', sef ein cynllun gwella addysg ar gyfer plant tair i 19 oed yng Nghymru.

13:34 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

First Minister, I know you will be attending the official opening of Aberdare Community School tomorrow. This outstanding school shows how the Welsh Government and Rhondda Cynon Taff council, working together, are delivering for the Cynon Valley, something the school results from the summer further emphasises. The number of free-school-meal pupils at the school gaining five GCSEs doubled, despite the school having nearly double the Welsh average in receipt of free school meals. Obviously, inspirational leadership is one key way to improve performance, but how else can we make sure we drive up outcomes for all pupils, and free-school-meal pupils in particular?

Brif Weinidog, gwn y byddwch yn bresennol yn agoriad swyddogol Ysgol Gymunedol Aberdâr yfory. Mae'r ysgol ragorol hon yn dangos sut y mae Llywodraeth Cymru a Chyngor Rhondda Cynon Taf, gan weithio gyda'i gilydd, yn cyflawni ar gyfer Cwm Cynon, rhywbeth y mae canlyniadau ysgolion o'r haf yn ei bwysleisio ymhellach. Fe ddyblodd nifer y disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol a enillodd bum cymhwyster TGAU, er gwaethaf y ffaith fod gan yr ysgol bron i ddwbl cyfartaledd Nghymru o ran y rhai sy'n derbyn prydau ysgol am ddim. Yn amlwg, mae arweinyddiaeth ysbrydoledig yn un ffordd allweddol o wella perfformiad, ond sut arall allwn ni wneud yn siŵr ein bod yn gwella canlyniadau i bob disgybl, a disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim yn arbennig?

13:35

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, I'm looking forward to coming to the school. I have paid a visit once before—it wasn't quite finished at that point. But it does show another example of a Labour Welsh Government working with a Labour local authority to deliver a new school, something that is unknown under the Tories in England, and one example amongst many in Wales of investing in education.

In terms of how we drive up outcomes for all pupils, well, our early years programme will start to develop earlier interventions, to help to break the cycle of poor attainment, and we'll continue to explore every opportunity to support all children in Wales to reach their full potential. We have also strengthened the national school categorisation system, in relation to free school meal performance, and we have set minimum standards for secondary schools to achieve within the next two years.

Wel, rwy'n edrych ymlaen at ddod i'r ysgol. Rwyf wedi ymweld unwaith o'r blaen—nid oedd wedi'i chwblhau bryd hynny. Ond mae'n dangos enghraifft arall o Lywodraeth Llafur Cymru yn gweithio gydag awdurdod lleol Llafur i ddarparu ysgol newydd, rhywbeth nad yw'n digwydd o dan y Toriaid yn Lloegr, ac sy'n un enghraifft ymhlith llawer yng Nghymru o fuddsoddi mewn addysg.

O ran sut yr ydym ni'n gwella canlyniadau i bob disgybl, wel, bydd ein rhaglen blynyddoedd cynnar yn dechrau datblygu ymyriadau cynharach, i helpu i dorri'r cylch o gyrhaeddiad gwael, a byddwn yn parhau i archwilio pob cyfle i gefnogi pob plentyn yng Nghymru i wireddu ei lawn botensial. Rydym ni hefyd wedi cryfhau'r system categoreiddio ysgolion genedlaethol, o ran perfformiad y rhai sy'n derbyn pryddau ysgol am ddim, ac rydym ni wedi gosod safonau gofynnol i ysgolion uwchradd eu bodloni yn ystod y ddwy flynedd nesaf.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:35

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition

First Minister, the Welsh baccalaureate offers some students the opportunity, when applying for universities, to gain valuable UCAS points. Obviously, some English universities—quite a few English universities—don't look at the Welsh baccalaureate as being valuable enough to gain those points. What role is the Welsh Government going to undertake to promote the Welsh baccalaureate, so that all students can use it as a currency, if you like, in the points that they need to get to higher education? I appreciate it's the universities' right to determine which qualifications they wish to use, but there is a role to promote it amongst higher education establishments in England.

Brif Weinidog, mae bagloriaeth Cymru yn cynnig cyfle i rai myfyrwyr, wrth wneud cais i brifysgolion, ennill pwyntiau UCAS gwerthfawr. Yn amlwg, nid yw rhai prifysgolion yn Lloegr—cryn dipyn o brifysgolion yn Lloegr—yn ystyried bod bagloriaeth Cymru yn ddigon gwerthfawr i ennill y pwyntiau hynny. Pa swyddogaeth y mae Llywodraeth Cymru am ei chyflawni i hyrwyddo bagloriaeth Cymru, fel y gall pob myfyrwr ei ddefnyddio fel arian cyfred, os mynnwch, o ran y pwyntiau sydd eu hangen arnynt i fynd i addysg uwch? Rwy'n sylweddoli bod gan y prifysgolion hawl i benderfynu pa gymwysterau y maen nhw eisiau eu defnyddio, ond mae swyddogaeth i'w hybu ymhlith sefydliadau addysg uwch yn Lloegr.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:36

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, we are seeing a declining number of universities that won't accept the baccalaureate. We have seen, for example, Cambridge—if I remember rightly—saying that they will, and Cambridge is one of the world's leading universities. We will continue, of course, to seek to educate the unenlightened institutions in order to make sure that they understand that Welsh qualifications are the equivalent of, or, indeed, better than, qualifications that can be obtained elsewhere.

Wel, rydym ni'n gweld nifer gostyngol o brifysgolion nad ydynt yn derbyn y fagloriaeth. Rydym ni wedi gweld, er enghraifft, Caergrawnt—os cofiaf yn iawn—yn dweud y bydd yn ei dderbyn, ac mae Caergrawnt yn un o brifysgolion mwyaf blaenllaw'r byd. Byddwn yn parhau, wrth gwrs, i geisio addysgu sefydliadau nad ydynt yn oleuedig er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn deall bod cymwysterau Cymru yn gyfwerth â chymwysterau y gellir eu hennill mewn manau eraill, neu, yn wir, yn well na nhw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

Questions Without Notice from the Party Leaders

13:36

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I now call the party leaders to question the First Minister, starting this week with the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Galwaf ar arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog nawr, gan ddechrau yr wythnos hon gydag arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:37 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru
Diolch, Ddirprwy Lywydd. First Minister, how many children in Wales who have been, or are being, sexually abused, have come to the attention of the statutory authorities?
Diolch, Ddirprwy Lywydd. Brif Weinidog, faint o blant yng Nghymru sydd wedi, neu sydd yn cael eu cam-drin yn rhywiol, sydd wedi dod i sylw'r awdurdodau statudol?
- 13:37 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Well, not enough is the answer, I suspect. Whilst we have to look at the figures for each local authority, there is no doubt that there will be a number of cases that are not reported, for any number of reasons. She will have heard the news reports that I heard this morning, which talk about the difficulties of young children coming forward—the fear that they have that, if they come forward, they'll get the family into trouble in some way. And that's why, of course, it's important that social services departments in local authorities continue to work proactively with families, in order to look to identify sexual abuse as quickly as possible.
Wel, dim digon yw'r ateb, rwy'n amau. Er bod yn rhaid i ni edrych ar y ffigurau ar gyfer pob awdurdod lleol, nid oes amheuaeth y bydd nifer o achosion na chawsant eu hadrodd, am lawer o wahanol resymau. Bydd hi wedi clywed yr adroddiadau newyddion a glywais i y bore yma, a oedd yn sôn am anawsterau plant ifanc o ran dod ymlaen—yr ofn sydd ganddynt, os byddant yn dod ymlaen, y byddant yn cael y teulu i drwbl mewn rhyw ffordd. A dyna pam, wrth gwrs, mae'n bwysig bod adrannau gwasanaethau cymdeithasol mewn awdurdodau lleol yn parhau i weithio'n rhagweithiol gyda theuluoedd, er mwyn ceisio nodi cam-drin rhywiol cyn gynted â phosibl.
- 13:37 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I'm not surprised you're not able to give me a figure, First Minister. But even if you could, the official figure is likely to be much smaller than the actual number of children who are abused. And you are right to point out that the Children's Commissioner for England today said that the number of children known to have been sexually abused is at the tip of the iceberg. Her study has been extensive and suggests that approximately just one out of every eight survivors, or victims, of sexual abuse come to the attention of statutory authorities. Do you agree that a similar study should be undertaken here in Wales?
Nid wyf yn synnu nad ydych chi'n gallu rhoi ffigur i mi, Brif Weinidog. Ond hyd yn oed pe gallech chi wneud hynny, mae'r ffigur swyddogol yn debygol o fod yn llawer llai na nifer gwirioneddol y plant sy'n cael eu cam-drin. Ac rydych chi'n iawn i nodi bod Comisiynydd Plant Lloegr wedi dweud heddiw mai dim ond rhan fechan iawn o'r rhai sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol y maent yn gwybod amdanynt. Mae ei hastudiaeth wedi bod yn drwyadl ac mae'n awgrymu mai dim ond tua un o bob wyth goroeswr, neu ddiodefwr, cam-drin rhywiol sy'n dod i sylw awdurdodau statudol. A ydych chi'n cytuno y dylid cynnal astudiaeth debyg yma yng Nghymru?
- 13:38 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Well, it's a matter, of course, for the Children's Commissioner for Wales, acting as an independent person, to determine whether a study like that is needed in Wales, although there is no reason to suspect that the situation is different in Wales. And so, it is for the children's commissioner to determine. Let's wait to see what view the children's commissioner takes on that. But it's right to say that many, many cases, possibly even the majority—it's difficult to say, of course—do go unreported. Some, of course, surface many years later, and some never do.
Wel, mater, wrth gwrs, i Gomisiynydd Plant Cymru, yn gweithredu fel person annibynnol, yw penderfynu a oes angen astudiaeth o'r fath yng Nghymru, er nad oes unrhyw reswm i amau bod y sefyllfa'n wahanol yng Nghymru. Ac felly, cyfrifoldeb y comisiynydd plant yw penderfynu. Gadewch i ni aros i weld pa safbwynt y mae'r comisiynydd plant yn ei gymryd ar hynny. Ond mae'n gywir i ddweud bod llawer iawn o achosion, hyd yn oed y mwyafrif o bosibl—mae'n anodd dweud, wrth gwrs—nad ydynt yn cael eu hadrodd. Mae rhai, wrth gwrs, yn dod i'r amlwg flynyddoedd lawer yn ddiweddarach, ac mae rhai nad ydynt yn dod i'r amlwg byth.

13:39

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome that you're open to such a study being conducted in Wales. The issue of childhood sexual abuse has been prominent in recent years due to allegations made against a number of high-profile individuals. And it's vital that both policy makers and legislators do all we can to make sure that we've got a system in place to support survivors of child sexual abuse, both as children and later on as adults. Now, according to the Children's Commissioner for England, around two thirds of at-risk children were abused sexually by a member of their own family, or by someone known very close to their own family. First Minister, in the comprehensive spending review, we can expect further cuts to those areas that are not protected by the UK Government. That'll mean more cuts to local government budgets and further pressures on social services departments, making it even more difficult to investigate child sexual abuse or to be proactive in investigating it. To what extent will the Welsh Government prioritise investment in services to protect and support those children who are victims or survivors of sexual abuse?

Rwy'n croesawu'r ffaith eich bod yn agored i gynnal astudiaeth o'r fath yng Nghymru. Mae'r mater o gam-drin rhywiol yn ystod plentyndod wedi bod yn flaenllaw yn y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i honiadau a wnaed yn erbyn nifer o unigolion uchel eu proffil. Ac mae'n hanfodol bod llunwyr polisi a deddfwyr yn gwneud popeth a allwn i wneud yn siŵr bod gennym ni system ar waith i gefnogi goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol, fel plant ac yn ddiweddarach fel oedolion. Nawr, yn ôl Comisiynydd Plant Lloegr, cafodd tua dwy ran o dair o'r plant sydd mewn perygl eu cam-drin yn rhywiol gan aelod o'u teulu eu hunain, neu gan rywun agos iawn at eu teulu eu hunain. Brif Weinidog, yn yr adolygiad cynhwysfawr o wariant, gallwn ddisgwyl toriadau pellach i'r meysydd hynny nad ydynt wedi'u diogelu gan Lywodraeth y DU. Bydd hynny'n golygu mwy o doriadau i gyllidebau llywodraeth leol a mwy o bwysau ar adrannau gwasanaethau cymdeithasol, gan ei gwneud yn anoddach fyth i ymchwilio i gam-drin plant yn rhywiol, neu i fod yn rhagweithiol o ran ymchwilio iddo. I ba raddau y bydd Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu buddsoddiad mewn gwasanaethau i amddiffyn a chefnogi'r plant hynny sy'n ddioddefwyr neu'n oroeswyr cam-drin rhywiol?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:40

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

We have prioritised spending on social services historically. We've seen that, of course, in the figures that were released by the UK Treasury the week before last. Much of it depends, of course, on the settlement itself. For example, much has been said that there will be an £8 billion increase in health spending over a period of years, but from what we've seen this morning, that money will come from public health and medical education, which means, potentially, no consequential for Wales. That is worrying, because unless there is new money added to the Department of Health budget, then the consequential will not occur, or what might occur, of course, is that there will be a small consequential in the health budget that will be balanced by a negative consequential in the local government budget. So, until we know what the CSR actually says, and if it is the case that money is simply being shifted from one part of health to another part of health, then there will be no effective or no net consequential as far as Wales is concerned.

Rydym ni wedi blaenoriaethu gwariant ar wasanaethau cymdeithasol yn hanesyddol. Rydym ni wedi gweld hynny, wrth gwrs, yn y ffigurau a gyhoeddwyd gan Drysorlys y DU bythefnos yn ôl. Mae llawer o hyn yn dibynnu, wrth gwrs, ar y setliad ei hun. Er enghraifft, mae llawer wedi ei ddweud y bydd cynnydd o £8 biliwn i wariant ar iechyd dros gyfnod o flynyddoedd, ond o'r hyn yr ydym ni wedi ei weld y bore yma, bydd yr arian hwnnw'n dod o iechyd y cyhoedd ac addysg feddygol, sy'n golygu, o bosibl, dim swm canlyniadol i Gymru. Mae hynny'n peri gofid, oherwydd oni bai bod arian newydd yn cael ei ychwanegu at gyllideb yr Adran Iechyd, yna ni fydd y swm canlyniadol ar gael, neu'r hyn a allai ddigwydd, wrth gwrs, yw y bydd swm canlyniadol bach yn y gyllideb iechyd a fydd yn cael ei gydbwysu gan swm canlyniadol negyddol yn y gyllideb llywodraeth leol. Felly, tan y byddwn yn gwybod beth y mae'r adolygiad cynhwysfawr o wariant yn ei ddweud mewn gwirionedd, ac os yw'n wir fod arian ddim ond yn cael ei symud o un rhan o faes iechyd i ran arall o faes iechyd, yna ni fydd unrhyw swm canlyniadol effeithiol neu net cyn belled ag y mae Cymru yn y cwestiwn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:41

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Now, the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams, nawr.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:41

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. First Minister, figures last week showed that average weekly wages in Wales were falling. In fact, Wales was the only part of the UK to show a decrease. The north-west of England, a region often compared to Wales, had an increase of 2 per cent in wages, while the UK average increased by 1.8 per cent. What do you put this failure down to?

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Brif Weinidog, dangosodd ffigurau yr wythnos diwethaf bod cyflogau wythnosol cyfartalog yng Nghymru yn gostwng. Yn wir, Cymru oedd yr unig ran o'r DU i ddangos gostyngiad. Bu cynnydd o 2 y cant i gyflogau yng ngogledd-orllewin Lloegr, rhanbarth sy'n aml yn cael ei gymharu â Chymru, tra bod cyfartaledd y DU wedi cynyddu gan 1.8 y cant. Beth yw eich esboniad am y methiant hwn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:41 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, if you look at the historic trend, we see that wages have increased; we see that GDP per head has increased in Wales over the past 15 years; we see 38,000 jobs that have been created, safeguarded or assisted by the Welsh Government, and that's better even than 2013-14—the best performance for 10 years. We also have recorded record levels of inward investment, which is helping to create high-quality jobs. So, yes, whilst the current figures are disappointing, nevertheless, the trend remains encouraging.

Wel, os edrychwch chi ar y duedd hanesyddol, gwelwn fod cyflogau wedi cynyddu; gwelwn fod CMC y pen wedi cynyddu yng Nghymru dros y 15 mlynedd diwethaf; gwelwn 38,000 o swyddi sydd wedi eu creu, eu diogelu neu eu cynorthwyo gan Lywodraeth Cymru, ac mae hynny'n well na 2013-14 hyd yn oed—y perfformiad gorau ers 10 mlynedd. Rydym ni hefyd wedi cofnodi'r lefelau uchaf erioed o fewnfuddsoddiad, sy'n helpu i greu swyddi o ansawdd uchel. Felly, ydy, er bod y ffigurau presennol yn siomedig, serch hynny, mae'r duedd yn parhau i fod yn galonogol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:42 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, the truth remains that Wales is the only party of the UK where the money that people take home after a hard week's work is actually falling. Also, on top of that, Welsh unemployment figures saw a rise over the last quarter, whilst UK average unemployment fell. Why do you think these situations are occurring?

Brif Weinidog, y gwir amdani o hyd yw mai Cymru yw'r unig ran o'r DU lle mae'r arian y mae pobl yn mynd ag ef adref gyda nhw ar ôl wythnos galed o waith yn gostwng mewn gwirionedd. Hefyd, yn ogystal â hynny, bu cynnydd i ffigurau diweithdra Cymru dros y chwarter diwethaf, er bod diweithdra cyfartalog y DU wedi gostwng. Pam mae'r sefyllfaedd hyn yn digwydd, yn eich barn chi?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:42 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

As I say, if you look at the trend over the year rather than the quarter, you can see that the trend is very much downwards. But one thing I will say is this: we know, for example, that there will be a hit of some £600 million on the incomes of people in Wales as a result of welfare reforms; we know that 384,000 children will be affected by the UK's current position on tax credits. It is inevitable, if the plans on tax credits go through, that many, many people will see their incomes hit even further. So, the UK Government has to do its bit as well to make sure that people are not hit in their pockets as they have been for the past four or five years by the UK Government.

Fel y dywedais, os edrychwch chi ar y duedd yn ystod y flwyddyn yn hytrach na'r chwarter, gallwch weld bod y duedd yn bendant am i lawr. Ond un peth y gwnaf i ei ddweud yw hyn: rydym ni'n gwybod, er enghraifft, y bydd ergyd o tua £600 miliwn i incymau pobl yng Nghymru o ganlyniad i ddiwygiadau lles; rydym ni'n gwybod y bydd 384,000 o blant yn cael eu heffeithio gan safbwynt presennol y DU ar gredydau treth. Mae'n anochel, os bydd y cynlluniau ar gredydau treth yn cael eu gweithredu, y bydd llawer iawn o bobl yn gweld eu hincymau'n cael eu taro ymhellach fyth. Felly, mae'n rhaid i Lywodraeth y DU chwarae ei rhan hefyd, i wneud yn siŵr nad yw pobl yn cael eu taro yn eu pocedi fel y maen nhw wedi eu taro yn ystod y pedair neu bum mlynedd diwethaf gan Lywodraeth y DU.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:43 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, I share your concerns about the proposals for working tax credits, and that's why my colleagues in the House of Lords proposed an amendment to stop those cuts dead, rather than the Lords of your party, who actually just sent them back to be rethought.

Brif Weinidog, rwy'n rhannu eich pryderon am y cynigion ar gyfer credydau treth gwaith, a dyna pam gynigiodd fy nghydweithwyr yn Nhŷ'r Arglwyddi welliant i atal y toriadau hynny'n syth, yn hytrach nag Arglwyddi eich plaid chi, a wnaeth ond eu hanfon yn ôl i gael eu hailystyried.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Now, pay and unemployment rates are stagnant, and perhaps then it's not surprising that the rate of empty shops in our high street is also increasing faster than anywhere else in the UK. Could you explain why vacancy rates of Welsh high-street shops have taken a turn for the worse, with a rise in the rate of empty shops for the first time in three years?

Nawr, mae cyfraddau cyflog a diweithdra yn ddisymud, ac efallai felly nad yw'n syndod bod nifer y siopau gwag ar ein strydoedd mawr hefyd yn cynyddu'n gyflymach nag yn unrhyw le arall yn y DU. A allech chi esbonio pam mae cyfraddau siopau gwag ar y stryd fawr yng Nghymru wedi gwaethygu, gyda chynnydd i gyfradd y siopau gwag am y tro cyntaf mewn tair blynedd?

13:44

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

The problems facing the retail sector are many. It's not just to do with the disposable incomes of potential customers. Even if people have a rise in their incomes, it does not mean they'll spend money in the high street. They need to know that there are shops there that are accessible to them, and for many, many high streets, they're only open between half past nine and half past five. So, in effect, for most people, high streets are only open for one day a week, because they can't access those shops for most of the week. There needs to be a rethink of opening hours to make shops more accessible.

We know, of course, the issues with business rates, which is why we have the small business rate relief scheme in place. For many shops, they have to consider online operations; they're simply not going to succeed if they're simply businesses that operate purely on the high street—some can do that, some cannot—and there is, I think, a responsibility on landlords. I can say, in my part of the world, landlords are not flexible enough. They keep on demanding 12-month tenancies for new businesses and, in one case, a 10-year tenancy for a start-up business. For many, many shops, they will start as pop-up shops. They want three-month tenancies, not 12-month tenancies. So, there is also a duty on landlords to be far more flexible in terms of the tenancies that they offer than certainly has been the experience in my part of the world.

Mae'r problemau sy'n wynebu'r sector manwerthu yn niferus. Nid yw yn ymwneud ag incwm gwario darpar gwsmeriaid yn unig. Hyd yn oed os bydd cynnydd i incwm pobl, nid yw'n golygu y byddant yn gwario arian ar y stryd fawr. Mae angen iddyn nhw wybod bod siopau yno sy'n hygyrch iddynt, ac mewn llawer iawn o strydoedd mawr, dim ond rhwng hanner awr wedi naw a hanner awr wedi pump maen nhw ar agor. Felly, mewn gwirionedd, i'r rhan fwyaf o bobl, dim ond un diwrnod yr wythnos y mae strydoedd mawr ar agor, gan nad oes ganddynt fynediad at y siopau hynny yn ystod y rhan fwyaf o'r wythnos. Mae angen ailfeddlw oriau agor i wneud siopau'n fwy hygyrch.

Rydym ni'n gwybod, wrth gwrs, am y problemau gydag ardrethi busnes, a dyna pam mae gennym ni'r cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach. I lawer o siopau, mae'n rhaid iddyn nhw ystyried gweithrediadau ar-lein; nid ydynt yn mynd i lwyddo os ydynt yn fusnesau sy'n gweithredu'n gyfan gwbl ar y stryd fawr—gall rhai wneud hynny, ni all eraill—ac mae cyfrifoldeb, rwy'n meddwl, ar landlordiaid. Gallaf ddweud, yn fy rhan i o'r byd, nad yw landlordiaid yn ddigon hyblyg. Maen nhw'n parhau i ofyn am denantiaethau 12 mis ar gyfer busnesau newydd ac, mewn un achos, tenantiaeth 10 mlynedd ar gyfer busnes newydd. I lawer iawn o siopau, byddant yn dechrau fel siopau dros dro. Maen nhw eisiau tenantiaethau tri mis, nid tenantiaethau 12 mis. Felly, ceir dyletswydd ar landlordiaid hefyd i fod yn llawer mwy hyblyg o ran y tenantiaethau y maent yn eu cynnig na fu'r profiad yn sicr yn fy rhan i o'r byd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:45

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:45

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition

Thank you, Deputy Presiding Officer. First Minister, yesterday there was a protest in your constituency supported by George Jabbour, a local campaigner who I think you're very familiar with, that was highlighting the savage cuts that your Government have made to further education and the blind spot that you clearly have when it comes to further education. We saw that in the last budget round—[Interruption.] We saw that in the last budget round—[Interruption.] We saw that in the last budget round, where you cut 5,000 apprenticeship places. The manifesto for further education colleges was launched today. Why is it that your Government has such a blind spot when it comes to further education—

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Brif Weinidog, roedd protest yn eich etholaeth ddoe a gefnogwyd gan George Jabbour, ymgyrchydd lleol yr wyf yn meddwl eich bod yn gyfarwydd iawn ag ef, a oedd yn tynnu sylw at y toriadau llym y mae eich Llywodraeth wedi eu gwneud i addysg bellach a'r man dall y mae'n amlwg sydd gennych chi pan ddaw i addysg bellach. Gwelsom hynny yn y rownd gyllideb ddiwethaf—[Torri ar draws.] Gwelsom hynny yn y rownd gyllideb ddiwethaf—[Torri ar draws.] Gwelsom hynny yn y rownd gyllideb ddiwethaf, pryd y torrwyd 5,000 o leoedd prentisiaeth gennych. Lanswyd y manifesto ar gyfer colegau addysg bellach heddiw. Pam mae eich Llywodraeth mor ddall pan ddaw i addysg bellach—

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:45

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I wonder if he's told them—

Tybed a yw wedi dweud wrthynt—

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:45

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you commit to stand shoulder to shoulder with George Jabbour in your constituency and fight for Bridgend College?

A wnewch chi ymrwymo i sefyll ysgwydd yn ysgwydd â George Jabbour yn eich etholaeth ac ymladd dros Goleg Penybont?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:46 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Well, I'm not going to walk around with a placard saying 'I'm the Conservative candidate'. No, that's something I'll leave to him, because no-one knows who he is, but there we are.
- I wonder if he has said to those representing FE colleges that he feels that education cuts have not gone far enough, because his own figures, produced by him and his party, show that he wants to cut education spending by 12 per cent—12 per cent. He cannot stand there—but there was a smile on his face, in fairness to him, he's got some self-awareness—he cannot stand there and criticise us in terms of education when his own party wants to cut spending by 12 per cent. Go and explain that to FE students.
- Wel, nid wyf yn mynd i gerdded o gwmpas gyda hysbyslen yn dweud 'Fi yw'r ymgeisydd Ceidwadol'. Na, mae hynny'n rhywbeth y byddaf yn ei adael iddo fe, gan nad oes neb yn gwybod pwy yw ef, ond dyna ni.
- Tybed a yw wedi dweud wrth y rhai sy'n cynrychioli colegau addysg bellach ei fod yn teimlo nad yw toriadau addysg wedi mynd yn ddigon pell, oherwydd mae ei ffigurau ei hun, a gynhyrchwyd ganddo ef a'i blaid, yn dangos ei fod eisiau torri gwariant ar addysg gan 12 cant—12 y cant. Ni all sefyll yn y fan yna—ond roedd gwên ar ei wyneb, er tegwch iddo, mae ganddo rywfaint o hunan-ymwybyddiaeth—ni all sefyll yn y fan yna a'n beirniadu ni o ran addysg pan fod ei blaid ei hun eisiau torri gwariant gan 12 y cant. Ewch i esbonio hynny i fyfyrwyr addysg bellach.
- 13:46 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
You keep babbling on about a piece of paper—
- Rydych chi'n parhau ymlaen am ddarn o bapur—
- 13:46 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Your own figures. [Interruption.] Your own figures.
- Eich ffigurau eich hun. [Torri ar draws.] Eich ffigurau eich hun.
- 13:46 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
It was five years ago, First Minister. It is a fact, First Minister, that you have let FE down, but, interestingly, when you talk about commitments, we were committed in 2011 to protect the health budget. Now, I note from your press conference yesterday that you were saying that you were going to protect education and protect health. Today, the Chancellor has announced £3.8 billion-worth of extra money for the English NHS in the next financial year. There will be a Barnett consequential for that uplift. Will you commit to ring-fencing that money in the next budget round so that it is put into the Welsh NHS?
- Roedd hynny bum mlynedd yn ôl, Brif Weinidog. Mae'n ffaith, Brif Weinidog, eich bod wedi siomi addysg bellach, ond, yn ddiddorol, pan fyddwch chi'n siarad am ymrwymadau, roeddem ni wedi ymrwymo yn 2011 i ddiogelu'r gyllideb iechyd. Nawr, rwy'n nodi o'ch cynhadledd i'r wasg ddoe eich bod yn dweud eich bod yn mynd i ddiogelu addysg a diogelu iechyd. Heddiw, mae'r Canghellor wedi cyhoeddi gwerth £3.8 biliwn o arian ychwanegol ar gyfer y GIG yn Lloegr yn y flwyddyn ariannol nesaf. Bydd swm canlyniadol Barnett yn deillio o'r cynnydd hwnnw. A wnewch chi ymrwymo i neilltuo'r arian hwnnw yn y rownd gyllideb nesaf fel ei fod yn cael ei roi i mewn i'r GIG yng Nghymru?
- 13:47 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Right. Is he saying to us today that there will be a full consequential to Wales as a result of the comprehensive spending review? He's on the record. He's said it on the record. Our understanding is entirely different. What was being trailed on the radio this morning is that there will be cuts in public health and medical education, and that money will be transferred to the NHS budget. There is no consequential if that happens. So, if he thinks there's a consequential in those circumstances then I'm afraid his naivety overtakes his perception, because what I suspect is going to happen is that there will be money put into the NHS budget—I think that's probably right—but it'll be taken from elsewhere in the health budget, and that will mean that we will get almost no consequential at all.
- lawn. A yw'n dweud wrthym ni heddiw y bydd swm canlyniadol llawn i Gymru o ganlyniad i'r adolygiad cynhwysfawr o wariant? Mae ar y cofnod. Mae wedi ei ddweud ar y cofnod. Mae ein dealltwriaeth ni'n gwbl wahanol. Yr hyn oedd yn cael ei hysbysebu ar y radio y bore yma oedd y bydd toriadau i iechyd y cyhoedd ac addysg feddygol, ac y bydd yr arian hwnnw'n cael ei drosglwyddo i gyllideb y GIG. Nid oes unrhyw swm canlyniadol os bydd hynny'n digwydd. Felly, os yw'n meddwl bod swm canlyniadol o dan yr amgylchiadau hynny, yna mae gen i ofn bod ei naifrydd yn fwy na'i ddealltwriaeth, oherwydd yr hyn rwy'n amau sy'n mynd i ddigwydd yw y bydd arian yn cael ei roi i mewn i gyllideb y GIG—rwy'n credu ei bod yn debyg bod hynny'n iawn—ond bydd yn cael ei gymryd o rywle arall yn y gyllideb iechyd, a bydd hynny'n golygu y byddwn ni'n cael bron dim arian canlyniadol o gwbl.

Now, he sits there and accuses me of babbling. I didn't produce the figures; he produced the figures. His party produced the figures that showed that they wanted education cuts of 12 per cent, economy and spending on job creation cut by 30 per cent, local government by 20 per cent—20 per cent; that's the equivalent of a 38 per cent increase in the council tax. That's what his party are advocating. We know—we've sat here month after month, month after month, listening to Darren Millar saying 'record-breaking cuts in the Welsh NHS.' In fact, his party spends less per head—less per head—in England than is the case in Wales. So, far from there being a record-breaking cuts in Wales, we spend more on our people, and the cuts that have occurred in England represent the all-time, all-comers record in slashing health budgets. We're not going to take those lessons from you.

Nawr, mae'n eistedd yn y fan yna ac yn fy nghyhuddo i o barablu. Nid fi gynhyrchoedd y ffigurau; fe gynhyrchoedd y ffigurau. Ei blaid ef gynhyrchoedd y ffigurau a oedd yn dangos eu bod eisiau toriadau addysg o 12 cant, toriadau i'r economi a gwariant ar greu swyddi o 30 y cant, llywodraeth leol o 20 y cant—20 y cant; mae hynny'n cyfateb i gynnydd o 38 y cant i'r dreth gyngor. Dyna'r hyn y mae ei blaid yn ei hyrwyddo. Rydym ni'n gwybod—rydym ni wedi eistedd yma fis ar ôl mis, ar ôl mis, yn gwrando ar Darren Millar yn dweud 'y toriadau mwyaf erioed yn y GIG yng Nghymru.' A dweud y gwir, mae ei blaid ef yn gwario llai y pen—llai y pen—yn Lloegr na'r hyn sy'n wir yng Nghymru. Felly, ymhell o fod yna doriadau mwyaf erioed yng Nghymru, rydym ni'n gwario mwy ar ein pobl, ac mae'r toriadau a wnaed yn Lloegr yn cynrychioli'r record o bob oes gan bawb o ran torri cyllidebau iechyd. Nid ydym ni'n mynd i gymryd y gwersi hynny gennych chi.

13:49 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You talked for literally three minutes there, First Minister, and the one thing you didn't say was an answer to the question I put to you. When there is a consequential for the money announced—when there is a consequential, because that consequential will come down to Cardiff bay, will you protect that money for the Welsh NHS? It's a simple 'yes' or 'no'. It's quite straightforward. You spoke for three minutes. Can you give the people of Wales a straight 'yes' or 'no'? Are you going to protect that consequential for the Welsh NHS?

Buoch yn siarad am dri munud yn llythrennol nawr, Brif Weinidog, a'r un peth na wnaethoch chi ei ddweud oedd yr ateb i'r cwestiwn a ofynnais i chi. Pan fo swm canlyniadol ar gyfer yr arian a gyhoeddwyd—pan fo swm canlyniadol, gan y bydd y swm canlyniadol hwnnw'n dod i lawr i fae Caerdydd, a wnewch chi ddiogelu'r arian hwnnw ar gyfer y GIG yng Nghymru? Mae'n ateb 'gwna'f neu 'na wna'f' syml. Mae'n eithaf syml. Buoch yn siarad am dri munud. A allwch chi roi ateb 'gwna'f neu 'na wna'f' eglur i bobl Cymru? A ydych chi'n mynd i ddiogelu'r swm canlyniadol hwnnw ar gyfer GIG Cymru?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:49 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

The answer is 'yes', but I have to say to him: I don't think there's going to be a consequential. He's already changed his ground by saying 'a consequential' not 'the full consequential'. Now, we have heard from the Welsh Conservative leader that there will be a net consequential, not 'Here's some money for health, and we're going to take money away from your local government,' because that's what's on the table at the moment. He has said there will be a net consequential, okay? If we don't see that consequential tomorrow, it will show how weak he is within his own party.

'Gwnaf' yw'r ateb, ond mae'n rhaid i mi ddweud wrtho: nid wyf yn credu y bydd swm canlyniadol. Mae eisoes wedi newid ei safbwynt trwy ddweud 'swm canlyniadol' nid 'y swm canlyniadol llawn'. Nawr, rydym ni wedi clywed gan arweinydd Ceidwadwyr Cymru y bydd swm canlyniadol net, nid 'Dyma ryw faint o arian ar gyfer iechyd, ac rydym ni'n mynd i gymryd arian oddi wrth eich llywodraeth leol,' oherwydd dyna sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd. Mae wedi dweud y bydd swm canlyniadol net, iawn? Os na welwn ni y swm canlyniadol hwnnw yfory, bydd yn dangos pa mor wan yw ef yn ei blaid ei hun.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Maes Awyr Caerdydd

Cardiff Airport

13:50 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

3. A wnaiff y Prif Weinidog nodi amserlen ar gyfer dychwelyd Maes Awyr Caerdydd i'r sector preifat? OAQ(4)2594(FM)

3. Will the First Minister set out the timescale for returning Cardiff Airport to the private sector? OAQ(4)2594(FM)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:50 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

We'll consider returning Cardiff Airport to the private sector when the conditions are right.

Byddwn yn ystyried dychwelyd Maes Awyr Caerdydd i'r sector preifat pan fydd yr amodau'n iawn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:50

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, thank you for that answer. As you know, the outgoing chair of Cardiff Airport, Lord Rowe-Beedoe, has said that the airport should be returned to the private sector within five years. You clearly don't disagree with him. It's a sensible way to proceed. Do you agree with us that it would strengthen your economic policy immensely if you now provided a timescale for the sale of the airport so that taxpayers' money can be recovered and the Welsh Government can get on with concentrating on the public's priorities, such as protecting the NHS budget?

Brif Weinidog, diolch i chi am yr ateb yna. Fel y gwyddoch, mae cadeirydd Maes Awyr Caerdydd, sydd ar fin gadael, yr Arglwydd Rowe-Beedoe, wedi dweud y dylid dychwelyd y maes awyr i'r sector preifat o fewn pum mlynedd. Mae'n amlwg nad ydych chi'n anghytuno ag ef. Mae'n ffordd synhwyrol o symud ymlaen. A ydych chi'n cytuno â ni y byddai'n cryfhau eich polisi economaidd yn aruthrol pe byddech yn darparu amserlen nawr ar gyfer gwerthu'r maes awyr fel y gall arian trethdalwyr gael ei adennill ac y gall Llywodraeth Cymru fynd ati i ganolbwyntio ar flaenoriaethau'r cyhoedd, fel diogelu cyllideb y GIG?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:50

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, let me explain to him why I think he's on weak ground. Why has he not, on any occasion—his leader's done this, in fairness—stood up and demanded the devolution of air passenger duty? Not once. If there's one tax that would help to invigorate the airport, to create jobs in the whole of the region of south-east Wales, it is the devolution of air passenger duty. His leader has mentioned it in committee, to be fair to him, but his party have been utterly silent. All right for Scotland; all right for Northern Ireland—Wales is second class. It doesn't deserve the devolution of air passenger duty. That is what his party in London have said. There are different views, I know, in Cardiff, but that's what his party in London has said. But, of course, you don't have any traction with them, do you? So, it means, of course that we're not going to see that devolved, it seems.

Wel, gadewch i mi egluro iddo pam rwy'n meddwl ei fod ar dir gwan. Pam nad yw ef, ar unrhyw achlysur—mae ei arweinydd wedi gwneud hyn, er tegwch—wedi sefyll ar ei draed a galw am i dreth teithwyr awyr gael ei datganoli? Nid unwaith. Os oes un dreth a fyddai'n helpu i fywiogi'r maes awyr, i greu swyddi yn holl ranbarth y de-ddwyrain, datganoli treth teithwyr awyr yw honno. Mae ei arweinydd wedi ei grybwyll yn y pwyllgor, i fod yn deg iddo, ond mae ei blaid wedi bod yn hollol dawel. Mae'n iawn i'r Alban; mae'n iawn i Ogledd Iwerddon—mae Cymru yn yr ail ddosbarth. Nid yw'n haeddu cael datganoli treth teithwyr awyr. Dyna'r hyn y mae ei blaid ef yn Llundain wedi ei ddweud. Ceir gwahanol safbwyntiau, rwy'n gwybod, yng Nghaerdydd, ond dyna beth mae ei blaid yn Llundain wedi ei ddweud. Ond, wrth gwrs, nid oes gennych chi unrhyw ddylanwad arnyn nhw, nac oes? Felly, mae'n golygu, wrth gwrs, nad yw hynny'n mynd i gael ei ddatganoli, mae'n ymddangos.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Let me explain one thing to him. What Lord Rowe-Beedoe also said was that he was surprised at the state of the airport when it was taken over, and supported the action that we took as a Government. It's exactly what he said. Now, in time, we will look to sell shares in the airport to private investors. What we will not do is give away a controlling interest because that will take us right back to where we were before. He cannot pretend that the airport was doing well up to 2013. We tried to move to work with the owners. They were not interested. They were not interested. We offered them the opportunity to work with us. We offered them financial packages. They were not interested in working with us. In the end they said, 'We're not interested anymore. You can buy it from us'. We took the opportunity to buy it at a market rate that was independently valued and, in time, we will look to recoup that money. What we will not do is put an artificial timetable on the sale of an airport that is now 10 per cent up in terms of passenger figures, compared to last year. That's what government can do for airports. If the Tories had had their way, the airport would now probably be looking at being turned into a housing estate.

Gadewch i mi egluro un peth iddo. Yr hyn a ddywedodd yr Arglwydd Rowe-Beedoe hefyd oedd ei fod yn synnu at gyflwr y maes awyr pan gafodd ei gymryd drosodd, a chefnogodd y camau a gymerwyd gennym ni fel Llywodraeth. Dyna'n union yr hyn a ddywedodd. Nawr, ymhen amser, byddwn yn ceisio gwerthu cyfranddaliadau yn y maes awyr i fuddsoddwyr preifat. Yr hyn na fyddwn yn ei wneud yw rhoi buddiant rheoli i ffwrdd gan y bydd hynny'n mynd â ni yn ôl i'r union sefyllfa yr oeddem ni ynddi o'r blaen. Ni all esgus bod y maes awyr yn gwneud yn dda hyd at 2013. Gwnaed ymdrech gennym i weithio gyda'r perchnogion. Nid oedd ganddynt ddiddordeb. Nid oedd ganddynt ddiddordeb. Cynigiwyd y cyfle iddyn nhw weithio gyda ni. Cynigiwyd pecynnau ariannol iddyn nhw. Nid oedd ganddynt ddiddordeb mewn gweithio gyda ni. Dywedasant yn y pen draw, 'Nid oes diddordeb gennym mwyach. Gewch chi ei brynu oddi wrthym'. Manteisiwyd ar y cyfle i'w brynu ar gyfradd y farchnad a brisiwyd yn annibynnol ac, ymhen amser, byddwn yn ceisio adennill yr arian hwnnw. Yr hyn na fyddwn yn ei wneud yw pennu amserlen artiffisial ar werthu maes awyr sydd 10 y cant i fyny o ran ffigurau teithwyr erbyn hyn, o'i gymharu â'r llynedd. Dyna all llywodraeth ei wneud i feysydd awyr. Pe byddai'r Toriaid wedi cael eu ffordd, mae'n debyg y byddai'r maes awyr yn cael ei droi'n stad o dai erbyn hyn.

13:52

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, the Tories have opposed the action that was taken by the Welsh Government in rescuing the airport every step of the moment, every year, day in, day out, with vitriol. What would have been the consequence for Wales, for the area around there, and for the thousands of jobs dependent on that airport had we not taken that action and had we listened to the Tory advice?

Brif Weinidog, mae'r Toriaid wedi gwrthwynebu'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i achub y maes awyr bob cam o bob eiliad, bob blwyddyn, ddydd ar ôl dydd, mewn modd deifiol. Beth fyddai'r canlyniad wedi bod i Gymru, i'r ardal honno, ac i'r miloedd o swyddi sy'n ddibynnol ar y maes awyr hwnnw pe na byddem wedi cymryd y cam hwnnw a phe byddem ni wedi gwrandao ar gyngor y Toriaid?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:53

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

It would have closed. There's no question about it. It would have closed. The owners were not interested in it and they were talking openly to me about closing the airport. That is something that we could not support. We see the airport has a future because we see the passenger numbers going up. It's quite odd what the Tories did. Mohammad Asghar, of course, supported it to begin with, and then was sat on from a great height and was told to just say that it was ironic. Well, he's been rewarded. We can see that, anyway, in terms of what happened last week. Why is it right, then, for the local authorities around Manchester to own Manchester Airport, or indeed to own London Stansted Airport? Why is it right for the Scottish Government to own Glasgow Prestwick Airport, but it's somehow wrong for the Welsh Government to own Cardiff Airport and to see it run by an independent company? Here we have an example of where vitriol and ideology have overtaken common sense and the wellbeing of the people of Wales.

Byddai wedi cau. Nid oes amheuaeth amdani. Byddai wedi cau. Nid oedd gan y perchnogion ddi-ddordeb ynddo ac roedden nhw'n siarad yn agored â mi am gau'r maes awyr. Mae hynny'n rhywbeth na allem ni ei gefnogi. Rydym ni o'r farn bod gan y maes awyr ddyfodol gan ein bod yn gweld nifer y teithwyr yn cynyddu. Mae'n eithaf rhyfedd yr hyn a wnaeth y Toriaid. Cefnogodd Mohammad Asghar y penderfyniad i ddechrau, wrth gwrs, ac yna eisteddwyd arno o gryn uchder a dywedwyd wrtho am ddweud ei fod yn bod yn eironig. Wel, mae wedi cael ei wobrwyo. Gallwn weld hynny, beth bynnag, o ran yr hyn a ddigwyddodd yr wythnos diwethaf. Pam ei bod yn iawn, felly, i awdurdodau lleol o gwmpas Manceinion fod yn berchen ar Faes Awyr Manceinion, neu, yn wir, i fod yn berchen ar Faes Awyr Llundain Stansted? Pam ei bod yn iawn i Lywodraeth yr Alban fod yn berchen ar Faes Awyr Glasgow Prestwick, ond mae rhywsut yn anghywir i Lywodraeth Cymru fod yn berchen ar Faes Awyr Caerdydd a'i weld yn cael ei redeg gan gwmni annibynnol? Yma, mae gennym ni enghraifft o fustl ac ideoleg yn mynd yn drech na synnwyr cyffredin a lles pobl Cymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:54

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Question 4, OAQ(4)2585(FM), has been withdrawn.
Question 5, Mick Antoniw.

Tynnwyd Cwestiwn 4, OAQ (4) 2585 (FM), yn ôl. Cwestiwn 5, Mick Antoniw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Datganiad Hydref y Canghellor

The Chancellor's Autumn Statement

13:54

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

5. Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â'r blaenoriaethau i Gymru yn natganiad hydref y Canghellor? OAQ(4)2579(FM)

5. What discussions has the First Minister had with the UK Government on the priorities for Wales in the Chancellor's autumn statement? OAQ(4)2579(FM)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:54

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

We have repeatedly pressed for Wales to receive a fair settlement at the spending review, and for the UK Government to reconsider its plans to cut so deep and so fast. I know that the finance Minister, together with her colleagues in Scotland and Northern Ireland, have pressed for a meeting, face to face, with the Chief Secretary to the Treasury, and have been refused every time.

Rydym wedi pwyso dro ar ôl tro am i Gymru gael setliad teg yn yr adolygiad o wariant, ac i Lywodraeth y DU ailystyried ei chynlluniau i dorri mor ddwfn ac mor gyflym. Gwn fod y Gweinidog cyllid, ynghyd â'i chydweithwyr yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, wedi pwyso am gyfarfod, wyneb yn wyneb, gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys, ac wedi cael eu gwrthod bob tro.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:54

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, as a consequence of the Tory party policies, in England you have doctors on strike, you have doctors totally antagonistic towards the Government, you have an adult social care crisis in England, you have bedblocking in England on an unprecedented scale, and you have the first stages of privatisation and moves towards the break-up of the NHS. Do you see any merit in actually following any of the Tory policies with regard to the NHS? Do you also agree with me that social care and health go hand in hand—that you have to support both arms or, otherwise, they become self-defeating?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Brif Weinidog, o ganlyniad i bolisiau'r blaid Doriaidd, yn Lloegr, mae gennych chi feddygon ar streic, mae gennych chi feddygon sy'n hollol elyniaethus tuag at y Llywodraeth, mae gennych chi argyfwng gofal cymdeithasol i oedolion yn Lloegr, mae gennych chi flocio gwelyau yn Lloegr ar raddfa nas gwelwyd o'r blaen, ac mae gennych chi gamau cyntaf preifateiddio a symud tuag at chwalu'r GIG. A ydych chi'n gweld unrhyw rinwedd mewn dilyn unrhyw un o bolisiau'r Toriaid o ran y GIG? A ydych chi hefyd yn cytuno â mi bod gofal cymdeithasol ac iechyd yn mynd law yn llaw—bod yn rhaid i chi gefnogi'r ddwy fraich neu, fel arall, eu bod nhw'n mynd yn hunandrechol?

13:55

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, that's absolutely true. The fact that that hasn't happened in England shows where people are now stuck in hospital when they could be on the way home. That's the way that these things have been approached in England. It might be worth me just emphasising that what I think Wales needs from the CSR tomorrow is a funding floor. It's been talked about for years. It won't be acceptable tomorrow to have the UK Government simply saying, 'Well, there will be a funding floor.' They have been saying that for years. We need to have a funding floor that is fair and that settles the issue. From the point of view of where I stand, the Barnett formula itself has got to go, but in the absence of that happening and being announced tomorrow, then a funding floor, of course, is important. We need to see a commitment to devolve air passenger duty, as the UK Government's Commission on Devolution in Wales itself recommended. We need to see the money on the table for the city deal. It's the UK Government's proposal. Local government in Wales have come up with commitments. We have come up with a financial commitment. We need to see the UK Government coming up with its commitment. We also need to see progress on the electrification of the south Wales main line. We now see it's being kicked back and back and back. The Prime Minister promised that the line would be electrified to Swansea. He needs to keep that promise, and we want to see movement on that tomorrow. We need to see progress on the tidal lagoon. Nothing is being done on that. It wasn't even mentioned by Amber Rudd. We fear greatly for the future of the tidal lagoon in the absence of the UK Government actually coming forward to support it. That is jobs going down the pan in Wales because of the tidal lagoon not getting that support. We need those things for the people of Wales, and it's time for the UK Government to listen.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Wel, mae hynny'n hollol wir. Mae'r ffaith nad yw hynny wedi digwydd yn Lloegr yn dangos lle mae pobl yn gorfod aros yn yr ysbyty pan allent fod ar y ffordd adref. Dyna'r ffordd yr aethpwyd i'r afael â'r pethau hyn yn Lloegr. Efallai y byddai'n werth i mi bwysleisio mai'r hyn yr wyf yn meddwl sydd ei angen ar Gymru o'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant yfory yw cyllid gwaelodol. Siaradwyd am y peth ers blynnyddoedd. Ni fydd yn dderbyniol yfory i gael Llywodraeth y DU yn dweud yn syml, 'Wel, bydd cyllid gwaelodol.' Maen nhw wedi bod yn dweud hynny ers blynnyddoedd. Mae angen i ni gael cyllid gwaelodol sy'n deg ac yn setlo'r mater. O'r safbwynt lle'r wyf i'n sefyll, mae'n rhaid i fformiwla Barnett ei hun fynd, ond os na fydd hynny'n digwydd ac yn cael ei gyhoeddi yfory, yna mae cyllid gwaelodol, wrth gwrs, yn bwysig. Mae angen i ni weld ymrwymiad i ddatganoli treth teithwyr awyr, fel yr argymhellodd Comisiwn Llywodraeth y DU ei hun ar Ddatganoli yng Nghymru. Mae angen i ni weld yr arian ar y bwrdd ar gyfer y cytundeb dinas. Cynnig Llywodraeth y DU yw hwn. Mae llywodraeth leol yng Nghymru wedi gwneud ymrwymadau. Rydym ni wedi gwneud ymrwymiad ariannol. Mae angen i ni weld Llywodraeth y DU yn gwneud ei hymrwymiad hi. Mae angen hefyd i ni weld cynnydd ar drydaneiddio prif reilffordd y de. Rydym ni'n gweld hyn yn cael ei oedi dro ar ôl tro ar ôl tro. Addawodd y Prif Weinidog y byddai'r rheilffordd yn cael ei thrydaneiddio i Abertawe. Mae angen iddo gadw'r addewid hwnnw, ac rydym ni eisiau gweld camau ar hynny yfory. Mae angen i ni weld cynnydd ar y morlyn llanw. Nid oes dim yn cael ei wneud ar hynny. Ni chafodd ei grybwyll gan Amber Rudd hyd yn oed. Rydym ni'n gofidio'n fawr am ddyfodol y morlyn llanw oni bai bod Llywodraeth y DU yn dod ymlaen i'w gefnogi. Mae hynny'n golygu swyddi'n diflannu yng Nghymru gan nad yw'r morlyn llanw'n cael y gefnogaeth honno. Mae angen y pethau hynny arnom i bobl Cymru, ac mae'n bryd i Lywodraeth y DU wrando.

13:56

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In their manifesto launch this week in Wales, the Welsh Local Government Association have called for fair and flexible funding for local authorities, including the transferral of £916 million attached to specific grants into the revenue support grant, and multi-year financial settlements to enable councils to plan more effectively. What consideration are you giving, as First Minister, to those suggestions?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Yn lansiad ei manifesto yr wythnos hon yng Nghymru, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi galw am gyllid teg a hyblyg i awdurdodau lleol, gan gynnwys trosglwyddo'r £916 miliwn sydd ynghlwm wrth grantiau penodol i mewn i'r grant cymorth refeniw, a setliadau ariannol aml-flwyddyn i alluogi cynghorau i gynllunio'n fwy effeithiol. Pa ystyriaeth ydych chi'n ei rhoi, fel Prif Weinidog, i'r awgrymiadau hynny?

13:57

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

We always look to see how we can de-hypothecate some grants, and that's an ongoing process. But I have to say that I don't think you'll have many friends in England tomorrow after the CSR, with local government facing cuts of maybe 40 per cent in England. That is the end of local government in England; it can't possibly survive with that level of cuts. We will look to ensure that local government in Wales is shielded from the cuts that the party opposite would impose on them: a combination of astronomically high—eye-wateringly high—council tax rises with a reduction in services. That just sums up the Tory party in one sentence.

Rydym ni bob amser yn edrych i weld sut y gallwn ni ddad-glustnodi rhai grantiau, ac mae honno'n broses barhaus. Ond mae'n rhaid i mi ddweud nad wyf yn meddwl y bydd gennyh chi lawer o ffrindiau yn Lloegr yfory ar ôl yr ACW, wrth i lywodraeth leol wynebu toriadau o 40 y cant efallai yn Lloegr. Dyna ddiwedd llywodraeth leol yn Lloegr; nid yw'n bosibl iddi oroesi gyda'r lefel honno o doriadau. Byddwn yn ceisio sicrhau bod llywodraeth leol yng Nghymru yn cael ei hamddiffyn rhag y toriadau y byddai'r blaid gyferbyn yn eu gorfodi arni: cyfuniad o godiadau brawychus o uchel—digon i dynnu dagrau i'r llygaid—i'r dreth gyngor ynghyd â gostyngiad i wasanaethau. Mae hynny'n crynhoi'r blaid Doriaidd mewn un frawddeg.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:57

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

On Sunday morning, in a tv interview, the Chancellor refused to rule out cuts to front-line policing, in particular. Following the tragic events of recent weeks in Paris and beyond—which demonstrated the importance of a multipronged approach to policing, both in terms of providing an immediate response on the ground, as well as building better relationships between multi-ethnic and multi-faith communities in the longer term—do you agree with me that such work will be put in jeopardy if there are more austerity-led police cuts?

Fore Sul, mewn cyfweiliad teledu, gwrthododd y Canghellor ddiystyru toriadau i blismona rheng flaen, yn benodol. Yn dilyn digwyddiadau trasig yr wythnosau diwethaf ym Mharris a thu hwnt—a ddangosodd bwysigrwydd dull amlfforchlog o blismona, o ran darparu ymateb ar unwaith ar lawr gwlad, yn ogystal ag adeiladu perthynas well rhwng cymunedau aml-ethnig ac aml-ffydd yn fwy hirdymor—a ydych chi'n cytuno â mi y bydd gwaith o'r fath yn cael ei beryglu os bydd mwy o doriadau i'r heddlu wedi'u harwain gan gyni cyllidol?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:58

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

It seems, from what the Chancellor is saying, that he wants to beef up security—and I wouldn't disagree with him on that—but use money from front-line policing to do it. That's the equivalent of saying, 'We're going to spend more money on operations, but we're going to have fewer GPs in order to pay for it.' It just doesn't add up. So, we need to make sure that front-line policing is properly financed by the UK Government. I mean, they refused to devolve it to us, so it's their responsibility. It is absolutely the responsibility of the UK Government to make sure that policing in Wales is properly funded. Unfortunately, the Chancellor and his comments yesterday suggest that front-line policing will be cut.

Mae'n ymddangos, o'r hyn y mae'r Canghellor yn ei ddweud, ei fod eisiau cryfhau diogelwch—ac ni fyddwn yn anghytuno ag ef ar hynny—ond mae am ddefnyddio arian plismona rheng flaen i wneud hynny. Mae hynny yr un fath â dweud, 'Rydym ni'n mynd i wario mwy o arian ar lawdriniaethau, ond rydym ni'n mynd i gael llai o feddygon teulu er mwyn talu amdano.' Nid yw'n gwneud synnwyr. Felly, mae angen i ni wneud yn siŵr bod plismona rheng flaen yn cael ei ariannu'n briodol gan Lywodraeth y DU. Hynny yw, fe wnaethant wrthod ei ddatganoli i ni, felly eu cyfrifoldeb nhw yw hynny. Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yn sicr, yw sicrhau bod plismona yng Nghymru yn cael ei ariannu'n briodol. Yn anffodus, mae'r Canghellor a'i sylwadau ddoe yn awgrymu y bydd plismona rheng flaen yn cael ei dorri.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Llyfrgell Genedlaethol Cymru

The National Library of Wales

13:59

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

6. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am Lyfrgell Genedlaethol Cymru? OAQ(4)2592(FM)[W]

6. Will the First Minister make a statement on the National Library of Wales? OAQ(4)2592(FM)[W]

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:59 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru, wrth gwrs, yn un o'n sefydliadau cenedlaethol eiconig, ac mae ganddi ran bwysig i'w chwarae wrth hyrwyddo'n diwylliant, ein treftadaeth a'n hiaith, wrth gwrs. Rydym yn sicrhau ein bod yn ceisio cyllido'r llyfrgell genedlaethol mewn modd sydd o fudd i'r sefydliad, ond wrth gwrs mae rhwystrau ariannol arnom ynglŷn â nawr a'r dyfodol.
- The National Library of Wales, of course, is one of our iconic national institutions, and it has an important role to play in promoting our culture, heritage and language, of course. We ensure that we fund the national library in the optimum manner, but of course there are financial restrictions on us in terms of now and the future.
- 13:59 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Brif Weinidog, rwy'n cytuno â chi fod y llyfrgell genedlaethol yn adnodd pwysig i'r genedl hon, fel lle i gadw ein hanes a'n diwylliant mewn ffordd ddiogel, wrth gwrs, ond hefyd yn bwysig fel adnodd ar gyfer addysg ein pobl ifanc ni. Gwelsom ddoe un o ddarnau celf y llyfrgell genedlaethol yn cael ei ddangos a chael ei fenthg y llyfrgell yn Nhorfaen. Roedd hynny'n wych iawn i'w weld. Pa gynlluniau a chyllideb sydd gan eich Llywodraeth chi felly i ymestyn y rôl y gallai'r llyfrgell genedlaethol ei chwarae wrth feddwl am addysg ein pobl ifanc ni drwy ddigideiddio yn ogystal â thrwy rannu'r cyfoeth sydd yn rhan o adnoddau'r llyfrgell genedlaethol?
- First Minister, I agree with you that the national library is an important resource for the nation as a place to store our history and culture in a safe place, of course, but it's also important as a resource for the education of our young people. We saw yesterday one of the national library's pieces of art being exhibited and lent to a school in Torfaen. That was wonderful to see. What plans and what budget does your Government have in place, therefore, to extend the role that the national library can play in concentrating on the education of our young people through digitisation as well as through sharing the treasures that they have within their resources?
- 14:00 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
A bod yn deg i'r llyfrgell, mae wedi gwneud jobyn da o wneud hynny, yn enwedig digideiddio, wrth gwrs. Mae'n bwysig bod y llyfrgell yn symud allan o'r pencadlys yn Aberystwyth i weithio gyda phobl Cymru. Mae'n mynd i fod yn anodd, wrth gwrs, i'r llyfrgell; nid oes modd iddyn nhw i ddeall beth yw eu cyllideb nhw yn y flwyddyn i ddod, o achos y ffaith nad ydym ni'n gwybod ein hunain beth fydd ein cyllideb ni, o achos yr adolygiad sy'n mynd i gael ei ddatgan yfory.
- To be fair to the library, they've done a very good job of that already, especially with digitisation, of course. It's very important that the library goes out and does outreach from the headquarters in Aberystwyth with the people of Wales. It'll be difficult for the library; there is no way for them to know what their budget will be for the ensuing year, because we don't know what our budget will be because of the CSR that will be announced tomorrow.
- Na, rwy'n croesawu'n fawr iawn y gwaith y mae'r llyfrgell wedi ei wneud er mwyn sicrhau bod y llyfrgell yn ymestyn allan i bobl Cymru.
- I very much welcome the work that the library has done in its outreach work with the people of Wales.
- 14:00 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Brif Weinidog, fel rwy'n deall, mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru mewn rhai amgylchiadau yn gweithio mewn partneriaeth â chynghorau sir ar draws Cymru i gynllunio a datblygu ffordd newydd o ddarparu gwasanaethau llyfrgell. A allwch chi ddweud wrthym ni sut mae Llywodraeth Cymru'n annog pob awdurdod lleol i weithio gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru i ddatblygu ffordd arloesol o ddarparu gwasanaethau llyfrgell lleol yn y dyfodol?
- First Minister, as I understand it, the National Library for Wales, in some circumstances, does work in partnership with councils the length and breadth of Wales to plan and develop new ways of delivering library services. Can you tell us how the Welsh Government encourages all local authorities to work with the National Library of Wales to develop innovative ways of providing local library services in the future?
- 14:01 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
O beth rwy'n ei ddeall, maen nhw'n gweithio'n agos gyda'r llyfrgell genedlaethol ta beth ac yn tynnu adnoddau'r llyfrgell genedlaethol er mwyn iddyn nhw weithredu eu hunain. Felly, mae'n bwysig dros ben fod yna rwydwaith o lyfrgelloedd gyda ni yng Nghymru. Mae yna bwysau ariannol wedi bod ar awdurdodau lleol—rŷm ni'n gwybod hynny—ond, wrth gwrs, mae'n bwysig dros ben fod llyfrgelloedd lleol yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r llyfrgell genedlaethol er mwyn sicrhau bod yna wasanaethau ar gael i bobl yn lleol.
- As I understand it, they work very closely with the national library anyway and they draw on the resources of the national library in order to assist them in their own operations. So, it's very important of course that we have a network of libraries in Wales. There has been financial pressure on local authorities—we all know that—but of course it's extremely important that the local libraries work in partnership with the national library in order to ensure that services are available for people locally.

Ffoaduriaid o Syria

Syrian Refugees

- 14:01 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
7. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am baratoadau ar gyfer ffoaduriaid o Syria a fydd yn cyrraedd yng Nghymru? OAQ(4)2593(FM)
- 14:02 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
The Minister for Communities and Tackling Poverty issued a written statement this morning regarding this issue. There are four local authorities participating in the vulnerable persons resettlement scheme before Christmas.
- 14:02 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I thank the First Minister for that response. Can the First Minister tell us how many Syrian refugees will be resettled in Wales through the vulnerable persons relocation scheme before Christmas, and how many before the end of 2016? Are any of these likely to be vulnerable, unaccompanied children, as so many children have been orphaned or have been separated from their parents during the conflicts?
- 14:02 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
I can say that we will be welcoming approximately 50 Syrian refugees before Christmas. At the moment, it's important to have the interests of refugees uppermost in our minds, so I'm not able to reveal exactly when and where they will be arriving. I know the Member will know that that has the potential to create quite a media circus around that, but 50 is the number. I can say that we have been hosting a conference today with partners across Wales to discuss community cohesion issues and, of course, to provide expert advice and information for partner organisations on the experiences of Syrian refugees.
- 14:03 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
First Minister, last week, the Welsh Refugee Council said there was a danger that the Welsh Government could provide a lot of resources and strategic oversight for the needs of people under the vulnerable persons relocation scheme to the detriment of the needs of existing asylum seekers and refugees in Wales. Does the First Minister agree with the Welsh Refugee Council that we could end up with a two-tier system of support for refugees in Wales?
- 14:03 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
No, I don't.
7. Will the First Minister provide an update on the preparations for Syrian refugees arriving in Wales?
OAQ(4)2593(FM)
- Cyhoeddodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ddatganiad ysgrifenedig y bore yma ynglŷn â'r mater hwn. Mae pedwar awdurdod lleol yn cymryd rhan yn y cynllun ailgyfanheddu pobl agored i niwed cyn y Nadolig.
- Diolchaf i'r Prif Weinidog am yr ymateb yna. A all y Prif Weinidog ddweud wrthym faint o ffoaduriaid o Syria fydd yn cael eu hailgyfanheddu yng Nghymru drwy'r cynllun adleoli pobl agored i niwed cyn y Nadolig, a faint cyn diwedd 2016? A yw unrhyw un o'r rhain yn debygol o fod yn blant agored i niwed, ar eu pennau eu hunain, gan fod cymaint o blant wedi eu gwneud yn amddifad neu wedi eu gwahanu oddi wrth eu rhieni yn ystod y gwrthdaro?
- Gallaf ddweud y byddwn yn croesawu tua 50 o ffoaduriaid o Syria cyn y Nadolig. Ar hyn o bryd, mae'n bwysig sicrhau bod buddiannau ffoaduriaid yn cael blaenoriaeth yn ein meddyliau, felly nid wyf yn gallu datgelu'n union pryd a ble y byddant yn cyrraedd. Gwn y bydd yr Aelod yn gwybod bod potensial i hynny greu cryn syrcau cyfryngol ynghylch hynny, ond 50 yw'r nifer. Gallaf ddweud ein bod wedi bod yn cynnal cynhadledd heddiw gyda phartneriaid ledled Cymru i drafod materion cydlyniant cymunedol ac, wrth gwrs, i gynnig cyngor a gwybodaeth arbenigol i sefydliadau partner ar brofiadau ffoaduriaid Syria.
- Brif Weinidog, dywedodd Cyngor Ffoaduriaid Cymru ry wythnos diwethaf bod perygl y gallai Llywodraeth Cymru ddarparu llawer o adnoddau a throsolwg strategol ar gyfer anghenion pobl o dan y cynllun adleoli pobl agored i niwed gan niweidio anghenion ceiswyr lloches a ffoaduriaid sydd eisoes yng Nghymru. A yw'r Prif Weinidog yn cytuno â Chyngor Ffoaduriaid Cymru y gallem ni fod â system dwy haen o gefnogaeth i ffoaduriaid yng Nghymru yn y pen draw?
- Nac ydw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:03

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, I'm told that Swansea, a city of over 240,000 people, will be taking 60 Syrian refugees over the next five years, at 12 a year. That country now has 9 million refugees: 6.5 million are displaced within its borders, and 3 million in neighbouring Turkey, Lebanon, Jordan and Iraq, with 150,000 Syrians declaring asylum in the European Union, where member states have pledged to resettle a further 33,000 Syrians—the vast majority, 85 per cent, of which will be pledged by Germany. Do you believe that Swansea in particular, and Wales, should be taking more refugees?

Brif Weinidog, rwy'n clywed y bydd Abertawe, dinas â mwy na 240,000 o bobl, yn cymryd 60 o ffoaduriaid o Syria dros y pum mlynedd nesaf, 12 y flwyddyn. Mae gan y wlad honno 9 miliwn o ffoaduriaid erbyn hyn: mae 6.5 miliwn wedi'u dadleoli o fewn ei ffiniau, a 3 miliwn yng ngwledydd cyfagos Twrci, Libanus, yr Iorddonen ac Irac, gyda 150,000 o Syriaid yn datgan lloches yn yr Undeb Ewropeaidd, lle mae aelod-wladwriaethau wedi addo i ailgyfanheddu 33,000 o Syriaid eraill—a bydd y mwyafrif llethol ohonynt, 85 y cant, yn cael eu haddo gan yr Almaen. A ydych chi'n credu y dylai Abertawe'n benodol, a Chymru, fod yn cymryd mwy o ffoaduriaid?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:04

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I think it's for local authorities to work together and with us to accept the number of refugees that they believe they can resettle. We have to bear in mind, of course, that nobody has any idea as to when this human flow will stop. It's going to carry on while there is war in Syria, there's no doubt about that, and, at its root, this needs peace to be brought to Syria and a lasting peace settlement for Syria as well. But, I have to praise local government in Wales for the way they've worked together and with us. I called the original summit back in September, and we have shown in Wales, I believe, that there is a welcome for people. I do pay tribute, for example, to those who were in Llangefni over the weekend. I know it was a multiparty and no-party event that took on extremists of the far right and showed them that, in fact, there was no room for them in Llangefni.

Rwy'n credu mai cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw gweithio gyda'i gilydd a chyda ni i dderbyn y nifer o ffoaduriaid y maen nhw'n credu y gallant ei hailgyfanheddu. Rhaid i ni gofio, wrth gwrs, nad oes gan neb unrhyw syniad pryd y bydd y llif dynol hwn yn dod i ben. Mae'n mynd i barhau tra bod rhyfel yn Syria, nid oes amheuaeth am hynny, ac, wrth ei wraidd, mae angen dod â heddwch i Syria a chytundeb heddwch parhaol ar gyfer Syria hefyd. Ond, mae'n rhaid i mi ganmol llywodraeth leol yng Nghymru ar y ffordd y mae wedi gweithio gyda'i gilydd a chyda ni. Gelwais yr uwchgynhadledd wreiddiol yn ôl ym mis Medi, ac rydym ni wedi dangos yng Nghymru, rwy'n credu, bod croeso i bobl. Rwy'n talu teyrnged, er enghraifft, i'r rhai a oedd yn Llangefni dros y penwythnos. Gwn fod hwn yn ddigwyddiad aml-barti a dim parti a frwydrodd yn erbyn eithafwyr y dde eithaf gan ddangos iddyn nhw, mewn gwirionedd, nad oedd lle iddyn nhw yn Llangefni.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:05

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, there is a huge potential for the national parks of Wales, and our other iconic landscapes, to play a major part in enriching our initial reception programme for refugees coming to our country. In my own area, the Hay, Brecon and Talgarth Sanctuary for Refugees is hoping to organise some away-days to the Brecon Beacons in the early days of the first wave of refugees coming to Swansea. Do you join me, First Minister, in welcoming such initiatives, so that rural areas can also play a valuable part in bringing to the table what they can? What more can the Welsh Government do to enrich the sanctuary that we're providing to these unfortunate people?

Brif Weinidog, ceir potensial enfawr i barciau cenedlaethol Cymru, a'n tirweddau eiconig eraill, i chwarae rhan fawr o ran cyfoethogi ein rhaglen derbyn cychwynnol ar gyfer ffoaduriaid sy'n dod i'n gwlad. Yn fy ardal fy hun, mae Noddfa Ffoaduriaid y Gelli Gandryll, Aberhonddu a Thalgarth yn gobeithio trefnu rhai diwrnodau i ffwrdd i Fannau Brycheiniog yn ystod dyddiau cynnar y don gyntaf o ffoaduriaid sy'n dod i Abertawe. A ydych chi'n ymuno â mi, Brif Weinidog, i groesawu mentrau o'r fath, fel y gall ardaloedd gwledig chwarae rhan werthfawr o ran cynnig yr hyn a allant hefyd? Beth arall all Llywodraeth Cymru ei wneud i gyfoethogi'r noddfa yr ydym ni'n ei chynnig i'r bobl anffodus hyn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:06

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, we have been working with local authorities since the summit that took place in September, and we want to make sure that people receive a welcome. I've been impressed by the work of individuals and volunteers in this regard. We saw the response to the original crisis. We know that there are people of goodwill—many people of goodwill—who exist in Wales, and the example you've given is just such an example of that goodwill. We want to work with voluntary organisations, with individuals, and of course with public sector authorities to make sure that goodwill is maintained.

Wel, rydym ni wedi bod yn gweithio gydag awdurdodau lleol ers yr uwchgynhadledd a gynhaliwyd ym mis Medi, ac rydym ni eisiau gwneud yn siŵr bod pobl yn cael croeso. Mae gwaith unigolion a gwirfoddolwyr wedi gwneud cryn argraff arnaf yn hyn o beth. Gwelsom yr ymateb i'r argyfwng gwreiddiol. Rydym yn gwybod bod pobl o ewyllys da—lawer o bobl o ewyllys da—yn bodoli yng Nghymru, ac mae'r enghraifft yr ydych chi wedi ei rhoi yn enghraifft o'r math hwnnw o ewyllys da. Rydym ni eisiau gweithio gyda mudiadau gwirfoddol, gydag unigolion, ac wrth gwrs gydag awdurdodau sector cyhoeddus i sicrhau y cynhelir yr ewyllys da hwnnw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cyfraddau Goroesi Cancer

Cancer Survival Rates

14:06 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
8. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella cyfraddau goroesi cancer yng Nghymru? OAQ(4)2578(FM)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

8. What is the Welsh Government doing to improve cancer survival rates in Wales? OAQ(4)2578(FM)

14:06 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
We continue to make good progress in delivering the actions set out in the cancer delivery plan. For the first time, more than 70 per cent of people diagnosed with cancer survive at least one year, and more than half can expect to survive for at least five years.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Rydym ni'n parhau i wneud cynnydd da o ran cyflawni'r camau gweithredu a nodir yn y cynllun cyflawni ar ganser. Am y tro cyntaf, mae mwy na 70 y cant o bobl sy'n cael diagnosis o ganser yn goroesi am o leiaf blwyddyn, a gall mwy na'u hanner ddisgwyl goroesi am o leiaf pum mlynedd.

14:07 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Thank you for that reply, Minister. Lung cancer remains the biggest cancer killer in Wales. Although survival rates have improved, they still compare poorly with other major cancers, and seriously lag behind our European counterparts. The UK Lung Cancer Coalition recently highlighted what they call the 'unacceptable' variation in access to specialist nurses and surgery that exists in some parts of Wales compared to others. What action is the Welsh Government taking to ensure that consistency in this service for lung cancer sufferers across Wales is maintained?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Diolch i chi am yr ateb yna, Weinidog. Canser yr ysgyfaint yw'r laddwr cancer mwyaf yng Nghymru o hyd. Er bod cyfraddau goroesi wedi gwella, maen nhw'n dal i gymharu'n wael â mathau cyffredin eraill o ganser, ac ymhell ar ôl ein cymheiriaid Ewropeaidd. Yn ddiweddar, amlygodd yr UK Lung Cancer Coalition yr hyn y maen nhw'n ei alw'n amrywiad 'annerbyniol' o ran mynediad at nyrsys a llawdriniaeth arbenigol sy'n bodoli mewn rhai rhannau o Gymru o'u cymharu ag eraill. Pa gamau mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod cysondeb yn y gwasanaeth hwn i bobl sy'n dioddef o ganser yr ysgyfaint ledled Cymru yn cael ei gynnal?

14:07 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
It is one of the tasks of the cancer implementation group and £1 million has been allocated to its priorities for this year. One of those priorities is tackling lung cancer mortality.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Dyma un o dasgau'r grŵp gweithredu ar ganser a dyrannwyd £1 filiwn i'w flaenoriaethau ar gyfer eleni. Un o'r blaenoriaethau hynny yw mynd i'r afael â marwolaethau cancer yr ysgyfaint.

14:07 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
First Minister, the highest mortality rates in Wales for cancer are in the region that I represent, South Wales East. What discussions has the Welsh Government been having with the local health boards in that region to find out how the survival rates can be improved? For example, the incidence of cancer is highest in Merthyr, but lowest in Cardigan. What research is being done to find out these reasons, please?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Brif Weinidog, mae'r cyfraddau marwolaethau uchaf yng Nghymru ar gyfer cancer yn y rhanbarth yr wyf i'n ei gynrychioli, Dwyrain De Cymru. Pa drafodaethau mae Llywodraeth Cymru wedi eu cael gyda'r byrddau iechyd lleol yn y rhanbarth hwnnw i gael gwybod sut y gellir gwella'r cyfraddau goroesi? Er enghraifft, mae nifer yr achosion o ganser ar ei huchaf ym Merthyr, ond isaf yn Aberteifi. Pa waith ymchwil sy'n cael ei wneud i ddarganfod y rhesymau am hyn, os gwelwch yn dda?

14:08

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, there will be different reasons. Some will be lifestyle. Clearly, smoking, we know, has an enormous effect in terms of the chances of cancer being diagnosed. Some of it, of course, will be to do with a willingness to come forward and see the doctor in the first place. That can be an issue for some. What are we doing as a Government? We have the cancer delivery plan. That is primarily working with hospitals and carers to improve outcomes for cancer, but just to broaden what I said about the cancer implementation group, their priorities are to improve the delivery service planning and performance, to develop primary care oncology, to pilot a single urgent cancer pathway, and of course to look at patient experience. We know that the vast majority of people, some 88 per cent—89 per cent, in fact—rate their experience of the NHS, in difficult circumstances for them, of course, as 'excellent' or 'very good'. As we see more and more people living with cancer for longer, so we need to make sure that services continue to cater for those people who are not yet in that position.

Denu Meddygon i'r GIG yng Nghymru

14:09

David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

9. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ddenu meddygon i ddod i weithio yn y GIG yng Nghymru? OAQ(4)2595(FM)

14:09

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

We welcome doctors wishing to come to work, train and live in Wales. We attract doctors in a number of ways—for GPs, the actions in the primary care workforce plan; and for junior doctors, our targeted campaign calling on them to 'Make your future part of our future', emphasising, of course, that in Wales there is no junior doctor strike.

14:09

David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that answer, First Minister. As you rightly point out, there's chaos in England resulting from the lack of respect coming from the Secretary of State for Health, Jeremy Hunt, for the junior doctors. Do you agree with me that the junior doctors in the English NHS should actually look to come to Wales, where not only will they receive the respect they deserve, but they will also work in a Welsh national health service that continues to meet the vision of Aneurin Bevan and will always be safe in Labour's hands?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Wel, bydd gwahanol resymau. Ffordd o fyw fydd rhai ohonynt. Yn amlwg, mae ysmegu, rydym ni'n gwybod, yn cael effaith enfawr o ran y tebygolrwydd o ddiagnosis o ganser. Bydd rhywfaint ohono, wrth gwrs, yn ymwneud â pharodrwydd i fynd i weld y meddyg yn y lle cyntaf. Gall hynny fod yn broblem i rai. Beth ydym ni'n ei wneud fel Llywodraeth? Mae gennym ni'r cynllun cyflawni ar ganser. Mae hwnnw'n gweithio'n bennaf gydag ysbytai a gofawyr i wella canlyniadau ar gyfer canser, ond dim ond i ehangu'r hyn a ddywedais am y grŵp gweithredu ar ganser, ei flaenoriaethau yw gwella cynllunio a pherfformiad gwasanaethau cyflawni, datblygu oncoleg gofal sylfaenol, treialu llwybr canser brys sengl, ac, wrth gwrs, edrych ar brofiad y claf. Gwyddom fod y mwyafrif llethol o bobl, tua 88 cant—89 y cant, a dweud y gwir—yn dweud bod eu profiad o'r GIG, o dan amgylchiadau anodd iddyn nhw, wrth gwrs, yn 'ardderchog' neu'n 'dda iawn'. Wrth i ni weld mwy a mwy o bobl yn byw gyda chanser am fwy o amser, mae angen i ni felly wneud yn siŵr bod gwasanaethau'n parhau i ddarparu ar gyfer y bobl hynny nad ydynt yn y sefyllfa honno eto.

Attracting Doctors to the Welsh NHS

9. What is the Welsh Government doing to attract doctors to come and work in the Welsh NHS? OAQ(4)2595(FM)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Rydym ni'n croesawu meddygon sy'n dymuno dod i weithio, hyfforddi a byw yng Nghymru. Rydym ni'n denu meddygon mewn nifer o ffyrdd—i feddygon teulu, y camau gweithredu yng nghynllun y gweithlu gofal sylfaenol; ac i feddygon iau, ein hymgyrch wedi'i thargedu yn galw arnynt 'Dewch i rannu eich dyfodol chi gyda'n dyfodol ni', gan bwysleisio, wrth gwrs, nad oes streic meddygon iau yng Nghymru.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Fel yr ydych chi'n ei nodi'n gywir, mae anhrefn yn Lloegr o ganlyniad i'r diffyg parch sy'n dod gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd, Jeremy Hunt, at y meddygon iau. A ydych chi'n cytuno â mi y dylai'r meddygon iau yn y GIG yn Lloegr ystyried dod i Gymru, lle y byddant yn cael y parch y maen nhw'n ei haeddu yn ogystal â chael gweithio mewn gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru sy'n parhau i fodloni gwledigaeth Aneurin Bevan ac a fydd bob amser yn ddiogel yn nwylo Llafur?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

- 14:10 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Absolutely. GP numbers in Wales have increased by 10.5 per cent since 2004. We know the number of hospital consultants working in the Welsh NHS increased by nearly a half between 2004 and 2014. And, we are saying to junior doctors, 'Come to Wales where we will talk to you rather than threaten you'.
Yn sicr. Mae nifer y meddygon teulu yng Nghymru wedi cynyddu 10.5 y cant ers 2004. Rydym ni'n gwybod bod nifer yr ymgynghorwyr ysbty sy'n gweithio yn y GIG yng Nghymru wedi cynyddu gan bron i hanner rhwng 2004 a 2014. Ac rydym ni'n dweud wrth feddygon iau, 'Dewch i Gymru lle byddwn yn siarad â chi yn hytrach na'ch bygwth chi'.
- 14:10 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
First Minister, do you accept that the uncertainty that is holding sway around parts of Wales over the future of services and their configuration is leading to some of the recruitment challenges that we are facing, particularly in places like north Wales where we've seen the uncertainty over the shape of services in that health board be prolonged and going back as far as 2006?
Brif Weinidog, a ydych chi'n derbyn bod yr ansicrwydd sy'n bodoli mewn rhannau o Gymru ynghylch dyfodol gwasanaethau a'u trefn yn arwain at rai o'r heriau recriwtio yr ydym ni'n eu hwynebu, yn enwedig mewn lleoedd fel y gogledd lle'r ydym ni wedi gweld yr ansicrwydd ynghylch ffurf gwasanaethau yn y bwrdd iechyd ers amser maith ac yn mynd yn ôl cyn belled â 2006?
- 14:11 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
We know that there are always challenges in recruiting certain specialisms, and in certain parts of Wales that's been the case for some years. That's why we have in place our recruitment campaign. But, we do in fact, not just anticipate, but know that there are junior doctors now who are looking at Wales as a favourable place to work, not just for reasons of employment and pay, but in terms of the opportunities that are afforded to them. They want to get away from the chaos and underfunding of England.
Rydym ni'n gwybod bod heriau bob amser o ran recriwtio rhai arbenigeddau, ac mae hynny wedi bod yn wir mewn rhai rhannau o Gymru ers rhai blynyddoedd. Dyna pam mae ein hymgyrch recriwtio ar waith gennym. Ond, rydym ni mewn gwirionedd, nid yn unig yn rhagweld, ond yn gwybod bod meddygon iau sy'n ystyried Cymru fel lle ffafriol i weithio nawr, nid yn unig am resymau cyflogaeth a chyflog, ond o ran y cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Maen nhw eisiau dianc rhag anhrefn a thangyllido yn Lloegr.
- 14:11 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Rydych yn ymwysbodol bod anhawster mawr recriwtio meddygon teulu mewn ardaloedd gwledig. Mae penderfyniad y Llywodraeth i ddileu taliadau MPIG dros gyfnod yn mynd i'w wneud yn anoddach i ddenu meddygon i gefn gwlad. I feddygyfeydd y gogledd-orllewin, er enghraifft, fe fydd y golled yn £650,000 dros gyfnod, ac mae hyn yn effeithio ar feddygyfeydd bach a rhai ar ddau safle—peth sy'n gyffredin iawn mewn practisiau gwledig. Pam fod y Llywodraeth Lafur hon mor benderfynol i danseilio gwasanaethau meddygol mewn ardaloedd gwledig?
You're aware that there are great difficulties in recruiting GPs in rural areas. The decision by the Government to scrap MPIG payments over a period of time is going to make it even more difficult to attract doctors to rural areas. In surgeries in the north-west, for example, the loss will be £650,000 over a period of time, and this will have an impact on smaller surgeries and those on two sites, which is very common in rural practices. Why is this Labour Government so determined to undermine GP services in rural areas?
- 14:12 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Mae'r doctoriaid eu hunain wedi cytuno i hyn. Roedd cytundeb gan y doctoriaid a'r Llywodraeth. So, nid wyf yn deall nawr pam mae hyn yn cael ei ystyried fel problem. Nid yw'n rhywbeth y mae'r Llywodraeth wedi mynnu i ddoctoriaid ei wneud; roedd hyn yn gytundeb rhwng y doctoriaid a'r Llywodraeth.
The doctors themselves agreed to this. There was an agreement between the doctors and the Government, so I don't understand why this is now considered to be an issue or a problem. It's not something that the Government has demanded that the doctors do; this was an agreement between the Government and the doctors.

Ynglŷn â recriwtio mewn ardaloedd gwledig, rydym yn dal i weithio gyda'r byrddau iechyd ynglŷn â hynny. Rydym yn ystyried ffyrdd eraill o weithredu, sef, er enghraifft, cael mwy o feddygon teulu sydd ar dâl ac nid yn gorfod prynu i mewn i feddygyfa. Ond, ynglŷn â'r pwynt y gwnaeth ef ei godi, roedd hyn yn gytundeb.
As regards recruitment into rural areas, we're still working with the health boards on that and considering alternative methods of working, for example, securing more GPs who are paid salaries and who will not have to buy into a surgery. But, on the point that he raised, this was an agreement.

14:12 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

First Minister, through the Displaced People in Action charity, the Welsh Government funds a programme called WARD, which re-trains asylum seekers and refugees who are medical professionals to enable them to practice here in the UK. I've been approached by some constituents who are not asylum seekers but who were qualified to practice medicine overseas and are naturalised British citizens. I wonder if you would consider, given the shortage of junior doctors, opening a number of places to people in that position, so that they can help us with the shortage that we have.

Brif Weinidog, trwy elusen Alltudion ar Waith, mae Llywodraeth Cymru yn ariannu rhaglen o'r enw WARD, sy'n ailhyfforddi ceiswyr lloches a ffoaduriaid sy'n weithwyr meddygol proffesiynol i'w galluogi i ymarfer yma yn y DU. Cysylltwyd â mi gan rai etholwyr nad ydynt yn geiswyr lloches ond sy'n gymwysedig i ymarfer meddygaeth dramor ac yn ddinasyddion Prydeinig brodoredig. Tybed a fydddech chi'n ystyried, o gofio'r prinder meddygon iau, agor nifer o leoedd i bobl yn y sefyllfa honno, fel y gallant ein helpu gyda'r prinder sydd gennym.

14:13 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

First of all, we don't control whether people can be registered to work as doctors. It's not devolved. We are keen to utilise the skills of people and the NHS has always done that. The reality is that healthcare systems around the world are international in their staffing, and Wales and the rest of the UK are no exceptions to that trend. Certainly, if the Member wishes to write with particular details of these individuals, we'd be more than happy to see what we can do to help.

Yn gyntaf oll, nid ydym yn rheoli pa un a all pobl gael eu cofrestru i weithio fel meddygon. Nid yw wedi'i ddatganoli. Rydym yn awyddus i ddefnyddio sgiliau pobl ac mae'r GIG wedi gwneud hynny erioed. Y gwir amdani yw bod systemau gofal iechyd ar draws y byd yn rhyngwladol o ran eu staffio, ac nid yw Cymru a gweddill y DU yn unrhyw eithriad i'r duedd honno. Yn sicr, os hoffai'r Aelod ysgrifennu gyda manylion penodol yr unigolion hyn, byddem yn fwy na pharod i weld beth allwn ni ei wneud i helpu.

Masnach Ryngwladol

International Trade

14:13 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

10. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ymdrechion i hyrwyddo masnach ryngwladol i gwmnïau o Gymru? OAQ(4)2589(FM)

10. Will the First Minister make a statement on efforts to promote international trade for Welsh companies? OAQ(4)2589(FM)

14:14 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

The value of exports from Wales has more than doubled since devolution in 1999 and they are currently worth an estimated £11 billion annually to the Welsh economy. As a pro-business Government, we are committed to supporting even more Welsh companies to trade overseas.

Mae gwerth allforion o Gymru wedi mwy na dyblu ers datganoli ym 1999 ac maen nhw werth tua £11 biliwn i economi Cymru bob blwyddyn ar hyn o bryd. Fel Llywodraeth sydd o blaid busnes, rydym ni wedi ymrwymo i gefnogi hyd yn oed mwy o gwmnïau yng Nghymru i fasnachu dramor.

14:14 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, First Minister. India is an increasingly important trading partner for Wales. As Mr Raj Aggarwal, the Indian Honorary Consul to Wales, has said:

'India is a key player in the global economy with a population of 1.2 billion and a large, cash-rich and expanding consumer class.'

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Mae India yn bartner masnachu cynyddol bwysig i Gymru. Fel y mae Mr Raj Aggarwal, Conswl Anrhydeddus India i Gymru, wedi dweud:

Mae India yn chwarae rhan allweddol yn yr economi fyd-eang gyda phoblogaeth o 1.2 biliwn a dosbarth defnyddwyr mawr, cyfoethog o ran arian parod ac sy'n ehangu.

The value of Welsh exports to India has grown exponentially over recent years. Figures for the second quarter of this year show a 175 per cent increase from the same quarter of 2014. Clearly, Welsh enterprises, ably supported by the Welsh Government, are getting something very right here. First Minister, what lessons can be learned from the Government's support for Welsh trade to India that can be applied to other countries?

Mae gwerth allforion Cymru i India wedi tyfu'n gyflymach ac yn gyflymach dros y blynedd diwethaf. Mae ffigurau ar gyfer ail chwarter y flwyddyn hon yn dangos cynnydd o 175 y cant o'i gymharu â'r un chwarter yn 2014. Yn amlwg, mae busnesau Cymru, wedi'u cefnogi'n fedrus gan Lywodraeth Cymru, yn cael rhywbeth yn gwbl iawn yma. Brif Weinidog, pa wersi y gellir eu dysgu o gefnogaeth y Llywodraeth i fasnach Cymru i India y gellir eu cymhwyso i wledydd eraill?

14:15

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, we seek to work with UK Trade and Investment, and that relationship has improved, certainly, in the past four years. We place offices in countries in the world where we feel those offices can add value, and we've seen them adding value. We've seen investment increase as a result of the offices in India and, indeed, other countries as well.

India is not just a major investor in the Welsh economy, but it's a major potential market. When I was first in India—I've been there twice—I helped to launch a product made in Swansea on the Indian market. So, it is a big consumer market as well. The difficulty, of course, is the uncertainty over the UK's membership of the EU. Indian investment comes to Wales on the basis that there is free access to a market of 500 million. The UK is not important as a market—as a place to do business, it is, but not as a market. That uncertainty is not helpful in terms of attracting investment into Wales, and it's important, of course, that this issue is addressed, whether it's the end of next year or the beginning of 2017, in order that that uncertainty can be removed, but there's no doubt that, if we do not have unfettered access to the single market, the Welsh economy will suffer badly.

Wel, rydym ni'n ceisio gweithio gyda Masnach a Buddsoddi y DU, ac mae'r berthynas honno wedi gwella, yn sicr, yn ystod y pedair blynedd diwethaf. Rydym yn lleoli swyddfeydd mewn gwledydd yn y byd lle'r ydym yn teimlo y gall y swyddfeydd hynny ychwanegu gwerth, ac rydym ni wedi eu gweld nhw'n ychwanegu gwerth. Rydym ni wedi gweld buddsoddiad yn cynyddu o ganlyniad i'r swyddfeydd yn India ac, yn wir, mewn gwledydd eraill hefyd.

Nid yn unig y mae India yn fuddsoddwr mawr yn economi Cymru, ond mae'n farchnad bosibl fawr hefyd. Pan roeddwn i yn India gyntaf—rwyf wedi bod yno ddwywaith—helpais i lansio cynnyrch a wnaed yn Abertawe ar farchnad India. Felly, mae'n farchnad defnyddwyr fawr hefyd. Yr anhawster, wrth gwrs, yw'r ansicrwydd ynghylch aelodaeth y DU o'r UE. Daw buddsoddiad India i Gymru ar y sail bod mynediad rhydd i farchnad o 500 miliwn. Nid yw'r DU yn bwysig fel marchnad—mae'n bwysig fel lle i wneud busnes, ond nid fel marchnad. Nid yw'r ansicrwydd hwnnw'n ddefnyddiol o ran denu buddsoddiad i Gymru, ac mae'n bwysig, wrth gwrs, bod y mater hwn yn cael sylw, gan un a yw hynny ddiwedd y flwyddyn nesaf, neu ddechrau 2017, fel y gellir cael gwared ar yr ansicrwydd hwnnw, ond nid oes amheuaeth, os nad oes gennym fynediad dilyffethair at y farchnad sengl, bydd economi Cymru yn dioddef yn helaeth.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:16

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, First Minister.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:16

2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 2 is the business statement and announcement, and I call on the Minister for Finance and Government Business, Jane Hutt.

2. Business Statement and Announcement

Eitem 2 yw'r datganiad a chyhoeddiad busnes, a galwaf ar y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, Jane Hutt.

Y Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:16

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business

There's been one change to the business statement for this week's business: the time made available for questions to the Counsel General has been reduced to 15 minutes, as only four questions have been tabled. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement found among agenda papers, which are available to Members electronically.

Bu un newid i'r datganiad busnes ar gyfer busnes yr wythnos hon: mae'r amser sydd ar gael ar gyfer cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol wedi ei leihau i 15 munud, gan mai dim ond pedwar cwestiwn sydd wedi eu cyflwyno. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir ar y datganiad a'r cyhoeddiad busnes, y gellir ei weld ymhlith papurau'r agenda, sydd ar gael i'r Aelodau yn electronig.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:16

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Leader of the house, could we have a statement from the business and enterprise Minister in relation to St Athan's enterprise park? Recent figures disclosed to the media disclose that only seven jobs were created in this particular enterprise zone. I do applaud what Welsh Government have done by putting infrastructure into the enterprise zone there, and in particular the £7.5 million that has gone into resurfacing the runway there. I know there were issues around air traffic control and extending the hours, which I know the Minister worked hard on, but it is deeply concerning, when an area has been given enterprise zone status, that only seven jobs have been created in the last calendar year. Therefore, if a statement could come forward so that we can have some assurance that this is a mere blip, rather than maybe a long-term decline in interest in that particular enterprise zone, I think that would give greater assurance to the communities and the jobs that depend on that enterprise zone succeeding.

Arweinydd y tŷ, a oes modd cael datganiad gan y Gweinidog busnes a menter ynglŷn â pharc menter Sain Tathan? Mae ffigurau diweddar a roddwyd i'r cyfryngau yn datgelu mai dim ond saith swydd a gafodd eu creu yn yr ardal fenter benodol hon. Rwyf yn canmol yr hyn y mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud drwy osod seilwaith yn yr ardal fenter yno, ac yn enwedig y £7.5 miliwn ar gyfer rhoi wyneb newydd ar y rhedfa yno. Gwn y bu materion yn ymwneud â rheoli traffig awyr ac ymestyn yr oriau, yr wyf yn gwybod bod y Gweinidog wedi gweithio yn galed arnynt, ond mae'n peri cryn bryder, pan fydd ardal wedi cael statws ardal fenter, mai dim ond saith swydd sydd wedi eu creu yn y flwyddyn galendr ddiwethaf. Felly, pe gallem gael datganiad er mwyn inni gael rhywfaint o sicrwydd mai dim ond rhywbeth dros dro yw hyn, yn hytrach nag efallai dirywiad hirdymor mewn diddordeb yn yr ardal fenter benodol honno, rwyf yn credu y byddai hynny'n rhoi mwy o sicrwydd i'r cymunedau a'r swyddi sy'n dibynnu ar lwyddiant yr ardal fenter honno.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:17

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I very much welcome your recognition of the investment—not just the designation of St Athan as part of the enterprise zone, of course, with Cardiff Airport, but also recognition of the Welsh Government's investment, albeit, of course, in terms of the arrangements with the Ministry of Defence, which, of course, are challenging. But the Minister will, I'm sure, want to update on the circumstances in terms of St Athan enterprise zone.

Rwyf yn croesawu'n fawr iawn y ffaith eich bod yn cydnabod y buddsoddiad—nid yn unig dynodi Sain Tathan yn rhan o'r ardal fenter, wrth gwrs, gyda Maes Awyr Caerdydd, ond hefyd, eich bod yn cydnabod buddsoddiad Llywodraeth Cymru, er, wrth gwrs, bod hynny yn cynnwys y trefniadau gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn, sydd, wrth gwrs, yn heriol. Ond bydd y Gweinidog, rwy'n siŵr, yn awyddus i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar yr amgylchiadau o ran ardal fenter Sain Tathan.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:18

Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Today's report by the Children's Commissioner for England inevitably raises concerns about how well we might be doing in Wales about detecting child sexual abuse. Given the likely prevalence of this, which is likely to go well beyond the numbers that we know about, it seems to me that it would be worthy of a debate, because it involves all public services. It's not just schools that need to be listening to children and making sure that they are in a position to be able to disclose, but all public services—health, social services, police, local authorities. We all need to be looking out for our children, and we need to have a sea change in the way we are safeguarding our children. I wondered if we can just have a debate about that.

Mae'n anochel bod adroddiad Comisiynydd Plant Lloegr heddiw yn codi pryderon ynghylch pa mor dda y gallem fod yn gwneud yng Nghymru o ran canfod plant sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol. O ystyried nifer yr achosion tebygol o hyn, sydd yn debygol o gyrraedd ymhell y tu hwnt i'r niferoedd y gwyddom amdanynt, mae'n ymddangos i mi y byddai'n werth cael dadl yn ei gylch, gan ei fod yn ymwneud â'r holl wasanaethau cyhoeddus. Nid ysgolion yn unig y mae angen iddynt wrando ar blant a gwneud yn siŵr eu bod mewn sefyllfa i allu datgelu, ond yr holl wasanaethau cyhoeddus—iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu, awdurdodau lleol. Mae angen i bob un ohonom ofalu am ein plant, ac mae angen i ni gael newid sylweddol yn y ffordd yr ydym yn diogelu ein plant. Roeddwn i'n meddwl tybed a allwn ni gael dadl am hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:18

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Jenny Rathbone for that question. Of course, we have got in Wales our Social Services and Well-being (Wales) Act 2014, which has strengthened arrangements to safeguard children, and, of course, that's also going to ensure that local safeguarding partners are supported by more robust leadership and a stronger, more effective framework for multi-agency co-operation. It's clear that it's not only the role of social services that's pivotal in terms of safeguarding, but it's everyone's business, and we have to remain committed to ensuring that all practitioners have the skills and confidence to recognise and respond to indicators of abuse. I think, importantly, and finally on this point, that the Act does establish a new national independent safeguarding board to work across all agencies and advise Welsh Ministers on the adequacy and effectiveness of safeguarding arrangements. I'm sure that will be important to enable us to look at where we sit in terms of this challenging report.

Diolch i Jenny Rathbone am y cwestiwn yna. Wrth gwrs, mae gennym ni yng Nghymru ein Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sydd wedi cryfhau trefniadau ar gyfer diogelu plant, ac, wrth gwrs, bydd hynny hefyd yn sicrhau bod partneriaid diogelu lleol yn cael eu cefnogi gan arweinyddiaeth fwy cadarn a fframwaith cryfach, sy'n fwy effeithiol ar gyfer cydweithio aml-asiantaeth. Mae'n amlwg nad yn unig swyddogaeth y gwasanaethau cymdeithasol sy'n hanfodol o ran diogelu, ond mae'n fater i bawb, ac mae'n rhaid i ni barhau i ymrwymo i sicrhau bod gan bob ymarferydd y sgiliau a'r hyder i adnabod ac i ymateb i arwyddion o gam-drin. Rwyf yn credu, yn bwysig, ac yn olaf ar y pwynt hwn, fod y Ddeddf yn sefydlu bwrdd diogelu annibynnol cenedlaethol newydd i weithio ar draws pob asiantaeth a rhoi cyngor i Weinidogion Cymru ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau diogelu. Rwyf yn siŵr y bydd hynny'n bwysig i'n galluogi i edrych ar ble yr ydym yn sefyll o ran yr adroddiad heriol hwn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:19

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, rai wythnosau yn ôl fe gyhoeddodd y Gweinidog addysg adolygiad o reolaeth o fewn Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yng Nghaerdydd. Er hynny, ac er iddo ddweud y bydd yr adolygiad yn cael ei gynnal erbyn mis Chwefror, nid oes yna fanylion ar gael ynglŷn ag aelodaeth na maes llafur y grŵp penodol yma. Felly, a gaf i ofyn am ddatganiad llafar gan y Gweinidog addysg ynghylch yr adolygiad?

Minister, some weeks ago, the Minister for education announced a review of management within the Royal Welsh College of Music and Drama in Cardiff. Although he said that the review was to be concluded by February, there are no details available as to the membership or the remit of this specific group. So, can I ask for an oral statement from the education Minister on that review?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:20

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm sure the Minister will want to update on the review in terms of the management of the Royal Welsh College of Music and Drama. This is something that, of course, you will have the opportunity to ask him as well, not just in questions but in committee, but I will ask the Minister to respond to this.

Rwyf yn siŵr y bydd y Gweinidog yn awyddus i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar yr adolygiad o ran rheolaeth Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Mae hyn yn rhywbeth, wrth gwrs, y bydd gennych gyfle i'w ofyn iddo hefyd, nid yn unig mewn cwestiynau, ond yn y pwyllgor, ond byddaf yn gofyn i'r Gweinidog ymateb i hyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:20

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, when the Welsh Government launched its foundation phase, it made it very clear that it expected that programme to be delivered through a variety of settings, not just schools. I'm concerned that Powys County Council made a recent decision to cut the number of places that can offer foundation phase, and a number of private nurseries are at the forefront of those cuts. What can we do to ensure that parents have a choice of the type of the setting in which they access foundation phase for their children, and would you agree with me that nurseries have an important part to play, especially when they can offer wraparound care so that parents can access, yes, the foundation phase, but also secure childcare for them to continue to work?

Weinidog, pan lansiodd Llywodraeth Cymru ei chyfnod sylfaen, fe'i gwnaeth hi'n glir iawn ei bod yn disgwyl y byddai'r rhaglen honno yn cael ei chyflwyno mewn amrywiaeth o leoliadau, nid yn unig mewn ysgolion. Rwyf yn pryderu bod Cyngor Sir Powys wedi gwneud penderfyniad yn ddiweddar i dorri nifer y lleoedd sy'n gallu cynnig y cyfnod sylfaen, ac mae nifer o feithrinfeydd preifaf ar flaen y gad o ran y toriadau hynny. Beth allwn ni ei wneud i sicrhau bod rhieni yn cael dewis y math o leoliad lle y byddant yn gallu cael cyfnod sylfaen ar gyfer eu plant, ac a fydddech chi'n cytuno â mi bod gan feithrinfeydd ran bwysig i'w chwarae, yn enwedig pan eu bod yn gallu cynnig gofal cofleidiol fel y gall rhieni gael gafael ar, ie, y cyfnod sylfaen, ond hefyd gofal plant diogel er mwyn iddynt allu parhau i weithio?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:21 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- This is, of course, a matter for local authorities across Wales, and they are making those decisions in terms of the providers for the delivery of the foundation phase. We know across Wales that there are some very good examples of those wider partners being enabled to make that provision of the foundation phase. Certainly, this is something that needs to be raised, obviously, with Powys County Council, but we take note of the impact.
- Mae hwn, wrth gwrs, yn fater i awdurdodau lleol ledled Cymru, a nhw sy'n gwneud y penderfyniadau hynny o ran y darparwyr ar gyfer cyflwyno'r cyfnod sylfaen. Rydym yn gwybod ledled Cymru y ceir rhai enghreifftiau da iawn o'r partneriaid ehangach hynny yn cael eu galluogi i sicrhau'r ddarpariaeth honno o'r cyfnod sylfaen. Yn sicr, mae hyn yn rhywbeth y mae angen ei godi, yn amlwg, gyda Chyngor Sir Powys, ond rydym yn nodi'r effaith.
- 14:22 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I've had a representation from a constituent who's a farmer and very concerned about a video being circulated around schools in the Bridgend area from a campaign to promote vegetarianism, which shows a very, very negative impression of the farming industry. I'm a vegetarian myself, and I think it's great for young people to have a balanced representation of how their food is produced, but perhaps we could have a statement from the Minister for agriculture to outline what she does to make sure that schools are encouraged to visit farms in person, so that they can see, first-hand, how our food is actually made.
- Weinidog, rwyf wedi cael sylwadau gan etholwr sy'n ffermwr ac sy'n bryderus iawn am fideo sy'n cylchredeg mewn ysgolion yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr am ymgyrch i hyrwyddo llysieuath, sy'n rhoi argraff negyddol iawn, iawn o'r diwydiant ffermio. Rwyf yn llysieuwr fy hun, ac rwyf yn credu ei bod yn wych bod pobl ifanc yn cael sylwadau cytbwys o sut y cynhyrchir eu bwyd, ond efallai y gallem gael datganiad gan y Gweinidog amaethyddiaeth i amlinellu'r hyn y mae hi'n ei wneud i sicrhau bod ysgolion yn cael eu hannog i ymweld â ffermydd, fel eu bod yn gallu gweld, yn uniongyrchol, sut y mae ein bwyd yn cael ei wneud mewn gwirionedd.
- 14:22 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank Eluned Parrott for that question. I think we've all been notified—many of us have been notified—about that video, and, of course, are very much aware of the opportunities that the farming community has to work with and engage with schools. In fact, there's certainly been a very important initiative in my constituency, which was called 'Food for Thought', which was led by farmers and the farming families in the constituency. At one stage, we took a cow to the playground; I don't know whether that still is permissible. But, certainly, I was engaged with some of the education lessons about cereal growing in terms of agriculture. But, of course, this is an important point in terms of education, and I'm sure the food and farming Deputy Minister will take note.
- Diolchaf i Eluned Parrott am y cwestiwn yna. Rwy'n credu ein bod ni i gyd wedi cael gwybod—mae llawer ohonom ni wedi cael gwybod—am y fideo hwnnw, ac, wrth gwrs, rydym yn ymwybodol iawn o'r cyfleoedd sydd gan y gymuned amaethyddol i weithio ac ymgysylltu ag ysgolion. Mewn gwirionedd, bu menter bwysig iawn yn sicr yn fy etholaeth i, o'r enw 'Food for Thought', a oedd yn cael ei harwain gan ffermwyr a theuluoedd ffermio yn yr etholaeth. Ar un adeg, aethom â buwch i'r maes chwarae; Nid wyf yn gwybod os gellir caniatáu hynny erbyn hyn. Ond, yn sicr, roeddwn i'n ymwneud â rhai o'r gwersi addysg am dyfu grawnfwydydd o ran amaethyddiaeth. Ond, wrth gwrs, mae hwn yn bwynt pwysig ar gyfer addysg, ac rwyf yn siŵr y bydd y Dirprwy Weinidog bwyd a ffermio yn cymryd sylw.
- 14:23 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Minister. Diolch yn fawr, Weinidog.
- 14:23 **3. Datganiad: Adroddiad ar Daith Cyllideb 2015—'Buddsoddi yn y Gymru a Garem'** **Y** Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- 3. Statement: Report on the Budget Tour 2015—'Investing in the Wales We Want'**
- Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
- Item 3 is a statement by the Minister for Finance and Government Business, report on the budget tour 'Investing in the Wales We Want', and I call Jane Hutt.
- Eitem 3 yw datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, adroddiad ar daith y gyllideb 'Buddsoddi yn y Gymru a Garem', a galwaf ar Jane Hutt.

Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business

Thank you, Deputy Presiding Officer. Tomorrow, we will finally know how the UK Government plans to cut public expenditure by a further £37 billion over the next spending review period, and what the implications will be for Wales. These cuts will come on top of the successive reductions to the Welsh budget over the last five years—cuts that already mean that we have £1.3 billion less to spend every year on boosting economic growth and supporting our vital public services.

Preparing for a further period of austerity makes early planning more important than ever. Central to this is drawing on all the available evidence to inform our spending plans, including listening to the experiences of those delivering and using public services on priorities and what services matter most, both now and in the future. That's why my annual budget tour forms an integral part of our budget preparations.

Today, I published my 2015 budget tour report, 'Investing in the Wales We Want'. The report provides a summary of the meetings and visits I've undertaken. It highlights the key messages from the tour, as well as providing a number of good practice examples of how public services across Wales are responding to the challenges. These examples reflect the importance that we all attach to focusing our limited resources on prevention and planning for the long term.

During my tour, there was much support for a preventative approach to investment, which has been a theme of recent budgets. As we look ahead to the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 coming into force, it's more important than ever that we make the most of preventative approaches, which can make a positive difference to people's lives. We're working very closely with the third sector and other partners to develop a common definition of preventative spend. This work will help us understand more about the challenges and opportunities of dealing with decreasing budgets.

The investments we are making to support our focus on growth and jobs, particularly in helping people into work, also play their part in preventing people from falling into poverty. Our support for apprenticeships continues to provide opportunities to improve the life chances of our young people. Those young apprentices I met during the tour described the training and skills that they are receiving and how this is helping them to fulfill their ambitions.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Yfory, byddwn yn gwybod o'r diwedd sut y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu torri gwariant cyhoeddus gan £37 biliwn arall dros y cyfnod adolygiad o wariant nesaf, a beth fydd y goblygiadau i Gymru. Bydd y toriadau hyn yn dod yn ychwanegol i'r gostyngiadau olynol i gyllideb Cymru dros y pum mlynedd diwethaf—toriadau sydd eisoes yn golygu bod gennym £1.3 biliwn yn llai i'w wario bob blwyddyn ar hybu twf economaidd a chefnogi ein gwasanaethau cyhoeddus hanfodol.

Mae paratoi am gyfnod pellach o gyni yn gwneud cynllunio cynnar yn fwy pwysig nag erioed. Mae tynnu ar yr holl dystiolaeth sydd ar gael i lywio ein cynlluniau gwariant yn ganolog i hyn, gan gynnwys gwrandao ar brofiadau'r rhai sy'n darparu ac yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus am flaenoriaethau a pha wasanaethau sydd bwysicaf, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Dyna pam mae fy nhaith gyllideb flynyddol yn rhan annatod o'n paratoadau gyllideb.

Heddiw, cyhoeddais fy adroddiad taith y gyllideb 2015, 'Buddsoddi yn y Gymru a Garem'. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys crynodeb o'r cyfarfodydd ac ymweliadau yr wyf wedi eu cynnal. Mae'n tynnu sylw at y negeseuon allweddol o'r daith, yn ogystal â rhoi nifer o enghreifftiau o arfer da o sut y mae gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru yn ymateb i'r heriau. Mae'r enghreifftiau hyn yn adlewyrchu'r pwysigrwydd yr ydym i gyd yn ei roi ar ganolbwyntio ein hadnoddau cyfyngedig ar atal a chynllunio ar gyfer y tymor hir.

Yn ystod fy nhaith, roedd llawer o gefnogaeth i ymagwedd ataliol tuag at fuddsoddi, sydd wedi bod yn thema gyllidebau diweddar. Wrth i ni edrych ymlaen i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ddod i rym, mae'n bwysicach nag erioed o'r blaen ein bod yn manteisio i'r eithaf ar ddulliau ataliol, sy'n gallu gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl. Rydym yn gweithio'n agos iawn gyda'r trydydd sector a phartneriaid eraill i ddatblygu diffiniad cyffredin o wariant ataliol. Bydd y gwaith hwn yn ein helpu i ddeall mwy am yr heriau a'r cyfleoedd i ymdrin â chyllidebau sy'n gostwng.

Mae'r buddsoddiadau yr ydym yn eu gwneud i gefnogi ein pwyslais ar dwf a swyddi, yn enwedig o ran helpu pobl i gael gwaith, hefyd yn chwarae eu rhan i atal pobl rhag disgyn i dlodi. Mae ein cefnogaeth ar gyfer prentisiaethau yn parhau i ddarparu cyfleoedd i wella cyfleoedd bywyd ein pobl ifanc. Mae'r prentisiaid ifanc hynny y cyfarfûm â nhw yn ystod y daith wedi disgrifio'r hyfforddiant a'r sgiliau y maent yn eu derbyn a sut y mae hynny yn eu helpu i gyflawni eu huchelgeisiau.

As part of my tour, I visited schemes across Wales to see at first-hand where our investment is making a real difference to the quality of people's lives. In west Wales, I visited a new Flying Start centre in Aberporth providing first-class childcare facilities, allowing parents to access work and training opportunities. This is testament to the fact that we were right to double the number of children benefiting from Flying Start. In north Wales, I visited Ysgol Bro Llifon, a state-of-the-art primary school funded through the twenty-first century schools programme, again evidence that our decision to invest over £480 million in this programme is making a real difference to children and young people.

In mid Wales, I was pleased to meet the Powys Association of Voluntary Organisations, where I heard about the valuable work being undertaken by the third sector in a rural area. The case study provided by Powys Befrienders, which is highlighted in the report, is an example of the vital role the third sector plays in helping to deliver our public services across Wales by supporting older people to maintain their independence and to live in their own homes for as long as possible. In south Wales, I was able to visit a number of housing developments providing new and affordable homes, boosting the local economy and businesses and providing important training opportunities. Through investment of over £250 million over the last five years, we've demonstrated our commitment to helping to support our communities and tackle poverty through the provision of affordable homes.

These are real examples of how we've continued to prioritise our limited investment in the face of falling budgets and worked with partners to deliver our priorities, but I've also been able to see evidence of how European funding is supporting projects across Wales, helping to make a positive difference to communities. Examples include the new £450 million Swansea University science and innovation bay campus, one of the largest economy projects in Europe, backed by over £100 million of Welsh Government and European funding.

Another is the Working Skills for Adults 2 project in Torfaen, which is supported by £2.7 million of EU funds through the Welsh Government and expected to help 1,700 individuals gain new skills, leading to improved job security and career prospects. During the next five years, over £800 million of EU funds will be invested in Wales, creating opportunities for people to learn new skills, return to work, progress their careers, and achieve higher earnings.

Yn rhan o fy nhaith, ymwelais â chynlluniau ledled Cymru i weld drosof fy hun lle mae ein buddsoddiad yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ansawdd bywyd pobl. Yn y gorllewin, ymwelais â chanolfan Dechrau'n Deg newydd yn Aberporth, sy'n darparu cyfleusterau gofal plant o'r radd flaenaf, gan ganiatáu i rieni allu cael gafael ar gyfleoedd am waith a hyfforddiant. Mae hyn yn dystiolaeth o'r ffaith ein bod yn iawn i ddyblu nifer y plant sy'n elwa ar Dechrau'n Deg. Yn y gogledd, ymwelais ag Ysgol Bro Llifon, ysgol gynradd o'r radd flaenaf a ariennir drwy raglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, sydd unwaith eto yn dangos bod ein penderfyniad i fuddsoddi dros £480 miliwn yn y rhaglen hon yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i blant a phobl ifanc.

Yn y canolbarth, roeddwn yn falch o gwrdd â Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys, lle y clywais am y gwaith gwerthfawr sy'n cael ei wneud gan y trydydd sector mewn ardal wledig. Mae'r astudiaeth achos a ddarparwyd gan Gyfeillion Powys, sy'n cael ei amlygu yn yr adroddiad, yn enghraifft o'r rhan hanfodol y mae'r trydydd sector yn ei chwarae wrth helpu i ddarparu ein gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru drwy gefnogi pobl hŷn i gynnal eu hannibyniaeth ac i fyw yn eu cartrefi eu hunain cyhyd ag y bo modd. Yn y de, cefais gyfle i ymweld â nifer o ddatblygiadau tai sy'n darparu cartrefi newydd a fforddiadwy, gan roi hwb i'r economi a busnesau lleol a darparu cyfleoedd hyfforddi pwysig. Trwy fuddsoddi mwy na £250 miliwn dros y pum mlynedd diwethaf, rydym wedi dangos ein hymrwymiad i helpu i gefnogi ein cymunedau a threchu tlodi drwy ddarparu cartrefi fforddiadwy.

Mae'r rhain yn enghreifftiau gwirioneddol o sut yr ydym wedi parhau i flaenoriaethu ein buddsoddiad cyfyngedig yn wyneb cyllidebau sy'n gostwng ac o sut yr ydym wedi gweithio gyda phartneriaid i gyflawni ein blaenoriaethau, ond rwyf hefyd wedi gallu gweld tystiolaeth o sut y mae arian Ewropeaidd yn cefnogi prosiectau ar draws Cymru, gan helpu i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i gymunedau. Mae enghreifftiau yn cynnwys campws y bae newydd £450 miliwn Prifysgol Abertawe ar gyfer gwyddoniaeth ac arloesedd, un o'r prosiectau economi mwyaf yn Ewrop, sydd wedi ei gefnogi gan dros £100 miliwn o gyllid gan Lywodraeth Cymru ac Ewrop.

Un arall yw'r prosiect Sgiliau Gwaith i Oedolion 2 yn Nhorfaen, a gefnogir gan £2.7 miliwn o arian yr UE drwy Lywodraeth Cymru a disgwylir y bydd yn helpu 1,700 o unigolion i fagu sgiliau newydd, gan arwain at ddiogelwch swyddi a gwell rhagolygon gyrfaol. Yn ystod y pum mlynedd nesaf, bydd mwy na £800 miliwn o gyllid yr UE yn cael ei fuddsoddi yng Nghymru, gan greu cyfleoedd i bobl ddysgu sgiliau newydd, dychwelyd i'r gwaith, camu ymlaen yn eu gyrfaedd, a sicrhau ennillion mwy.

Across all of my visits and meetings, there was a real understanding of the challenges facing us across all public services in Wales as we face the prospect of another round of real cuts to our budget. Despite this, I was heartened to hear how services across the board are looking at new ways of working to respond to the challenge. In health, I heard from people working on the front line about the reforms they're undertaking to secure the long-term sustainability of the health service in Wales, supported by the additional £1.2 billion in capital and revenue funding we've invested in the NHS over the last two years. There were clear messages about the importance of social services, both in their own right and in terms of the integral role with the health service. That's why we allocated an additional £10 million to local government this year for social services and why we're continuing to invest £20 million this year in the successful intermediate care fund.

So, these are important messages that are helping to inform our budget preparations as we move into this critical stage of our planning work. Deputy Presiding Officer, we have stayed true to our values and principles of social justice and fairness throughout these difficult times and protected those services that matter most to the people of Wales. This is borne out by the recent figures, which show that 11 per cent more per head is being spent on public services in Wales than the UK average—more on health, health and social services combined, and in education. This is a Government that understands the needs of Wales and understands the future challenges we face. But the budget tour has helped me to prepare for the draft budget, which will be published in two weeks' time. We're determined to meet the needs of Wales and deliver the services and outcomes that the people of Wales deserve.

Yn ystod pob un o'm hymweliadau a chyfarfodydd, roedd dealltwriaeth wirioneddol o'r heriau sy'n ein hwynebu ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru wrth ni wynebu'r posibilrwydd o rownd arall o doriadau gwirioneddol i'n cyllideb. Er gwaethaf hyn, roeddwn yn falch o glywed sut y mae gwasanaethau yn gyffredinol yn edrych ar ffyrdd newydd o weithio i ymateb i'r her. Ym maes iechyd, clywais gan bobl sy'n gweithio ar y rheng flaen am y diwygiadau y maent yn eu gwneud i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y gwasanaeth iechyd yng Nghymru, a gefnogir gan y £1.2 biliwn ychwanegol mewn arian cyfalaf a referniw a fuddsoddiwyd gennym yn y GIG dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Roedd negeseuon clir am bwysigrwydd y gwasanaethau cymdeithasol, o ran eu hunain ac o ran y swyddogaeth annatod gyda'r gwasanaeth iechyd hefyd. Dyna pam ein bod wedi dyrannu £10 miliwn ychwanegol i lywodraeth leol eleni ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a pham yr ydym yn parhau i fuddsoddi £20 miliwn eleni yn y gronfa gofal canolraddol lwyddiannus.

Felly, mae'r rhain yn negeseuon pwysig sy'n helpu i lywio ein paratodau cyllideb wrth i ni symud i mewn i'r cyfnod hanfodol hwn o'n gwaith cynllunio. Ddirprwy Lywydd, yr ydym wedi parhau'n driw i'n gwerthoedd a'n hegwyddorion o gyfiawnder cymdeithasol a thegwch trwy gydol y cyfnod anodd hwn ac yr ydym ni wedi gwarchod y gwasanaethau hynny sydd bwysicaf i bobl Cymru. Caiff hyn ei gadarnhau gan y ffigurau diweddar, sy'n dangos bod 11 y cant yn fwy fesul pen yn cael ei wario ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru na chyfartaledd y DU—mwy ar iechyd, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol gyda'i gilydd, ac mewn addysg. Mae hon yn Llywodraeth sy'n deall anghenion Cymru ac sy'n deall yr heriau y byddwn yn eu hwynebu yn y dyfodol. Ond mae'r daith gyllideb wedi fy helpu i baratoi ar gyfer y gyllideb ddrafft, a fydd yn cael ei chyhoeddi ymhen pythefnos. Rydym yn benderfynol o fodloni anghenion Cymru a darparu'r gwasanaethau a chanlyniadau y mae pobl Cymru yn eu haeddu.

14:30

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I thank the Minister for her statement today? As you know, Minister, I always appreciate your updates on your budget tour around Wales. You seem, to me, to have been touring longer than the Rolling Stones. In terms of your budget tour, that is, of course. [Laughter.] But you still seem to be enjoying it. I have, this morning, looked through your 'Budget Tour 2015—Investing in the Wales We Want'. I must, say, Minister, that you are one of the few people that takes a good photo eating spaghetti—probably a better photo to have taken than eating a bacon sandwich. [Laughter.]

A gaf i ddiolch i'r Gweinidog am ei datganiad heddiw? Fel y gwyddoch, Weinidog, yr wyf bob amser yn gwerthfawrogi eich diweddariadau am eich taith y gyllideb o amgylch Cymru. Mae'n ymddangos, i mi, eich bod wedi bod yn teithio yn hirach na'r Rolling Stones. O ran eich taith y gyllideb, hynny yw, wrth gwrs. [Chwerthin.] Ond mae'n ymddangos eich bod yn dal i'w mwynhau. Rwyf wedi edrych, y bore yma, drwy eich 'Taith y Gyllideb 2015—Buddsoddi yn y Gymru a Garem'. Mae'n rhaid i mi, ddweud, Weinidog, eich bod yn un o'r ychydig bobl sy'n edrych yn dda mewn llun lle'r ydych yn bwyta sbageti—gwell na llun sy'n cael ei dynnu wrth fwyta brechdan bacwn mae'n debyg [Chwerthin.]

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I was disappointed, of course, to hear a continuation of the Labour tirade against the cuts, which we hear so often on this side of the Chamber—a tirade without any acknowledgement of the appalling financial legacy which made the cuts that you identify so inevitable. Do you at least recognise, Minister, that cuts had to be made by this UK Government, and the previous coalition Government, because of the terrible legacy which was left to them by the previous Labour Government? I think we do need that on the record, because that wasn't a problem of your making, Minister; that was a problem of your colleagues in Westminster.

Do you at least recognise that—. When you talk about the twenty-first century schools programme, I have to say that that is one aspect of your budget tour which I do wholeheartedly agree with. The Welsh Government will be aware of its brilliant collaboration with Monmouthshire County Council, which has seen many stunning new school buildings opened over recent years, most recently Raglan VC Primary School. Perhaps you will agree to visit that school with me; perhaps I can even persuade you to join my Save Monmouthshire campaign on the next tour you undertake, so that we can see more of the excellent collaboration between the Welsh Government and local authorities around Wales, rather than this daft waste of money which is being proposed on a needless reorganisation which your Government is currently embarking on.

Turning to your thoughts on health and social services, I quite agree with you that the social services budget plays an important role, but I'm afraid to say, and the Welsh Conservatives are afraid to say, that this is no justification for the real-terms cuts to the NHS budget, which have happened on your watch over the last few years. Given the continuing protection of the NHS budget in the UK, to be announced tomorrow, will you agree to protect the health budget here and stop us falling further behind?

On the figure that you've discovered, showing that spend here in Wales on public services is 11 per cent more per head than across the border in England—well, I should hope so, Minister. We have greater need here in Wales than they do in England, as, of course, they do in Scotland and other parts of the UK. So, historically, there has been a greater spend per person on public services than across the border. But of course, we know that we need to protect the budget in future; we need to protect the Welsh budget. So, will you agree with me that the proposal for a Barnett floor, which I've had many discussions with you about, is a very good proposal indeed, is something that we welcome the UK Government undertaking, and that you regret that the previous Labour UK Government did nothing at all to protect that spend within Wales, nor in England, where it could have protected Barnett funding, or indeed, in its discussions with you here, where it didn't seem to encourage you to protect the health budget here at all?

Roeddwn yn siomedig, wrth gwrs, o glywed am barhad yr ymosodiad gan Lafur yn erbyn y toriadau, yr ydym yn ei glywed mor aml ar yr ochr hon i'r Siambr—ymosodiad heb unrhyw gydnabyddiaeth o'r etifeddiaeth ariannol erchyll a wnaeth y toriadau y cyfeiriwch atynt mor anochel. A ydych chi o leiaf yn cydnabod, Weinidog, y bu'n rhaid i'r Llywodraeth y DU hon wneud toriadau, yn ogystal â'r Llywodraeth glymblaid flaenorol, oherwydd yr etifeddiaeth ofnadwy a adawyd iddynt gan y Llywodraeth Lafur flaenorol? Rwyf yn credu bod angen inni gael hynny ar y cofnod, gan nad chi oedd yn gyfrifol am greu'r broblem honno, Weinidog; problem eich cydweithwyr yn San Steffan oedd honno.

A ydych chi o leiaf yn cydnabod bod—. Pan fyddwch yn siarad am raglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, mae'n rhaid i mi ddweud bod hynny'n un agwedd o'ch taith y gyllideb yr wyf yn llwyr gytuno â hi. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'i chydweithredu gwyth gyda Chyngor Sir Fynwy, sydd wedi gweld llawer o adeiladau ysgol newydd ardderchog yn cael eu hagor dros y blynyddoedd diwethaf, yn fwyaf diweddar Ysgol Gynradd Rhaglan VC. Efallai y byddwch yn cytuno i ymweld â'r ysgol honno gyda mi; efallai y gallaf hyd yn oed eich perswadio i ymuno â'm hymgyrch Achub Sir Fynwy ar y daith nesaf y byddwch yn ymgymryd â hi, fel y gallwn weld mwy o'r cydweithredu rhagorol rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ledled Cymru, yn hytrach na'r gwastraff arian hurt hwn sy'n cael ei gynnig ar gyfer ad-drefnu diangen y mae eich Llywodraeth yn dechrau arno ar hyn o bryd.

Gan droi at eich barn ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, rwyf yn cytuno'n llwyr â chi fod y gyllideb gwasanaethau cymdeithasol yn chwarae rhan bwysig, ond mae arnaf ofn bod yn rhaid i mi ddweud, ac mae'n rhaid i'r Ceidwadwyr Cymreig ddweud, nad yw hyn yn unrhyw gyfiawnhad am y toriadau gwirioneddol yng nghyllideb y GIG, sydd wedi digwydd yn o dan eich goruchwyliaeth chi dros y blynyddoedd diwethaf. O ystyried y diogelu parhaus o gyllideb y GIG yn y DU, sydd i'w chyflwyno yfory, a wnewch chi gytuno i ddiogelu'r gyllideb iechyd yma a'n hatal rhag mynd ymhellach ar ei hol hi?

Ar y ffigur yr ydych wedi ei ddarganfod, sy'n dangos bod gwariant yma yng Nghymru ar wasanaethau cyhoeddus 11 y cant yn fwy fesul pen nag ar draws y ffin yn Lloegr—wel, byddwn yn gobeithio hynny, Weinidog. Mae gennym fwy o angen yma yng Nghymru nag sydd ganddynt yn Lloegr, fel, wrth gwrs, y mae ganddynt yn yr Alban a rhannau eraill o'r DU. Felly, yn hanesyddol, bu mwy o wariant fesul pen ar wasanaethau cyhoeddus nag ar draws y ffin. Ond wrth gwrs, rydym yn gwybod bod angen i ni ddiogelu'r gyllideb yn y dyfodol; mae angen i ni ddiogelu cyllideb Cymru. Felly, a wnewch chi gytuno â mi bod y cynnig ar gyfer llawr Barnett, y cefais nifer o drafodaethau â chi yn ei glych, yn gynnig gwirioneddol dda, yn rhywbeth yr ydym yn croesawu bod Llywodraeth y DU yn ymgymryd ag ef, a'ch bod yn gresynu na wnaeth Llywodraeth Lafur blaenorol y DU unrhyw beth o gwbl i ddiogelu'r gwariant hwnnw yng Nghymru, nac yn Lloegr, lle y gallai fod wedi diogelu cyllid Barnett, neu yn wir, yn ei thrafodaethau gyda chi yn y fan yma, lle nad oedd yn ymddangos ei bod yn eich annog i ddiogelu'r gyllideb iechyd yma o gwbl?

In short, Minister, I do welcome your statement. There are some positive things in there, but there are other things which I think are way too negative. I know you don't really believe that cuts didn't have to happen, so will you work with us, and the rest of the Assembly, over the months and years to come, to make sure that, in the wake of the comprehensive spending review, we get a far better efficient spend of that money in Wales?

14:34

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Of course, Nick Ramsay, I take your comment about my tour, year-on-year, as your Finance Minister, as a compliment. I take it as a compliment that I am able to visit not only businesses and communities across Wales. I'm certainly pleased that, during a time where your Government—your party has been in power, don't forget, Nick Ramsay, for the last five years, in terms of cuts, year-on-year, to our budget. And yet, we're still able to invest in twenty-first century schools and support the kind of businesses that I visited, where I think I did enjoy a bowl of spaghetti—I think it was in Elin Jones's constituency—where there, indeed, was a business on the waterfront, supported by not only Welsh Government, but European Union funding.

I think it is very important that you look to my statement today, in terms of the response I'm getting on the ground from people who work on the front line, and, indeed, who volunteer and use our services. That is the point of my budget tour—to show not only the negative impact of those cuts, year-on-year, led by your party in Westminster, but also the ways in which people are, even in these tough and challenging times, trying to respond to and address those cuts to their lifestyles, the services that they're delivering and the policies that they're trying to make, at a difficult time in terms of public finances, and how they are making the most of that.

I mean, let's face it, in terms of the response that you've given us today, in terms of questioning me on the statement, it sounds to me as though you almost regret the fact that we have got such a high level of spend in health and social services in Wales. The figures were from the Treasury. The fact is that health spending rose more quickly in Wales than any other part of the UK last year. The fact is that, in 2014-15, spending on health per person in Wales was 1 per cent higher than both the UK and England averages. Spending on health per person in Wales was £27 per person higher than in England. I mean, these are the facts. This is as a result of a Welsh Labour Government taking decisions—tough decisions—in terms of year-on-year budget cuts from your Government in Westminster. Surely, you recognise the importance of that combined spend on health and social services in Wales.

Yn gryno, Weinidog, rwyf yn croesawu eich datganiad. Mae rhai pethau cadarnhaol ynddo, ond mae pethau eraill yr wyf yn credu sydd yn llawer rhy negyddol. Gwn nad ydych wir yn credu nad oedd yn rhaid cael toriadau, felly a wnewch chi weithio gyda ni, a gweddill y Cynulliad, dros y misoedd a'r blynyddoedd sydd i ddod, er mwyn sicrhau ein bod, yn sgil yr adolygiad o wariant cynhwysfawr, yn cael gwariant llawer mwy effeithlon o'r arian hwnnw yng Nghymru?

Wrth gwrs, Nick Ramsay, rwyf yn derbyn eich sylwadau am fy nhaith, flwyddyn ar ôl blwyddyn, fel eich Gweinidog Cyllid, fel canmoliaeth. Rwyf yn ei ystyried fel canmoliaeth hefyd fy mod yn gallu ymweld â, nid yn unig busnesau a chymunedau ledled Cymru. Rwyf yn sicr yn falch, yn ystod cyfnod lle mae eich Llywodraeth chi—mae eich plaid chi wedi bod mewn grym, peidiwch ag anghofio, Nick Ramsay, am y pum mlynedd diwethaf, o ran toriadau, flwyddyn ar ôl blwyddyn, i'n cyllideb. Ac eto, rydym yn dal yn gallu buddsoddi mewn ysgolion yr unfed ganrif ar hugain a chefnogi'r math o fusnesau yr ymwelais â hwy, lle yr wyf yn credu fy mod i wedi mwynhau powlen o sbageti—credaf mai yn etholaeth Elin Jones oedd hi—lle yr oedd, yn wir, busnes ar lan y dŵr, a gefnogwyd nid yn unig gan Lywodraeth Cymru, ond cyllid yr Undeb Ewropeaidd hefyd.

Rwyf yn credu ei bod yn bwysig iawn eich bod yn edrych ar fy natganiad heddiw, o ran yr ymateb rwyf yn ei gael ar lawr gwlad gan bobl sy'n gweithio ar y rheng flaen, ac, yn wir, sy'n gwirfoddoli ac yn defnyddio ein gwasanaethau. Dyna yw diben fy nhaith y gyllideb—i ddangos nid yn unig effaith negyddol y toriadau hynny, flwyddyn ar ôl blwyddyn, a arweinir gan eich plaid chi yn San Steffan, ond hefyd y ffyrdd y mae pobl, hyd yn oed yn y cyfnodau anodd a heriol hyn, yn ceisio ymateb i'r toriadau hynny ar eu ffordd o fyw a rhoi sylw iddynt, y gwasanaethau y maent yn eu darparu a'r polisiau y maent yn ceisio eu creu, yn ystod adeg anodd o ran cyllid cyhoeddus, a sut y maent yn gwneud y gorau o hynny.

Wyddoch chi, gadewch i ni wynebu hyn, o ran yr ymateb a roddwyd gennych i ni heddiw, o ran fy holi i am y datganiad, mae'n ymddangos i mi fel eich bod bron yn gresynu'r ffaith bod gennym lefel mor uchel o wariant ym maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Daeth y ffigurau oddi wrth y Trysorlys. Y ffaith yw bod y gwariant ar iechyd wedi cynyddu yn gyflymach yng Nghymru nag mewn unrhyw ran arall o'r DU y llynedd. Y ffaith yw, yn 2014-15, roedd gwariant ar iechyd fesul pen yng Nghymru 1 y cant yn uwch na chyfartaledd y DU a Lloegr. Roedd gwariant ar iechyd fesul pen yng Nghymru £27 y pen yn uwch nag yn Lloegr. Wyddoch chi, dyma'r ffaithiau. Mae hyn o ganlyniad i Lywodraeth Lafur Cymru yn gwneud penderfyniadau—penderfyniadau anodd—o ran toriadau cyllideb flwyddyn ar ôl blwyddyn gan eich Llywodraeth chi yn San Steffan. Mae'n siŵr, eich bod yn cydnabod pwysigrwydd y gwariant cyfunol hwnnw ar wasanaethau iechyd a chymdeithasol yng Nghymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Now, obviously, I'm looking to the opportunities from tomorrow, from the comprehensive spending review, as well as the threats. We look to not only hearing what, in terms of our negotiations—the First Minister laid it out very clearly in his questions, what we expect. I've written to the Chancellor. I expect there to be not only a funding floor, but clarity in terms of what that will deliver. I also expect there should be devolution of air passenger duty—that's what the cross-party Silk commission called for. I also expect to hear how he's going to support—which I know your party here does—the city deal for the Cardiff capital region, and, indeed, the tidal lagoons project as well.

So, we look to that, but I hope, today, you will see it's the contribution of people across Wales—businesses, service providers, and those who use our services—that is at the forefront of our thinking, in terms of this statement.

Nawr, yn amlwg, rwyf yn edrych ar y cyfleoedd a ddaw yn dilyn yfory, o'r adolygiad cynhwysfawr o wariant, yn ogystal â'r bygythiadau. Rydym yn edrych ymlaen at nid yn unig clywed, o ran ein trafodaethau—gosododd y Prif Weinidog hyn yn glir iawn yn ei gwestiynau, yr hyn yr ydym yn ei ddisgwyl. Rwyf wedi ysgrifennu at y Canghellor. Rwyf yn disgwyl nid yn unig y bydd llawr ariannu, ond y bydd eglurder o ran beth fydd hynny yn ei gyflawni. Rwyf hefyd yn disgwyl y dylai toll teithwyr awyr gael ei ddatganoli—dyna'r hyn y galwodd y comisiwn Silk trawsbleidiol amdano. Rwyf hefyd yn disgwyl clywed am sut y mae ef yn mynd i gefnogi—a gwn fod eich plaid chi yma yn gweud hynny—y fargen dinas ar gyfer prifddinas-ranbarth Caerdydd, ac, yn wir, y prosiect morlynoedd llanw hefyd.

Felly, rydym yn disgwyl am hynny, ond rwyf yn gobeithio, heddiw, y byddwch yn gweld mai cyfraniad pobl ledled Cymru—busnesau, darparwyr gwasanaeth, a'r rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau—sydd flaenaf yn ein meddyliau, o ran y datganiad hwn.

14:38

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Wel, mae hwn yn adroddiad llawen iawn, wrth gwrs. Mae yna lawer iawn o wynebau hapus. Mae yna gryn dipyn o fwyd wedi cael ei fwyta, ac, yn wir, mae'n anodd dychmygu na fyddai croeso cyffredinol i bob adeilad newydd, lle bynnag mae hynny'n digwydd. Rwy'n credu bod Nick Ramsay, a'i gymhariaeth efo'r Rolling Stones, yn anghywir. Rydych chi'n debycach i Bob Dylan, sydd byth yn stopio teithio, a hynny ers degawdau bellach.

Nid oes dim dwywaith bod y gostyngiad yn yr arian cyhoeddus sydd ar gael i gynlluniau cyfalaf yn un real, wrth gwrs, a'r gamp, felly, ydy creu ffrydiau ychwanegol o gyfalaf yn wyneb y toriadau go iawn o San Steffan. A dyna pam yr addawodd Plaid Cymru, cyn yr etholiad diwethaf, i greu cwmni Adeiladu dros Gymru, er mwyn denu arian o'r farchnad ar gyfer prosiectau cyfalaf, ac uchafu, nid yn unig y budd i wasanaethau cyhoeddus, ond y budd hefyd i economi Cymru. Fe wnaeth y Blaid Lafur, wrth gwrs, chwerthin am ben y syniad hwnnw, ac wedyn ei fabwysiadu, mewn rhyw ffordd, yn ddiweddarach.

Nid ydych chi wedi creu un gronfa, fel yr oedd Plaid Cymru yn ei argymhell, ond rydych chi yn cyfeirio at ddenu arian o'r farchnad ar gyfer prosiectau penodol, sef ffordd Blaenau'r Cymoedd, ysgolion yr unfed ganrif ar hugain a chanolfan ganser newydd Felindre. Felly, a gaf i ofyn i chi'n benodol faint o arian sydd wedi'i godi o'r farchnad hyd yn hyn, ar gyfer y prosiectau hynny?

Hefyd, pa gynnydd go iawn sydd wedi digwydd i ddenu arian o Fanc Buddsoddi Ewrop? Rydych chi wedi sôn cryn dipyn am hynny mewn datganiadau yn y gorffennol, felly pa gynnydd sydd wedi digwydd, hyd yn hyn? Pryd bydd yr arian hwnnw'n dechrau cyrraedd a ble bydd yn mynd?

This is a very joyous report. There are many happy faces. A great deal of food has been devoured and it's difficult to understand why there wouldn't be a general welcome for every new building, wherever that may be. But I do think that Nick Ramsay and his comparison with the Rolling Stones is incorrect. You are more like Bob Dylan, who never stops touring, of course, and has been doing so for many decades now.

There's no doubt that the reduction in the public funding available for capital projects is very real, and the task therefore is to create additional streams of capital in light of the real-terms cuts from Westminster. That is why Plaid Cymru, prior to the last election, pledged to create a Build 4 Wales company in order to attract funding from the market for capital projects, and to make the most, not only of the benefit for public services, but also the benefit for the Welsh economy. The Labour party, of course, were derisory in terms of that idea and then adopted it in another way later on.

You haven't created a single fund, as Plaid Cymru suggested, but you do refer to attracting funds from the market for specific projects, namely the Heads of the Valleys road, the twenty-first century schools project and the new Velindre Cancer Centre. So, can I ask you specifically how much money has been raised from the market to date, for those specific projects?

Also, what real progress has taken place in terms of attracting money from the European Investment Bank? You've mentioned that a great deal in previous statements, so what progress has been made to date? When will that funding start to arrive and where will it go?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

O safbwynt y cynllun metro, unwaith eto, rydym ni wedi clywed llawer iawn amdano, ond dim llawer o fanylion. A oes bwriad i ariannu'r cynllun metro trwy fecanwaith cyllido arloesol, neu ai trwy'r 'city deal' y daw'r arian ar gyfer y cynllun penodol hwnnw? A oes bwriad i greu cronfa debyg i'r 'city deal', neu gronfa sy'n dod o fecanwaith cyllido arloesol, ar gyfer gogledd Cymru neu unrhyw ran arall o Gymru, gan fod yna gronfa benodol ar gyfer y de-ddwyrain?

In terms of the metro scheme, once again, we've heard a great deal about this without having heard many details. Is there an intention to fund the metro programme through an innovative funding mechanism, or will the funds come through the city deal for that specific programme? Is there any intention to create a fund, similar either to the city deal or a fund that draws on innovative funding, for north Wales or any other part of Wales, as there is a specific fund for the south-east?

14:41

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr, Alun Ffred Jones. I'm glad you also recognise the importance of infrastructure investment and skills, of course, as the OECD—delivering to both recovery of the economy and to public service delivery. We have prioritised the allocation of over £1.3 billion from capital reserves to investments; that's to ensure we can deliver the greatest impact in terms of growth and jobs in Wales. Just looking at this year's budget, of course, we've included additional capital funding of £90 million in this financial year—£52 million is traditional capital and £38 million is financial transactions funding. This is as well as the additional £11 million for this last financial year. That's an important investment boost of over £100 million. That does take us to a total value in excess of £1 billion and, of course, it supports the creation and retention of around 1,400 jobs. But clearly, that has to be taken forward in terms of access to innovative finance, and indeed, the use of the European Investment Bank.

Last week, I attended and spoke at a European Investment Bank hub workshop on the European fund for strategic investments—the Juncker fund. They have welcomed the fact that we have grasped the opportunity to take this forward. One of the projects that they're particularly interested in supporting is the Velindre Cancer Centre for south-east Wales, as well as the Heads of the Valleys road. They're also very interested in Anglesey energy island and we were the first place in the UK where they came, because of our interest and my engagement with the vice-president, Jonathan Taylor, only a few weeks ago at the Swansea innovation campus. So, we are clearly engaging very closely in terms of the opportunities that any source of funding, particularly the EIB, can deliver.

You also recognised the opportunities from the proposed city deal. We hope we'll have some good news tomorrow. Of course, we do expect that the offer that we're making to match £580 million infrastructure investment will be put on the table, and of course, we'd certainly expect that to include the metro in terms of its opportunities and focus on connectivity. But this is not just—. This is the start. I mean, Swansea bay is already interested in a city deal, and I've had very close working with the north Wales economic ambition board, who are also, of course, engaging with the northern powerhouse.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch yn fawr, Alun Ffred Jones. Rwy'n falch eich bod chithau hefyd yn cydnabod pwysigrwydd buddsoddi mewn seilwaith a sgiliau, wrth gwrs, fel y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd—yn cyflawni o ran adfywio'r economi a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Rydym wedi blaenoriaethu dyrannu £1.3 biliwn o gronfeydd cyfalaf i fuddsoddiadau; mae hynny er mwyn sicrhau y gallwn gael yr effaith fwyaf o ran twf a swyddi yng Nghymru. Dim ond wrth edrych ar gyllideb eleni, wrth gwrs, rydym wedi cynnwys cyllid cyfalaf ychwanegol o £90 miliwn yn y flwyddyn ariannol hon—£52 miliwn ohono'n gyfalaf traddodiadol a £38 miliwn yn gyllid trafodion ariannol. Mae hyn yn ogystal â'r £11 miliwn ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf hon. Mae hynny'n hwb pwysig mewn buddsoddiad o dros £100 miliwn. Mae hynny'n mynd â ni at gyfanswm sydd werth mwy na £1 biliwn ac, wrth gwrs, mae'n cefnogi creu a chadw oddeutu 1,400 o swyddi. Ond yn amlwg, mae'n rhaid dwyn hynny ymlaen o ran gallu cael gafael ar gyllid arloesol, ac yn wir, defnyddio Banc Buddsoddi Ewrop.

Yr wythnos diwethaf, roeddwn yn bresennol a bûm yn siarad mewn gweithdy canolog Banc Buddsoddi Ewrop ar y gronfa Ewropeaidd ar gyfer buddsoddi strategol— y gronfa Juncker. Maent wedi croesawu'r ffaith ein bod wedi manteisio ar y cyfle i symud hon ymlaen. Un o'r prosiectau y mae ganddynt ddi-ddordeb arbennig mewn ei gefnogi yw Canolfan Ganser Felindre ar gyfer y de-ddwyrain, yn ogystal â ffordd Blaenau'r Cymoedd. Mae ganddynt hefyd ddi-ddordeb mawr yn ynys ynni Ynys Môn ac ni oedd y lle cyntaf yn y DU y daethant iddo, oherwydd ein diddordeb a'm hymgysylltiad â'r is-lywydd, Jonathan Taylor, dim ond ychydig wythnosau yn ôl ar gampws arloesedd Abertawe. Felly, mae'n glir ein bod yn ymgysylltu'n agos iawn o ran y cyfleoedd y gall unrhyw ffynhonnell gyllid, yn enwedig Banc Budsoddi Ewrop, eu darparu.

Gwnaethoch hefyd gydnabod y cyfleoedd o'r cynllun dinas arfaethedig. Rydym yn gobeithio y byddwn yn cael rhywfaint o newyddion da yfory. Wrth gwrs, rydym yn disgwyl y bydd y cynnig yr ydym yn ei wneud i roi swm cyfatebol i'r buddsoddiad seilwaith £580 miliwn yn cael ei gynnwys, ac wrth gwrs, byddem yn sicr yn disgwyl bod hynny'n cynnwys y metro o ran ei gyfleoedd a'i bwyslais ar gysylltedd. Ond nid yw hyn yn unig—. Y dechrau yw hyn. Wyddoch chi, mae bae Abertawe eisoes â diddordeb yn y cynllun dinas, ac rwyf wedi gweithio'n agos iawn â bwrdd uchelgais economaidd y gogledd, sydd hefyd, wrth gwrs, yn ymgysylltu â'r pwerdy gogleddol.

So, there are huge opportunities, but I would say that, in terms of the response on the tour, I think the most important parts of those visits that I made were the actual meetings that I had with people on the front line where we discussed with them their priorities, what they felt were opportunities, what they felt we should safeguard, and they were people on the front line delivering our services, as well as going out, then, and seeing what the impact of our spend has been.

Felly, mae cyfleoedd enfawr, ond byddwn yn dweud, o ran yr ymateb ar y daith, fy mod yn credu mai'r rhannau mwyaf pwysig o'r ymweliadau hynny a wneuthum oedd y cyfarfodydd go iawn a gefais gyda phobl ar y rheng flaen pryd y buom yn trafod eu blaenoriaethau, yr hyn yr oeddent yn ystyried yn gyfleoedd, yr hyn yr oeddent yn teimlo y dylem ei ddiogelu, ac roedd y rhain yn bobl ar y rheng flaen sy'n darparu ein gwasanaethau, yn ogystal â mynd allan, wedyn, a gweld beth fu effaith ein gwariant.

14:44 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I first off say that Labour was not responsible for the world banking crisis? Austerity is not working. When political commentators and historians look back on the 2010-20 period, they'll be as bemused as we are today looking back on the Governments in the 1920s and early 1930s clinging to the gold standard despite the damage it was doing to the economy. Flying Start is making a contribution to children's attainment in Swansea East. The twenty-first century schools programme is providing new schools for old. I, along with Peter Black, attended the official opening of Burlais school last Friday. New affordable homes are being built in my constituency, boosting the economy and providing much-needed homes in the area. I'm pleased that the Minister highlights the importance of social care.

A gaf i ddweud yn gyntaf nad Llafur oedd yn gyfrifol am argyfwng bancio'r byd? Nid yw cyni yn gweithio. Pan fydd sylwebyddion gwleidyddol a haneswyr yn edrych yn ôl ar gyfnod 2010-20, byddant yr un mor ddryslud ac yr ydym ni heddiw wrth edrych yn ôl ar y Llywodraethau yn y 1920au a'r 1930au cynnar yn glynu at y safon aur er gwaethaf y niwed yr oedd yn ei wneud i'r economi. Mae Dechrau'n Deg yn gwneud cyfraniad at gyrhaeddiad plant yn Nwyrain Abertawe. Mae rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain yn darparu ysgolion newydd yn lle'r hen rai. Roeddwn i, ynghyd â Peter Black, yn bresennol yn agoriad swyddogol ysgol Burlais ddydd Gwener diwethaf. Mae tai fforddiadwy newydd yn cael eu hadeiladu yn fy etholaeth i, gan roi hwb i'r economi a darparu cartrefi y mae gwir eu hangen yn yr ardal. Rwy'n falch bod y Gweinidog yn tynnu sylw at bwysigrwydd gofal cymdeithasol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I have three questions for the Minister. Does the Minister agree it is time to end the failed austerity policy and replace it with a commitment to economic growth? Will the Minister make a commitment to a continuation of the Welsh Government's commitment to health and social care, because the Welsh Government up till now has realised the importance of social care in ensuring that people can be released from hospital back into their own homes and, in many cases, do not end up going to hospital in the first place? Finally, will the Minister keep on pushing for the tidal lagoon, which is hugely important to my constituency?

Mae gennyf dri chwestiwn i'r Gweinidog. A yw'r Gweinidog yn cytuno ei bod yn bryd i roi terfyn ar y polisi cyni sydd wedi methu ac ymrwymo i dwf economaidd yn hytrach? A wnaiff y Gweinidog ymrwymo i barhau ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i iechyd a gofal cymdeithasol, gan fod Llywodraeth Cymru hyd yn hyn wedi sylweddoli pwysigrwydd gofal cymdeithasol o ran sicrhau y gall pobl gael eu rhyddhau o'r ysbyty yn ôl i'w cartrefi eu hunain ac, mewn llawer o achosion, nid ydynt yn y pen draw yn mynd i'r ysbyty yn y lle cyntaf? Yn olaf, a wnaiff y Gweinidog parhau i frwydro am y morlyn llanw, sy'n hynod bwysig i fy etholaeth i?

14:46 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much, Mike, for those three questions. Yes, there should be an end to the failed austerity policy. I'm not the only one who says this, as Minister for finance in Wales for the last six years; the ONS chief economist has acknowledged this is the slowest recovery from recession on record. Let's remember this is a Chancellor who was responsible for the omnishambles budget. Remember that—the nasty taxes. But only a few weeks ago, in terms of his ill-thought-out and unfair attack on working people in terms of tax credits, it was thrown back as a result of the House of Lords. As the First Minister has said, the IFS have said we're going to lose £580 million in Wales as a result of tax and benefit changes. This is a failed austerity policy, which we have tried to counteract with an economic stimulus approach.

Diolch yn fawr iawn, Mike, am y tri chwestiwn yna. Ie, dylai fod terfyn ar y polisi cyni sydd wedi methu. Nid fi yw'r unig un sy'n dweud hyn, fel Gweinidog Cyllid Cymru am y chwe blynedd diwethaf; mae prif economegydd yr ONS yn cydnabod mai hwn yw'r adferiad mwyaf araf o ddirwasgiad yn ein hanes. Gadewch i ni gofio mae hwn yw'r Canghellor a oedd yn gyfrifol am y gyllideb 'omnishambles'. Ydych chi'n cofio honno—y trethi ar bastai. Ond dim ond rai wythnosau yn ôl, o ran ei ymosodiad di-feddwl ac annheg ar bobl sy'n gweithio o ran credydau treth, cafodd ei wrthod o ganlyniad i Dŷ'r Arglwyddi. Fel y dywedodd y Prif Weinidog, mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid wedi dweud ein bod yn mynd i golli £580 miliwn yng Nghymru o ganlyniad i newidiadau mewn treth a budd-daliadau. Mae hwn yn bolisi cyni sydd wedi methu, yr ydym wedi ceisio ei wrthsefyll gydag ymagwedd sy'n sbarduno'r economi.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Yes, I will continue to back and boost, in the resources I will have in terms of tomorrow, health and social care and improving on the record. I also pay tribute to the work that we did in terms of that budget agreement on the intermediate care fund, in terms of health, social care and housing. Delayed transfers of care are way down in Wales compared with England, where people are in beds because there's no social care left. I am going to, of course, continue to back the tidal lagoon in Swansea.

Ie, byddaf yn parhau i gefnogi a rhoi hwb, drwy'r adnoddau y bydd gennyf o gofio yfory, i iechyd a gofal cymdeithasol a gwella ar eu hanes. Rwyf hefyd yn talu teyrnged i'r gwaith a wnaethom o ran y cytundeb cyllideb hwnnw ar y gronfa gofal canolraddol; o ran iechyd, gofal cymdeithasol a thai. Mae oedi wrth drosglwyddo gofal yn llawer is yng Nghymru o'i gymharu â Lloegr, lle mae pobl mewn gwelyau gan nad oes gofal cymdeithasol ar ôl. Byddaf, wrth gwrs, yn parhau i gefnogi'r morlyn llanw yn Abertawe.

14:47

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm afraid Nick Ramsay took all the jokes about being on tour, but I very much admire, Minister, the way you've managed to pre-empt the Chancellor of the Exchequer by doing your statement the day before his comprehensive spending review. No doubt, he'll be greatly influenced by your approach.

Minister, I notice in your statement you very much stress the preventative approach to investment, and you say that's been a theme of recent budgets. The issue, I think, that I have and I know the Finance Committee have in their various reports is that some of the items of expenditure that we consider to be very strong preventative spend, such as Supporting People and care and repair have actually ended up being cut nevertheless. What we're looking for from you, when you publish your draft budget in two weeks' time, is a commitment from the Welsh Government to make sure that the next budget really is one about preventative spend, making sure that revenue streams such as Supporting People and Care and Repair Cymru actually are protected and are there to make a difference to ensure that, further down the line, other budgets will be saved as a result of that. I don't really expect you to answer that now, because, clearly, you'll do that when you publish your budget, but I hope you're able to take that on board, Minister.

I noticed, too, that you went to west Wales to visit a Flying Start centre in Aberporth, and I'm sure that is an outstanding example of what can be done through Flying Start. I was disappointed you didn't come up the Afan valley, Minister, to Croeserw and Glyncoed, which are without their Flying Start because of decisions taken by Neath Port Talbot council, to talk to parents there about how they are not getting the provision, which has been funded by the Welsh Government but is not being delivered by the local council. Perhaps next time you could come to those communities that are suffering where Welsh Government provision is not being passed on by local government in that way.

We're having a debate on affordable housing later on today, but I very much welcome, of course, the extra investment in affordable homes and in social housing. But, do you accept, Minister, that we now need to start meeting the targets set by the late Professor Holmans in terms of trying to deliver 5,100 social homes every year, and that we, therefore, need to effectively double that target in the next Assembly to do that? Will you make a commitment, on behalf of the Labour Party, to do that, as I've done on behalf of the Welsh Liberal Democrats?

Mae arnaf ofn bod Nick Ramsay wedi dwyn yr holl jôcs am fod ar daith, ond yr wyf yn edmygu'n fawr, Weinidog, y ffordd yr ydych wedi llwyddo i achub y blaen ar Ganghellor y Trysorlys trwy wneud eich datganiad y diwrnod cyn ei adolygiad cynhwysfawr o wariant. Nid oes amheuaeth y bydd yn cael ei ddylanwadu yn helaeth gan eich dulliau chi.

Weinidog, sylwaf yn eich datganiad eich bod yn pwysleisio'r dull ataliol i fuddsoddi yn fawr iawn, ac rydych yn dweud bod hynny wedi bod yn thema cyllidebau diweddar. Y broblem sydd gennyf, rwy'n credu, ac rwyf yn gwybod sydd gan y Pwyllgor Cyllid yn ei adroddiadau amrywiol yw bod rhai o'r eitemau o wariant sydd yn ein barn ni yn wariant ataliol cryf iawn, megis Cefnogi Pobl a gofal a thrwsio wedi eu cwtogi yn y pen draw fodd bynnag. Yr hyn yr ydym yn chwilio amdano gennych chi, pan fyddwch yn cyhoeddi eich cyllideb ddrafft ymhen pythefnos, yw ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y gyllideb nesaf mewn gwirionedd yn ymwneud â gwariant ataliol, gan sicrhau bod ffrydiau refeniw megis Cefnogi Pobl a Gofal a Thrwsio Cymru mewn gwirionedd yn cael eu diogelu a'u bod yno i wneud gwahaniaeth i sicrhau, yn y pen draw, y bydd cyllidebau eraill yn cael eu harbed o ganlyniad i hynny. Nid wyf mewn gwirionedd yn disgwyl i chi ateb hynny yn awr, oherwydd, yn amlwg, byddwch yn gwneud hynny pan fyddwch yn cyhoeddi eich cyllideb, ond rwyf yn gobeithio y byddwch yn gallu ystyried hynny, Weinidog.

Sylwais, hefyd, eich bod wedi mynd i'r gorllewin i ymweld â chanolfan Dechrau'n Deg yn Aberporth, ac rwyf yn sicr bod honno'n enghraifft ragorol o'r hyn y gellir ei wneud drwy Dechrau'n Deg. Roeddwn yn siomedig na ddaethoch i Gwm Afan, Weinidog, i Groeserw na Glyncoed, nad oes ganddynt wasanaeth Dechrau'n Deg o ganlyniad i benderfyniadau a wnaed gan gyngor Castell-nedd Port Talbot, i siarad â rhieni yno am y ffordd nad ydynt yn cael y ddarpariaeth, sydd wedi ei hariannu gan Lywodraeth Cymru, ond nad yw'n cael ei darparu gan y cyngor lleol. Efallai y tro nesaf y gallech chi ddod i'r cymunedau hynny sy'n dioddef lle nad yw darpariaeth Llywodraeth Cymru yn cael ei throsglwyddo gan lywodraeth leol yn y ffordd honno.

Rydym yn cael dadl ar dai fforddiadwy yn ddiweddarach heddiw, ond rwyf yn croesawu'n fawr iawn, wrth gwrs, y buddsoddiad ychwanegol mewn tai fforddiadwy ac mewn tai cymdeithasol. Ond, a ydych chi'n derbyn, Weinidog, bod angen i ni bellach ddechrau cyrraedd y targedau a osodwyd gan y diweddar Athro Holmans o ran ceisio darparu 5,100 o dai cymdeithasol bob blwyddyn, ac, felly, bydd yn rhaid i ni ddyblu'r targed hwnnw mewn gwirionedd yn y Cynulliad nesaf i wneud hynny? A wneuch chi ymrwymo, ar ran y Blaid Lafur, i wneud hynny, fel yr wyf i wedi ei wneud ar ran Democratiaid Rhyddfrydol Cymru?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, I very much, again, welcome the intermediate care fund. As you know, Jocelyn Davies and I negotiated that with you as part of the budget deal that we did between the three parties on that. I'm disappointed that we haven't really taken that forward in any huge numbers. We've obviously had a slight tapering off of that, but I think we do need to invest in that. I'm also concerned about this continued repetition that the additional £10 million for local government social services is somehow making things better. That £10 million, of course, is roughly the deficit on the overspend on social services by most probably one council the size of Swansea, Rhondda Cynon Taf or Cardiff. Clearly, there's a lot more money going into social services, and I understand that we've got a lot of competing priorities. I understand that you want to bolster the health budget, but this is another example of preventative spend, because, if you invest in social services, then you will be able to save money in the health service down the line. I do think that we need to have a more balanced approach to this investment in health to take account of social services, rather than just a token £10 million here and there, which is what we've had so far.

Finally, Minister, I'd like to reflect the words of Mike Hedges. I very much enjoyed the opening of Burlais primary school, which is an outstanding new school and certainly a testament to the investment that has gone into new schools. Obviously, we always want to see more of that, but again, I share Mike Hedges' concern about the tidal lagoon. My understanding is that talks are still ongoing on the tidal lagoon in terms of the strike price or how much the Government is going to pay for the electricity. We do need to put a lot more pressure on the UK Government about that. I also have concerns about electrification of the main line as well. We're still waiting for an announcement on what exactly is going to happen on that, and there are concerns in Swansea that the Government will abandon that Cardiff-to-Swansea leg as part of that, which I think would be an absolute disaster not just for Wales but also for the South Wales West region. I think, Minister, if you have any information on that, it would be very much appreciated if you could pass that on to us. Thank you.

Weinidog, rwyf, unwaith eto, yn croesawu'r gronfa gofal canolraddol yn fawr iawn. Fel y gwyddoch, trafododd Jocelyn Davies a minnau hynny â chi yn rhan o'r cytundeb cyllideb a wnaethom rhwng y tair plaid ar hynny. Rwy'n siomedig nad ydym wedi symud hynny ymlaen mewn unrhyw rifau enfawr. Mae'n amlwg y bu rhywfaint o leihad graddol yn hynny o beth, ond rwyf yn credu bod arnom angen buddsoddi yn hynny. Rwyf hefyd yn pryderu am yr ailadrodd parhaus hwn bod y £10 miliwn ychwanegol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol llywodraeth leol rywsut yn gwneud pethau'n well. Y £10 miliwn hwnnw, wrth gwrs, yw'r diffyg yn fras yn y goriant ar wasanaethau cymdeithasol gan yn fwy na thebyg un cyngor sydd o'r un maint ag Abertawe, Rhondda Cynon Taf neu Gaerdydd. Yn amlwg, mae llawer mwy o arian yn mynd i mewn i wasanaethau cymdeithasol, ac rwyf yn deall bod gennym lawer o flaenoriaethau sy'n cystadlu. Rwyf yn deall eich bod yn dymuno atgyfnerthu'r gyllideb iechyd, ond enghraifft arall yw hyn o wariant ataliol, oherwydd, os ydych yn buddsoddi mewn gwasanaethau cymdeithasol, wedyn byddwch yn gallu arbed arian yn y gwasanaeth iechyd yn pen draw. Rwyf yn credu bod angen inni gael ymagwedd fwy cytbwys i'r buddsoddiad hwn mewn iechyd i gynnwys y gwasanaethau cymdeithasol, yn hytrach na dim ond £10 miliwn symbolaidd fan hyn a fan draw, sef yr hyn yr ydym wedi ei gael hyd yn hyn.

Yn olaf, Weinidog, hoffwn adlewyrchu geiriau Mike Hedges. Mwynheais agor ysgol gynradd Burlais yn fawr iawn, sy'n ysgol newydd ragorol ac yn sicr yn dystiolaeth o'r buddsoddiad sydd wedi ei wneud mewn ysgolion newydd. Yn amlwg, rydym bob amser yn awyddus i weld mwy o hynny, ond unwaith eto, rwyf yn rhannu pryder Mike Hedges am y morlyn llanw. Fy nealltwriaeth yw bod trafodaethau yn dal i fynd ymlaen am y morlyn llanw o ran y pris streic neu faint fydd y Llywodraeth yn ei dalu am drydan. Mae angen i ni roi llawer mwy o bwysau ar Lywodraeth y DU ynglŷn â hynny. Rwyf hefyd yn pryderu am drydaneiddio'r brif reilffordd yn ogystal. Rydym yn dal i aros am gyhoeddiad ar beth yn union fydd yn digwydd ynglŷn â hynny, ac mae pryderon yn Abertawe na fydd y Llywodraeth yn cefnogi'r rheilffordd o Gaerdydd i Abertawe yn rhan o hynny, ac rwyf yn credu y byddai hyn yn drychineb llwyr nid yn unig i Gymru ond hefyd i ranbarth Gorllewin De Cymru. Rwyf yn credu, Weinidog, os oes gennych unrhyw wybodaeth am hynny, byddem yn gwerthfawrogi'n fawr iawn pe gallech rannu hynny â ni. Diolch.

14:52

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, thank you, Peter Black. I'm glad—I think I made a statement in a similar way last year—that my statement this afternoon, albeit on my budget tour, has provided Members with the time and space to actually raise their concerns about the spending review announcement by the Chancellor tomorrow, and to put out again their priorities and make clear how difficult it will be in terms of those choices. Because I would say, when you are actually in charge, Peter Black, and when you are in charge of a budget, as I have been, it's about priorities, isn't it? You can't do it all, as you know. We've certainly debated this in terms of our budget discussions over the years. It's also, very importantly, about prevention. I think we've been driven by the reductions in our budgets to look much more carefully, closely and rigorously at preventative spend. I very much welcome the third sector's engagement with this. I met with the third sector last week. They are taking on board the evidence across the UK and from the early intervention policy forum on prevention. I know that it will form very much part of the scrutiny of the budget through the Finance Committee. Also, it underpins the wellbeing of future generations Act in terms of the ways in which we've looked at the preventative spend in this difficult preparation for this budget.

So, in terms of all the areas of spend that you would like to protect, we have to set those against: what is the impact; what is the preventative impact in terms of that spend; and how can we ensure that it meets the Welsh Government's priority not just in terms of jobs and growth, but in terms of tackling disadvantage and supporting educational attainment? I think, also, we have got the opportunity to build on successful schemes, like the intermediate care fund. That £20 million now is in the budget. It isn't a one-off, and it will continue. I'm sure that will be a model for joint working at a local level.

14:54

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You refer repeatedly to economic history. At the time of the credit crunch, the UK had the biggest deficit in the G20. Within the EU, it's exceeded only by Ireland and Greece. Ireland followed a path of prudent deficit reduction, and its economy is growing. Greece did the opposite and faced bigger cuts. How will you justify the bigger cuts that result from the economic path that you repeatedly advocate?

14:54

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I find that to be an extraordinary question, Mark Isherwood, and it is really not worth a reply. Except, perhaps, you could be asking that question of your Chancellor, as he stands up tomorrow and, we predict, makes £37 billion-worth of cuts over the next spending review.

Daeth Sandy Mewies i'r Gadair.

14:55

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Wel, diolch i chi, Peter Black. Rwyf yn falch—credaf i mi wneud datganiad tebyg y llynedd—bod fy natganiad y prynhawn yma, er bod hynny ar fy nhaith gyllideb, wedi rhoi amser a lle i'r Aelodau godi eu pryderon mewn gwirionedd ynglŷn â'r cyhoeddiad adolygiad o wariant gan y Canghellor yfory, ac i ddangos eu blaenoriaethau unwaith eto a'i gwneud yn glir pa mor anodd y bydd hi o ran y dewisiadau hynny. Oherwydd byddwn i'n dweud, pan eich bod mewn gwirionedd yn gyfrifol, Peter Black, a phan eich bod yn gyfrifol am gyllideb, fel y bŵm i, mae'n ymwneud â blaenoriaethau, onid yw? Ni allwch wneud y cyfan, fel y gwyddoch. Rydym yn sicr wedi trafod hyn yn ein trafodaethau am y gyllideb dros y blynyddoedd. Mae hefyd, yn bwysig iawn, yn ymwneud ag atal. Credaf ein bod wedi cael ein dylanwadu gan y gostyngiadau yn ein cyllidebau i edrych yn llawer mwy gofalus, yn agosach ac yn fwy trwyadl ar wariant ataliol. Rwyf yn croesawu ymgysylltiad y trydydd sector â hyn yn fawr iawn. Cyfarfŵm â'r trydydd sector yr wythnos diwethaf. Maent yn ystyried y dystiolaeth ar draws y DU ac o'r fforwm polisi ymyrraeth gynnar ar atal. Gwn y bydd yn ffurfio rhan ganolog o'r gwaith o graffu ar y gyllideb drwy'r Pwyllgor Cyllid. Mae hefyd yn sail i'r Ddeddf Llesiant cenedlaethau'r dyfodol o ran y ffyrdd yr ydym wedi edrych ar y gwariant ataliol yn ystod y paratoad anodd hwn ar gyfer y gyllideb hon.

Felly, o ran yr holl feysydd gwariant yr hoffech eu diogelu, mae'n rhaid i ni eu gosod yn erbyn: beth yw'r effaith; beth yw'r effaith ataliol o ran y gwariant hwnnw; a sut y gallwn ni sicrhau ei fod yn bodloni blaenoriaeth Llywodraeth Cymru nid yn unig o ran swyddi a thwf, ond o ran mynd i'r afael ag anfantais a chefnogi cyrhaeddiad addysgol? Rwyf yn credu, hefyd, bod y cyfle gennym i adeiladu ar gynlluniau llwyddiannus, fel y gronfa gofal canolraddol. Mae'r £20 miliwn hwnnw bellach yn y gyllideb. Nid yw'n rhywbeth untro, a bydd yn parhau. Rwyf yn siŵr y bydd hynny yn batrwm ar gyfer gweithio ar y cyd ar lefel leol.

Rydych yn cyfeirio dro ar ôl dro at hanes economaidd. Ar adeg y wasgfa gredyd, roedd gan y DU y diffyg mwyaf yn yr y G20. O fewn yr UE, dim ond Iwerddon a Gwlad Groeg sydd â diffyg mwy. Dilynodd Iwerddon lwybr doeth er mwyn lleihau'r diffyg, ac mae ei heconomi yn tyfu. Gweithredodd Gwlad Groeg i'r gwrthwyneb ac wynebodd doriadau mwy. Sut y byddwch yn cyfiawnhau'r toriadau mwy sy'n deillio o'r llwybr economaidd yr ydych yn ei gefnogi dro ar ôl tro?

Wel, rwyf yn ystyried hwnnw'n gwestiwn rhyfedd iawn, Mark Isherwood, ac nid yw wir yn werth ei ateb. Heblaw, efallai, y gallech fod yn gofyn y cwestiwn yna i'ch Canghellor chi, wrth iddo sefyll ar ei draed yfory a, rydym yn rhagweld, gwneud gwerth £37 biliwn o doriadau dros yr adolygiad o wariant nesaf.

Sandy Mewies took the Chair.

Diolch yn fawr, Weinidog.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:55

4. Datganiad: Nodau'r Cenhedloedd Unedig a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Item 4 is a statement by the Minister for Natural Resources on the UN goals and the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015. I call on the Minister for Natural Resources, Carl Sargeant.

14:55

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources

Thank you, acting Presiding Officer. I am proud to be able to have brought forward the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 earlier this year. Wales took a bold step when we introduced this law, but the UN's adoption of the global goals underlines that we are not acting alone and can provide an example of what can be done. Wales, with the wider world, faces a number of fundamental challenges, such as climate change, poverty and health inequalities. But there are also opportunities through green growth to create jobs and prosperity and to secure a bright, long-term future.

The United Nations' 17 global goals means that every country on the planet will have to take action to end poverty, promote prosperity and wellbeing for all, protect the environment, and address climate change. Those goals are meant to be far-reaching, people-centred, universal and transformative. UN member states have committed to working tirelessly towards their implementation by 2030, and Wales will play its part in ensuring they're met. The UN emphasises that this will be a collective journey and that no one will be left behind, with every effort made to reach the furthest behind first. This is an approach consistent with our Welsh values of fairness.

The UN goals were the result of over two years of intensive public consultation and engagement with civil society and other stakeholders around the world. Particular attention was paid to the voices of the poorest and most vulnerable. Similarly, Wales's wellbeing goals, which provided the vision for 'The Wales We Want', came through a series of conversations, led by the public. These conversations have been transformed to create a common purpose for our public bodies in Wales: seven wellbeing goals, wedded in a process developed from the bottom up and designed to resonate with those global goals. Crucially, climate change came out of this national conversation as the greatest long-term challenge we face. The Act therefore provides a framework for us to take action collectively on this critical issue.

4. Statement: The United Nations Goals and the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 4 yw datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol am nodau'r Cenhedloedd Unedig a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Carl Sargeant.

Diolch, Lywydd dros dro. Rwy'n falch o allu bod wedi cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gynharach eleni. Cymerodd Gymru gam beiddgar wrth gyflwyno'r gyfraith hon, ond mae'r ffordd y mae'r Cenhedloedd Unedig wedi mabwysiadu'r nodau byd-eang yn tanlinellu'r ffaith nad ydym yn gweithredu ar ein pennau ein hun ac y gallwn ddarparu enghraifft o'r hyn y gellir ei wneud. Mae Cymru, ynghyd â'r byd ehangach, yn wynebu nifer o heriau sylfaenol, fel newid yn yr hinsawdd, tlodi ac anghydraddoldebau iechyd. Ond ceir cyfleoedd hefyd drwy dwf gwyrdd i greu swyddi a ffyniant ac i sicrhau dyfodol disglair, hirdymor.

Mae 17 nod byd-eang y Cenhedloedd Unedig yn golygu y bydd yn rhaid i bob gwlad ar y blaned gymryd camau i roi terfyn ar dlodi, hyrwyddo ffyniant a lles i bawb, gwarchod yr amgylchedd, ac ymdrin â newid yn yr hinsawdd. Bwriedir i'r nodau hynny fod yn bellgyrhaeddol, yn canolbwyntio ar bobl, yn gyffredinol ac yn drawsnewidiol. Mae aelod-wladwriaethau'r Cenhedloedd Unedig wedi ymrwymo i weithio'n ddiflino i'w rhoi ar waith erbyn 2030, a bydd Cymru yn chwarae ei rhan o ran sicrhau y cânt eu bodloni. Mae'r Cenhedloedd Unedig yn pwysleisio mai taith gyda'n gilydd fydd hon, ac na chaiff neb ei adael ar ôl, ac y gwneir pob ymdrech i gyrraedd y rheini sydd bellaf ar ei hôl hi yn gyntaf. Mae'r ymagwedd hon yn gyson â'n gwerthoedd Cymreig o degwch.

Roedd nodau'r Cenhedloedd Unedig yn ganlyniad i dros ddwy flynedd o ymgynghori cyhoeddus dwys ac ymgysylltu â chymdeithas sifil a rhanddeiliaid eraill o amgylch y byd. Rhoddwyd sylw arbennig i leisiau'r bobl dlotaf a mwyaf agored i niwed. Yn yr un modd, daeth nodau lles Cymru, a ddarparodd y weledigaeth ar gyfer 'Y Gymru a Garem', drwy gyfres o sgysiaau, dan arweiniad y cyhoedd. Mae'r sgysiaau hyn wedi eu trawsnewid i greu diben cyffredin ar gyfer ein cyrff cyhoeddus yng Nghymru: saith nod lles, mewn proses a ddatblygwyd o'r gwaelod i fyny ac sydd wedi'i chynllunio i atseinio'r nodau byd-eang hynny. Yn hollbwysig, daeth newid yn yr hinsawdd allan o'r sgwrs genedlaethol hon fel yr her hirdymor fwyaf sy'n ein hwynebu. Mae'r Ddeddf felly yn darparu fframwaith er mwyn i ni allu cymryd camau ar y cyd ar y mater hollbwysig hwn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Next month, I will be representing Wales as a formal member of the UK delegation to the Conference of the Parties gathering in Paris, to illustrate how this vital aspect of the global goals and the Act is being addressed. I will be highlighting the critical role that regional and subnational governments can play in the delivery of meaningful action to tackle climate change in a substantial way and in a sustainable way. I will be looking to build on Wales's global reputation as a pioneer on sustainable development and showcase the Act and forthcoming action in the Environment (Wales) Bill to a global audience. The Paris conference is an opportunity to explain how Wales is leading the way in showing how a subnational Government is already putting into practice, through its legislative programme, the UN's objectives in terms of the Commission on Sustainable Development, the Convention on Biological Diversity, and the Framework Convention on Climate Change.

The Act has been designed to add value over a wide range of issues. Notably, it's a very important piece of legislation for public health, as it aims to encourage wider thinking and embed a shared vision for a sustainable Wales at the core of public services. It also puts in place a legal framework where health and equality are on par with societal wellbeing goals such as the economy and the environment. This mirrors a health-in-all-policies approach in Wales, as it means that the Welsh public service will need to systematically take into account the health implications of decisions, seek synergies, and avoid harmful health impacts in order to improve population health and health equity.

While the climate negotiations and action around health highlight an approach at a high level, the wellbeing goals also provide the context for how, at a community level, Wales is making a difference to those most vulnerable from climate change and extreme poverty. Through the Wales for Africa programme, we have taken a distinctive Welsh approach to international development, building on our understanding of collaboration and mutual benefit. Initially designed as a contribution to deliver the millennium development goals, the programme is now focusing on the global goals of our wellbeing goals. The Hub Cymru Africa, Size of Wales and relationships developed with the regions of Lesotho have allowed communities across Wales to make a positive contribution to that wellbeing goal.

When Desmond Tutu visited Wales in 2012, he told us, in the context of Wales for Africa, that the people of Wales had big hearts and that although they're part of a small country, they kick like a mule. The Act adds a boost to that kick.

Y mis nesaf, byddaf yn cynrychioli Cymru fel aelod ffurfiol o ddirprwyaeth y DU i gynulliad Cynhadledd y Pleidiau ym Mharis, i ddangos sut yr ydym yn rhoi sylw i'r agwedd hanfodol hon ar y nodau byd-eang ac i'r Ddeddf. Byddaf yn tynnu sylw at y rhan hollbwysig y gall llywodraethau rhanbarthol ac is-genedlaethol ei chwarae o ran cymryd camau ystyrlon i ymdrin â newid yn yr hinsawdd mewn ffordd sylweddol ac mewn ffordd gynaliadwy. Byddaf yn ceisio adeiladu ar enw da byd-eang Cymru fel arloeswr ym maes datblygu cynaliadwy ac arddangos y Ddeddf a'r camau sydd ar y gweill o fewn Bil yr Amgylchedd (Cymru) i gynulleidfa fyd-eang. Mae'r gynhadledd ym Mharis yn gyfle i esbonio sut y mae Cymru yn arwain y ffordd wrth ddangos sut mae Llywodraeth is-genedlaethol eisoes yn rhoi ar waith, drwy ei rhaglen ddeddfwriaethol, amcanion y Cenhedloedd Unedig o ran y Comisiwn ar Ddatblygu Cynaliadwy, y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol, a'r Confensiwn Fframwaith ar Newid yn yr Hinsawdd.

Cafodd y Ddeddf ei chynllunio i ychwanegu gwerth dros ystod eang o faterion. Yn benodol, mae'n ddarn pwysig iawn o ddeddfwriaeth i iechyd y cyhoedd, gan ei fod yn ceisio sicrhau bod annog meddwl ehangach ac ymgorffori gwledigaeth a rennir ar gyfer Cymru gynaliadwy wrth wraidd gwasanaethau cyhoeddus. Mae hefyd yn sefydlu fframwaith cyfreithiol lle mae iechyd a chydarddoldeb yn gydradd â nodau lles cymdeithasol fel yr economi a'r amgylchedd. Mae hyn yn adlewyrchu dull 'iechyd ym mhob polisi' yng Nghymru, gan ei fod yn golygu y bydd angen i'r gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru ystyried yn systematig beth yw goblygiadau penderfyniadau i iechyd, chwilio am synergeddau, ac osgoi effeithiau niweidiol ar iechyd er mwyn gwella iechyd y boblogaeth a chydarddoldeb iechyd.

Er bod y trafodaethau am yr hinsawdd a'r camau sy'n ymwneud ag iechyd yn dangos gweithredu ar lefel uchel, mae'r nodau lles hefyd yn darparu'r cyd-destun ar gyfer sut, ar lefel gymunedol, mae Cymru yn gwneud gwahaniaeth i'r bobl fwyaf agored i niwed oherwydd newid yn yr hinsawdd a thlodi eithafol. Drwy'r rhaglen Cymru o Blaid Affrica, rydym wedi cymryd ymagwedd Gymreig unigryw at ddatblygu rhyngwladol, gan adeiladu ar ein dealltwriaeth o gydweithio a budd i'r ddwy ochr. Cynlluniwyd y rhaglen yn wreiddiol fel cyfraniad at gyflawni amcanion datblygu'r mileniwm, ac mae nawr yn canolbwyntio ar nodau byd-eang ein nodau lles. Mae Hwb Cymru Affrica, Maint Cymru a pherthnasoedd a ddatblygwyd gyda rhanbarthau Lesotho wedi caniatáu i gymunedau ledled Cymru wneud cyfraniad cadarnhaol at y nod lles hwnnw.

Pan ymwelodd Desmond Tutu â Chymru yn 2012, dywedodd wrthym, yng nghyd-destun Cymru o Blaid Affrica, fod gan bobl Cymru galonnau mawr ac er eu bod yn rhan o wlad fechan, eu bod yn cicio fel mul. Mae'r Ddeddf yn ychwanegu hwb i'r gic honno.

To measure progress against the sustainable development goals, world leaders have committed that they will be monitored through global, national and regional indicators. Our own national indicators mean we are ahead of the game. We have established a draft set of 40 indicators that will demonstrate the progress we are making as a nation against the wellbeing goals, and they're to tell us whether we are achieving the Wales that we really want. This is consistent with the approach set out by the UN on the goals, targets and indicators they have. The indicators as proposed provide good coverage of all areas covered by the UN goals, but as we listen to the feedback from the consultation events on the draft indicators, we will also ensure we consider, and continue to consider, our alignment with the indicators being developed globally before finalising our own.

The framework of the Act and the common purpose given by the wellbeing goals, developed from the bottom up, but also aligned to the international aspirations for sustainable development of the United Nations, provide the basis of our work at a high level, through our actions around climate change and health, down to the community level for people working to collectively tackle extreme poverty. So, what is coming through, particularly from our consultation events on guidance and national indicators, is an enthusiastic process to work within the spirit of the Act. Businesses, voluntary organisations and the wider public are coalescing around it and recognising its potential to support their aspirations. It will be the basis for all our future work and I hope that we can create a similar consensus here in the Assembly. I look forward to contributions from colleagues.

I fesur cynnydd yn erbyn y nodau datblygu cynaliadwy, mae arweinwyr y byd wedi ymrwymo i gael eu monitro drwy ddangosyddion byd-eang, cenedlaethol a rhanbarthol. Mae ein dangosyddion cenedlaethol ein hunain yn dangos ein bod wedi achub y blaen. Rydym wedi sefydlu cyfres ddrafft o 40 o ddangosyddion a fydd yn dangos y cynnydd yr ydym yn ei wneud fel cenedl yn erbyn y nodau lles, a bydd y rhain yn dweud wrthym a ydym yn cyflawni'r Gymru a garem mewn gwirionedd. Mae hyn yn gyson â'r ymagwedd a nodir gan y Cenhedloedd Unedig o ran y nodau, y targedau a'r dangosyddion sydd ganddynt hwy. Mae'r dangosyddion a gynigiwyd yn rhoi sylw da i'r holl feysydd y mae nodau'r Cenhedloedd Unedig yn ymwneud â hwy, ond wrth inni wrando ar yr adborth o'r digwyddiadau ymgynghori ar y dangosyddion drafft, byddwn hefyd yn sicrhau ein bod yn ystyried, ac yn parhau i ystyried, a ydym am ymochri â'r dangosyddion sy'n cael eu datblygu yn fyd-eang cyn cadarnhau ein rhai ni.

Mae fframwaith y Ddeddf a'r pwrpas cyffredin a roddir gan y nodau lles, wedi'u datblygu o'r gwaelod i fyny, ond mae hefyd yn cyd-fynd â dyheadau rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig ar gyfer datblygu cynaliadwy, yn rhoi sail i'n gwaith ni ar lefel uchel, yn yr hyn a wnawn o ran newid yn yr hinsawdd ac iechyd, i lawr i lefel gymunedol ar gyfer pobl sy'n cydweithio i drechu tlodi eithafol. Felly, yr hyn sy'n dod drwodd, yn enwedig o'n digwyddiadau ymgynghori ar ganllawiau a dangosyddion cenedlaethol, yw proses frwdfrydig i weithio o fewn ysbryd y Ddeddf. Mae busnesau, mudiadau gwirfoddol a'r cyhoedd yn gyffredinol yn uno o'i hamgylch ac yn cydnabod ei photensial i gefnogi eu dyheadau. Bydd yn rhoi sail i'n holl waith yn y dyfodol, a gobeithiaf y gallwn greu consensws tebyg yma yn y Cynulliad. Edrychaf ymlaen at gyfraniadau gan gydweithwyr.

15:02 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. Janet Howarth, Conservative spokesperson.

Diolch. Janet Howarth, llefarydd y Ceidwadwyr.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:02 **Janet Haworth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, acting Presiding Officer. I'm grateful to the Minister for providing me with the advance copy of this statement. My first observation is about the wider thinking you refer to on page 3, which mentions public health—does this mean that you support the call that has come from this side of the Chamber for a far-reaching review of the delivery of the NHS in Wales? Your statement also refers to the communities across Wales making a positive contribution to global wellbeing, and I look forward to hearing more from you about these initiatives and how you propose to support such initiatives.

Diolch, Lywydd dros dro. Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am roi imi'r copi ymlaen llaw o'r datganiad hwn. Mae fy sylw cyntaf yn ymwneud â'r meddwl ehangach yr ydych yn cyfeirio ato ar dudalen 3, sy'n sôn am iechyd y cyhoedd—a yw hyn yn golygu eich bod o blaid yr alwad sydd wedi dod o'r ochr hon i'r Siambr am adolygiad pellgyrhaeddol o ddarpariaeth y GIG yng Nghymru? Mae eich datganiad hefyd yn cyfeirio at gymunedau ledled Cymru yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at les byd-eang, ac rwy'n edrych ymlaen at glywed rhagor gennych am y mentrau hyn a sut yr ydych yn bwriadu cefnogi mentrau o'r fath.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Your statement is aspirational and heart-warming, but, with respect, Minister, the commitments detailed in the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 will challenge the local authorities of Wales to deliver against the wellbeing goals. They, like me, still await clarity regarding the specific requirements this Act will make. A recent briefing paper issued to councils has left them in the dark. Minister, will you be taking account of the wellbeing of county and community councils? The insecurity surrounding their future is undermining their wellbeing.

Mae eich datganiad yn uchelgeisiol ac yn cynhesu'r galon, ond, gyda pharch, Weinidog, bydd yr ymrwymadau a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn herio awdurdodau lleol Cymru i gyflawni yn erbyn yr amcanion lles. Maent hwy, fel ffinau, yn dal i aros am eglurder ynghylch y gofynion penodol y bydd y Ddeddf hon yn eu gwneud. Mae papur briffio diweddar a roddwyd i gynghorau wedi eu gadael yn y tywyllwch. Weinidog, a fyddwch chi'n ystyried lles cynghorau sir a chynghorau cymuned? Mae'r ansicrwydd ynghylch eu dyfodol yn tansellio eu lles.

Minister, on page 4, your statement speaks of businesses, voluntary organisations, and the wider public coalescing around the wellbeing of future generations Act. Minister, I have to tell you that I've yet to see any evidence of this coalescence. Minister, what is spoken about here in this Chamber has yet to engage the people of north Wales, especially those people waiting for medical treatment, which they hope will improve their wellbeing.

Finally, Minister, the words about visions and aspirations for future generations have yet to reach and, I have to say, convince the mothers of future generations in north Wales who are seeing a dangerous reduction, if not an abandonment, of the life-saving services of emergency obstetric care. Minister, the wellbeing of future generations Act speaks of universal and transformative goals. It speaks of visions and conversations. But, Minister, there is no reference in this document to priorities. Thank you.

15:04

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for the opportunity to listen to your contribution today. Can I just say that the Conservative group, on the progressing of the Bill into an Act were behind the curve then, and it appears that they're still behind the curve now. The fact is that countries across the world—. In a conference in Australia only a few months back they were talking about Wales and how they've delivered on this sustainable development. After the wellbeing of future generations Act people are talking across countries about what's happening in Wales. The UN Commissioner said that what Wales is doing today, let's hope the world is doing tomorrow. So, I think the Member may wish to reflect on some of the comments she has made today.

With regard to some of the aspects around businesses, and the involvement of coalescing, I can say that I've already been meeting with non-devolved bodies and also the private sector, which are actively seeking to engage in the process of this wellbeing of future generations Act, because they want to do business with the 44 public bodies—I don't agree with the Member in respect of 'They've lost their way' or 'They don't know which way they're going', because we have a programme of early adopters that is working very well already, enabling the Bill, which doesn't come into force until April, as the Member alludes to.

Weinidog, ar dudalen 4, mae eich datganiad yn sôn am fusnesau, sefydliadau gwirfoddol, a'r cyhoedd ehangach yn uno o amgylch Deddf Llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Weinidog, mae'n rhaid imi ddweud wrthyhych fy mod eto i weld unrhyw dystiolaeth o'r uno hwn. Weinidog, nid yw'r hyn yr ydym yn siarad amdano yma yn y Siambr hon wedi ymgysylltu â phobl y gogledd eto, yn enwedig y bobl hynny sy'n aros am driniaeth feddygol, y maent yn gobeithio y bydd yn gwella eu lles.

Yn olaf, Weinidog, nid yw'r geiriau am weledigaethau a dyheadau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol eto wedi cyrraedd nac, mae'n rhaid imi ddweud, argyhoeddi mamau cenedlaethau'r dyfodol yn y gogledd sy'n gweld gostyngiad peryglus, os nad dileu llwyr mewn gwasanaethau gofal obstetrig brys sy'n achub bywydau. Weinidog, mae Deddf llesiant cenedlaethau'r dyfodol yn sôn am nodau cyffredinol a thrawsnewidiol. Mae'n sôn am weledigaethau a sgysrsiau. Ond, Weinidog, nid yw'r ddogfen hon yn cyfeirio at flaenoriaethau. Diolch.

Diolch am y cyfle i wrando ar eich cyfraniad heddiw. A gaf i ddweud bod y grŵp Ceidwadol, o ran taith y Bil i ddeddf yn Ddeddf, ar ei hôl hi bryd hynny, ac mae'n ymddangos eu bod yn dal i fod ar ei hôl hi nawr. Y ffaith yw bod gwledydd ledled y byd—. Mewn cynhadledd yn Awstralia dim ond ychydig fisoedd yn ôl, roeddent yn siarad am Gymru a sut y maent wedi cyflawni'r datblygu cynaliadwy hwn. Ar ôl Deddf llesiant cenedlaethau'r dyfodol mae pobl yn siarad ar draws gwledydd am yr hyn sy'n digwydd yng Nghymru. Dywedodd Comisiynydd y Cenhedloedd Unedig fod yr hyn y mae Cymru'n ei wneud heddiw yn rhywbeth i obeithio y bydd y byd yn ei wneud yfory. Felly, rwy'n meddwl efallai yr hoffai'r Aelod fyfyrion ar rai o'r sylwadau y mae hi wedi'u gwneud heddiw.

O ran rhai o'r agweddau yn ymwneud â busnesau, a chynnwys cyfuno, gallaf ddweud fy mod eisoes wedi bod yn cyfarfod â chyrff heb eu datganoli a hefyd â'r sector preifat, sydd wrthi'n ceisio ymgysylltu ym mhroses y Ddeddf llesiant cenedlaethau'r dyfodol hon, oherwydd maent yn awyddus i wneud busnes gyda'r 44 o gyrff cyhoeddus—nid wyf yn cytuno â'r Aelod ynglŷn â 'Maent wedi colli eu ffordd' neu 'Nid ydynt yn gwybod pa ffordd y maent yn mynd', oherwydd mae gennym raglen o fabwysiadwyr cynnar sy'n gweithio'n dda iawn eisoes, gan alluogi'r Bil, nad yw'n dod i rym tan fis Ebrill, fel yr awgrymodd yr Aelod.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The Member did, and rightly so, raise issues of concern from north Wales, as other Members will do from across other regions or constituencies. But can I remind the Member also, for her constituents who may be watching today: we have had a £1.5 billion reduction from this UK Government, which has a dramatic effect on public services in Wales. We cannot continue to deliver on the services that we've had in the past in the same way, and I think this Act gives us a great opportunity to reshape the offer of public services for the better, in coalescing around all of the public bodies and the organisations we talk to. If the Member was quite keen to raise the issue of health, can I just remind the Member also: the only party that health is safe with is the Labour Party here in Wales, and we cannot, or will not, take any lessons from the Conservative Members across the Chamber.

Cododd yr Aelod, yn briodol, faterion sy'n destun pryder yn y gogledd, fel y bydd Aelodau eraill yn ei wneud o'r holl ranbarthau neu etholaethau eraill. Ond a gaf i atgoffa'r Aelod hefyd, ar gyfer ei hetholwyr a allai fod yn gwyllo heddiw: rydym wedi cael gostyngiad gwerth £1.5 biliwn gan Lywodraeth y DU, sy'n cael effaith tra sylweddol ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Ni allwn barhau i ddarparu'r gwasanaethau a fu gennym yn y gorffennol yn yr un ffordd, ac rwy'n meddwl bod y Ddeddf hon yn rhoi cyfle gwych i ni ail-lunio'r cynnig gwasanaethau cyhoeddus er gwell, drwy gyfuno o gwmpas pob un o'r cyrff cyhoeddus a'r sefydliadau yr ydym yn siarad â nhw. Os oedd yr Aelod yn eithaf awyddus i godi mater iechyd, a gaf i atgoffa'r Aelod hefyd: yr unig blaid sy'n diogelu iechyd yw'r Blaid Lafur yma yng Nghymru, ac ni allwn, ac ni wnawn, dderbyn unrhyw wersi gan yr Aelodau Ceidwadol ar draws y Siambr.

15:07 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Minister for his statement this afternoon. I was pleased to see the United Nations adopt the 17 new global goals at its sustainable development summit on 25 September, building of course on the millennium development goals, but with more ambitious targets to eliminate rather than reduce poverty, and including more demanding targets on education, gender equality and health.

Minister, for me the UN's adoption of the global goals that form part of the 2030 agenda for sustainable development demonstrates the importance of viewing all seven wellbeing goals enshrined in the Well-being of Future Generations (Wales) Act. For Wales to do its bit in helping to meet the global goals, would you agree with me that this is the case and that we must also encourage Welsh public services to address all seven wellbeing goals equally?

Diolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad y prynhawn yma. Roeddwn yn falch o weld y Cenhedloedd Unedig yn mabwysiadu'r 17 o nodau byd-eang newydd yn eu huwchgynhadledd datblygu cynaliadwy ar 25 Medi, i adeiladu, wrth gwrs, ar amcanion datblygu'r mileniwm, ond gan gynnwys targedau mwy uchelgeisiol i ddileu yn hytrach na lleihau tlodi, a gan gynnwys targedau mwy heriol ar addysg, cydraddoldeb rhywiol ac iechyd.

Weinidog, i mi mae'r ffaith fod y Cenhedloedd Unedig yn mabwysiadu'r nodau byd-eang sy'n ffurfio rhan o agenda 2030 ar gyfer datblygiad cynaliadwy yn dangos pwysigrwydd edrych ar bob un o'r saith nod lles sydd wedi'u hymgorffori yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Er mwyn i Gymru wneud ei rhan i helpu i fodloni'r amcanion byd-eang, a fydddech chi'n cytuno â mi bod hyn yn wir, a bod yn rhaid inni hefyd annog gwasanaethau cyhoeddus Cymru i roi sylw cyfartal i bob un o'r saith nod lles?

15:08 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for his contribution and his involvement in the creation of the Act as we progressed. The Member is absolutely right—this isn't about taking choices of which goals the public body wishes to actively work on. This is about considering all of the goals and the inference that all actions that the public body takes will be informed clearly by the wellbeing plans through the local service boards. I've already spoken with the Minister for Public Services, who is about shaping the way that public services operate in a different way as well. I said to the Conservative Member earlier that we have to recast our vision for public services under the challenges that we face from the financial settlement of this UK Government. But not only should this be driven by the financial change; actually, this makes sense to do. I think for far too long we've had the discussion about whether the economy overrides the environmental aspects, but actually there is a huge opportunity here in Wales, and across the globe, to marry up these goals where they can work hand in hand. We can have a very successful green economy by working with the environment and the economy together. Therefore, I don't accept the doubters who say it's one or the other; actually, we can do both.

Diolch i'r Aelod am ei gyfraniad ac am ymwneud â chreu'r Ddeddf wrth inni ei datblygu. Mae'r Aelod yn gwbl gywir—nid yw hwn yn fater o ddewis pa nodau yr hoffai'r corff cyhoeddus fynd ati i weithio arnynt. Mae hwn yn fater o ystyried pob un o'r nodau a'r casgliad y bydd yr holl gamau y mae'r corff cyhoeddus yn eu cymryd yn seiliedig yn glir ar y cynlluniau lles drwy'r byrddau gwasanaethau lleol. Rwyf eisoes wedi siarad â'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, sydd hefyd yn ymwneud â ffurfio'r ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn gweithredu mewn ffordd wahanol. Dywedais wrth yr Aelod Ceidwadol yn gynharach fod yn rhaid inni ail-lunio ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus o dan yr heriau sy'n ein hwynebu o'r setliad ariannol hwn gan Lywodraeth y DU. Ond ni ddylai hyn fod yn seiliedig ar y newid ariannol yn unig; a dweud y gwir, mae gwneud hyn yn gwneud synnwyr. Rwy'n meddwl ein bod wedi cael y drafodaeth am lawer rhy hir ynghylch a yw'r economi'n bwysicach na'r agweddau amgylcheddol, ond mewn gwirionedd mae hwn yn gyfle enfawr yng Nghymru, a ledled y byd, i gyfuno'r nodau hyn lle y gallant weithio law yn llaw. Gallwn gael economi werdd lwyddiannus iawn drwy weithio gyda'r amgylchedd a'r economi gyda'i gilydd. Felly, nid wyf yn derbyn yr amheuwyr sy'n dweud ei fod yn fater o un neu'r llall; mewn gwirionedd, gallwn wneud y ddau.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I welcome the Member's contribution around considering all of the goals, but can I say that the whole principle of the long-term, the collaboration, prevention, integration and citizen-centred approach to delivery is equally as important as the goals in this Act. The Member's support is very welcome in this process.

Rwy'n croesawu cyfraniad yr Aelod ynglŷn ag ystyried pob un o'r nodau, ond gallaf ddweud bod holl egwyddor yr hirdymor, y cydweithio, yr atal, yr integreiddio a'r dulliau cyflenwi sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion yr un mor bwysig â'r nodau yn y Ddeddf hon. Mae cefnogaeth yr Aelod i'w chroesawu'n fawr yn y broses hon.

15:10 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Llyr Gruffydd, Plaid Cymru spokesperson.

Llyr Gruffydd, llefarydd Plaid Cymru.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:10 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr. Thank you, Minister, for your statement. I'm sure many of us would join you in welcoming the UN's 17 sustainable development goals, which will of course be applicable from January. The previous millennium development goals were considered targets for the developing world to achieve, with support and finance from the developed world. But now, of course, every country will be expected to work towards achieving the goals that we have. I look forward, very much, to Wales playing a very prominent role in that respect.

Diolch yn fawr. Diolch, Weinidog, am eich datganiad. Rwy'n siŵr y byddai llawer ohonom yn ymuno â chi i groesawu 17 o nodau datblygu cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, a fydd wrth gwrs yn berthnasol o fis Ionawr ymlaen. Ystyriwyd bod amcanion datblygu blaenorol y mileniwm yn dargedau i'r gwledydd datblygol eu cyflawni, gyda chefnogaeth a chyllid gan y byd datblygedig. Ond nawr, wrth gwrs, bydd disgwyl i bob gwlad weithio tuag at gyflawni'r nodau sydd gennym. Rwy'n edrych ymlaen, yn fawr iawn, at weld Cymru'n chwarae rhan flaenllaw iawn yn hynny o beth.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

We know, of course, that the developed world is disproportionately responsible for greenhouse gas emissions but that the effects of climate change, conversely, will be disproportionately felt by the developing world. Could you confirm whether you agree that the developed world should take on greater responsibility for cutting carbon emissions than the developing world, and if you do, that you will be pursuing that as one of your objectives when you go to Paris next month?

Rydym yn gwybod, wrth gwrs, bod y byd datblygedig yn anghymesur gyfrifol am allyriadau nwyon tŷ gwydr, ond y bydd effeithiau newid yn yr hinsawdd, ar y llaw arall, yn cael eu teimlo'n anghymesur gan y gwledydd datblygol. A wnewch chi gadarnhau pa un a ydych yn cytuno y dylai'r byd datblygedig ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb am leihau allyriadau carbon na'r gwledydd datblygol, ac os ydych chi'n cytuno, y byddwch yn mynd ar drywydd hynny fel un o'ch amcanion pan fyddwch chi'n mynd i Baris fis nesaf?

We shouldn't forget, of course, that in the original future generations Bill, as it was then, when it was originally tabled, there was no reference to climate change. Neither was there a wellbeing goal on a globally responsible Wales making a positive contribution to global wellbeing. So, you know, let's not forget that wasn't the Government's intention initially. So, credit maybe where credit's due, Minister, because, were it not for pressure from the opposition parties here, then I very much doubt that those two areas would have been addressed in the Bill, which seem to be, of course, the main thrust of your statement here this afternoon.

Ni ddylem anghofio, wrth gwrs, nad oedd y Bil cenedlaethau'r dyfodol gwreiddiol, fel yr oedd bryd hynny, pan gafodd ei gyflwyno'n wreiddiol, yn cyfeirio o gwbl at newid yn yr hinsawdd. Nid oedd yna ychwaith nod lles i Gymru fod yn gyfrifol yn fyd-eang a gwneud cyfraniad cadarnhaol at les byd-eang. Felly, wyddoch chi, dewch inni beidio ag anghofio nad dyna oedd bwriad y Llywodraeth i ddechrau. Felly, clod lle mae'n ddyledus, efallai, Weinidog, oherwydd, oni bai am bwysau gan y gwrthbleidiau yma, rwy'n amau'n gryf a fyddai'r ddau faes hyn wedi cael sylw yn y Bil; mae'n ymddangos mai dyna, wrth gwrs, yw prif fyrdrwn eich datganiad yma y prynhawn yma.

I agree, of course, that it is important that the wellbeing of future generations Act national indicators align with UN goals. Whilst it's easy to see what most indicators attempt to measure, it does remain to be seen, nevertheless, how progress towards some of them will be measured. The consultation that's currently ongoing highlights that the indicators vary significantly in nature—from the specific and easily quantifiable, such as babies born at a healthy weight, which is the first one, to the number of people in work, which is No. 8, to the more subjective and less easily discernible targets or indicators around international responsibilities, where you say that you'll use a narrative approach to measure them. That isn't, maybe, very easy to do—or a sense of community. How do you measure a sense of community? You mentioned that a national survey for Wales will try to achieve that.

Rwy'n cytuno, wrth gwrs, ei bod yn bwysig bod dangosyddion cenedlaethol y Ddeddf llesiant cenedlaethau'r dyfodol yn cyd-fynd â nodau'r Cenhedloedd Unedig. Er ei bod yn hawdd gweld beth mae'r rhan fwyaf o ddangosyddion yn ceisio ei fesur, nid ydym wedi gweld eto, serch hynny, sut y caiff y cynnydd tuag at rai ohonynt ei fesur. Mae'r ymgynghoriad sy'n parhau ar hyn o bryd yn dangos bod y dangosyddion yn amrywio'n sylweddol o ran eu natur—o bethau penodol a hawdd eu mesur, fel babanod a anwyd ar bwysau iach, sef y cyntaf, i nifer y bobl sydd mewn gwaith, sef rhif 8, i dargedau neu ddangosyddion sy'n fwy goddrychol ac yn anoddach eu dehongli yn ymwneud â chyfrifoldebau rhyngwladol, lle'r ydych yn dweud y byddwch yn defnyddio dull naratif i'w mesur. Nid yw hynny, efallai, yn hawdd iawn i'w wneud—neu ymdeimlad o gymuned. Sut yr ydych chi'n mesur ymdeimlad o gymuned? Soniasoch y bydd arolwg cenedlaethol i Gymru yn ceisio cyflawni hynny.

While an indicator such as 'people in work' has a logical and clearly outlined method, those indicators pertaining to environmental development in particular are vague, unclear or, as you say in the consultation document, yet to be agreed. Would you agree with me, therefore, that, as part of that consultation process, it would have been useful—and it still would be useful, maybe—for the Government to outline possible milestones to help us understand what exactly you might wish to measure in a less subjective way, so that maybe we can contribute more meaningfully to that process?

You've reminded us again, of course, of your intention to go to Paris next month. So, I ask you whether you agree with the UN when it says of the millennium development goals that climate change and environmental degradation undermine the progress achieved and that poor people suffer the most. I'm sure you would agree, or at least I hope you would agree with that. Will you therefore confirm that in Paris you will be pressing for the limiting of global temperature rises by 2 degrees centigrade, enforceable targets to cut carbon dioxide emissions and, of course, greater investment in green energy?

You closed your statement, Minister, by describing how people are coalescing around the wellbeing of future generations Act and how people are recognising its potential. Well, we can coalesce around something as much as we like, and we can recognise its potential as much as we like, but the question is of course how it will lead to change on the ground. I know you want to see that happening. Would you agree with me, therefore, that key decisions, such as that on the M4 around Newport, will be the real litmus test for this Welsh Government?

Er bod gan ddangosydd fel 'pobl mewn gwaith' dull rhesymegol sydd wedi'i amlinellu'n glir, mae'r dangosyddion hynny sy'n ymwneud â datblygiad amgylcheddol yn enwedig yn amwys, yn aneglur neu, fel y dywedwch yn y ddogfen ymgynghori, heb eu cytuno eto. A fydddech chi'n cytuno â mi, felly, y byddai wedi bod yn ddefnyddiol, yn rhan o'r broses ymgynghori honno—ac y gallai ddal i fod yn ddefnyddiol, efallai—i'r Llywodraeth amlinellu'r cerrig milltir posibl i'n helpu i ddeall beth yn union efallai y bydddech yn dymuno ei fesur mewn ffordd lai goddrychol, fel y gallwn yna efallai gyfrannu'n fwy ystyrlon at y broses honno?

Rydych wedi ein hatgoffa unwaith eto, wrth gwrs, o'ch bwriad i fynd i Baris fis nesaf. Felly, rwy'n gofyn ichi a ydych chi'n cytuno â'r Cenhedloedd Unedig wrth iddynt ddweud am nodau datblygu'r mileniwm fod newid yn yr hinsawdd a dirywiad amgylcheddol yn tanseilio'r cynnydd a gyflawnwyd ac mai pobl dlawd sy'n dioddef fwyaf. Rwy'n siŵr y bydddech yn cytuno, neu o leiaf rwy'n gobeithio y bydddech yn cytuno â hynny. A wnewch chi felly gadarnhau y byddwch, ym Mharis, yn pwyso am gyfyngu codiadau tymheredd byd-eang o 2 radd canradd, targedau y gellir eu gorfodi i leihau allyriadau carbon deuocsid ac, wrth gwrs, mwy o fuddsoddi mewn ynni gwyrdd?

Gwnaethoch ddwyn eich datganiad i ben, Weinidog, drwy ddisgrifio sut y mae pobl yn uno o amgylch Deddf Llesiant cenedlaethau'r dyfodol a sut y mae pobl yn cydnabod ei photensial. Wel, gallwn uno o amgylch rhywbeth gymaint ag y dymunwn, a gallwn gydnabod ei botensial gymaint ag y dymunwn, ond y cwestiwn yw, wrth gwrs, sut y bydd yn arwain at newid ar lawr gwlad. Rwy'n gwybod eich bod yn awyddus i weld hynny'n digwydd. A fydddech chi'n cytuno â mi, felly, mai penderfyniadau allweddol, fel yr un am yr M4 o amgylch Casnewydd, fydd y prawf litmws gwirioneddol i'r Llywodraeth Cymru hon?

15:14

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for his contribution. The Member is sometimes very interesting in his contributions because he tells me one thing and then puts a press release out that doesn't resemble his contribution, which I sometimes see.

Can I say that he did raise some very important points in terms of carbon reduction and about developed countries taking their fair share, or doing more, actually, which I think is what the Member alluded to? I think it's the responsibility of all of us, and that's why I think the Paris conference is really important to bring member states together to make sure that they have a finalised commitment to delivering on carbon reduction collectively. We've seen it far too often in the past, where we have some agreement, but not by other countries, which is less than helpful and doesn't help us to achieve this. This is the responsibility of all of us across the globe.

Diolch i'r Aelod am ei gyfraniad. Mae cyfraniadau'r Aelod yn ddiddorol iawn weithiau oherwydd mae'n dweud un peth wrthyf ac wedyn yn cyhoeddi datganiad i'r wasg sy'n wahanol i'w gyfraniad; rwy'n gweld hynny weithiau.

A gaf i ddweud ei fod wedi codi rhai pwyntiau pwysig iawn am leihau carbon ac am wledydd datblygedig yn cymryd eu cyfran deg, neu'n gwneud mwy, a dweud y gwir; rwy'n meddwl mai dyna y cyfeiriodd yr Aelod ato? Rwy'n credu bod hyn yn gyfrifoldeb inni i gyd, a dyna pam yr wyf yn meddwl bod y gynhadledd ym Mharis yn bwysig iawn i ddod ag aelod-wladwriaethau at ei gilydd i wneud yn siŵr bod ganddynt ymrwymiad terfynol i gyflawni lleihau carbon ar y cyd. Rydym wedi ei weld yn llawer rhy aml yn y gorffennol, lle mae gennym rywfaint o gytundeb, ond nid gan wledydd eraill, sy'n llai na defnyddiol ac nad yw'n ein helpu i gyflawni hyn. Mae hyn yn gyfrifoldeb i bawb ohonom ledled y byd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The Member is right to raise the issue around the goals and the progress of the Bill. As the Member will be aware, I took on the Bill around 13 months ago, at the end of the process, and many Ministers had responsibility before that. But, I agree with him—credit where credit's due—the opposition parties did help to shape the new Bill, and that was very welcome, and there was progress, certainly, particularly around the contribution that Julie Morgan made to the Bill with regard to the globally responsible goal. I think there was incredible vision from the Member, and we were able to accommodate that during the Bill, and many other Members also added to that.

I think the Member is right to raise the issue of indicators and the consultation process we're going through. There are some things in there that do confuse people. That's the whole point of the consultation. I think we're learning a lot from this as well, and I think it's a starting point, and I think there are things that, as a Government, we have to be able to demonstrate. You, as elected Members, and the broader public and stakeholders, have to understand what we mean by the progress report, and that may include milestones along that journey. So, I'm very open to this process, in terms of a genuine consultation and understanding where we move forward to next.

With regard to the carbon dioxide reductions and the below 2 degrees Celsius commitment, we're already signed up to a memorandum of understanding; that will continue, and we'll push very hard to see if we can get other member states and regions to join that whole process. I said, when speaking to Jeff Cuthbert earlier on around green energy, we are committed in Wales—this Government—to renewable energy and renewable sources, low-carbon energy. We will continue, despite what the UK Government continues to throw at us. We think there is a huge opportunity to embrace the green growth agenda of billions of pounds-worth of business out there that could be beneficial to Wales. While we may not be the leader in that business, we certainly have a part to play in that.

So, I welcome the Member's contribution, and I certainly will look very carefully at the issues he raised, particularly around the indicators, and will hopefully engage with him in detail when that comes to a close, shortly.

15:17 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

William Powell, the Liberal Democrat spokesperson.

Mae'r Aelod yn iawn i godi'r mater o amgylch nodau a chynnydd y Bil. Fel y bydd yr Aelod yn gwybod, cymerais gyfrifoldeb am y Bil tua 13 mis yn ôl, ar ddiwedd y broses, a bu gan lawer o Weinidogion gyfrifoldeb cyn hynny. Ond, rwy'n cytuno ag ef—clod lle mae'n ddyledus—fe wnaeth y gwrthbleidiau helpu i lunio'r Bil newydd, ac roedd hynny i'w groesawu'n fawr, a bu cynnydd, yn sicr, yn enwedig o ran y cyfraniad a wnaeth Julie Morgan at y Bil o ran y nod cyfrifoldeb byd-eang. Rwy'n credu bod hynny'n weledigaeth anhygoel gan yr Aelod, ac roeddem yn gallu cynnwys hynny yn ystod y Bil, ac ychwanegodd llawer o Aelodau eraill at hynny hefyd.

Rwy'n meddwl bod yr Aelod yn iawn i sôn am y dangosyddion a'r broses ymgynghori yr ydym yn ei dilyn. Mae rhai pethau yn ymwneud â hynny sy'n drysu pobl. Dyna holl bwynt yr ymgynghoriad. Rwy'n meddwl ein bod yn dysgu llawer o hyn hefyd, ac rwy'n meddwl ei fod yn fan cychwyn, ac rwy'n meddwl bod yna bethau y mae'n rhaid i ni, fel Llywodraeth, allu eu dangos. Mae'n rhaid i chi, fel Aelodau etholedig, a'r cyhoedd yn ehangach a rhanddeiliaid, ddeall yr hyn a olygwn wrth yr adroddiad o gynnydd, a gallai hynny gynnwys cerrig milltir ar hyd y daith. Felly, rwy'n agored iawn i'r broses hon, o ran ymgynghori gwirioneddol a dealltwriaeth o ble'r ydym ni'n symud ymlaen iddo nesaf.

O ran y gostyngiadau carbon deuocsid a'r ymrwymiad o dan 2 radd Celsius, rydym eisoes wedi cytuno â memorandwm cyd-ddealltwriaeth; bydd hwnnw'n parhau, a byddwn yn gwthio'n galed iawn i weld a allwn berswadio aelod-wladwriaethau a rhanbarthau eraill i ymuno â'r holl broses honno. Dywedais, wrth siarad â Jeff Cuthbert yn gynharach ynglŷn ag ynni gwyrdd, ein bod wedi ymrwymo yng Nghymru—y Llywodraeth hon—i ynni adnewyddadwy a ffynonellau adnewyddadwy, ynni carbon-isel. Byddwn yn parhau, er gwaethaf yr hyn y mae Llywodraeth y DU yn parhau i'w daflu atom. Rydym yn credu bod cyfle enfawr i gofleidio'r agenda twf gwyrdd sydd werth biliynau o bunnoedd o fusnes a allai fod o fantais i Gymru. Er nad ni efallai fydd yr arweinydd yn y busnes hwnnw, yn sicr mae gennym ran i'w chwarae yn hynny.

Felly, rwy'n croesawu cyfraniad yr Aelod, a byddaf yn sicr yn edrych yn ofalus iawn ar y materion a gododd, yn enwedig ynglŷn â'r dangosyddion, a byddaf gobeithio yn ymgysylltu gydag ef yn fanwl pan ddaw hynny i ben, cyn bo hir.

15:17 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd dros dro. I very much welcome the Minister's statement this afternoon. We do, indeed, have a considerable amount to be proud about here in Wales with respect to the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 and the force for good that it can, and must, be. As has already been pointed out, the most effective forces for good are the result of parties in this place coming together on the causes that matter. The Conference of Parties 21 talks in Paris will be of great importance to take these matters forward.

William Powell, llefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol.

Diolch, Ddirprwy Lywydd dros dro. Croesawaf yn fawr ddatganiad y Gweinidog y prynhawn yma. Mae gennym, yn wir, gryn dipyn i fod yn falch ohono yma yng Nghymru o ran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r grym ar gyfer daioni y gallai fod, ac y mae'n rhaid iddi fod. Fel sydd wedi'i nodi eisoes, mae'r grymoedd mwyafr effeithiol ar gyfer daioni yn deillio o bleidiau yn y lle hwn yn dod at ei gilydd ar yr achosion pwysig. Bydd sgysiaiu Cynhadledd y Pleidiau 21 ym Mharis yn bwysig iawn i fwrw ymlaen â'r materion hyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The Welsh Liberal Democrats' debate tomorrow seeks to recognise the importance of securing global agreement on climate change at the Paris conference to ensure that the internationally agreed objective of limiting average global temperature increases to below 2 degrees Celsius is kept within our reach, and I look forward to that opportunity also to discuss these matters in more detail.

Many aspects of the Environment (Wales) Bill also relate to these UN goals. There are the obvious ones, for example, such as goal 13, taking urgent action to combat climate change and its impacts; number 14, conserving and sustainably managing our oceans and seas; and number 15, protecting and restoring ecosystems and halting biodiversity loss. But, there are also less obvious ones, such as the first three, which relate to ending poverty, ending hunger and achieving food security, and ensuring healthy lives and indeed, as we've heard, promoting wellbeing. The impacts of climate change do indeed impact disproportionately on the poor and the disadvantaged. Climate change does not just impact upon the environment, but on people's ability to grow food, increases in the risk of flooding, migration patterns and global instability. We live in a difficult and dangerous enough world, without further going down that route. Goal 12 is also vital, on ensuring sustainable consumption and production patterns, fitting well with the concept of living within our environmental means and the need to move towards a circular economy.

In the light of all this, does the Minister agree that the environment Bill also provides another vital opportunity to make progress towards meeting several of the UN goals? And can we look forward to his support in our efforts across this Chamber to improve further that Bill in this important respect? Also, given the synergy that exists between Welsh legislation and the UN goals, Minister, do you agree that in terms of the climate change targets, and specifically the target to reduce emissions by 80 per cent by 2050, that the UK merely matching global effort does not appear to be consistent with the UN Framework Convention on Climate Change as a requirement for, and I quote, 'differentiated responsibilities'? This holds that although all countries are responsible for the development of global society, each has a different set of capabilities in the way in which they can best make a contribution. As such, whilst it was agreed that as a globe we need to reduce emissions by 80 per cent, as an individual nation we should set the bar for ourselves higher. So, Minister, to what extent do you feel that the Well-being of Future Generations (Wales) Act and the upcoming environment Bill can uphold the principle of differentiated responsibility in this respect?

Finally, whilst the Well-being of Future Generations (Wales) Act has obviously been enacted, it is not immediately clear to many people in this country, given the complexity of it and its wide-ranging provisions, at what stage different parts will actually come into force. And I think it would be helpful if the Welsh Government could issue a clear timetable for when the different components will be implemented, so that we can all be clear on this to better inform our battle against climate change.

Mae dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yfory yn ceisio cydnabod pwysigrwydd sicrhau cytundeb byd-eang ar newid yn yr hinsawdd yn y gynhadledd ym Mharis i sicrhau bod yr amcan a gytunwyd yn rhyngwladol o gyfyngu cynnydd tymheredd byd-eang cyfartalog i lai na 2 radd Celsius yn cael ei gadw o fewn ein cyrraedd, ac edrychaf ymlaen at y cyfle hwnnw hefyd i drafod y materion hyn yn fwy manwl.

Mae llawer o agweddau ar Fil yr Amgylchedd (Cymru) hefyd yn berthnasol i'r nodau Cenhedloedd Unedig hyn. Ceir y rhai amlwg, er enghraifft, fel nod 13, cymryd camau brys i ymdrin â newid yn yr hinsawdd a'i effeithiau; rhif 14, gwarchod ein cefnforoedd a'n moroedd a'u rheoli'n gynaliadwy; a rhif 15, diogelu ac adfer ecosystemau ac atal colli bioamrywiaeth. Ond, ceir rhai llai amlwg hefyd, fel y tri cyntaf, sy'n ymwneud â dileu tlodi, dileu newyn a sicrhau diogelwch bwyd, a sicrhau bywydau iach ac, yn wir, fel yr ydym wedi'i glywed, hyrwyddo lles. Mae effeithiau newid yn yr hinsawdd wir yn effeithio'n anghymesur ar y tlawd a'r difreintiedig. Nid dim ond ar yr amgylchedd y mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio, ond ar allu pobl i dyfu bwyd, cynnydd yn y perygl o lifogydd, patrymau mudo ac ansefydlogrwydd byd-eang. Rydym yn byw mewn byd digon anodd a pheryglus, heb fynd ymhellach i lawr y llwybr hwnnw. Mae nod 12 hefyd yn hanfodol, ar sicrhau patrymau defnyddio a chynhyrchu cynaliadwy; mae'n cydfynd yn dda â'r cysyniad o fyw o fewn ein modd amgylcheddol a'r angen i symud tuag at economi gylchol.

Yng ngoleuni hyn i gyd, a yw'r Gweinidog yn cytuno bod Bil yr amgylchedd hefyd yn rhoi cyfle hanfodol arall i wneud cynnydd tuag at fodloni nifer o nodau'r Cenhedloedd Unedig? Ac a gawn ni edrych ymlaen at ei gefnogaeth i'n hymdrechion ar draws y Siambr hon i wella'r Bil hwnnw ymhellach yn y cyd-destun pwysig hwn? Hefyd, ac ystyried y synergedd sy'n bodoli rhwng deddfwriaeth Cymru a nodau'r Cenhedloedd Unedig, Weinidog, a ydych chi'n cytuno, o ran y targedau newid yn yr hinsawdd, ac yn benodol y targed i leihau allyriadau 80 y cant erbyn 2050, bod angen i'r DU wneud mwy na chyfateb ymdrech fyd-eang er mwyn bod yn gyson â Chonfensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd fel gofyniad ar gyfer, a dyfynnaf, 'cyfrifoldebau gwahaniaethol'? Mae hwn yn dweud, er bod pob gwlad yn gyfrifol am ddatblygu cymdeithas fyd-eang, bod gan bob un gyfres wahanol o alluoedd o ran y ffordd orau iddynt allu gwneud cyfraniad. Fel y cyfryw, er y cytunwyd bod angen inni fel planed leihau allyriadau 80 y cant, fel cenedl unigol dylem osod y bar yn uwch i ni ein hunain. Felly, Weinidog, i ba raddau yr ydych yn teimlo bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r Bil amgylchedd sydd ar y gweill yn gallu cynnal yr egwyddor o gyfrifoldeb gwahaniaethol yn hyn o beth?

Yn olaf, er bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn amlwg wedi ei deddfu, nid yw'n glir ar unwaith i lawer o bobl yn y wlad hon, ac ystyried ei chymhlethdod a'i darpariaethau amrywiol, ar ba gam y bydd gwahanol rannau'n dod i rym mewn gwirionedd. Ac rwy'n meddwl y byddai'n ddefnyddiol pe gallai Llywodraeth Cymru gyhoeddi amserlen glir ar gyfer pryd y bydd y gwahanol gydrannau'n cael eu rhoi ar waith, fel y gallwn i gyd fod yn glir am hyn i lywio ein brwydr yn erbyn newid yn yr hinsawdd yn well.

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for his contribution. Again, I thank him for his contribution and support during the passage of the Act too. The passing of the Act was an extremely important milestone, I believe, for Wales and the challenge really does begin now. The Act requires real culture change: a fundamental change to how we plan and operate as organisations, and making those decisions for the long term that will benefit current and future generations. The Member's right about the implementation of that, and we will look to issue some further guidance around the timetable process, just so that there's some clarity for Members, but, essentially, the Bill doesn't start operation until April of next year.

With regard to the COP21 event, I think part of that programme will be to showcase not only Wales's internationally recognised achievements, but also the key leadership role that states and regional governments can play, and are already playing globally, which will be highlighted for the first time ever at a UN summit. As a global community that's created and shared a vision for the world, we want Wales to be part of that in terms of what we are certainly delivering on already in Wales compared to some other countries.

When I took this portfolio forward, I said to members of the committee at the time that this is a suite of legislation that we are taking through, from the Planning (Wales) Act 2015 to the Environment (Wales) Bill, hopefully to an Act, and the Well-being of Future Generations (Wales) Act, as a jigsaw that creates the right environment for the message, but also the delivery of aspects in terms of managing the future and wellbeing of Wales.

On the environment Bill that the Member relates to with regard to carbon emissions and the 80 per cent general target that has been adopted by most countries, can I just remind the Member that the drafting of the Bill says 'at least 80 per cent'? It is not prohibitive to driving this agenda further. We should and will, as a Government, continue to do that. We believe that 80 per cent is the minimum that this should be, and, actually, we would be very supportive of driving this agenda further, but there's nothing in this Bill as currently drafted that makes it prohibitive to the vision that the Member has in terms of driving the 100 per cent target. We can do that with the drafting that's already there.

I'm grateful for the Member's support during the passage of the WFG Act, and for that as we currently move forward on the Bill. It would be an incredible opportunity for consensus again to reign across this Chamber, where we can deliver three pieces of distinct legislation that put Wales firmly on the map of global recognition in terms of our collective responsibility around the benefits of tackling climate change and environmental and social wellbeing.

Diolch i'r Aelod am ei gyfraniad. Unwaith eto, rwy'n diolch iddo am ei gyfraniad a'i gefnogaeth yn ystod y broses o basio'r Ddeddf hefyd. Mae pasio'r Ddeddf yn garreg filltir hynod o bwysig, rwy'n credu, i Gymru ac mae'r her wirioneddol yn dechrau nawr. Mae'r Ddeddf yn mynnu newid diwylliant gwirioneddol: newid sylfaenol i'r ffordd yr ydym yn cynllunio ac yn gweithredu fel sefydliadau, a gwneud y penderfyniadau hynny ar gyfer y tymor hir a fydd o fudd i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae'r Aelod yn iawn ynglŷn â rhoi hynny ar waith, ac rydym yn bwriadu cyhoeddi rhywfaint o arweiniad pellach yn ymwneud â'r broses amserlen, dim ond i roi rhywfaint o eglurder i Aelodau, ond, yn y bôn, nid yw'r Bil yn dechrau gweithredu tan fis Ebrill y flwyddyn nesaf.

O ran y digwyddiad COP21, rwy'n meddwl mai rhan o'r rhaglen honno fydd arddangos nid yn unig cyflawniadau Cymru a gydnabyddir yn rhyngwladol, ond hefyd y rhan arweiniol allweddol y gall gwladwriaethau a llywodraethau rhanbarthol ei chwarae, ac y maent eisoes yn ei chwarae yn fyd-eang, a gaiff sylw am y tro cyntaf erioed yn un o uwchgynadleddau'r Cenedloedd Unedig. Fel cymuned fyd-eang sydd wedi creu a rhannu gweledigaeth ar gyfer y byd, rydym am i Gymru fod yn rhan o hynny o ran yr hyn yr ydym yn sicr eisoes yn ei gyflawni yng Nghymru o'i gymharu â rhai gwledydd eraill.

Pan symudais i y portffolio hwn yn ei flaen, dywedais wrth aelodau'r pwyllgor ar y pryd fod hon yn gyfres o ddeddfwriaeth yr ydym yn ei datblygu, o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 i Fil yr Amgylchedd (Cymru), gobeithio at Ddeddf, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), fel jig-so sy'n creu'r amgylchedd cywir ar gyfer y neges, ond hefyd ar gyfer cyflawni agweddau ar reoli dyfodol a lles Cymru.

Ynglŷn â'r Bil amgylchedd y mae'r Aelod yn cyfeirio ato o ran allyriadau carbon a'r targed cyffredinol o 80 y cant sydd wedi ei fabwysiadu gan y rhan fwyaf o wledydd, a gaf i atgoffa'r Aelod bod drafftio'r Bil yn dweud 'o leiaf 80 y cant'? Nid yw'n ein hatal rhag gyrru'r agenda hon ymhellach. Dylem, a gwnawn, fel Llywodraeth, barhau i wneud hynny. Rydym yn credu y dylai hyn fod yn 80 y cant o leiaf, ac, mewn gwirionedd, byddem yn gefnogol iawn i yrru'r agenda hon ymhellach, ond does dim byd yn y Bil hwn fel y'i draftiwyd ar hyn o bryd sy'n ei gwneud yn waharddol i'r weledigaeth sydd gan yr Aelod o yrru'r targed 100 y cant. Gallwn wneud hynny gyda'r drafftio sydd yno eisoes.

Rwy'n ddiolchgar am gefnogaeth yr Aelod yn ystod hynnt Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac wrth inni fwrw ymlaen â'r Bil ar hyn o bryd. Byddai'n gyfle anhygoel i gonsensws deyrnasu unwaith eto ar draws y Siambr hon, lle y gallwn gyflawni tri darn o ddeddfwriaeth ar wahân sy'n rhoi Cymru yn gadarn ar y map o gydnabyddiaeth fyd-eang o ran ein cyfrifoldeb ar y cyd o amgylch manteision ymdrin â newid yn yr hinsawdd a lles amgylcheddol a chymdeithasol.

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you.

Diolch.

5. Datganiad: Y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 5 is a statement by the Minister for Public Services regarding the draft Local Government (Wales) Bill, and I call on Leighton Andrews to introduce it.

5. Statement: The Draft Local Government (Wales) Bill

Eitem 5 yw datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ynghylch y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) drafft, a galwaf ar Leighton Andrews i'w gyflwyno.

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services

Diolch, Ddirprwy Lywydd dros dro. I have published for consultation today the draft Local Government (Wales) Bill. This is the second of the two Bills proposed by this Government to deliver our agenda for local government reform. The first Local Government (Wales) Bill, which was passed by the Assembly in October, is awaiting Royal Assent. Once enacted, it will enable important preparatory work for the programme of mergers and reform to commence. The provisions of this draft Bill will establish new counties and their councils by the merger of two or more existing county or county borough councils. It will establish a new and reformed legislative framework for local government democracy, accountability, performance and elements of finance. And it will establish a statutory Public Services Staff Commission. This draft Bill is about democratic, constitutional and cultural change in local authorities as much as it is about structural change. Its aim is to ensure our strong traditions of local democracy and activism are sustained and continue to be relevant now and for generations to come.

Our vision for local government based on activist councils, engaged in delivering modern, accessible, high-quality public services with their local communities was set out in the White Paper, 'Reforming Local Government: Power to Local People', published in February. We recognise that this vision and our ambition for world-class public services can only be realised through a world-class public service workforce with the right skills and support to deliver them. The dedication and excellence of the public service workforce is instrumental to transformation. Our non-statutory Public Services Staff Commission has been operating since September using the workforce partnership council as its primary reference point. We are committed to continuing our strong model of social partnership through the workforce partnership council as we take forward our programme of reform.

Unlike in England, we have retained and strengthened a two-tier code to protect public sector workers affected by outsourcing from contractors seeking to bring in new workers with worse terms and conditions. Proposals for the Public Services Staff Commission to develop and disseminate good practice in workforce arrangements across public services were set out in the White Paper published in October 2014. Although the staff commission was established on a non-statutory basis in September, the overwhelming majority of consultation responses to that White Paper were in favour of putting the commission on a statutory footing. The draft Bill includes such provision. The draft Bill as a whole has been shaped by the hundreds of responses received in relation to the consultations on both the White Papers.

Diolch, Ddirprwy Lywydd dros dro. Heddiw, rwyf wedi cyhoeddi Bil Llywodraeth Leol (Cymru) drafft ar gyfer ymgynghoriad. Hwn yw'r ail o ddau Fil a gynigiwyd gan y Llywodraeth hon i gyflawni ein hagenda ar gyfer diwygio llywodraeth leol. Mae'r Bil Llywodraeth Leol (Cymru) cyntaf, a basiwyd gan y Cynulliad ym mis Hydref, yn aros am Gydsyniad Brenhinol. Ar ôl ei ddeddfu, bydd yn ein galluogi i ddechrau gwaith paratoi pwysig ar gyfer y rhaglen o uno a diwygio. Bydd darpariaethau'r Bil drafft hwn yn sefydlu siroedd newydd a'u cynghorau drwy uno dau neu ragor o gynghorau bwrdeistref sirol neu gynghorau sirol presennol. Bydd yn sefydlu fframwaith deddfwriaethol newydd a diwygiedig ar gyfer democratiaeth, atebolrwydd, perfformiad ac elfennau o gyllid llywodraeth leol. A bydd yn sefydlu Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus statudol. Mae'r Bil drafft hwn yn ymwneud â newid democrataidd, cyfansoddiadol a diwylliannol mewn awdurdodau lleol gymaint ag y mae'n ymwneud â newid strwythurol. Ei nod yw sicrhau bod ein traddodiadau cryf o ddemocratiaeth a gweithredu lleol yn cael eu cynnal ac yn parhau i fod yn berthnasol heddiw ac am genedlaethau i ddod.

Mae ein gweledigaeth ar gyfer llywodraeth leol yn seiliedig ar gynghorau o weithredwyr, yn darparu gwasanaethau cyhoeddus modern, hygyrch, o safon uchel gyda'u cymunedau lleol, wedi'i nodi yn y Papur Gwyn, 'Diwygio Llywodraeth Leol: Pŵer i Bobl Leol', a gyhoeddwyd ym mis Chwefror. Rydym yn cydnabod mai'r unig ffordd o wireddu'r weledigaeth hon a'n huchelgais i gael gwasanaethau cyhoeddus o'r radd flaenaf yw drwy gael gweithlu gwasanaethau cyhoeddus o'r radd flaenaf gyda'r sgliliau a'r gefnogaeth gywir i'w darparu. Mae ymroddiad a rhagoriaeth gweithlu'r gwasanaeth cyhoeddus yn allweddol i drawsnewid. Mae ein Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus anstatudol wedi bod yn gweithredu ers mis Medi gan ddefnyddio cyngor partneriaeth y gweithlu fel ei brif gyfeirbwynt. Rydym wedi ymrwmo i barhau â'n model cryf o bartneriaeth gymdeithasol drwy gyngor partneriaeth y gweithlu wrth inni ddatblygu ein rhaglen o ddiwygio.

Yn wahanol i Loegr, rydym wedi cadw a chryfhau cod dwy haen i ddiogelu gweithwyr y sector cyhoeddus yr effeithir arnynt gan allanoli gan gontractwyr sy'n ceisio dod â gweithwyr newydd i mewn ar delerau ac amodau gwaeth. Mae cynigion ar gyfer y Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus i ddatblygu a lledaenu arferion da mewn trefniadau gweithlu ar draws y gwasanaethau cyhoeddus wedi'u nodi yn y Papur Gwyn a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2014. Er bod y comisiwn staff wedi'i sefydlu ar sail anstatudol ym mis Medi, roedd y mwyafrif llethol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn hwnnw o blaid rhoi sail statudol i'r comisiwn. Mae'r Bil drafft yn cynnwys darpariaeth o'r fath. Mae'r Bil drafft yn ei gyfanrwydd wedi'i ffurfio gan y cannoedd o ymatebion a gafwyd ynglŷn â'r ymgynghoriadau ar y ddau Bapur Gwyn.

In June, I announced the Welsh Government's preference for the future configuration of local government in Wales. Two maps were published that show the preference for the future structure in south, mid and west Wales, and with two options—either two or three local authorities—in north Wales. Following informal consultation over the summer, today marks the start of formal consultation on our proposed configuration for local authority mergers. This consultation provides the public, local authorities and others with the opportunity to comment on the proposals. It will present the Welsh Government that takes office after May 2016 with the opportunity to make an early decision on how it wishes to proceed. This will be with the benefit of a developed legislative proposition, assisted by a full understanding of the views of stakeholders.

The draft Bill sets out a proposed legislative framework for the key planks of our merger and reform proposals as contained in the 'Power to Local People' White Paper. However, some detailed aspects are subject to further consideration and, through the consultation commencing today, engagement with stakeholders. These will be developed in light of consultation responses for inclusion in the Bill for introduction. The consultation document also includes additional policy detail and explanation where proposals in the White Paper have been modified or a decision has been taken not to proceed with the proposals. Finally, it includes additional proposals that were not in the White Paper, but on which I now intend to consult. For example, I intend to seek views on whether we should include provisions in the Bill similar to those introduced in England, which would enable senior officers to be dismissed by a vote of the full council, as opposed to through a process conducted by a designated independent person.

A draft explanatory memorandum, including a draft regulatory impact assessment, plus other impact assessments, have also been published alongside the draft Bill. The analysis in the RIA provides a range of estimated costs and benefits associated with merging local authorities and wider local government reform. In preparing the RIA, consultation has taken place with key stakeholders, technical experts, academics, the Welsh Local Government Association and senior local authority officers.

The RIA shows that savings can be made. These include the costs of senior management, administration and councillors' remuneration, along with efficiencies in estate management and rationalisation of assets. Additional benefits are improved financial resilience and reduced complexity. The RIA does not attempt to quantify capital receipts from disposal of assets, but the rationalisation of local government's estate is something that is expected to produce significant opportunities.

Ym mis Mehefin, cyhoeddais hoff ddewis Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfluniad llywodraeth leol yn y dyfodol yng Nghymru. Cafodd dau fap eu cyhoeddi i ddangos yr hoff ddewis ar gyfer strwythur y dyfodol yn y de, y canolbarth a'r gorllewin, a gyda dau ddewis—naill ai dau neu dri awdurdod lleol—yn y gogledd. Ar ôl ymgynghori anffurfiol dros yr haf, mae heddiw'n nodi dechrau ymgynghoriad ffurfiol ar ein cyfluniad arfaethedig ar gyfer uno awdurdodau lleol. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig cyfle i'r cyhoedd, awdurdodau lleol ac eraill roi sylwadau ar y cynigion. Bydd yn rhoi cyfle i'r Llywodraeth Cymru a fydd ar waith ar ôl mis Mai 2016 i wneud penderfyniad cynnar ynghylch sut y mae'n dymuno bwrw ymlaen. Bydd hyn yn cael budd cynnig deddfwriaethol a ddatblygwyd, gyda chymorth dealltwriaeth lawn o safbwyntiau rhanddeiliaid.

Mae'r Bil drafft yn nodi fframwaith deddfwriaethol arfaethedig ar gyfer planciau allweddol ein cynigion i gyfuno a diwygio fel a geir yn y Papur Gwyn 'Pŵer i Bobl Leol'. Fodd bynnag, mae rhai agweddau manwl yn amodol ar ystyriaeth bellach a, drwy'r ymgynghoriad sy'n dechrau heddiw, ar ymgysylltu â rhanddeiliaid. Bydd y rhain yn cael eu datblygu yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad i'w cynnwys yn y Bil i'w gyflwyno. Mae'r ddogfen ymgynghori hefyd yn cynnwys manylion polisi ychwanegol ac esboniad o lle mae cynigion yn y Papur Gwyn wedi cael eu haddasu neu lle mae penderfyniad wedi'i wneud i beidio â bwrw ymlaen â'r cynigion. Yn olaf, mae'n cynnwys cynigion ychwanegol nad oeddent yn y Papur Gwyn, ond yr wyf yn awr yn bwriadu ymgynghori arnynt. Er enghraifft, rwy'n bwriadu ceisio barn ynghylch pa un a ddylem gynnwys darpariaethau yn y Bil sy'n debyg i'r rhai a gyflwynwyd yn Lloegr, a fyddai'n galluogi uwch swyddogion i gael eu diswyddo drwy bleidlais gan y cyngor llawn, yn ystrach na drwy broses a gynhelir gan unigolyn annibynnol dynodedig.

Mae memorandwm esboniadol drafft, sy'n cynnwys asesiad effaith rheoleiddiol drafft, ynghyd ag asesiadau effaith eraill, hefyd wedi ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Bil drafft. Mae'r dadansoddiad yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn darparu ystod o gostau a buddion a amcangyfrifir sy'n gysylltiedig ag uno awdurdodau lleol a diwygio llywodraeth leol yn ehangach. Wrth baratoi'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, mae ymgynghori wedi digwydd gyda rhanddeiliaid allweddol, arbenigwyr technegol, academyddion, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac uwch swyddogion awdurdodau lleol.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn dangos y gellir gwneud arbedion. Mae'r rhain yn cynnwys costau uwch reolaeth, gweinyddu a thâl cyngorwyr, ynghyd ag arbedion effeithlonrwydd o ran rheoli ystadau a rhesymoli asedau. Ceir manteision ychwanegol o wella cydnerthedd ariannol a llai o gymhlethdod. Nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ceisio meintoli derbyniadau cyfalaf o waredu asedau, ond mae disgwyl i resymoli ystadau llywodraeth leol gynhyrchu cyfleoedd sylweddol.

Overall, the estimated net savings to local authorities over 10 years would be between £529 million and £650 million. This is the same order of savings as those estimated by the Chartered Institute of Public Finance and Accountancy in late 2014. We therefore anticipate the cost of reorganisation will be paid back in two or three years.

Councils in Wales have fared better than those in England in terms of funding over the past two spending rounds, but the Welsh budget continues to be eroded by cuts from the UK Government. We await tomorrow's announcement on the latest comprehensive spending review, but it is clear that, without fundamental reform of how public services are delivered and organised across Wales, our 22 local authorities will face a very bleak future. In summary, this draft Bill will provide the basis for the next Welsh Government to proceed at pace with local government reform.

At ei gilydd, byddai'r arbedion net a amcangyfrifir ar gyfer awdurdodau lleol dros 10 mlynedd rhwng £529 miliwn a £650 miliwn. Mae hyn yr un math o arbedion ag a amcangyfrifwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar ddiwedd 2014. Felly, rydym yn rhagweld y caiff y gost o ad-drefnu ei thalu'n ôl mewn dwy neu dair blynedd.

Mae cynghorau yng Nghymru wedi gwneud yn well na'r rhai yn Lloegr o ran cyllid dros y ddau gylich gwario diwethaf, ond mae cyllideb Cymru'n parhau i gael ei herydu gan doriadau gan Lywodraeth y DU. Rydym yn disgwyl cyhoeddiad yfory am yr adolygiad cynhwysfawr o wariant diweddaraf, ond mae'n amlwg y bydd ein 22 awdurdod lleol, heb ddiwygio'n sylfaenol sut y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu a'u trefnu ledled Cymru, yn wynebu dyfodol llwm iawn. I grynhoi, bydd y Bil drafft hwn yn darparu'r sail i Lywodraeth nesaf Cymru symud ymlaen yn gyflym i ddiwygio llywodraeth leol.

15:32 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Janet Finch-Saunders, Conservative spokesperson.

Janet Finch-Saunders, llefarydd y Ceidwadwyr.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:32 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister, for your statement. Obviously, it's good to see that there's going to be more consultation going forward. However, we would want to ensure that that consultation is done with all transparency. Last week, in spokespersons' questions, and I'm not alone in this Chamber, other Members—and council leaders, many of your own—have stressed that, really, your sole remit in the beginning should have been to look at what do we want local authorities to deliver. There doesn't appear to have been any consideration of that. We welcome further consultation on the draft Bill, but we want to see a focus on the principles, and true principles, of localism, rather than your map proposals so far, which will see overcentralisation of local government like never before.

Diolch, Weinidog, am eich datganiad. Yn amlwg, mae'n braf gweld y bydd mwy o ymgynghori yn y dyfodol. Fodd bynnag, rydym yn awyddus i sicrhau bod yr ymgynghoriad hwnnwn cael ei wneud gyda phob tryloywder. Yr wythnos diwethaf, yng nghwestiynau'r llefarwyr, ac nid fi yw'r unig un yn y Siambur hon, mae Aelodau eraill—ac arweinwyr cynghorau, llawer o'ch rhai chi eich hunain—wedi pwysleisio mai, mewn gwirionedd, yr unig gylich gwaith y dylech fod wedi bod yn ei gyflawni ar y dechrau oedd edrych ar yr hyn yr ydym yn dymuno i awdurdodau lleol ei ddarparu. Nid yw'n ymddangos eich bod wedi ystyried hynny o gwbl. Rydym yn croesawu ymgynghoriad pellach ar y Bil drafft, ond hoffem weld pwyslais ar yr egwyddorion, a gwir egwyddorion, brogarwch, yn hytrach na'ch cynigion map hyd yn hyn, a fydd yn gweld gorganoli llywodraeth leol fel na wnaed erioed o'r blaen.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Let me be clear: the Welsh Conservatives are very clear on what we expect. Where councils can work together, share services and save money, then, yes, they have the backing and support of our group. But it has to be with the consent of local people. We support increased openness and transparency and welcome the proposed new obligations outlined for county councillors in this Bill, although we would want to see this transparency agenda taken much further, with all local authorities publishing their expenditure, publishing their freedom of information responses, streaming full council meetings online, minimising the number of meetings for which part, or all, are held in secret, excluding the press and public, and publishing audit, inspection and regulation bodies' reports online.

Dewch imi fod yn glir: mae Ceidwadwyr Cymru yn glir iawn o ran yr hyn yr ydym yn ei ddisgwyl. Lle y gall cynghorau gydweithio, rhannu gwasanaethau ac arbed arian, yna, oes, mae ganddynt gefnogaeth a chymorth ein grŵp. Ond mae'n rhaid i hynny fod gyda chydysniad y bobl leol. Rydym yn cefnogi dulliau mwy agored a thryloyw ac yn croesawu'r rhwymedigaethau newydd arfaethedig a amlinellir ar gyfer cynghorwyr sir yn y Bil hwn, er y byddem yn dymuno gweld yr agenda tryloywder hon yn mynd yn llawer pellach, gyda phob awdurdod lleol yn cyhoeddi ei wariant, yn cyhoeddi ei ymatebion rhyddid gwybodaeth, yn ffrydio cyfarfodydd cyngor llawn ar-lein, yn lleihau nifer y cyfarfodydd sy'n rhannol, neu'n gyfan gwbl, gyfrinachol, gan wahardd y wasg a'r cyhoedd, ac yn cyhoeddi adroddiadau cyrff archwilio, arolygu a rheoleiddio ar-lein.

In terms of merger costs, Minister, you have said today that you anticipate that mergers would pay for themselves within two to three years. I'd like you to tell the Chamber here today how you anticipate this. Where have you got this knowledge that none of us have seen as yet? Will you confirm whether this means that you intend for councils to foot the bill for the mergers themselves? In terms of clear principles and scrutiny, this Bill does not give enough credence to the need for scrutiny by the National Assembly for Wales, either in the Chamber or at committee level, for example, of merger proposals, or of ministerial intervention in local authorities. In terms of consultation, the WLGA have highlighted the clear need for discussions to take place with all local authorities. In response to the 'Reforming Local Government' White Paper, they welcomed the Minister for Public Services's commitment to regularly meet with the 22 leaders through the WLGA co-ordinating committee and WLGA council to co-ordinate the local government reform programme. However, in response to my recent written assembly question, the Minister confirms that he has only met once with the WLGA council—in September of last year—and never with any of the co-ordinating committee, since his appointment to the portfolio. It hardly gives much cause to welcome your promises in that regard.

Now this is a real concern, given that the WLGA have highlighted a lack of consensus on the way forward, and we do hope that today's statement will lead to much more open consultation. Put frankly, we have long opposed Labour's marker-pen assault on our Welsh communities, and will continue to do so. The Minister knows his merger proposals are unpopular even amongst his own councillors. This Bill kicks the issues into the long grass, long beyond the next election. The projected savings are more empty promises from a Labour Minister who appears to have plucked a figure out of thin air. Communities will rightly question whether these figures, or, indeed, the Welsh Labour Government, can ever be trusted again on local government reform. And it's local people who continue to be ignored by Labour. We regret that the public and local authority staff won't have any more information before the election. The Welsh Conservatives remain the only party that would put power back into the hands of local communities, with any merger proposals subject to a local referendum.

My question, Minister: please tell us here today how much you anticipate the full cost of this local government reform, based on either eight or nine of the map proposals.

O ran costau uno, Weinidog, rydych wedi dweud heddiw eich bod yn rhagweld y byddai'r uniadau'n talu amdanynt eu hunain o fewn dwy neu dair blynedd. Hoffwn ichi ddweud wrth y Siambr yma heddiw sut yr ydych yn rhagweld hyn. O ble ydych chi wedi cael y wybodaeth hon nad oes neb ohonom wedi'i gweld hyd yn hyn? A wnewch chi gadarnhau pa un a yw hyn yn golygu mai eich bwriad yw i gynghorau dalu'r bil am yr uniadau eu hunain? O ran egwyddorion clir a chraffu, nid yw'r Bil hwn yn rhoi digon o hygredded i'r angen am graffu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, naill ai yn y Siambr nac ar lefel pwyllgor, er enghraifft, ar gynigion uno, nac ar ymyrraeth weinidogol mewn awdurdodau lleol. O ran ymgynghori, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi tynnu sylw at yr angen amlwg i gynnal trafodaethau gyda phob awdurdod lleol. Mewn ymateb i'r Papur Gwyn 'Diwygio Llywodraeth Leol', roeddent yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i gyfarfod yn rheolaidd â'r 22 arweinydd drwy bwyllgor cydlynu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gydlynu'r rhaglen ddiwygio llywodraeth leol. Fodd bynnag, mewn ymateb i fy nghwestiwn ysgrifenedig i'r cynulliad yn ddiweddar, mae'r Gweinidog yn cadarnhau mai dim ond unwaith y mae wedi cyfarfod â chyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru—fis Medi y llynedd—ac nad yw erioed wedi cyfarfod ag unrhyw un o'r pwyllgor cydlynu, ers ei benodi i'r portffolio. Nid yw hynny'n rhoi llawer o achos i groesawu eich addewidion yn hynny o beth.

Nawr mae hyn yn bryder gwirioneddol, o gofio bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi tynnu sylw at ddiffyg consensws ar y ffordd ymlaen, ac rydym yn gobeithio y bydd y datganiad heddiw'n arwain at ymgynghori llawer mwy agored. A dweud y gwir, rydym wedi gwrthwynebu ymosodiad Llafur â phinnau marcio ar ein cymunedau yng Nghymru, a byddwn yn parhau i wneud hynny. Mae'r Gweinidog yn gwybod bod ei gynigion i uno yn amhoblogaidd hyd yn oed ymhlith ei gynghorwyr eu hunain. Mae'r Bil hwn yn rhoi'r materion o'r neilltu, ymhell y tu hwnt i'r etholiad nesaf. Mae'r arbedion a ragwelir yn fwy o addewidion gwag gan Weinidog Llafur sy'n ymddangos ei fod wedi tynnu ffigur o'r awyr. Bydd cymunedau'n gofyn, a hynny'n ddigon teg, a fyddant fyth yn gallu ymddiried eto yn y ffigurau hyn, neu, yn wir, yn Llywodraeth Lafur Cymru, o ran diwygio llywodraeth leol. A phobl leol sy'n dal i gael eu hanwybyddu gan y Blaid Lafur. Rydym yn gresynu na fydd y cyhoedd na staff awdurdodau lleol yn cael unrhyw wybodaeth ychwanegol cyn yr etholiad. Ceidwadwyr Cymru yw'r unig blaid o hyd a fyddai'n rhoi pŵer yn ôl yn nwylo cymunedau lleol, gan gynnal refferendwm lleol ynglŷn ag unrhyw gynigion i uno.

Fy nghwestiwn, Weinidog: dywedwch wrthym yma heddiw os gwelwch yn dda faint yr ydych yn ei ragweld fydd cost lawn y diwygio llywodraeth leol hwn, yn seiliedig ar naill ai wyth neu naw o'r cynigion ar y map.

The Conservative spokesperson welcomed the fact that we're having more consultation, so I'm pleased that she said that. We set out, of course, our vision for local government in the White Paper we published in February, and that went into considerable detail about the role of local government, as we saw it, based on our vision of activist councils delivering modern, high-quality services for and with their local communities. I understand, from what she has had to say, that all the Conservatives are in favour of is keeping the status quo, but more shared services. I think that would be a recipe for the degradation of local government, particularly in light of the further spending cuts that we expect from her Government at Westminster.

She welcomed what we were doing in respect of openness and transparency. She called for audit and inspection reports to be published online—they are, currently. She called for meetings to be streamed live. Well, we've made provision for that, and we've also provided funding for that in the past. She called for expenditure to be published. Expenditure is published in annual reports by local authorities. She called for freedom of information requests to be published as well—at the very same time, of course, that the Conservative Government in Whitehall is planning to undermine the Freedom of Information Act 2000.

She asked about the costings, and the costings we have undertaken are set out extensively in the regulatory impact assessment. They are set out there for scrutiny, for debate, for comment, as we go through this process of consultation. And, in fact, of course, the conclusions that we have reached, in terms of potential savings, are very close to the savings projected by the Chartered Institute of Public Finance and Accountancy, when they did similar work for the Welsh Local Government Association last year. We are saying that the net savings could be up to £650 million over a 10-year period, and we see the payback time for the cost of local government reorganisation—there will be an upfront cost—as taking place within the first two to three years. So, we're very clear about what the costings are; they can be scrutinised, they can be debated.

She asked about local government footing the bill. Well, there is a consultation out there as to how we take forward the issue of those initial costs, and we look forward to people engaging with that consultation. The powers of ministerial intervention are set out in the Bill. We currently have powers of intervention already, of course. The Bill proposes ways of modernising those powers, and changing them. It proposes ways in which intervention can take place after there have been reports by appropriate regulators, including, for example, Estyn, or the social services regulator, or, indeed, the Wales Audit Office.

Croesawodd llefarydd y Ceidwadwyr y ffaith ein bod yn cael mwy o ymgynghori, felly rwy'n falch ei bod hi wedi dweud hynny. Gwnaethom nodi, wrth gwrs, ein gweledigaeth ar gyfer llywodraeth leol yn y Papur Gwyn a gyhoeddwyd gennym ym mis Chwefror, ac aeth hwnnw i gryn fanylder ynglŷn â swyddogaeth llywodraeth leol, fel yr oeddem yn ei gweld, yn seiliedig ar ein gweledigaeth o gynghorau o weithredwyr yn darparu gwasanaethau modern, o safon uchel i'w cymunedau lleol a gyda hwy. Deallaf, o'r hyn y mae hi wedi'i ddweud, mai'r oll y mae'r Ceidwadwyr o'i blaid yw cadw'r status quo, ond rhannu mwy o wasanaethau. Rwy'n credu y byddai hynny'n arwain at ddirywiad llywodraeth leol, yn enwedig yn wyneb y toriadau gwariant pellach yr ydym yn eu disgwyl gan ei Llywodraeth hi yn San Steffan.

Roedd hi'n croesawu'r hyn yr oeddem yn ei wneud o ran bod yn agored ac yn dryloyw. Galwodd am gyhoeddi adroddiadau archwilio ac arolygu ar-lein—mae hynny'n digwydd eisoes. Galwodd am ffrydio cyfarfodydd yn fyw. Wel, rydym wedi darparu ar gyfer hynny, ac rydym hefyd wedi darparu cyllid ar gyfer hynny yn y gorffennol. Galwodd am gyhoeddi gwariant. Mae awdurdodau lleol yn cyhoeddi gwariant mewn adroddiadau blynyddol. Galwodd am gyhoeddi ceisiadau rhyddid gwybodaeth hefyd—ar yr union adeg, wrth gwrs, mae'r Llywodraeth Geidwadol yn Whitehall yn bwriadu tanseilio Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Gofynnodd am y costau, ac mae'r costau yr ydym wedi'u cynnal wedi eu nodi'n helaeth yn yr asesiad effaith rheoleiddiol. Maent wedi'u nodi yno ar gyfer craffu, ar gyfer dadl, ar gyfer sylwadau, wrth inni fynd drwy'r broses hon o ymgynghori. Ac, yn wir, wrth gwrs, mae'r casgliadau yr ydym wedi'u cyrraedd, o ran arbedion posibl, yn agos iawn i'r arbedion a ragwelwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, pan wnaethant waith tebyg i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y llynedd. Rydym ni'n dweud y gallai'r arbedion net fod hyd at £650 miliwn dros gyfnod o 10 mlynedd, ac rydym yn gweld y bydd amser ad-dalu'r gost o ad-drefnu llywodraeth leol—bydd cost ymlaen llaw—yn digwydd o fewn y ddwy i dair blynedd gyntaf. Felly, rydym yn glir iawn am y costau; gellir craffu arnynt, gellir eu trafod.

Gofynnodd am lywodraeth leol yn talu'r costau. Wel, mae ymgynghoriad ar gael o ran sut yr ydym yn bwrw ymlaen â mater y costau cychwynnol hynny, ac edrychwn ymlaen at weld pobl yn ymgysylltu â'r ymgynghoriad hwnnw. Mae pwerau Gweinidogion i ymyrryd wedi'u nodi yn y Bil. Ar hyn o bryd mae gennym bwerau ymyrraeth yn barod, wrth gwrs. Mae'r Bil yn cynnig ffyrdd o foderneiddio'r pwerau hynny, a'u newid. Mae'n cynnig ffyrdd y gall ymyrraeth ddigwydd ar ôl i reoleiddwyr priodol lunio adroddiadau, gan gynnwys, er enghraifft, Estyn, neu'r rheoleiddiwr gwasanaethau cymdeithasol, neu, yn wir, Swyddfa Archwilio Cymru.

As regards meetings with the Welsh Local Government Association, well, I'm going to be going to the Welsh Local Government Association council this coming Friday. I have met regularly with leaders of local authorities in Wales at the partnership council, at the finance sub-group, and I've met privately with leaders across the whole of Wales. Last week, the Welsh Government and the Welsh Local Government Association jointly hosted a seminar on finance and the cuts facing local authorities. Two of my other ministerial colleagues joined me at that event and seven out of the 22 local government leaders came to that event. It was open to all 22 of them, of course, to attend and it was, as I say, jointly organised with the Welsh Local Government Association. So, there's been extensive engagement with leaders of local authorities and beyond that, let me say, over this last 14 months.

O ran cyfarfodydd gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, wel, byddaf yn mynd i gyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ddydd Gwener. Rwyf wedi cyfarfod yn rheolaidd ag arweinwyr awdurdodau lleol yng Nghymru yn y cyngor partneriaeth, yn yr is-grŵp cyllid, ac rwyf wedi cwrrd yn breifat ag arweinwyr o bob rhan o Gymru. Yr wythnos diwethaf, cynhaliodd Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru seminar ar y cyd ar gyllid a'r toriadau sy'n wynebu awdurdodau lleol. Ymunodd dau o fy nghyd-Weinidogion eraill â mi yn y digwyddiad hwnnw a daeth saith o'r 22 o arweinwyr llywodraeth leol i'r digwyddiad hwnnw. Roedd yn agored i bob un o'r 22 ohonynt, wrth gwrs, a chafodd, fel y dywedais, ei drefnu ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Felly, mae ymgysylltu helaeth wedi ei gynnal gydag arweinwyr awdurdodau lleol a thu hwnt i hynny, gadewch imi ddweud, dros y 14 mis diwethaf.

15:40

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Like many others, Minister, today, I welcome both the statement you're making this afternoon and the publication of the Bill this morning, alongside all the accompanying documents, which I think will take all of us some time to digest fully.

We've been debating for a long time the future structure of local government in Wales. I think many of us will join together in welcoming many aspects of the legislation, but not simply welcoming the aspects of the legislation itself in terms of the technical changes it seeks to achieve; I think we also welcome the ambition that was outlined both in the White Paper earlier this year and now given life in the draft legislation that you're publishing today. We particularly wish to welcome the staff commission that you're establishing on a statutory basis, the vision of the integration of services, but also a new look at democracy and how democracy will work in local government in Wales. I would like to take this opportunity to particularly welcome the general power of competence that is being provided for local government. Had the Secretary of State for Wales read your document, perhaps we would've had a better draft Wales Bill published earlier this year.

Will you give us this undertaking, Minister: that, in taking forward these visions and these ambitions, we'll be able to do so with collaboration and co-operation with local government and with the communities across Wales and that we will be seeking to stimulate and continue to stimulate a conversation with local government? It's quite distressing sometimes to read some of what is written about the situation of local government across the border in England, both in terms of the funding and also in terms of the relationship with central Government across there. I don't think anybody wishes to see the same situation in Wales. We've protected funding in Wales and now, as we move forward to reform, I hope that we'll be able to do that in a similarly collaborative and co-operative way.

Fel llawer o bobl eraill, Weinidog, heddiw, rwy'n croesawu'r datganiad yr ydych yn ei wneud y prynhawn yma a chyhoeddi'r Bil y bore yma, ochr yn ochr â'r holl ddogfennau ategol; credaf y bydd arnom i gyd angen peth amser i dreulio'r rheini'n llawn.

Rydym wedi bod yn trafod strwythur llywodraeth leol yn y dyfodol yng Nghymru ers cryn amser. Rwy'n credu y bydd llawer ohonom yn ymuno gyda'n gilydd i groesawu llawer o agweddau ar y ddeddfwriaeth, ond nid dim ond croesawu'r agweddau ar y ddeddfwriaeth ei hun o ran y newidiadau technegol y mae'n ceisio eu cyflawni; rwy'n credu ein bod hefyd yn croesawu'r uchelgais a amlinellwyd yn y Papur Gwyn yn gynharach eleni ac sydd bellach wedi cael bywyd yn y ddeddfwriaeth ddrafft yr ydych yn ei chyhoeddi heddiw. Yn benodol, hoffem groesawu'r comisiwn staff yr ydych yn ei sefydlu ar sail statudol, y weledigaeth ar gyfer integreiddio gwasanaethau, ond hefyd y golwg newydd ar ddemocratiaeth a sut y bydd democratiaeth yn gweithio mewn llywodraeth leol yng Nghymru. Hoffwn achub ar y cyfle hwn i groesawu'n arbennig y pŵer cymhwysedd cyffredinol sy'n cael ei ddarparu i lywodraeth leol. Pe byddai Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi darllen eich dogfen, efallai y byddai Bil Cymru drafft gwell wedi cael ei gyhoeddi yn gynharach eleni.

A wnewch chi roi'r ymrwymiad hwn inni, Weinidog: y byddwn, wrth fwrw ymlaen â'r gweledigaethau a'r dyheadau hyn, yn gallu gwneud hynny gan gydweithio a chydweithredu gyda llywodraeth leol a gyda'r cymunedau ledled Cymru ac y byddwn yn ceisio ysgogi a pharhau i ysgogi sgwrs gyda llywodraeth leol? Mae'n achosi cryn bryder weithiau i ddarllen rhai o'r pethau sy'n cael eu hysgrifennu am sefyllfa llywodraeth leol dros y ffin yn Lloegr, o ran yr arian a hefyd o ran y berthynas â Llywodraeth ganolog yn y fan honno. Nid wyf yn meddwl bod unrhyw un yn dymuno gweld yr un sefyllfa yng Nghymru. Rydym wedi diogelu cyllid yng Nghymru ac nawr, wrth inni symud ymlaen at ddiwygio, rwy'n gobeithio y byddwn yn gallu gwneud hynny hefyd mewn modd cydweithredol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I'll finish by saying this: Schedule 1 to the draft Bill outlines the structure of local government that you seek to put in place. That, in my mind, does not provide us with the opportunity here to have a separate vote, except by amendment, on each one of the new local authority structures that you intend to put in place. Would you consider, Minister, revisiting the way that you've structured that Bill and the way that you intend—or perhaps you could outline how you intend to structure—taking forward debate on this? I think it is important that, if we're seeking to change not simply the structures of local government, but the culture and the integration of local government, we're able to ensure that each one of these new authorities starts with a strong democratic mandate. I would say that would imply a separate vote on the creation of each individual authority.

Rwyf am orffen drwy ddweud hyn: mae Atodlen 1 y Bil drafft yn amlinellu'r strwythur llywodraeth leol yr ydych yn ceisio ei roi ar waith. Nid yw hynny, yn fy nhyb i, yn rhoi'r cyfle inni i gael pleidlais ar wahân, ac eithrio drwy welliannau, ar bob un o'r strwythurau awdurdod lleol newydd y bwriadwch eu rhoi ar waith. A fydddech chi'n ystyried, Weinidog, ailystyried y ffordd yr ydych wedi strwythuro'r Bil hwnnw a'r ffordd yr ydych yn bwriadu—neu efallai y gallech amlinellu sut yr ydych yn bwriadu strwythuro—symud y ddadl ymlaen ar hyn? Rwy'n credu ei bod yn bwysig ein bod, os ydym yn ceisio newid mwy na nid yn unig strwythurau llywodraeth leol, ond diwylliant llywodraeth leol a'i hintegreiddio, yn gallu sicrhau bod pob un o'r awdurdodau newydd hyn yn dechrau gyda mandad democrataidd cryf. Byddwn yn dweud y byddai hynny'n awgrymu pleidlais ar wahân ar greu pob awdurdod unigol.

15:44

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

My colleague the Member for Blaenau Gwent welcomed the ambition, firstly of the White Paper and now the draft legislation. Can I thank him for those remarks? Can I thank him also for his support for the Public Services Staff Commission, which, I know, will be welcomed also by the public service trade unions? He is right, I think, to say that, in the White Paper and in the accompanying documents, we outline proposals that will strengthen democracy and they will strengthen democratic oversight. We make it clear that there are specific responsibilities on councillors, and indeed there are specific responsibilities on leaders, to promote equality and diversity, for example, which we're anxious should be followed through. Can I also welcome his comments on the general power of competence as well?

In respect of co-operation with local government, we have, throughout this process, published documents where we've had the opportunity for consultation and engagement, and that consultation will continue over the next few months. It may be that other proposals are brought forward. My colleague was right to reflect on the fact that we have protected funding in Wales for local government better than it is being protected in England.

I'm going to have to disappoint him, I think, on his last point. I don't think you could have separate votes on each of the local authority proposals, as set out in the Schedule. At the end of the day, we've got to reach a view in this place on the structure of local government in Wales as a whole. We cannot really, I think, adopt a patchwork approach to individual counties following the debate on the consultation. I know that my colleague, the Member for Blaenau Gwent, has a particular proposal of his own in respect of parts of Gwent, and I have no doubt that he will advocate that firmly and calmly and with great enthusiasm during the consultation process.

Mae fy nghydweithiwr, Aelod Blaenau Gwent, wedi croesawu'r uchelgais, yn gyntaf yn y Papur Gwyn ac nawr yn y ddeddfwriaeth drafft. A gaf i ddiolch iddo am y sylwadau hynny? A gaf i ddiolch iddo hefyd am ei gefnogaeth i'r Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus, a fydd, rwy'n gwybod, yn cael ei groesawu hefyd gan yr undebau llafur gwasanaeth cyhoeddus? Mae'n iawn, rwy'n meddwl, i ddweud ein bod, yn y Papur Gwyn ac yn y dogfennau sy'n cyd-fynd ag ef, yn amlinellu cynigion a fydd yn cryfhau democratiaeth ac yn cryfhau goruchwyliaeth ddemocrataidd. Rydym yn ei gwneud yn glir bod gan gynghorwyr gyfrifoldebau penodol, ac yn wir mae gan arweinyddion gyfrifoldebau penodol, i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth, er enghraifft, ac rydym yn awyddus iawn i hynny ddioglydd. A gaf i hefyd groesawu ei sylwadau am y pŵer cymhwysedd cyffredinol?

O ran cydweithio â llywodraeth leol, rydym, drwy gydol y broses hon, wedi cyhoeddi dogfennau lle'r ydym wedi cael y cyfle i ymgynghori ac ymgysylltu, a bydd yr ymgynghori hwnnw'n parhau dros y misoedd nesaf. Efallai y caiff cynigion eraill eu dwyn ymlaen. Roedd fy nghyd-Aelod yn iawn i fyfyrto ar y ffaith ein bod wedi diogelu cyllid llywodraeth leol yn well yng Nghymru nag y maent wedi ei ddiogelu yn Lloegr.

Bydd yn rhaid i mi ei siomi, rwy'n meddwl, ar ei bwynt olaf. Nid wyf yn credu y gallech gael pleidlais ar wahân ar bob un o'r cynigion awdurdodau lleol, fel y nodir yn yr Atodlen. Yn y pen draw, mae'n rhaid inni ffurfio barn yn y lle hwn ar strwythur llywodraeth leol yng Nghymru yn ei chyfanrwydd. Ni allwn mewn gwirionedd, yn fy marn i, fabwysiadu dull clytwaith ar gyfer siroedd unigol yn dilyn y ddadl ar yr ymgynghoriad. Rwy'n gwybod bod gan fy nghyd-Aelod, Aelod Blaenau Gwent, ei gynig penodol ei hun ynglŷn â rhannau o Went, ac nid oes gennyf amheuaeth y bydd yn eiriol yn gadarn ac yn bwylllog dros hynny, gyda chryn frwdfrydedd, yn ystod y broses ymgynghori.

15:46

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Simon Thomas, acting Plaid Cymru spokesperson.

Simon Thomas, llefarydd dros dro Plaid Cymru.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Diolch, Gadeirydd. Mae Plaid Cymru yn rhannu un peth yn gytûn gyda'r Gweinidog a'r Llywodraeth, sef ein bod ni hefyd am weld llywodraeth leol yn dod yn grochan democrataeth yn lleol. Mae wedi bod yn y gorffennol. Mewn llywodraeth leol y dyfeisiwyd ein gwasanaeth iechyd ni a'r system tai cymdeithasol sydd gennym ni. Mae ynni yn dod i'r rhan fwyaf o bobl oherwydd gwasanaethau awdurdodau lleol yn y lle cyntaf. Mae eisiau gweld dadeni o hynny'n digwydd, er ei fod yn digwydd mewn cyfnod o doriadau llym iawn gan y Llywodraeth Doriaidd yn San Steffan.

Felly, yr hyn rydym ni'n chwilio amdano yn y broses yma yw ffordd ddeddfwriaethol a statudol o sicrhau cydlynu tuag at bwmpas cytûn rhwng gwasanaethau lleol, boed hynny'n wasanaeth llywodraeth leol, y gwasanaeth tân neu'r gwasanaeth iechyd; bod yna amcanion cytûn gan y gwahanol ddarparwyr ar gyfer gwasanaethau lleol; bod yna lefel briodol o ddarparu yn digwydd ar y lefel yna—mae maint yn rhan o hynny ond nid yn unig maint ddylai benderfynu hynny; bod modd gwella sut mae'r penderfyniadau hyn yn cael eu craffu arnynt gan drigolion lleol, ac mae gwendidau amlwg iawn yn y system bresennol yn y cyd-destun hwnnw; a hefyd ein bod yn chwilio i gryfhau llywodraeth leol ar bob cyfrif. Wrth inni, gobeithio, weld datganoli yn symud ymlaen ar lefel genedlaethol yng Nghymru—ac rwy'n siŵr y bydd modd inni wydroi agwedd y Gweinidog yn San Steffan ar y Bil presennol—wrth inni weld cryfhau datganoli, rydym ni eisiau gweld hynny yn digwydd ar lefel leol hefyd.

A throi, felly, at y Bil sydd wedi cael ei gyflwyno gan y Gweinidog, nid dyma'r Bil y byddai Plaid Cymru yn ei gyflwyno mewn Llywodraeth. Felly, i'r graddau hynny, nid ydym yn cytuno â'r Bil. Wedi dweud hynny, mae yna nifer o bethau, sydd eisoes wedi cael eu crybwyll, sydd yn werth eu trafod ac ymgynghori arnynt nhw—rwy'n cytuno'n llwyr.

Rwy'n sylwi, mewn ffordd, ar y tawelwch llwyr, hyd yma, gan arweinwyr Llafur mewn awdurdodau lleol yn croesawu'r Bil yma. Rwy'n edrych ymlaen at glywed, yn y broses ymgynghori, beth sydd gan yr arweinwyr hynny i'w ddweud. Yn sicr, hyd yma, nid ydynt yn croesawu hyn nac yn dweud llawer yn ei glych. Efallai eu bod nhw'n teimlo bod yr etholiad yn mynd i newid y sefyllfa, ac felly rwyf eisiau dweud bod etholiad, ym marn Plaid Cymru, yn prysuro'r broses o ddiwygio llywodraeth leol, er bod gennym ni olwg amcan o sut y gellir gwneud hynny. Felly, rwyf o'r farn mai penderfyniad yn ystod yr etholiad cyffredinol nesaf, fis Mai nesaf, rhwng dau gynllun gwahanol i ddiwygio gwasanaethau lleol, a fydd yn digwydd. Ond, yn sicr, ni fydd oedi ar ôl yr etholiad, wedyn, i fwrw ati.

Rydym ni wedi cynnig bod modd gwneud llawer mwy i gyfuno awdurdodau lleol, yn y modd sy'n cael ei wneud bellach yn Lloegr, ym Mancheinion a de swydd Efrog—maent yn enghreifftiau amlwg. Mae hefyd yn ddi-ddorol i weld bod y blaid Geidwadol, sydd mor wrthwynebus i ddiwygio llywodraeth leol fan hyn, yn datganoli yn llwyr ac yn gyflym yn Lloegr o'r lefel genedlaethol, ganolog i lawr i'r awdurdodau newydd wedi eu cyfuno yma.

Thank you, Chair. Plaid Cymru agrees on one thing with the Minister and the Government: that we too want to see local government becoming a crucible of local democracy. It has been in the past. It was in our local authorities that our health service was invented, as well as our social housing sector. Energy was provided to people because of local authority services initially. We want to see a renaissance of that, although it is happening in a period of very stringent cuts by the Tory Government in Westminster.

So, what we're seeking in this process is a legislative and statutory means of ensuring co-ordination for an agreed purpose between local services, be that a service provided by local authorities, the fire service or the health service; that there are agreed objectives between these various providers for public services; that there is an appropriate level of provision at that level—scale is part of that, but scale alone wouldn't determine that; that we can improve how these decisions are scrutinised by local people, and there are very clear weaknesses in the current system in that context; and, also, that we seek to strengthen local government by all means. As we, hopefully, see devolution progressing at a national level in Wales—and I'm sure that there will be a means for us to reverse the attitude of the Minister in Westminster on the current Bill—as we see the strengthening of devolution, we want to see that happening at a local level too.

Turning, therefore, to the Bill as it's been presented by the Minister, this isn't the Bill that Plaid Cymru would bring forward in Government. So, to that extent, we don't agree with it. Having said that, I would agree that there are a number of things that have already been mentioned that are worth consulting on and worth discussing.

I note the deafening silence to date from Labour local government leaders in welcoming this Bill. I look forward to hearing, in the consultation process, what those leaders have to say. Certainly, to date, they don't seem to welcome this and haven't said much at all about it. Perhaps they feel that the election may change the situation, and, therefore, I would like to say that an election, in Plaid Cymru's opinion, would speed up the process of local government reform, although we do have an alternative view on how that could be done. So, I am of the view that it will be a decision at the next general election, in May of next year, between two alternative proposals for the reform of public services. But, certainly, there will be no delay after the election in progressing this agenda.

We've proposed that we can do far more to combine local authorities, along the lines being followed in England, in Manchester, and in south Yorkshire—those are two prominent examples. It's also interesting to see that the Conservative Party, which is so opposed to the reform of local government here, is devolving comprehensively and swiftly in England from the central, national level down to the new combined authorities.

Ond a throi at gynigion penodol y Llywodraeth, a gaf i ofyn gytarf oll ichi—? Gan dderbyn nad oes angen gwneud popeth 22 gwaith drosodd mewn llywodraeth leol a gwasanaethau lleol, nid oes angen, bob tro, eu gwneud nhw wyth neu naw gwaith drosodd chwaith.

Beth fydd yn digwydd o dan eich cynlluniau chi i rai o'r consortia a threfniadau rhanbarthol sydd eisoes mewn lle? Mae'r Gweinidog addysg eisoes wedi dweud wrth y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ei fod am gadw'r consortia addysg, hyd yn oed o dan eich cynlluniau newydd chi sydd wedi'u cyhoeddi heddiw. Rwyf o'r farn bod unrhyw ddiwygio llywodraeth leol sy'n cadw consortia rhanbarthol ar gyfer addysg yn methu yn ei bwrpas cyntaf, achos fe ddylai hynny gael ei gydlynw ar lefel ranbarthol pwrpasol, effeithiol. Sut mae'r awdurdodau newydd rydych chi'n eu cynnig yn y papur yma yn mynd i ddelio gyda dinas-ranbarthau? Sut maen nhw'n mynd i ddelio o safbwynt trafniadaeth ranbarthol, datblygu economaidd, twristiaeth ac ati? A fyddwn ni'n dal i weld gwahanol batrymau rhanbarthol, hyd yn oed gyda'ch map newydd? Os ydyn ni'n gweld hynny, a yw hynny'n golygu nad ydych chi wedi ateb y cwestiwn rydych wedi'i osod i chi eich hun?

Mae'r ail gwestiwn sydd gennyf yn ymwneud â'r arbedion ariannol. Rydych chi wedi gosod allan yn y papurau heddiw faint rydych chi'n meddwl y bydd hi'n costio a faint o arbedion, dros 10 mlynedd, fydd yn cael eu gwneud. A fedrwrch chi esbonio beth yw'r cysylltiad rhwng y £650 miliwn yma a'r arbedion a awgrymwyd gan yr adroddiad KPMG yr oeddech yn ymfalchio ynddo tua dau fis yn ôl, sy'n dweud bod modd gwneud, gyda'r system bresennol, arbedion o £151 miliwn y flwyddyn? A yw eich arbedion chi, yn yr asesiad yr ydych wedi'i gyhoeddi heddiw, yn cynnwys arbedion KPMG, neu ydyn ni'n mynd i'w trafod yn wahanol? Os ydyn nhw'n cynnwys yr arbedion hynny, pam fod yr arbedion wedi gostwng, yn hytrach na chynyddu o dan eich cynlluniau? Os ydych o ddifrif bod modd arbed nawr £151 miliwn o dan y system bresennol, pam nad oes mwy o arbedion i'w gwneud o dan eich cynllunio amgen, yn eich tyb chi?

A gaf fi droi at Bowys, sydd mor unigryw bod angen cadw darpariaeth arbennig yn y Mesur yma? Nid wyf yn siŵr iawn pam fod Powys mor unigryw, i fod yn onest, ond wedi dweud hynny, mae methiant fan hyn i weithredu rhai o'r argymhellion a wnaed gan y comisiwn Williams ynglŷn â Phowys, lle soniwyd y dylid integreiddio yn ddi-dor gwasanaethau llywodraeth leol ac iechyd ym Mhowys. Nid oes gan Bowys ysbyty, wrth gwrs. Beth ydych chi'n mynd i'w wneud i fwrw ymlaen â'r argymhelliad hwnnw?

But, in turning to the specific proposals put forward by Government, may I first of all ask—? In accepting that we don't need to duplicate everything 22 times over in local government and public services, we don't need to duplicate them eight or nine times either.

What will happen under your proposals to some of the consortia and regional arrangements already in place? The education Minister has already told the Children, Young People and Education Committee that he wants to retain the education consortia, even under your new proposals published today. I am of the view that any reform of local government that retains regional consortia for education is failing in its first purpose, because that should be co-ordinated at an effective, purposeful regional level. How are the new authorities that you're putting forward in this paper going to deal with city regions? How are they going to deal with regional transportation, economic development, tourism and so on? Will we continue to see different regional patterns, even with your new map? If that is the case, does that mean that you haven't answered the question that you've set yourself?

The second question that I have is on the financial savings. You've set out in the papers published today how much you think it will cost and what the savings will be over a 10-year period. Can you explain the link between the £650 million and the savings suggested by the KPMG report that you were taking great pride in some two months ago, that stated that, with the current system, savings of £151 million per annum could be made? Do your savings in the assessment that you have published today include the KPMG savings, or are we going to discuss them separately? If they do include those savings, then why have the savings reduced rather than increased under your proposals? If you are serious that we can now save £151 million under the current system, why, in your opinion, aren't there greater savings to be made under your alternative proposals?

May I turn to Powys, which is so unique that we must give it special provision in this Bill? I don't know why Powys is so unique, if truth be told, but having said that, there is a failure here to implement some of the recommendations made by the Williams commission on Powys, where there was talk about wholesale integration of local government and health services in Powys. Powys doesn't have a hospital, of course. What are you going to do to progress with that recommendation?

15:52 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
A general hospital.

Ysbyty cyffredinol.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:52 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Yes.

Ie.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Mae gennym awr, onid oes?

We do have an hour, don't we?

15:52 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Yes.

Oes.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Beth ydych chi'n ei wneud i sicrhau bod Powys yn symud ymlaen ynglŷn ag argymhelliad comisiwn Williams, yn enwedig o gofio bod Williams, yn ei argymhelliad 18 i chi, wedi dweud y dylech ddeddfu i sicrhau bod hyn yn digwydd? Ni allaf weld, yn y Bil yma, bod unrhyw gyfeiriad at ddeddfu yn achos Powys, ar wahân i'w chadw.

Fy nghwestiwn olaf yw: sut mae cryfhau democratiaeth leol? Mae yna nifer o bethau positif yn y Bil, yn sicr, ond un peth amlwg sydd ar goll, sef diwygio'r system etholiadol. Mae Plaid Cymru o'r farn y dylid diwygio'r system etholiadol yn nhermau STV. Y tebygolrwydd yw, yn y Cynulliad nesaf, y bydd tair plaid o leiaf yn cefnogi STV, a'r Blaid Lafur ar hyn o bryd yw'r unig plaid radical, 'progressive', sy'n sefyll yn y ffordd o ran diwygio pleidleisio amgen mewn llywodraeth leol. A ydych yn bwriadu newid eich agwedd tuag at hyn fel bod gwir chwyldroi mewn democratiaeth leol?

What are you doing to ensure that Powys does make progress on the Williams commission recommendation, particularly bearing in mind that Williams, in his recommendation 18 to you, has stated that you should legislate to ensure that this happens? I can't see, in this Bill, that there is any reference to legislation for Powys, other than to retain it.

My final question is: how do we strengthen local democracy? There are a number of positive things in the Bill, certainly, but one thing that's clearly missing is reform of the electoral system. Plaid Cymru is of the view that the electoral system should be reformed in terms of the single transferrable vote. The likelihood is that, in the next Assembly, there will be at least three parties supporting STV. The Labour Party is currently the only progressive radical party that stands in the way of alternative voting methods in local government. Do you intend to change your attitude towards this so that local democracy can truly be revolutionised?

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I thank the Plaid Cymru spokesperson for the muted welcome that he's given to some of the proposals in the draft Bill and the consultation document? He is right to stress our mutual concern for the democratic role of local government. He spoke about the need for greater co-ordination on a statutory basis across the public services. I would remind him that the wellbeing of future generations Act gives effect to the creation of public service boards on a statutory basis. We are taking forward that work. That is the right vehicle, I think, for the co-ordination of public services, whether they are devolved or non-devolved.

In respect of the reception of proposals from political parties, I have not seen an outbreak of wild cheering from Plaid Cymru leaders of local authorities in Wales at the proposals from the shadow Cabinet of Plaid Cymru. Indeed, as far as I can see, there are as many views within his party as there are within my own party on the way forward for local government. I am more interested, ultimately, in the response that we get through the consultation from members of the public.

There will be a continuing need for shared services, even with eight or nine local authorities. There will be some services that maybe should be provided on a single all-Wales basis, for example. I am sure that he and I would agree on that. There may also, let me say, be a need for continuing regional arrangements that do not map on the proposed local authority footprint. It may be that education consortia might continue to be in that area. If they are working effectively, there may be certain functions that are best delivered on a different footprint across a number of authorities, even with the larger authorities that we are proposing. The same may be true in respect of economic development or transport. Not every structure in local government necessarily fits the delivery map for every service.

A gaf i ddiolch i lefarydd Plaid Cymru am y croeso tawel y mae wedi'i roi i rai o'r cynigion yn y Bil drafft a'r ddogfen ymgynghori? Mae e'n iawn i bwysleisio ein bod ill dau'n pryderu am swyddogaeth ddemocrataidd llywodraeth leol. Siaradodd am yr angen am fwy o gydlynw ar sail statudol ar draws y gwasanaethau cyhoeddus. Byddwn yn ei atgoffa bod y Ddeddf Llesiant cenedlaethau'r dyfodol yn galluogi creu byrddau gwasanaethau cyhoeddus ar sail statudol. Rydym yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwnnw. Dyna yw'r cyfrwng iawn, yn fy marn i, i gydlynw gwasanaethau cyhoeddus, pa un a ydynt wedi'u datganoli ynteu heb eu datganoli.

O ran derbyn cynigion gan bleidiau gwleidyddol, nid wyf wedi gweld arweinwyr awdurdodau lleol Plaid Cymru yng Nghymru yn bloeddio'n wyllt ar ôl clywed cynigion Cabinet gwrthblaid Plaid Cymru. Yn wir, hyd y gwelaf, mae cynifer o safbwyntiau o fewn ei blaid ef ag sydd o fewn fy mhlaid i ynglŷn â'r ffordd ymlaen i lywodraeth leol. Mae gen i fwy o ddiddordeb, yn y pen draw, yn yr ymateb a gawn drwy'r ymgynghoriad gan aelodau o'r cyhoedd.

Bydd angen parhaus am wasanaethau a rennir, hyd yn oed gydag wyth neu naw awdurdod lleol. Efallai y bydd rhai gwasanaethau y dylid eu darparu yn yr un modd i Gymru gyfan, er enghraifft. Rwy'n sicr y byddai ef a minnau'n cytuno ar hynny. Efallai hefyd, gadewch imi ddweud, y bydd angen parhaus â threfniadau rhanbarthol nad ydynt yn mapio ar ôl troed yr awdurdod lleol arfaethedig. Efallai y byddai consortia addysg yn parhaus i fodoli yn yr ardal honno. Os ydynt yn gweithio'n effeithiol, efallai y byddai'n well darparu rhai swyddogaethau ar ôl troed gwahanol ar draws nifer o awdurdodau, hyd yn oed yn yr awdurdodau mwy yr ydym yn eu cynnig. Gallai'r un peth fod yn wir am ddatblygiad economaidd neu drafndiaeth. Nid yw pob strwythur mewn llywodraeth leol o reidrwydd yn cyd-fynd â'r map cyflenwi ar gyfer pob gwasanaeth.

In respect of the financial savings, I think that the financial savings that we have set out are robust. The consultation will give everyone the opportunity to pore over those figures to scrutinise them. I have no doubt that we will be discussing them in committees in due course. Can I remind him that the savings we are talking about are net savings, of course? The overall savings are more of the order of £900 million, but then we take the costs away from those to get the net savings figure. The proposals that we have factored in, of course, take into account some of the KPMG work. It's fair to say that we do believe that, operating on a more efficient basis, we can deliver savings. But I think it's our responsibility, in terms of the draft Bill, to produce a figure that is realistic and not overly optimistic as to the likely outturn. I think we have done that, and we have gone for a slightly more conservative measure there. But I will refer him to the experience of councils elsewhere—the conversations that I had last month with Cheshire West and Chester Council in England, which was formed through a merger, where the costs of the merger turned out to be lower than had been estimated and the savings achieved turned out to be greater than had previously been estimated in the business case. So, I think there is scope to do more.

As Humphrey Bogart almost said, 'We'll always have Powys'. The continued existence of Powys is unaffected by the merger provisions in the draft Bill. More general reform proposals included in the draft Bill will apply to Powys, and it will be necessary to make transitional arrangements concerning elections, for example, to bring Powys into line with the electoral cycle for local government that would apply after 2023. In respect of what was said by the Williams commission on the proposed merger of Powys County Council and Powys Teaching Local Health Board, we recognise that there are opportunities in greater collaboration between those two organisations, but we also recognise that there are difficulties in successfully merging two organisations that have such different functions, governance arrangements and legislative bases. So, we believe that a formal merger is not the best solution, but work will continue to encourage and explore other opportunities for greater front-line and strategic integration.

Finally, he asked about the issue of the electoral system. I have to say to him that my party has made its view on the electoral system clear. This is a matter, no doubt, that will be settled by elections next year.

O ran yr arbedion ariannol, rwy'n meddwl bod yr arbedion ariannol yr ydym wedi'u hamlinellu yn gadarn. Bydd yr ymgynghoriad yn rhoi cyfle i bawb i fyfyrio ar y ffigurau hynny i graffu arnynt. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y byddwn yn eu trafod mewn pwyllgorau maes o law. A gaf i ei atgoffa mai arbedion net yw'r arbedion yr ydym yn sôn amdanynt, wrth gwrs? Mae cyfanswm yr arbedion yn nes at £900 miliwn, ond yna rydym yn tynnu'r costau o'r ffigur hwnnw i gael y ffigur arbedion net. Mae'r cynigion yr ydym wedi'u hystyried, wrth gwrs, yn ystyried rhywfaint o waith KPMG. Mae'n deg dweud ein bod yn credu y gallwn, drwy weithredu'n fwy effeithlon, sicrhau arbedion. Ond rwy'n meddwl bod gennym gyfrifoldeb, o ran y Bil drafft, i gynhyrchu ffigur sy'n realistig ac nad yw'n rhy optimistaidd ynghylch yr alldro tebygol. Rwy'n credu ein bod wedi gwneud hynny, ac rydym wedi mynd am fesur ychydig yn fwy ceidwadol yn hynny o beth. Ond cyfeiriaf ef at brofiadau cynghorau mewn mannau eraill—y sgysgiau a gefais y mis diwethaf gyda Gorllewin Swydd Gaer a Chyngor Caer yn Lloegr, a ffurfiwyd drwy uno, lle'r oedd costau'r uno yn y pen draw yn is nag a amcangyfrifwyd a'r arbedion a gyflawnwyd yn y pen draw yn fwy nag a amcangyfrifwyd yn flaenorol yn yr achos busnes. Felly, rwy'n credu bod lle i wneud mwy.

Fel y dywedodd Humphrey Bogart bron, 'Bydd Powys gennym bob amser'. Nid yw'r darpariaethau uno yn y Bil drafft yn effeithio ar barhad bodolaeth Powys. Bydd cynigion diwygio mwy cyffredinol a gynhwysir yn y Bil drafft yn berthnasol i Bowys, a bydd angen gwneud trefniadau trosiannol ynglŷn ag etholiadau, er enghraifft, i ddod â Phowys yn unol â'r cylch etholiadol ar gyfer llywodraeth leol a fyddai'n berthnasol ar ôl 2023. O ran yr hyn a ddywedodd comisiwn Williams am uniad arfaethedig Cyngor Sir Powys a Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys, rydym yn cydnabod bod cyfleoedd am fwy o gydweithredu rhwng y ddau sefydliad hynny, ond rydym hefyd yn cydnabod bod anawsterau wrth lwyddo i uno dau sefydliad sydd â swyddogaethau, trefniadau llywodraethu a sylfeini deddfwriaethol mor wahanol. Felly, rydym yn credu nad uno ffurfiol yw'r ateb gorau, ond bydd gwaith yn parhau i annog ac archwilio cyfleoedd eraill am fwy o integreiddio rheng flaen ac integreiddio strategol.

Yn olaf, gofynnodd am fater y system etholiadol. Mae'n rhaid imi ddweud wrtho bod fy mhlaid i wedi gwneud ei barn am y system etholiadol yn glir. Mae hwn yn fater, yn ddiâu, a gaiff ei setlo gan etholiadau y flywyddyn nesaf.

15:59

Gwenda Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, thank you for your statement this afternoon. I just have one question, please. The Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill will establish Social Care Wales as the body responsible for the registration, training and development of all social care workers in Wales. Given the broad remit of SCW, how will a statutory Public Services Staff Commission interact with this new body?

Weinidog, diolch am eich datganiad y prynhawn yma. Dim ond un cwestiwn sydd gennyf, os gwelwch yn dda. Bydd y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn sefydlu Gofal Cymdeithasol Cymru fel y corff sy'n gyfrifol am gofrestru, hyfforddi a datblygu'r holl weithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru. O ystyried cylch gwaith eang Gofal Cymdeithasol Cymru, sut y bydd Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus statudol yn rhyngweithio â'r corff newydd hwn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:59

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm grateful to my colleague, the Member for Neath, for her question. Let me say: I don't expect the Public Services Staff Commission to do everything related to workforce issues across the breadth of the devolved public sector. Clearly, it will need to be aware of the work of bodies such as Social Care Wales and, indeed, bodies such as Social Care Wales will also need to engage with the commission, because of the breadth of its remit, but neither the Public Services Staff Commission nor Social Care Wales, of course, would set the terms and conditions of workers in social care; that would be the responsibility of their employers, whether they be private or voluntary providers, or local authorities. But I would certainly expect that Social Care Wales would engage with the Public Services Staff Commission, and vice versa.

Rwy'n ddiolchgar i fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Gastell-nedd, am ei chwestiwn. Gadewch imi ddweud: nid wyf yn disgwyl i'r Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus wneud popeth sy'n ymwneud â materion gweithlu ar draws ehangder y sector cyhoeddus datganoledig. Yn amlwg, bydd angen iddynt fod yn ymwybodol o waith cyrff fel Gofal Cymdeithasol Cymru ac, yn wir, bydd angen i gyrff fel Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd ymgysylltu â'r comisiwn, oherwydd ehangder ei gyloch gwaith, ond ni fyddai'r Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus na Gofal Cymdeithasol Cymru, wrth gwrs, yn gosod telerau ac amodau gweithwyr gofal cymdeithasol; cyfrifoldeb eu cyflogwyr fyddai hynny, boed hwy'n ddarparwyr preifat neu wirfoddol, neu'n awdurdodau lleol. Ond byddwn yn sicr yn disgwyl i Gofal Cymdeithasol Cymru ymgysylltu â'r Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus, ac i'r gwrthwyneb.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:00

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

And finally, Peter Black, the Liberal Democrat spokesperson.

Ac yn olaf, Peter Black, llefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:00

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Chair. Can I declare an interest as a member of Swansea council? Minister, thank you for—I think it must be at least 1,000 pages of material that we have to work our way through here. I'm sure that I'll finally get round to reading it all, though I have read a substantial amount of it since it was e-mailed to us at about 9.30 this morning.

Diolch, Gadeirydd. A gaf i ddatgan buddiant fel aelod o gyngor Abertawe? Weinidog, diolch am—rwy'n meddwl ei bod yn rhaid bod yma o leiaf 1,000 o dudalennau o ddeunydd y mae'n rhaid inni weithio ein ffordd drwyddo. Rwy'n siŵr y caf gyfle i ddarllen y cyfan yn y pen draw, er fy mod wedi darllen cryn dipyn ohono ers iddo gael ei e-bostio atom tua 9.30 y bore yma.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I think, Minister, the main characteristic of this agenda is the failure of the Welsh Labour Government to achieve any consensus on the way forward in terms of setting up the Williams commission, the terms of reference of that commission, and, of course, how the Welsh Government have behaved since, and I think this Bill underlines that lack of consensus and the failure on your part, and on the part of your Government, to do that. The leader of Blaenau Gwent council has just been quoted as saying he thinks the plan lacks imagination, whereas the leader of Newport council is quoted by the BBC as saying that we're heading towards this reorganisation in a Lenin-like way. I think, if he'd referred to Trotsky, I would ask you to hide the ice picks, but, certainly, he has in fact issued a correction. What he actually said was 'lemming-like', but I'm not quite sure that's actually any better, Minister, in terms of the reaction of your colleagues to this Bill and the agenda that you've set out before us today.

Rwy'n meddwl, Weinidog, mai prif nodwedd yr agenda hon yw methiant Llywodraeth Lafur Cymru i gyflawni unrhyw gonsensws ar y ffordd ymlaen o ran sefydlu comisiwn Williams, cylch gorchwyl y comisiwn hwnnw, ac, wrth gwrs, sut y mae Llywodraeth Cymru wedi ymddwyn ers hynny, ac rwy'n credu bod y Bil hwn yn tanlinellu'r diffyg consensws a'r methiant hwnnw ar eich rhan chi, ac ar ran eich Llywodraeth, i wneud hynny. Mae arweinydd cyngor Blaenau Gwent newydd gael ei ddyfynnu yn dweud ei fod yn meddwl bod y cynllun yn brin o ddychymyg, ac mae'r BBC wedi dyfynnu arweinydd cyngor Casnewydd yn dweud ein bod yn mynd ati i wneud yr ad-drefnu hwn mewn ffordd Lenin-aid. Rwy'n meddwl, pe byddai wedi cyfeirio at Trotsky, y byddwn yn gofyn ichi guddio'r gaib iâ, ond, a dweud y gwir, mae wedi cyhoeddi cywiriad. Yr hyn a ddywedodd mewn gwirionedd oedd 'leming-aid', ond dydw i ddim yn hollol siŵr bod hynny'n ddim gwell mewn gwirionedd, Weinidog, o ran ymateb eich cydweithwyr i'r Bil hwn a'r agenda yr ydych wedi'i gosod ger ein bron heddiw.

The view of the Welsh Liberal Democrats is that we do need to have some form of consensus to take this forward. I think that's clear in terms of the electoral arithmetic in this Chamber, but also in terms of how we get general acceptance for these proposals. We believe that Wales has too many councils, many of which are too small and are underperforming. But if councils are going to be larger, then it's essential that they reflect the way that people voted for them, and I think without introducing a fair voting system and the devolution of powers to local communities, this whole reorganisation process is pointless. Not once does your consultation document make mention of a fairer voting system, despite your own support for it when you were a parliamentary candidate. That would, of course, ensure that larger councils better reflected the way people voted and bring about a more responsive local government. I heard Simon Thomas also supports this agenda, but, of course, we are where we are today because Plaid allowed your previous Bill to go through. I think the fact that you've come forward with this without even meeting their needs underlines the pointlessness of their support for that previous Bill.

Minister, can I just ask some questions to you in relation to the costings in your Bill? The costings are quite detailed in the regulatory impact assessment, but it is quite clear that this is a draft. Council tax harmonisation is a major issue that is not addressed, especially in the Gwent and Dyfed areas where council tax differentials are quite high. The Welsh Local Government Association estimate that, under option 3B, which is your preferred option, the income foregone is estimated at £90 million, and yet, between 1996-97 and 2002-03, after the last local government reorganisation, nearly £140 million was made available to authorities as transitional grant to keep council taxes low following that reorganisation. Is it your intention to do the same this time and to make transitional grant available to try to deal with this council tax issue if these mergers go ahead?

Equally, in relation to the savings, the Chartered Institute of Public Finance and Accountancy, when they did their work, were very clear that savings are not realised immediately. They said it will probably take two to three years or longer to implement all the savings. And the regulatory impact assessment does not address the issue of whether the scale of savings is realisable after another four to five years of austerity. Could you give us some assurance on the robustness of the savings that you've outlined in the RIA and whether you feel that they have taken into account the austerity agenda that local government and, indeed, the Welsh Government will be facing for the next four or five years under the present Government?

Barn Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yw bod angen inni gael rhyw fath o gonsensws i ddatblygu hyn. Rwy'n credu bod hynny'n glir o ran y rhifydded etholiadol yn y Siambr hon, ond hefyd o ran sut y bydd y cynigion hyn yn cael eu derbyn yn gyffredinol. Rydym yn credu bod gan Gymru ormod o gynghorau, a bod llawer ohonynt yn rhy fach ac yn tanberfformio. Ond os yw cynghorau am fod yn fwy, mae'n hanfodol eu bod yn adlewyrchu'r ffordd y pleidleisiodd pobl drostynt, ac rwy'n meddwl, heb gyflwyno system bleidleisio deg a datganoli pwerau i gymunedau lleol, bod yr holl broses hon o ad-drefnu yn ddibwrpas. Nid yw eich dogfen ymgynghori yn sôn unwaith am system bleidleisio decach, er gwaethaf eich cefnogaeth eich hun iddi pan oeddech yn ymgeisydd seneddol. Byddai hynny, wrth gwrs, yn sicrhau bod cynghorau mwy o faint yn rhoi gwell adlewyrchiad o sut y pleidleisiodd pobl ac yn sicrhau llywodraeth leol fwy ymatebol. Clywais fod Simon Thomas hefyd yn cefnogi'r agenda hon, ond, wrth gwrs, rydym yn yn sefyllfa hon heddiw oherwydd bod Plaid wedi caniatáu i'ch Bil blaenorol fynd drwodd. Rwy'n meddwl bod y ffaith eich bod wedi cyflwyno hyn heb hyd yn oed ddiwallu eu hanghenion nhw yn tanlinellu pa mor ddibwrpas oedd eu cefnogaeth i'r Bil blaenorol hwnnw.

Weinidog, a gaf i ofyn rhai cwestiynau ichi ynglŷn â'r costau yn eich Bil? Mae'r costau'n eithaf manwl yn yr asesiad effaith rheoleiddiol, ond mae'n eithaf clir mai drafft yw hwn. Mae cysoni'r dreth gyngor yn fater o bwys nad yw'n cael sylw, yn enwedig yn ardaloedd Gwent a Dyfed lle mae gwahaniaethau'r dreth gyngor yn eithaf uchel. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn amcangyfrif, o dan opsiwn 3B, sef eich dewis a ffefrir, bod yr amcangyfrif o'r incwm a gollir yn £90 miliwn, ac eto, rhwng 1996-97 a 2002-03, ar ôl ad-drefnu llywodraeth leol y tro diwethaf, rhoddwyd bron i £140 miliwn ar gael i awdurdodau fel grant trosiannol i gadw'r dreth gyngor yn isel ar ôl yr ad-drefnu hwnnw. A ydych chi'n bwriadu gwneud yr un peth y tro hwn a darparu grant trosiannol i geisio ymdrin â mater y dreth gyngor os yw'r uno hwn yn digwydd?

Yn yr un modd, o ran yr arbedion, roedd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, wrth wneud eu gwaith, yn glir iawn nad yw arbedion yn cael eu gwireddu ar unwaith. Roeddent yn dweud y byddai'n debygol o gymryd dwy i dair blynedd neu fwy i'r holl arbedion ddod i rym. Ac nid yw'r asesiad effaith rheoleiddiol yn dweud pa un a fydd modd gwireddu arbedion ar y raddfa honno ar ôl pedair i bum mlynedd arall o gyni. A allwch chi roi rhywfaint o sicrwydd inni am gadernid yr arbedion yr ydych wedi'u hamlinellu yn yr asesiad effaith rheoleiddiol a pha un a ydych yn teimlo eu bod wedi ystyried yr agenda cyni y bydd llywodraeth leol ac, yn wir, Llywodraeth Cymru yn ei hwynebu am y pedair neu bum mlynedd nesaf o dan y Llywodraeth bresennol?

I think, also, in terms of the costings, Minister, there is some concern, of course, about the timing of this reorganisation. Local councils are, of course, facing huge pressures on their services and are having to make very deep cuts in services, including education, despite your Government's pledge to protect education. And yet, the costings in this regulatory impact assessment are talking of around about just over £200 million—£246 million—at the highest level as the cost of this reorganisation, money that will need to be spent before savings can be realised. Could you see where that money is going to come from? What impact do you think that cost is going to have on council tax? How is it going to impact on the delivery of services that local councils are going to have to provide over the period whereby this money will become due?

Also, I noticed in the regulatory impact assessment that you state that the costings don't take account of the redundancies needed for the reorganisation of a wider service delivery, which I think we'd all anticipated as coming about as a result of this change. I think also I'm a bit surprised, to be honest, that that figures you've given for ICT—I think you're talking about £1 million to £1.5 million per council as the cost of ICT, relying on the fact that ICT contracts will come up for renewal over the next few years, and equipment needs to be replaced. I'm not quite sure you understand the implications for ICT, particularly in terms of how systems are going to be merged and how data are going to be taken from systems in one authority and put onto new systems that will cover the whole authority. Could you give us some assurances and explain the basis on which you've worked out the costings for ICT as part of this regulatory impact assessment?

Just a couple more points, Chair. In relation to community councillors, you're proposing an initial six-year term for community councils, so that those elected in 2017 will not have to fight for re-election until 2023. What provision have you put in place for the exhaustion of many of those councillors who are doing it on a voluntary basis? What assurance are you giving us that those councils will be able to be sustained over such a long period? I think many people feel that five years is a bit long for an elected body without any democratic renewal. How are those community councils going to remain accountable over a six-year period?

Finally, I think, Minister, we're having the Tory Chancellor's comprehensive spending review tomorrow, and we're expecting further cuts as a result of that. I think we do need to know what exactly you're thinking the impact of that agenda is going to have on those services, and how you expect, with the Welsh Government having less money—the Minister talked earlier about £37 billion less money over the next five years—the Welsh Government and local government are going to pay for the upfront costs of this reorganisation before any saving can be realised?

Rwy'n meddwl, hefyd, o ran y costau, Weinidog, bod rhywfaint o bryder, wrth gwrs, am amseru yr ad-drefnu hwn. Mae cynghorau lleol, wrth gwrs, yn wynebu pwysau enfawr ar eu gwasanaethau ac yn gorfod gwneud toriadau dwfn iawn i wasanaethau, gan gynnwys addysg, er gwaethaf addewid eich Llywodraeth i ddiogelu addysg. Ac eto, mae'r costau yn yr asesiad effaith rheoleiddiol yn sôn am ychydig dros £200 miliwn—£246 miliwn—ar y lefel uchaf fel cost yr ad-drefnu hwn, arian y bydd angen ei wario cyn y gellir gwireddu arbedion. A allwch chi weld o ble y daw'r arian hwnnw? Pa effaith yr ydych chi'n credu a gaiff y gost honno ar y dreth gyngor? Sut y bydd yn effeithio ar ddarparu'r gwasanaethau y bydd yn rhaid i gynghorau lleol eu darparu dros y cyfnod pryd y daw'r arian hwn yn ddyledus?

Hefyd, fe wnes i sylwi yn yr asesiad effaith rheoleiddiol eich bod yn nodi nad oedd y costau'n ystyried y diswyddiadau sydd eu hangen er mwyn ad-drefnu darpariaeth gwasanaethau ehangach; rwy'n meddwl ein bod i gyd wedi rhagweld hynny'n digwydd o ganlyniad i'r newid hwn. Rwy'n meddwl hefyd fy mod wedi fy synnu ychydig, i fod yn onest, bod y ffigurau yr ydych yn eu rhoi ar gyfer TGCh—rwy'n meddwl eich bod yn sôn am £1 filiwn i £1.5 miliwn fesul cyngor fel y gost TGCh, gan ddibynnu ar y ffaith y bydd yn amser adnewyddu contractau TGCh yn ystod y blynyddoedd nesaf, a bod angen offer newydd. Nid wyf yn hollol siŵr a ydych chi'n deall y goblygiadau ar gyfer TGCh, yn enwedig o ran sut y caiff systemau eu huno a sut y caiff data eu cymryd o systemau mewn un awdurdod a'u rhoi ar systemau newydd a fydd yn gwasanaethu'r awdurdod cyfan. A allech chi roi rhywfaint o sicrwydd inni ac esbonio ar ba sail yr ydych wedi cyfrifo'r costau ar gyfer TGCh yn rhan o'r asesiad effaith rheoleiddiol?

Dim ond un neu ddau bwynt arall, Gadeirydd. Wrth sôn am gynghorwyr cymuned, rydych chi'n cynnig tymor cychwynnol o chwe blynedd ar gyfer cynghorau cymuned, fel na fydd y rhai a etholwyd yn 2017 yn gorfod ymladd i gael eu hailethol tan 2023. Pa ddarpariaeth yr ydych wedi'i rhoi ar waith ar gyfer blinder llawer o'r cynghorwyr hynny sy'n ei wneud yn wirfoddol? Pa sicrwydd ydych chi'n ei roi inni y gellir cynnal y cynghorau hynny dros gyfnod mor hir? Rwy'n meddwl bod llawer o bobl yn teimlo bod pum mlynedd yn eithaf hir i gorff etholedig heb adnewyddiad democrataidd. Sut mae'r cynghorau cymuned hynny'n mynd i aros yn atebol dros gyfnod o chwe blynedd?

Yn olaf, rwy'n credu, Weinidog, rydym yn cael adolygiad cynhwysfawr o wariant y Canghellor Toriaidd yfory, ac rydym yn disgwyl toriadau pellach o ganlyniad i hynny. Rwy'n meddwl bod angen inni wybod beth yn union yr ydych chi'n ei feddwl fydd effaith yr agenda honno ar y gwasanaethau hynny, a sut yr ydych yn disgwyl, gan y bydd gan Lywodraeth Cymru lai o arian—siaradodd y Gweinidog yn gynharach am £37 biliwn yn llai o arian dros y pum mlynedd nesaf—mae Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yn mynd i dalu am gostau cychwynnol yr ad-drefnu hwn cyn y gellir gwireddu unrhyw arbedion?

Can I thank the Liberal Democrat spokesperson? I'm glad to see that he does think that there are too many councils, and too many of them are underperforming in Wales. I'm glad that he's had the opportunity to count the number of pages that he's got to read even if he hasn't yet had the time, which is fair enough, to read them all.

I'm not going to comment further on the issues around the electoral arrangements. I dealt with that in my answer to the Plaid Cymru spokesperson.

He asked a number of questions in respect of cost that were perfectly reasonable questions. Let me just seek to answer them. It is not my intention at the present time to bring forward any transitional grant in respect of council tax harmonisation. I think we've discussed that in committee on a number of occasions, and I've made my case as to why I don't think that is necessary. Again, I've looked at council mergers in England—the Cheshire West and Chester one is a good example, where there were no funding arrangements for council tax harmonisation, and the gap was bridged over a period of years. As I've said before, if you're living in a local authority with one level of services and you join with a local authority with a different level of services, you don't suddenly see the benefit of a new range of services overnight. I think that it is perfectly reasonable to take time to harmonise council tax in different areas, and legislation allows us to do that.

He asked about the robustness of our expenditure, costs and savings analysis in respect of the Chancellor's likely austerity measures tomorrow. Let me say that what we've provided in the RIA is our best estimate on the figures that we currently have available. I think that is all that he could expect us to do at the present time. If there is a need to revise those figures in the light of tomorrow's comprehensive spending review then clearly we would seek to do that, and we can do that in the context of the consultation period that we have. Clearly, here, we would have to produce a further RIA in any case, or revise our RIA when we bring forward the actual Bill. So, there is obviously time for us to do that.

He refers to the upfront cost of the merger. I've got to say, of course, there is a cost of doing nothing, which we have got to balance, and we do balance within the RIA, against the cost of change. I think that, as we move forward, we will have to work through how we would fund the move to merger. It may be that it will have to come from within Welsh Government funds. But, realistically, that would mean I think the top slice of the RSG. I think people ought to be clear about that and aware of it.

A gaf i ddiolch i lefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol? Rwy'n falch o weld ei fod yn meddwl bod yna ormod o gynghorau, a bod gormod ohonynt yn tanberfformio yng Nghymru. Rwy'n falch ei fod wedi cael y cyfle i gyfrif nifer y tudalennau sydd ganddo i'w darllen hyd yn oed os nad yw wedi cael yr amser eto, sy'n ddigon teg, i'w darllen i gyd.

Nid wyf yn mynd i wneud sylwadau pellach am faterion sy'n ymwneud â'r trefniadau etholiadol. Rhoddais sylw i hynny yn fy ateb i lefarydd Plaid Cymru.

Gofynnodd nifer o gwestiynau ynglŷn â'r gost a oedd yn gwestiynau perffaith resymol. Gadewch imi geisio eu hateb. Nid wyf ar hyn o bryd yn bwriadu cyflwyno unrhyw grant trosiannol o ran cysoni'r dreth gyngor. Rwy'n credu ein bod wedi trafod hynny yn y pwyllgor ar nifer o achlysuron, ac rwyf wedi cyflwyno fy achos ynghylch pam nad wyf yn credu bod angen hynny. Unwaith eto, rwyf wedi edrych ar uno cynghorau yn Lloegr—mae Gorllewin Swydd Gaer a Chaer yn enghraifft dda, lle nad oedd trefniadau ariannu ar gyfer cysoni'r dreth gyngor, a chafodd y bwlch ei bontio dros gyfnod o flynyddoedd. Fel yr wyf wedi'i ddweud o'r blaen, os ydych yn byw mewn awdurdod lleol ag un lefel o wasanaethau a'ch bod yn uno ag awdurdod lleol â lefel wahanol o wasanaethau, nid ydych yn sydyn yn gweld budd ystod newydd o wasanaethau dros nos. Rwy'n meddwl ei bod yn hollol resymol cymryd amser i gysoni'r dreth gyngor mewn gwahanol ardaloedd, ac mae deddfwriaeth yn caniatáu inni wneud hynny.

Gofynnodd am gadernid ein dadansoddiad o wariant, costau ac arbedion o ran mesurau cyni tebygol y Canghellor yfory. Gadewch imi ddweud mai'r hyn yr ydym wedi'i ddarparu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yw ein hamcangyfrif gorau ar y ffigurau sydd gennym ar gael ar hyn o bryd. Rwy'n meddwl mai dyna'r cwbl y gallai ddisgwyl inni ei wneud ar hyn o bryd. Os oes angen adolygu'r ffigurau hynny yng ngoleuni'r adolygiad cynhwysfawr o wariant yfory, yn amlwg byddem yn ceisio gwneud hynny, a gallwn wneud hynny yng nghyd-destun y cyfnod ymgynghori sydd gennym. Yn amlwg, yma, byddai'n rhaid ini gynhyrchu Asesiad Effaith Rheoleiddiol pellach mewn unrhyw achos, neu ddiwygio ein Hasesiad Effaith Rheoleiddiol wrth gyflwyno'r Bil ei hun. Felly, mae'n amlwg bod amser inni wneud hynny.

Mae'n sôn am gost ymlaen llaw yr uno. Mae'n rhaid imi ddweud, wrth gwrs, bod cost o wneud dim, ac mae'n rhaid inni ei chydbwysu, ac rydym yn ei chydbwysu o fewn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn erbyn cost newid. Credaf, wrth inni symud ymlaen, y bydd rhaid inni weithio drwy sut y byddem yn ariannu'r symudiad i uno. Efallai y bydd yn rhaid iddo ddod oddi mewn cronfeydd Llywodraeth Cymru. Ond, yn realistig, byddai hynny'n golygu fy mod yn meddwl am haen uchaf y Grant Cynnal Refeniw. Rwy'n credu y dylai pobl fod yn glir ynglŷn â hynny ac yn ymwybodol ohono.

He asked about redundancies. There have been some 8,000 redundancies in local authorities in Wales between April 2010 and December 2013, which we quote in the RIA. That's come from the work by the Wales Audit Office, let me say. Based on the latest information we have from the UK Government, we anticipate that a similar level of redundancies is likely over the next spending round on the basis of information that we have available. We have factored some redundancy costs into this programme; you will find those figures in the RIA. Again, obviously, we've scaled those—they are between two parameters.

On ICT, I don't agree with him about what he says about ICT. I think there is actually considerable scope for savings within existing ICT arrangements within local government. I've had conversations with local government leaders about the potential of digital to deliver for them. I think there is a danger in some authorities that they'd be locked into contracts that are not necessarily fit for purpose that don't allow them the flexibility to do the things that they need to do. That's not uncommon in the public sector, let me say. I think that what we have got to ensure here, as we move forward on this programme, is that we are ambitious about the potential of ICT and we look to develop best practice that is on offer, including, let me say, within the public service in Wales—looking at, for example, what the Driver and Vehicle Licensing Agency has achieved in quite radical form.

I'm confident, I think, on the savings that we've put forward in our estimates for ICT. But, clearly, that will need to be well managed.

Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair.

Gofynnodd am ddiswyddiadau. Bu oddeutu 8,000 o ddiswyddiadau yn awdurdodau lleol Cymru rhwng mis Ebrill 2010 a mis Rhagfyr 2013, ac rydym yn dyfynnu hynny yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae hynny wedi dod o waith Swyddfa Archwilio Cymru, gadewch imi ddweud. Ar sail y wybodaeth ddiweddaraf sydd gennym gan Lywodraeth y DU, rydym yn rhagweld bod lefel debygol o ddiswyddiadau yn debygol yn ystod y cylch gwariant nesaf ar sail y wybodaeth sydd ar gael inni. Rydym wedi ffactora rhai costau diswyddo yn y rhaglen hon; fe welwch y ffigurau hynny yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Unwaith eto, yn amlwg, rydym wedi graddio'r rheini—maent rhwng dau baramedr.

O ran TGCh, nid wyf yn cytuno ag ef am yr hyn y mae'n ei ddweud am TGCh. Rwy'n meddwl bod cwrmpas sylweddol mewn gwirionedd i wneud arbedion o fewn y trefniadau TGCh presennol o fewn llywodraeth leol. Rwyf wedi cael sgyrsiau gydag arweinwyr llywodraeth leol am botensial offer digidol i ddarparu ar eu cyfer. Rwy'n credu bod perygl mewn rhai awdurdodau y byddent yn cael eu cloi mewn contractau nad ydynt o reidrwydd yn addas i'w diben ac nad ydynt yn caniatáu hyblygrwydd iddynt i wneud y pethau y mae angen iddynt ei wneud. Nid yw hynny'n anghyffredin yn y sector cyhoeddus, gadewch imi ddweud. Rwy'n credu mai'r hyn y mae'n rhaid inni ei sicrhau yma, wrth inni symud ymlaen ar y rhaglen hon, yw ein bod yn uchelgeisiol am botensial TGCh a'n bod yn ceisio datblygu'r arfer gorau sydd ar gynnig, gan gynnwys, gadewch imi ddweud, o fewn y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru—gan edrych, er enghraifft, ar yr hyn y mae'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau wedi ei gyflawni ar ffurf eithaf radical.

Rwy'n hyderus, rwy'n credu, ynglŷn â'r arbedion yr ydym wedi eu cynnig yn ein hamcangyfrifon ar gyfer TGCh. Ond, yn amlwg, bydd angen rheoli hynny'n dda.

The Deputy Presiding Officer took the Chair.

16:12 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you, Minister. Diolch, Weinidog.

16:12 **6. Dadl ar Gyfnod 4 y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)** **Y** Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
6. Debate on Stage 4 of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 6 is Stage 4 of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill. I call on the Minister for Health and Social Services to move the motion—Mark Drakeford.

Eitem 6 yw Cyfnod 4 y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru). Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnig y cynnig—Mark Drakeford.

Cynnig NDM5893 Mark Drakeford

Motion NDM5893 Mark Drakeford

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 26.47:

Yn cymeradwyo'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru).

Approves the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill.

Cynigiwyd y cynnig.

Motion moved.

Mark Drakeford [Bywgraffiad Biography](#)*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i Gadeiryddion ac aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Pwyllgor Cyllid, yn ogystal ag Aelodau eraill sydd wedi cyfrannu at graffu'r Bil hwn. Rwy'n ddiolchgar hefyd i bawb a wnaeth ymateb i fy mgynghoriad ac a gyfrannodd at y broses graffu.

Thank you, Deputy Presiding Officer. I would like to start by thanking the Chairs and members of the Health and Social Care Committee, the Constitutional and Legislative Affairs Committee and the Finance Committee, as well as other Members who have contributed towards the scrutiny of this Bill. I am also very grateful to the people who have responded to the consultation and who have contributed to the scrutiny process.

Hoffwn, wrth gwrs, ddiolch i'r cyn-Ddirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwenda Thomas, am ei gwaith wrth ddatblygu'r Bil hwn, a'r Papur Gwyn ar ddyfodol rheoleiddio ac arolygu gofal a chymorth yng Nghymru, sy'n cyrraedd pen ei daith gerbron y Cynulliad Cenedlaethol y prynhawn yma.

Of course, I would like to thank the former Deputy Minister for Social Services, Gwenda Thomas, for her work in developing this Bill, and the White Paper on the future of the regulation and inspection of social care in Wales, which reaches the end of its journey before the National Assembly this afternoon.

Hoffwn ddiolch hefyd i'm swyddogion ac i staff Comisiwn y Cynulliad am eu cymorth drwy gydol proses y Bil. Mae eu cyfraniad nhw wedi bod yn wirioneddol ragorol.

I would also like to thank my officials and the staff of the Assembly Commission for their assistance throughout the process of the Bill. Their contribution has been really excellent.

Heb os nac oni bai, mae'r Bil wedi cael ei wella mewn nifer o feysydd allweddol drwy broses graffu'r Cynulliad hwn. Rwy'n falch bod y newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn dangos yr hyn y mae modd ei gyflawni drwy gydweithio a gweithio trawsbleidiol.

Without doubt, the Bill has been improved in a number of key areas through the Assembly's scrutiny process. I am pleased that the changes that have been made show what can be achieved through collaboration and cross-party working.

Dirprwy Lywydd, there are four areas of development during that process that stand out the most to me. The first issue is that of commissioning. Throughout the Stage 1 scrutiny process, the comments from stakeholders and the recommendations in the Health and Social Care Committee's Stage 1 report focused on the importance that commissioning plays in our social care system. A series of Government amendments were laid to strengthen the Bill to reflect that advice, and the Bill before Members this afternoon is a better one as a result.

Ddirprwy Lywydd, mae pedwar maes datblygu yn ystod y broses honno sy'n sefyll allan fwyaf i mi. Y mater cyntaf ych comisiynu. Drwy gydol proses graffu Cyfnod 1, roedd y sylwadau gan randdeiliaid a'r argymhellion yn adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn canolbwyntio ar y pwysigrwydd y mae comisiynu yn ei chwarae yn ein system gofal cymdeithasol. Cafodd cyfres o welliannau Llywodraeth eu gosod i gryfhau'r Bil i adlewyrchu'r cyngor hwnnw, ac mae'r Bil ger bron yr Aelodau y prynhawn yma yn un gwel o ganlyniad.

Secondly, I'm indebted to Margaret Flynn and her work on the issues arising from Operation Jasmine. Dr Flynn's report and advice allowed us to reflect in this Bill important lessons from her work. That is why, at Stage 2, the Government brought forward amendments to put a fit-and-proper-person test for both service providers and responsible individuals firmly on the face of the Bill. That is an important strengthening of the Bill, and one that has been further enhanced by the work of Members here, including Altaf Hussain, to whom I add my thanks.

Yn ail, rwy'n ddyledus i Margaret Flynn a'i gwaith ar y materion sy'n codi o Operation Jasmine. Roedd adroddiad a chyngor Dr Flynn yn ein galluogi i adlewyrchu'r gwersi pwysig o'i gwaith yn y Bil hwn. Dyna pam, yng Nghyfnod 2, y gwnaeth y Llywodraeth ddwyn ymlaen welliannau i roi prawf person addas a phriodol i ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol yn gadarn ar wyneb y Bil. Mae hynny'n gryfhau pwysig ar y Bil, ac yn un sydd wedi ei wella ymhellach gan waith Aelodau yma, gan gynnwys Altaf Hussain, ac rwyf yn ychwanegu fy niolch iddo yntau.

Thirdly, on the introduction of the undertaking in relation to the length of domiciliary support visits, the Government supported the amendment put forward by Lindsay Whittle during Stage 2, which aimed to ensure that domiciliary support visits of less than 30 minutes should not take place unless specific exemptions were in place. I was very pleased to be able to work with Lindsay, following Stage 2, to develop a series of amendments to ensure that the premise was workable in practice. This represents an important statement from this Assembly, now enshrined in this Bill.

Yn drydydd, ar gyflwyno ymrwymiad ynglŷn â hyd ymweliadau cymorth cartref, roedd y Llywodraeth yn cefnogi'r gwelliant a gyflwynwyd gan Lindsay Whittle yn ystod Cyfnod 2, a oedd yn ceisio sicrhau na ddylai ymweliadau cymorth cartref o lai na 30 munud ddigwydd oni bai bod eithriadau penodol ar waith. Roeddwn yn falch iawn o allu gweithio gyda Lindsay, yn dilyn Cyfnod 2, i ddatblygu cyfres o welliannau i sicrhau bod y rhagosodiad yn ddichonadwy yn ymarferol. Mae hyn yn cynrychioli datganiad pwysig gan y Cynulliad hwn, a ymgorfforir yn awr yn y Bil hwn.

Finally, Dirprwy Lywydd, the issue of the registration of the workforce was one that was extensively debated during the passage of the Bill, and one where Labour Members, including Lynne Neagle and the Chair of the committee, David Rees, on behalf of all Labour Members, regularly emphasised to me the need to use this Bill's powers to extend registration to domiciliary and residential care workers. That will now happen, as a result of the debate and discussions held in this place. That registration, of course, will happen beyond the passage of this Bill, if the Bill is passed this afternoon.

There were a number of other important issues where the Government made commitments to take matters forward in the future, using, for example, the regulation-making powers in section 26 of the Bill. I repeat this afternoon my intention to use those powers to bring forward proposals, for example, in relation to zero-hours contracts and whistleblowing. I also repeat our wish to address the important issue of conflicts of interest in commissioning, raised by Kirsty Williams at Stages 2 and 3, and to do so through further discussion with her.

So, Dirprwy Lywydd, I'm pleased to present today an improved and strengthened Bill, following the scrutiny of this Assembly, but it is also important to say that the core ambitions that this Bill sought to achieve remain intact in its final draft. The Bill reframes accountability, so that the owners of services can be held to account for failings in care. It reshapes the regulation of services, so that we can remove not just bad services, but bad providers, too. It places new requirements on the sector to plan for the future. It ensures that citizens will have new and reliable information on care in Wales. It requires regulators to work together for the wellbeing of citizens. It paves the way for the transition to Social Care Wales, a powerful new body for change. And, crucially, it places regulation as a key driver to improve outcomes for people here in Wales. I commend it to the Assembly.

Yn olaf, Ddirprwy Lywydd, roedd y mater o gofrestru'r gweithlu yn un a gafodd ei drafod yn helaeth yn ystod hynt y Bil, ac yn un lle'r oedd Aelodau Llafur, gan gynnwys Lynne Neagle a Chadeirydd y pwyllgor, David Rees, ar ran yr holl Aelodau Llafur, yn pwysleisio'n rheolaidd gyda mi yr angen i ddefnyddio pwerau'r Bil hwn i ymestyn cofrestru i weithwyr gofal cartref a phreswyl. Bydd hynny bellach yn digwydd, o ganlyniad i'r ddatl a'r trafodaethau a gafwyd yn y lle hwn. Bydd y cofrestru, wrth gwrs, yn digwydd y tu hwnt i hynt y Bil hwn, os caiff y Bil ei basio y prynhawn yma.

Roedd nifer o faterion pwysig eraill lle gwnaeth y Llywodraeth ymrwymadau i ddatblygu materion yn y dyfodol, gan ddefnyddio, er enghraifft, y pwerau gwneud rheoliadau yn adran 26 y Bil. Rwy'n ailadrodd y prynhawn yma fy mwriad i ddefnyddio'r pwerau hynny i gyflwyno cynigion, er enghraifft, ynglŷn â chontractau dim oriau a chwythu'r chwiban. Rwyf hefyd yn ailadrodd ein dymuniad i fynd i'r afael â'r mater pwysig o wrthdaro buddiannau mewn comisiynu, a godwyd gan Kirsty Williams yng Nghyfnodau 2 a 3, ac i wneud hynny drwy drafodaeth bellach gyda hi.

Felly, Ddirprwy Lywydd, rwy'n falch o gyflwyno Bil wedi'i wella a'i gryfhau heddiw, yn dilyn craffu'r Cynulliad hwn, ond mae hefyd yn bwysig i ddweud bod yr uchelgeisiau craidd y mae'r Bil hwn yn ceisio'u cyflawni yn aros yn gyfan yn ei ddrafft terfynol. Mae'r Bil yn ail-fframio atebolrwydd, fel y gellir dwyn perchnogion y gwasanaethau i gyfrif am fethiannau mewn gofal. Mae'n ail-lunio rheoleiddio gwasanaethau, fel y gallwn gael gwared nid yn unig ar wasanaethau gwael, ond darparwyr gwael, hefyd. Mae'n gosod gofynion newydd ar y sector i gynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae'n sicrhau y bydd dinasyddion yn cael gwybodaeth newydd a dibynadwy ar ofal yng Nghymru. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i reoleiddwyr gydweithio er lles dinasyddion. Mae'n paratoi'r ffordd ar gyfer y trawsnewid i Ofal Cymdeithasol Cymru, corff newydd pwerus ar gyfer newid. Ac, yn hanfodol, mae'n rhoi rheoleiddio fel sbardun allweddol i wella canlyniadau i bobl yma yng Nghymru. Fe'i cymeradwyaf i'r Cynulliad.

16:18

Lindsay Whittle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Could I place on record that I'm pleased to associate myself with all of the remarks of the Minister, Mark Drakeford? I thank him for his work here, and also the Chairman of the committee, David Rees, members of the committee and the members of staff associated with the Health and Social Care Committee, and members of the Welsh Assembly Government's staff as well, and, indeed, my own member of staff, Dr Colin Palfrey. I think this third reading of a very detailed and complex Bill was very important, and I'm very pleased that the half-hour visits to our elderly for domiciliary care are now recognised and it'll be built upon on the passage of the social services and well-being Act.

I'm pleased that, when the regulations are published for further consultation, the Government will focus on strengthening that area in particular. It is also important that the workforce planning and training will be an integral part of the Bill for service providers. I've no doubt that training will improve the skills base of one of Wales's most important services, and ensure that caring is, at long last, a recognised career.

A gaf i gofnodi fy mod yn falch o gysylltu fy hun gyda phob un o sylwadau'r Gweinidog, Mark Drakeford? Rwy'n diolch iddo am ei waith yma, a hefyd Chadeirydd y pwyllgor, David Rees, aelodau'r pwyllgor ac aelodau'r staff sy'n gysylltiedig â'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ac aelodau o staff Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ogystal, ac, yn wir, fy aelod o staff fy hun, Dr Colin Palfrey. Rwy'n credu bod y trydydd darlenniad hwn o Fil manwl a chymhleth iawn yn bwysig iawn, ac rwy'n falch iawn bod yr ymweliadau hanner awr â'n henoed ar gyfer gofal cartref erbyn hyn yn cael eu cydnabod ac yr adeiladir ar hynny ar ôl pasio'r Ddeddf gwasanaethau cymdeithasol a llesiant.

Rwy'n falch, pan fydd y rheoliadau yn cael eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghori pellach, y bydd y Llywodraeth yn canolbwyntio ar gryfhau'r maes hwnnw yn arbennig. Mae hefyd yn bwysig y bydd cynllunio a hyfforddi'r gweithlu yn rhan annatod o'r Bil ar gyfer darparwyr gwasanaethau. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y bydd hyfforddiant yn gwellu sylfaen sgiliau un o wasanaethau pwysigaf Cymru, ac yn sicrhau bod gofalu, o'r diwedd, yn yrfa gydnabyddedig.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I look forward to the research, Minister, from Manchester University, which will come in January, and will ensure, perhaps, that under your section 26 powers, you will find it possible to ban zero-hours contracts in Wales. I hope, when you have that research, it will add to the evidence from the chief inspector of the Care and Social Services Inspectorate Wales and research by your colleague, the Minister for Public Services, as well. I, for one, believe it will improve the quality of social care provision, as did, indeed, the inclusion of the emotional, spiritual and cultural needs of our elderly citizens as well. I'm very pleased to support this Bill. Thank you.

Edrychaf ymlaen at y gwaith ymchwil, Weinidog, o Brifysgol Manceinion, a fydd yn dod ym mis Ionawr, ac a fydd yn sicrhau, efallai, dan eich pwerau adran 26, y byddwch yn ei gweld yn bosibl gwahardd contractau dim oriau yng Nghymru. Rwy'n gobeithio, pan fydd y gwaith ymchwil hwnnw gennych, y bydd yn ychwanegu at y dystiolaeth gan brif arolygydd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a gwaith ymchwil gan eich cydweithiwr, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, yn ogystal. Rwyf fi, yn un, yn credu y bydd yn gwella ansawdd y ddarpariaeth gofal cymdeithasol, fel y gwnaeth, mewn gwirionedd, gynnwys anghenion emosïynol, ysbrydol a diwylliannol ein dinasyddion oedrannus yn ogystal. Rwy'n falch iawn o gefnogi'r Bil hwn. Diolch.

16:20

Kirsty Williams [Bywgraffiad Biography](#)

Could I, like the previous two speakers, thank all officials who have been involved in the work to get to the Stage 4 debate, both on the Government side and on the Assembly side? Like the Minister said, I think the passage of the Bill has brought to the forefront some very thought-provoking issues around how we can ensure that we have a regulatory and inspection regime that is fit for purpose and can give us, as legislators, and the Welsh public, the confidence to know that the ultimate safeguard of good service to our most vulnerable citizens is underpinned by a robust piece of legislation.

Like the Minister, I think it is a huge step forward that we are holding to account those people who not simply deliver a service on a day-to-day basis, but who actually own a service. Too often in the past, they have placed intolerable demands on the staff and the day-to-day management of a service, who have then found to be failing and have walked away scot free. I think it's a very welcome addition that they will now be held accountable for services being delivered under their name.

I think the decision by the Minister to register domiciliary care staff is the beginning of what I hope is a new period, where people working in that particular area of care will be properly recognised for the work that they do, and that this is the beginning of raising the profile and the status of that particular group of workers. I think it is commendable that the Government has listened to the evidence, and has acted in a way that moves us forward without jeopardising what is a very fragile system.

I'm also very glad that the Minister and the Government have noted the importance of commissioning. Increasingly, we see local authorities move away from direct service into commissioning arrangements, and therefore the way in which they are inspected is, again, a very powerful tool to drive up standards in the service.

A gaf i, fel y ddau siaradwr blaenorol, ddiolch i'r holl swyddogion sydd wedi bod yn rhan o'r gwaith i gyrraedd dadl Cyfnod 4, ar ochr y Llywodraeth ac ar ochr y Cynulliad? Fel y dywedodd y Gweinidog, rwy'n meddwl bod hyn y Bil wedi dod â rhai materion i du blaen ein meddyliau sydd wir yn gwneud i ni feddwl yn helaeth amdanynt o ran sut y gallwn sicrhau bod gennym drefn reoleiddio ac arolygu sy'n addas i'w diben ac sy'n gallu rhoi i ni, fel deddfwyr, a'r cyhoedd yng Nghymru, yr hyder i wybod bod y dull diogelu sylfaenol o wasanaeth da i'n dinasyddion mwyaf agored i niwed yn cael ei danategu gan ddarn cadarn o ddeddfwriaeth.

Fel y Gweinidog, rwy'n credu ei fod yn gam mawr ymlaen ein bod yn dwyn i gyfrif y bobl hynny sydd nid yn unig yn darparu gwasanaeth o ddydd i ddydd, ond sydd mewn gwirionedd yn berchennog gwasanaeth. Yn rhy aml yn y gorffennol, maent wedi rhoi pwysau annioddefol ar y staff a rheolaeth y gwasanaeth o ddydd i ddydd, sydd wedyn wedi'u canfod i fod yn methu ac wedi dianc yn ddi-gosb. Rwy'n credu ei fod yn ychwanegiad i'w groesawu'n fawr y byddant bellach yn cael eu dwyn i gyfrif am y gwasanaethau sy'n cael eu darparu dan eu henw.

Rwy'n meddwl bod y penderfyniad gan y Gweinidog i gofrestru staff gofal cartref yn ddechrau ar yr hyn yr wyf yn gobeithio sy'n gyfnod newydd, lle bydd pobl sy'n gweithio yn y maes penodol hwnnw o ofal yn cael eu cydnabod yn briodol am y gwaith y maent yn ei wneud, ac mai dyma ddechrau codi proffil a statws y grŵp penodol hwnnw o weithwyr. Rwy'n credu ei bod yn ganmoladwy bod y Llywodraeth wedi gwrandao ar y dystiolaeth, ac wedi gweithredu mewn modd sy'n ein symud ymlaen heb beryglu'r hyn sy'n system fregus iawn.

Rwy'n falch iawn bod y Gweinidog a'r Llywodraeth wedi nodi pa mor bwysig yw comisiynu hefyd. Yn gynyddol, rydym yn gweld awdurdodau lleol yn symud oddi wrth wasanaeth uniongyrchol i mewn i drefniadau comisiynu, ac felly mae'r ffordd y maent yn cael eu harolygu, unwaith eto, yn offeryn pwerus iawn i godi safonau yn y gwasanaeth.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I look forward to working with the Minister on the Powys amendment, so that we can ensure that commissioning in social services, but also in all services that are commissioned by local authorities, is done in a robust way and in a way in which high standards of public service and public procurement are upheld. I commend the Bill to the Assembly, but also to those working in this field. I think it's an important step forward, and will deliver a more robust inspection regime.

Edrychaf ymlaen at weithio gyda'r Gweinidog ar y gwelliant Powys, fel y gallwn sicrhau bod comisiynu yn y gwasanaethau cymdeithasol, ond hefyd yn yr holl wasanaethau sy'n cael eu comisiynu gan awdurdodau lleol, yn cael ei wneud mewn ffordd gadarn ac mewn ffordd lle mae safonau uchel o wasanaeth cyhoeddus a chaffael cyhoeddus yn cael eu cynnal. Cymeradwyaf y Bil i'r Cynulliad, ond hefyd i'r rhai sy'n gweithio yn y maes hwn. Rwy'n credu ei fod yn gam pwysig ymlaen, a bydd yn cyflwyno trefn arolygu mwy cadarn.

16:22 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

And the Minister to reply.

A'r Gweinidog i ymateb.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

16:22 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Can I thank Members who have spoken in the debate for the way in which they've highlighted those very significant aspects of the Bill that they have focused upon? Can I thank all Members of all parties who've taken such a constructive attitude to engagement with the Bill throughout its passage before this National Assembly? In its way, this Bill is every bit as radical as its companion Act, the Social Services and Well-being (Wales) Act. It will be a force for good in services provided to some of the most vulnerable citizens of Wales, and I think we can pause for a moment and hope that the National Assembly has done a very creditable job in bringing this important piece of legislation to the statute book.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. A gaf i ddiolch i'r Aelodau sydd wedi siarad yn y ddaidl am y modd y maent wedi tynnu sylw at yr agweddau pwysig iawn ar y Bil y maent wedi canolbwyntio arnynt? A gaf i ddiolch i bob Aelod o bob plaid sydd wedi cymryd y fath agwedd adeiladol i ymgysylltu â'r Bil drwy gydol ei hynt gerbron y Cynulliad Cenedlaethol hwn? Yn ei ffordd, mae'r Bil hwn yr un mor radical â'i Ddeddf ategol, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Bydd yn rym er daioni mewn gwasanaethau a ddarperir i rai o'r dinasyddion mwyaf agored i niwed yng Nghymru, ac rwy'n meddwl y gallwn ni oedi am ennyd a gobeithio bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi gwneud gwaith clodwiw iawn wrth ddod â'r darn pwysig hwn o ddeddfwriaeth i'r llyfr statud.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

16:23 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, mae'r cynnig wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.

7. Dadl ar Dargedau Tai Fforddiadwy

Detolwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Paul Davies, a gwelliannau 2 a 3 yn enw Aled Roberts.

7. Debate on Affordable Housing Targets

The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Paul Davies, and amendments 2 and 3 in the name of Aled Roberts.

16:23 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 7 is the debate on affordable housing targets. I call on the Minister for Communities and Tackling Poverty to move the motion—Lesley Griffiths.

Eitem 7 yw'r ddaidl ar dargedau tai fforddiadwy. Galwaf ar y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i gynnig y cynnig—Lesley Griffiths.

Cynnig NDM5884 Jane Hutt

Motion NDM5884 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose the National Assembly for Wales:

Yn nodi'r cynnydd diweddaraf tuag at gyflawni targed uwch Llywodraeth Cymru o 10,000 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ystod y Cynulliad hwn, a bod 91 y cant o'r targed hwn wedi'i gyflawni.

Notes the latest progress towards the Welsh Government's increased target of 10,000 additional affordable homes during this Assembly, and that 91 per cent of that target has been achieved.

Cynigiwyd y cynnig.

Motion moved.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty

Thank you, Deputy Presiding Officer. I welcome this opportunity to highlight our positive progress against the affordable housing target. This Government supports affordable housing. We're doing so as part of our wider commitment to improve housing supply across Wales. We are committed not only to social housing, but also to the development of market housing. We've supported a sustained increase in new homes being built with Help to Buy—Wales. We are bringing thousands of empty homes back into use, and are already starting to improve management standards in the private rented sector via the Housing (Wales) Act 2014. As well as new homes, if Welsh Labour is re-elected, we intend to protect our supply of existing social housing stock by abolishing the right to buy and right to acquire.

Local authorities report that 2,218 additional affordable homes were delivered across Wales in 2014-15. This means that, over the first four years of this administration, we have delivered a total of 9,108 additional affordable homes, representing 91 per cent of our increased target of 10,000 additional affordable homes within this term of Government, and we are on track to meet our target in full. This is excellent news and demonstrates the Welsh Government's and the housing sector's commitment and determination to increase affordable housing supply.

Registered social landlords continued to make the largest contribution to additional affordable housing in Wales, delivering 1,971 homes, which is 89 per cent of all additional affordable housing provision during 2014-15. They are responsible for over 80 per cent of all delivery over the last four years. Local authorities provided 53 units across Wales during 2014-15, with the remaining 194 units being delivered by other providers, including the private sector. We anticipate that the exit from the housing revenue account at the beginning of this year will enable local authorities to increase their contribution in future.

Partnership working is vital to achieve the right housing outcomes for people in Wales. The original target we set was 7,500 additional affordable homes, which increased to 10,000 in 2014. The housing supply pact, agreed with Community Housing Cymru, was developed to support the delivery of the increased target of 10,000 affordable homes. Our performance against this target demonstrates what can be achieved through effective collaborative working. There is a need for more homes across Wales, and, as the Minister with responsibility for housing, I've been very clear that increasing the supply of housing is a priority for me. I've also emphasised the need to maximise the benefits in terms of local jobs and apprenticeships that the extra investment brings.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n croesawu'r cyfle hwn i dynnu sylw at ein cynnydd cadarnhaol yn erbyn y targed tai fforddiadwy. Mae'r Llywodraeth hon yn cefnogi tai fforddiadwy. Rydym yn gwneud hynny yn rhan o'n hymrwymiad ehangach i wella cyflenwad tai ledled Cymru. Rydym wedi ymrwymo nid yn unig i dai cymdeithasol, ond hefyd i ddatblygu tai ar y farchnad agored. Rydym wedi cefnogi cynnydd parhaus mewn adeiladu cartrefi newydd gyda Cymorth i Brynu—Cymru. Rydym yn dod â miloedd o gartrefi gwag yn ôl i ddefnydd, ac rydym eisoes yn dechrau gwella safonau rheoli yn y sector rhentu preifat drwy Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Yn ogystal â chartrefi newydd, os caiff Llafur Cymru ei ail-ethol, rydym yn bwriadu diogelu ein cyflenwad o stoc tai cymdeithasol presennol drwy ddiddymu'r hawl i brynu a'r hawl i gaffael.

Mae awdurdodau lleol yn adrodd bod 2,218 o dai fforddiadwy ychwanegol wedi eu darparu ar draws Cymru yn 2014-15. Mae hyn yn golygu, yn ystod pedair blynedd gyntaf y weinyddiaeth hon, ein bod wedi cyflawni cyfanswm o 9,108 o dai fforddiadwy ychwanegol, yn cynrychioli 91 y cant o'n targed uwch o 10,000 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol yn y tymor hwn o Lywodraeth, ac rydym ar y trywydd iawn i gyrraedd ein targed yn llawn. Mae hyn yn newyddion ardderchog ac yn dangos ymrwymiad a phenderfyniad Llywodraeth Cymru a'r sector tai i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy.

Parhaodd landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i wneud y cyfraniad mwyaf at dai fforddiadwy ychwanegol yng Nghymru, gan gyflwyno 1,971 o gartrefi, sef 89 y cant o'r holl ddarpariaeth tai fforddiadwy ychwanegol yn ystod 2014-15. Maent yn gyfrifol am dros 80 y cant o'r holl gyflenwi dros y pedair blynedd diwethaf. Darparodd awdurdodau lleol 53 uned ledled Cymru yn ystod 2014-15, â'r 194 o unedau eraill yn cael eu darparu gan ddarparwyr eraill, gan gynnwys y sector preifat. Rydym yn rhagweld y bydd gadael y cyfrif refeniw tai ar ddechrau'r flwyddyn hon yn galluogi awdurdodau lleol i gynyddu eu cyfraniad yn y dyfodol.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol i gyflawni'r canlyniadau tai iawn i bobl yng Nghymru. Y targed gwreiddiol a osodwyd gennym oedd 7,500 o dai fforddiadwy ychwanegol, a oedd yn cynyddu i 10,000 yn 2014. Cafodd y cytundeb cyflenwad tai, a gytunwyd gyda Cartrefi Cymunedol Cymru, ei ddatblygu i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r targed uwch o 10,000 o gartrefi fforddiadwy. Mae ein perfformiad yn erbyn y targed hwn yn dangos yr hyn y gellir ei gyflawni trwy gydweithio effeithiol. Mae angen am fwy o gartrefi ledled Cymru, ac, y Gweinidog sy'n gyfrifol am dai, rydw i wedi bod yn glir iawn bod cynyddu'r cyflenwad o dai yn flaenoriaeth i mi. Rwyf wedi pwysleisio hefyd yr angen i wneud y mwyaf o'r manteision o ran swyddi a phrentisiaethau lleol a ddaw yn sgil y buddsoddiad ychwanegol.

With continued financial and economic challenges, it is important we consider alternative methods of achieving our targets for housing supply and standards, which will also stimulate and improve conditions in the housing market. Innovative methods of finance are becoming an increasingly important tool for delivering on our ambitions for investment in affordable housing as well as wider infrastructure investment. I am pleased this Welsh Government has been able to continue to provide capital investment through the social housing grant and the smaller properties programme.

Over the term of this Government, we are investing over £400 million through our social housing grant programme. This programme not only delivers homes to vulnerable people and those in greatest housing need, it also underpins the wider activity of housing associations in terms of creating jobs and training opportunities. A further £120 million has been made available through the housing finance grant, building homes for social and intermediate rent that will meet a range of housing needs. Additionally, we've already started work on developing a second phase of the scheme, to begin in 2017, which is expected to result in around 2,000 additional homes.

All of our affordable housing programmes support our wider objectives of tackling poverty and mitigating the impact of welfare reform. We're also helping housing associations with issues around the availability of land. The land for housing scheme, which has a budget of £12 million, will provide loan funding to housing associations to purchase land to support housing supply. The ability of Welsh Government to increase housing supply depends upon developing registered social landlords having a stable and predictable income stream against which they can borrow.

In July, the Chancellor announced the rental income for English registered social landlords would decrease each year for four years. This significantly changes the game plans of the English housing sector, with forecasters predicting little new social housing being built and a decrease in community investment. I do not think this is the right thing for Wales. However, because of the current devolution settlement, there are wider implications that need careful consideration before a decision can be made. I recognise that this makes planning for future development more difficult, and I will make this decision as soon as I am in a position to do so.

The delivery of housing goes wider than affordable housing, with market housing playing an important role in increasing supply. The delivery of market housing through the Help to Buy—Wales scheme is important. It not only helps people onto the housing ladder, it has also supported a sustained increase in house building. To continue this momentum, I am working closely with house builders to discuss and address any barriers to housing development to ensure an approach to housing that is right for the people of Wales and to ensure we remain competitive.

Gan fod heriau ariannol ac economaidd parhaus, mae'n bwysig ein bod yn ystyried dulliau amgen o gyflawni ein targedau ar gyfer cyflenwad a safonau tai, a fydd hefyd yn ysgogi ac yn gwella amodau yn y farchnad dai. Mae dulliau arloesol o gyllid yn dod yn offeryn cynyddol bwysig ar gyfer cyflawni ein huchelgeisiau ar gyfer buddsoddi mewn tai fforddiadwy yn ogystal â buddsoddi mewn seilwaith ehangach. Rwy'n falch bod y Llywodraeth Cymru hon wedi gallu parhau i ddarparu buddsoddiad cyfalaf drwy'r grant tai cymdeithasol a'r rhaglen eiddo llai.

Dros dymor y Llywodraeth hon, rydym yn buddsoddi dros £400 miliwn drwy ein rhaglen grant tai cymdeithasol. Mae'r rhaglen hon nid yn unig yn darparu cartrefi i bobl agored i niwed a'r rhai sydd â'r angen mwyaf am dai, mae hefyd yn sail i weithgarwch ehangach cymdeithasau tai o ran creu swyddi a chyfleoedd hyfforddi. Mae £120 miliwn ychwanegol wedi ei ddarparu drwy'r grant cyllid tai, gan adeiladu cartrefi ar gyfer rhent cymdeithasol a chanolradd a fydd yn diwallu ystod o anghenion tai. Yn ogystal, rydym eisoes wedi dechrau gweithio ar ddatblygu ail gam y cynllun, i ddechrau yn 2017, a disgwylir i hyn arwain at oddeutu 2,000 o dai ychwanegol.

Mae pob un o'n rhaglenni tai fforddiadwy yn cefnogi ein hamcanion ehangach o drechu tlodi a lliniaru effaith diwygio lles. Rydym ni hefyd yn helpu cymdeithasau tai gyda materion yn ymwneud â'r tir sydd ar gael. Bydd y cynllun tir ar gyfer tai, sydd â chyllideb o £12 miliwn, yn darparu cyllid benthyciadau i gymdeithasau tai i brynu tir i gefnogi'r cyflenwad o dai. Mae gallu Llywodraeth Cymru i gynyddu'r cyflenwad tai yn dibynnu ar ddatblygu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a chanddynt lif incwm sefydlog a rhagweladwy y gallant fenthycu yn ei erbyn.

Ym mis Gorffennaf, cyhoeddodd y Canghellor y byddai incwm rhent ar gyfer landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn Lloegr yn lleihau bob blwyddyn am bedair blynedd. Mae hyn yn newid cynlluniau'r sector tai yn Lloegr yn sylweddol, gyda daroganwyr yn rhagweld ychydig iawn o dai cymdeithasol newydd yn cael eu hadeiladu a gostyngiad mewn buddsoddi yn y gymuned. Nid wyf yn credu mai dyma'r peth iawn i Gymru. Fodd bynnag, oherwydd y setliad datganoli presennol, mae goblygiadau ehangach y mae angen eu hystyried yn ofalus cyn y gellir gwneud penderfyniad. Rwy'n cydnabod bod hyn yn gwneud cynllunio ar gyfer datblygu yn y dyfodol yn anoddach, a byddaf yn gwneud y penderfyniad hwn cyn gynted ag y byddaf mewn sefyllfa i wneud hynny.

Mae darparu tai yn mynd yn ehangach na thai fforddiadwy, gyda thai'r farchnad agored yn chwarae rhan bwysig o ran cynyddu cyflenwad. Mae darparu tai ar y farchnad agored trwy'r cynllun Cymorth i Brynu—Cymru yn bwysig. Mae nid yn unig yn helpu pobl i brynu eu cartref, ond mae hefyd wedi cefnogi cynnydd parhaus mewn adeiladu tai. I barhau'r momentwm hwn, rwy'n gweithio'n agos gydag adeiladwyr tai i drafod a rhoi sylw i unrhyw rwystrau i ddatblygu tai er mwyn sicrhau ymagwedd tuag at dai sy'n briodol i bobl Cymru ac i sicrhau ein bod yn parhau i fod yn gystadleuol.

We're also improving conditions in the private rented sector. I'm particularly pleased that over 7,500 long-term vacant properties have transformed into homes for Welsh families during the past four years. This is well above the ambitious 5,000 target for this Assembly term, with a year still to go.

I'm also pleased Rent Smart Wales has been launched just yesterday, which will help improve management standards in the private rented sector here in Wales. Landlords and agents have been given a year to comply, but, after this period of grace, action will be taken against non-compliant landlords and agents. During this year, there will be a focus on raising awareness of the new requirements. Collectively, these programmes support affordable housing to meet a range of housing needs. Affordable housing is not only at the heart of people's security, health and stability, it makes an essential contribution to community regeneration and social inclusion.

Finally, I want to be absolutely clear: affordable housing is critical to this Government's wider objectives of tackling poverty, preventing homelessness, and mitigating the impact of welfare reform. I'm confident we will continue to deliver on our ambition, despite the challenges we face, to meet the housing needs of the people of Wales.

Rydym ni hefyd yn gwella amodau yn y sector rhentu preifat. Rwy'n arbennig o falch bod dros 7,500 eiddo gwag hir dymor wedi eu gweddnewid i gartrefi i deuluoedd Cymru yn ystod y pedair blynedd diwethaf. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r targed uchelgeisiol o 5,000 ar gyfer tymor y Cynulliad hwn, gyda blwyddyn arall i fynd.

Rwyf hefyd yn falch bod Rhentu Doeth Cymru wedi'i lansio ddoe ddiwethaf, a fydd yn helpu i wella safonau rheoli yn y sector rhentu preifat yma yng Nghymru. Mae landlordiaid ac asiantau wedi cael blwyddyn i gydymffurfio, ond, ar ôl y cyfnod hwn o ras, bydd camau yn cael eu cymryd yn erbyn landlordiaid ac asiantau nad ydynt yn cydymffurfio. Yn ystod y flwyddyn hon, bydd pwyslais ar godi ymwybyddiaeth o'r gofynion newydd. Gyda'i gilydd, mae'r rhaglenni hyn yn cefnogi tai fforddiadwy i ddiwallu ystod o anghenion tai. Mae tai fforddiadwy nid yn unig yn ganolog i ddiogelwch, iechyd a sefydlogrwydd pobl, ond mae hefyd yn gwneud cyfraniad hanfodol i adfywio cymunedau a chynhwysiant cymdeithasol.

Yn olaf, rwyf eisiau bod yn gwbl glir: mae tai fforddiadwy yn hanfodol i amcanion ehangach y Llywodraeth i drechu tloedi, atal digartrefedd, a lliniaru effaith diwygio lles. Rwy'n hyderus y byddwn yn parhau i gyflawni ein huchelgais, er gwaethaf yr heriau sy'n ein hwynebu, er mwyn diwallu anghenion tai pobl Cymru.

16:31 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I have selected the three amendments to the motion and I call on Mark Isherwood to move amendment 1, tabled in the name of Paul Davies.

Rwyf wedi dethol y tri gwelliant i'r cynnig a galwaf ar Mark Isherwood i gynnal gwelliant 1, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

Gwelliant 1—Paul Davies

Amendment 1—Paul Davies

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn nodi'r angen i ddod ag argyfwng tai Cymru i ben ac yn gresynu at y ffaith nad oes unrhyw gysylltiad rhwng targed tai fforddiadwy Llywodraeth Cymru a nifer y bobl sydd angen tai.

Notes the need to end Wales's housing crisis and regrets that the Welsh Government's affordable housing target has no connection to the number in housing need.

Cynigiwyd gwelliant 1.

Amendment 1 moved.

16:31 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

It's over a decade since the sector collectively warned of a housing supply crisis in Wales, and many years since the Homes for All Cymru report, 'Blueprint for Action', said there was a crisis in Wales. The October 2014 Homes for All Cymru manifesto starts:

Mae'n dros ddegawd ers i'r sector rybuddio ar y cyd bod argyfwng cyflenwad tai yng Nghymru, a blynyddoedd lawer ers i adroddiad Cartrefi i Bawb Cymru, 'Glasbrint ar gyfer Gweithredu', ddweud bod argyfwng yng Nghymru. Mae Maniffesto Hydref 2014 Cartrefi i Bawb Cymru yn dechrau:

'There is a housing crisis with more than 90,000 households on waiting lists',

Mae argyfwng tai gyda mwy na 90,000 o aelwydydd ar restrau aros,

the same figure that applied five years ago. Figures in England fell by 300,000 during that period.

yr un ffigur a oedd yn berthnasol bum mlynedd yn ôl. Mae ffigurau yn Lloegr wedi gostwng gan 300,000 yn ystod y cyfnod hwnnw.

In June this year, the Chartered Institute of Housing Cymru stated:

Ym mis Mehefin eleni, dywedodd Sefydliad Tai Siartredig Cymru:

'Wales needs to build 15,000 homes per year if we're to stand a chance of ending the housing crisis within a generation. We're calling on Welsh Government to continue to demonstrate their understanding that housing is critical infrastructure.'

June 2015. If society can get its housing provision right, many other social justice problems will, at worst, be alleviated, at best, eliminated. Health, education and family life are all intertwined with having a stable home and home environment.

I therefore move amendment 1, noting the need to end Wales's housing crisis and regretting that the Welsh Government's affordable housing target has no connection to the number in housing need.

Although this Labour Government has a habit of missing its targets, normally at least they have the merit of being based on real populations, such as numbers of patients or pupils. However, this affordable homes target is arbitrary and cynical, bearing no relation to the actual numbers in housing need. We also lack clarity on what Labour includes in its affordable homes targets. Where figures previously largely comprised social housing units, the housing types in the current figures provided by the Welsh Government are unclear.

During the first three Assembly terms, Labour Welsh Government cut the number of new social homes by 71 per cent, as the number of households on waiting lists mushroomed. By 2009-10, the Welsh Government had by far the lowest proportional level of housing expenditure of any of the four UK nations and the 2012 UK housing review said it was the Welsh Government itself that gave housing lower priority in its overall budgets. HSBC figures show the total number of new homes built in Wales in 2012 was more than 50 per cent down on 2007, and that Wales was still lagging behind UK growth rates. HSBC figures show that, although new UK home registrations rose 28 per cent in 2013, Wales was the only part of the UK to see a fall. And, although new homes registered in Wales increased during 2014 to 4,740, fuelled largely by belated Welsh Government adoption of the UK Government's Help to Buy scheme, this contrasts with the lowest figure of the nine English regions—5,296 in north-east England and 11,003 in Scotland.

The total number of new dwellings in Wales in 2014-15 was just 6,170. Contrast this with the late Professor Holmans report for the Welsh Government, which estimated that Wales needs between 8,700 and 12,000 new homes annually to 2031, including up to 5,000 in the social sector. Two 2015 reports completed by Nathaniel Lichfield & Partners planning consultancy for the house building industry in Wales state that their updated household projections for new dwellings up to 2031 indicate that the current level of housing delivery is only just over half of the identified housing need across Wales.

Mae angen i Gymru adeiladu 15,000 o gartrefi bob blwyddyn os ydym i fod â gobaith o ddiweddu'r argyfwng tai o fewn cenhedlaeth. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i barhau i ddangos eu dealltwriaeth bod tai yn seilwaith hanfodol.

Mehefin 2015. Os gall cymdeithas gael ei darpariaeth tai yn iawn, bydd llawer o broblemau cyfiawnder cymdeithasol eraill, ar y gwaethaf, yn cael eu lleddfu, ar y gorau, yn cael eu dileu. Mae iechyd, addysg a bywyd teuluol i gyd yn plethu â chael cartref ac amgylchedd cartref sefydlog.

Felly cynigiai welliant 1, gan nodi'r angen i roi terfyn ar argyfwng tai Cymru a gresynu nad oes gan darged tai fforddiadwy Llywodraeth Cymru unrhyw gysylltiad â'r nifer sydd mewn angen am dai.

Er bod gan y Llywodraeth Lafur hon arferiad o fetu ei thargedau, fel arfer o leiaf mae ganddynt y rhinwedd o fod wedi'u seilio ar boblogaethau gwirioneddol, megis nifer y cleifion neu ddisgyblion. Fodd bynnag, mae'r targed tai fforddiadwy hwn yn fympwyol ac yn sinigaidd, nad oes ganddo unrhyw berthynas â'r niferoedd gwirioneddol sydd mewn angen am dai. Rydym hefyd yn brin o eglurder ar yr hyn y mae'r Blaid Lafur yn ei gynnwys yn ei thargedau tai fforddiadwy. Lle'r oedd ffigurau yn flaenorol yn cynnwys unedau tai cymdeithasol i raddau helaeth, mae'r mathau o dai yn y ffigurau cyfredol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn aneglur.

Yn ystod tri thymor cyntaf y Cynulliad, mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi torri nifer y cartrefi cymdeithasol newydd gan 71 y cant, wrth i nifer yr aelwydydd sydd ar restrau aros dyfu'n helaeth. Erbyn 2009-10, roedd gan Lywodraeth Cymru y lefel gyfrannol isaf o bell ffordd o wariant tai o unrhyw un o bedair gwlad y DU a dywedodd adolygiad tai 2012 y DU mai Llywodraeth Cymru ei hun oedd yn rhoi blaenoriaeth is i dai yn ei chyllidebau cyffredinol. Mae ffigurau HSBC yn dangos bod cyfanswm y cartrefi newydd a adeiladwyd yng Nghymru yn 2012 yn fwy na 50 y cant i lawr ar 2007, a bod Cymru yn dal i lusgo y tu ôl i gyfraddau twf y DU. Mae ffigurau HSBC yn dangos, er bod cofrestradau cartrefi newydd y DU wedi codi 28 y cant yn 2013, Cymru oedd yr unig ran o'r DU i weld gostyngiad. Ac, er bod cartrefi newydd wedi'u cofrestru yng Nghymru wedi cynyddu yn ystod 2014 i 4,740, wedi'i hybu'n bennaf gan fabwysiadu hwyr gan Lywodraeth Cymru ar gynllun Cymorth i Brynu Llywodraeth y DU, mae hyn yn cyferbynnu â ffigur isaf y naw rhanbarth yn Lloegr—5,296 yng ngogledd-ddwyrain Lloegr ac 11,003 yn yr Alban.

Cyfanswm nifer yr anheddau newydd yng Nghymru yn 2014-15 oedd 6,170 yn unig. Cyferbynnwch hyn gydag adroddiad y diweddar Athro Holmans ar gyfer Llywodraeth Cymru, a oedd yn amcangyfrif bod ar Gymru angen rhwng 8,700 a 12,000 o gartrefi newydd bob blwyddyn hyd at 2031, gan gynnwys hyd at 5,000 yn y sector cymdeithasol. Mae dau adroddiad 2015 a gwblhawyd gan ymgynghorwyr cynllunio Nathaniel Lichfield & Partners ar gyfer y diwydiant adeiladu tai yng Nghymru yn dweud bod eu hamcanestyniadau aelwydydd wedi'u diweddarau ar gyfer anheddau newydd hyd at 2031 yn dangos nad oedd y lefel bresennol o ddarpariaeth tai ddim ond ychydig dros hanner yr angen am dai a nodwyd ar draws Cymru.

September's Bevan Foundation report, 'The shape of Wales to come', states

'that in order to meet anticipated housing need...there need to be 14,200 new homes created each year',

including 5,100 non-market homes. They add that 'less than half the requirement' is currently being met, with the biggest shortfall in social housing.

Social rent levels in Wales are below English levels and must be protected, where registered social landlords have made it clear that reductions will further reduce housing supply. We need a whole-market solution to the Welsh housing supply crisis in social rent, low-cost home ownership and open market purchase. We need to be asking housing associations how we can better link housing supply to sustainable community regeneration. We must maximise the potential for housing associations, working with the wider housing sector, to deliver housing that is affordable to local people.

As Community Housing Cymru told me, it's all about demonstrating what can be achieved together—practical projects with appropriate support from Government, recycling and reusing money, targeting areas where market supply can't meet need, and developing a suite of schemes to increase supply and, therefore, make housing more affordable.

Mae adroddiad mis Medi Sefydliad Bevan, 'The shape of Wales to come', yn datgan

er mwyn diwallu'r angen a ragwelir am dai...mae angen creu 14,200 o gartrefi newydd bob blwyddyn,

gan gynnwys 5,100 o gartrefi heb fod ar y farchnad agored. Maent yn ychwanegu bod 'llai na hanner y gofyniad' yn cael ei fodloni ar hyn o bryd, gyda'r diffyg mwyaf mewn tai cymdeithasol.

Mae lefelau rhent cymdeithasol yng Nghymru yn is na lefelau yn Lloegr ac mae'n rhaid eu diogelu, pan fo landlordiaid cymdeithasol cofrestredig wedi ei gwneud yn glir y bydd gostyngiadau yn lleihau'r cyflenwad tai ymhellach. Mae arnom angen ateb marchnad gyfan i argyfwng cyflenwad tai Cymru mewn rhent cymdeithasol, perchentyaeth cost isel a phrynu ar y farchnad agored. Mae angen i ni fod yn gofyn i gymdeithasau tai sut y gallwn gysylltu cyflenwad tai yn well at adfywio cymunedol cynaliadwy. Mae'n rhaid i ni wneud y gorau o'r potensial ar gyfer cymdeithasau tai, gan weithio gyda'r sector tai ehangach, er mwyn darparu tai sy'n fforddiadwy i bobl leol.

Fel y dywedodd Cartrefi Cymunedol Cymru wrthyf, mae'n ymwneud â dangos yr hyn y gellir ei gyflawni gyda'n gilydd—prosiectau ymarferol gyda chefnogaeth briodol gan y Llywodraeth, ailgylchu ac ailddefnyddio arian, targedu ardaloedd lle na all cyflenwad y farchnad fodloni'r angen, a datblygu cyfres o gynlluniau i gynyddu'r cyflenwad ac, felly, gwneud tai yn fwy fforddiadwy.

16:36

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I call on Peter Black to move amendments 2 and 3 tabled in the name of Aled Roberts.

Galwaf ar Peter Black i gynnig gwelliannau 2 a 3 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

Gwelliant 2—Aled Roberts

Amendment 2—Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn nodi gwaith ymchwil yr Athro Holmans sy'n nodi os bwriedir cwrdd â'r angen a'r galw am dai yng Nghymru yn y dyfodol, mae angen dychwelyd i gyfraddau adeiladu tai nas gwelwyd ers bron 20 mlynedd a chynnydd yng nghyfradd twf tai fforddiadwy.

Notes the research of Professor Holmans which states that 'if future need and demand for housing in Wales is to be met, there needs to be a return to rates of house building not seen for almost 20 years, and an increase in the rate of growth of affordable housing.'

Gwelliant 3—Aled Roberts

Amendment 3—Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn credu y dylid dyblu'r targed ar gyfer adeiladu tai fforddiadwy yn ystod tymor nesaf y Cynulliad.

Believes that the target for building affordable homes should be doubled in the next Assembly term.

Cynigiwyd gwelliannau 2 a 3.

Amendments 2 and 3 moved.

Thank you, Deputy Presiding Officer. Can I move amendments 2 and 3? I shall acknowledge the contribution, I think, of Professor Holmans, who, unfortunately, died earlier this year, in terms of doing the very valuable research that Mark Isherwood has just referred to and which is referred to in these amendments, namely that, in terms of need, the Welsh Government should be providing 14,200 new private sector homes—well, encouraging those—and 5,100 social housing units each year, which, of course, we very much support. I think the issue here is that, whilst acknowledging that the Welsh Government have or are likely to achieve their 10,000 target, and I think the Minister has mentioned it several times in this Chamber over the last few weeks, we do need to recognise that we need to move forward from that over the next Assembly term and start to make provision to actually deliver the number of homes that Professor Holmans's research indicated are actually needed here in Wales.

Clearly, to make sure that that number of homes is put in place, there needs to be a commitment from the Welsh Government to fund an additional number of social housing units. The Welsh Liberal Democrats have already said that, if we have any influence over the next Government, we'll be pressing to double the target to 20,000 affordable homes over the next Welsh Government term, the next five years, which is roughly around 4,000 houses a year, much closer to the target that is needed. I think that'll make a huge difference in terms of communities around Wales and make a huge difference to those who are seeking housing and to get on the housing ladder.

I think we also need to put in place other provision, such as the rent-to-buy scheme that the Welsh Liberal Democrats also launched in July this year as one of our policies to help people get on the housing ladder. Clearly, a large number of people in Wales are not able to afford to purchase their home till their mid-30s. Many are struggling to save up and also to meet the costs of renting a home at the same time. I think we need to find a way around that.

Certainly, some of the schemes the Welsh Government have put in place, with the help of the budget deals they've done with the Welsh Liberal Democrats, have helped with that, particularly the way we're helping people to meet those deposits and keep their deposit down to 5 per cent. But, certainly, the rent-to-buy scheme will enable people to get on the housing ladder without having to raise a deposit—effectively, their rent will contribute towards the ownership of a property over the 30-year period. So, at the end of that period, they would actually be the owners of that home, with, of course, various stages whereby they could move in and out of that property and sell the value that they have already paid for.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. A gaf i gynnig gwelliannau 2 a 3? Byddaf yn cydnabod cyfraniad, rwy'n meddwl, yr Athro Holmans, a fu farw, yn anffodus, yn gynharach eleni, o ran gwneud yr ymchwil gwerthfawr iawn y mae Mark Isherwood newydd gyfeirio ato ac y cyfeirir ato yn y gwelliannau hyn, sef, o ran angen, y dylai Llywodraeth Cymru fod yn darparu 14,200 o gartrefi newydd yn y sector preifat—wel, yn annog y rheini—a 5,100 o unedau tai cymdeithasol bob blwyddyn, yr ydym, wrth gwrs, yn ei gefnogi'n fawr iawn. Rwy'n meddwl mai'r broblem yma yw, er ein bod yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi cyflawni neu yn debygol o gyflawni ei tharged o 10,000, ac rwy'n credu bod y Gweinidog wedi sôn am hynny droeon yn y Siambr hon dros yr wythnosau diwethaf, bod angen inni gydnabod bod angen inni symud ymlaen oddi wrth hynny dros dymor nesaf y Cynulliad a dechrau gwneud darpariaeth i wir gyflawni niferoedd y cartrefi yr oedd ymchwil yr Athro Holmans yn dangos bod eu hangen yma yng Nghymru mewn gwirionedd.

Yn amlwg, er mwyn sicrhau bod y nifer hwnnw o gartrefi yn cael eu hadeiladu, mae angen ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i ariannu nifer ychwanegol o unedau tai cymdeithasol. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru eisoes wedi dweud, os oes gennym unrhyw ddylanwad dros y Llywodraeth nesaf, byddwn yn pwysu i ddyblu'r targed i 20,000 o gartrefi fforddiadwy dros dymor nesaf Llywodraeth Cymru, yn ystod y pum mlynedd nesaf, sydd tua 4,000 o dai y flwyddyn, ac yn llawer nes at y targed sydd ei angen. Rwy'n meddwl y bydd yn gwneud gwahaniaeth enfawr o ran cymunedau ledled Cymru ac yn gwneud gwahaniaeth mawr i'r rhai sy'n chwilio am dŷ a mynd ar yr ysgol dai.

Rwy'n meddwl bod angen hefyd i sefydlu darpariaeth arall, fel y cynllun rhentu i brynu y gwnaeth Democratiaid Rhyddfrydol Cymru hefyd ei lansio ym mis Gorffennaf eleni fel un o'n polisiau i helpu pobl i gael troed ar yr ysgol dai. Yn amlwg, mae nifer fawr o bobl yng Nghymru nad ydynt yn gallu fforddio prynu eu cartref tan eu bod yn eu 30au canol. Mae llawer yn cael trafferth i gynilo a hefyd i dalu costau rhentu cartref ar yr un pryd. Rwy'n credu bod angen dod o hyd i ffordd o gwmpas hynny.

Yn sicr, mae rhai o'r cynlluniau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u rhoi ar waith, gyda chymorth y bargeinion cyllideb y maent wedi eu gwneud gyda Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, wedi helpu gyda hynny, yn enwedig y ffordd yr ydym yn helpu pobl i dalu'r blaendaliadau hynny a chadw eu blaendal i lawr i 5 y cant. Ond, yn sicr, bydd y cynllun rhentu i brynu yn galluogi pobl i fynd ar yr ysgol dai heb orfod cynilo blaendal—mewn gwirionedd, bydd eu rhent yn cyfrannu tuag at berchenogaeth yr eiddo dros y cyfnod o 30 mlynedd. Felly, ar ddiwedd y cyfnod hwnnw, nhw mewn gwirionedd fyddai perchnogion y cartref hwnnw, gan gynnwys, wrth gwrs, gwahanol adegau pryd y cânt symud i mewn ac allan o'r eiddo hwnnw a gwerthu'r gwerth y maent eisoes wedi talu amdano.

So, I think we do need to do a lot more, both in terms of building new social housing units, but also in terms of helping people get on the housing ladder in the first place. We need to make sure that we remove the obstacles to small local builders, in particular, building new homes in Wales. Many of them still come to me complaining about issues around planning, issues around the cost of connecting to statutory undertakers—which I think remains a problem for, particularly, the smaller builders—and also around the many other problems that they're having in terms of actually developing and making a profit on their homes and actually building those homes that people are able to buy.

I think, when you look at the large-volume builders, the Persimmons and others like them, although they say they have problems—and they do have problems—they don't have the same issues that the local Welsh builders do have, because they have a bigger scale and are able to absorb those costs.

Minister, you mentioned in your introduction at least one issue that I think is troubling housing associations in Wales, and that is, of course, the agenda in England about reducing rents. You said in your speech that you hadn't yet made a decision on this, although I think you indicated a direction of travel. I read today that the UK Government is thinking of finding a way to force Scotland to follow that agenda. I am concerned that they may well do the same to us. Clearly, housing associations need to have an income stream if they're going to build properties. If they are forced to reduce rents, then that is going to impact on their income streams. So, I'd be interested in some more clarity as to when exactly a decision will be taken by the Welsh Government on the consultation that has been ongoing on that issue.

I think the other issue that is also troubling housing associations around this is the Office for National Statistics proposal to bring registered social landlords into the public sector, which I think is already happening in England, and they are now turning their attention to Wales. That will effectively put capital investment in housing at the mercy of the Chancellor of the Exchequer and restrict room for manoeuvre for housing associations. I think the only way we're going to possibly thwart that is to change the regulatory regime for RSLs. I'd be interested if you could give us an indication as to what the Welsh Government is doing to avert that particular problem.

Felly, rwy'n meddwl bod angen i ni wneud llawer mwy, o ran adeiladu unedau tai cymdeithasol newydd, ond hefyd o ran helpu pobl i gael troed ar yr ysgol dai yn y lle cyntaf. Mae angen i ni sicrhau ein bod yn cael gwared ar y rhwystrau i adeiladwyr bach lleol, yn arbennig, i adeiladu cartrefi newydd yng Nghymru. Mae llawer ohonynt yn dal i ddod ataf yn cwyno am faterion yn ymwneud â chynllunio, materion yn ymwneud â'r gost o gysylltu ag ymgymmerwyr statudol—sydd yn fy marn i yn parhau i fod yn broblem, yn arbennig, i'r adeiladwyr llai—a hefyd ynghylch y llu o broblemau eraill sydd ganddynt o ran datblygu a gwneud elw ar eu cartrefi ac adeiladu'r cartrefi hynny y mae pobl yn gallu eu prynu.

Rwy'n meddwl, pan edrychwch ar yr adeiladwyr cyflenwadau mawr, Persimmons ac eraill tebyg iddynt, er eu bod yn dweud bod ganddynt broblemau—ac mae ganddynt broblemau—nid oes ganddynt o'r un problemau ag sydd gan adeiladwyr lleol Cymru, oherwydd bod ganddynt raddfa fwy ac maent yn gallu llyncu'r costau hynny.

Weinidog, soniasoch yn eich cyflwyniad am o leiaf un mater yr wyf yn meddwl sy'n poeni cymdeithasau tai yng Nghymru, a hynny yw, wrth gwrs, yr agenda yn Lloegr ynghylch gostwng rhenti. Dywedasoch yn eich araith nad ydych wedi gwneud penderfyniad ar hyn eto, er fy mod yn credu eich bod wedi dangos y trywydd yr ydych arno. Darllenais heddiw fod Llywodraeth y DU yn meddwl am ganfod ffordd i orfodi'r Alban i ddilyn yr agenda honno. Rwy'n pryderu y gallent wneud yr un peth i ni. Yn amlwg, mae angen i gymdeithasau tai gael ffrwd incwm os ydynt yn mynd i adeiladu tai. Os ydynt yn cael eu gorfodi i ostwng rhenti, yna mae hynny'n mynd i effeithio ar eu ffrydiau incwm. Felly, byddai gennyf ddiddordeb mewn cael mwy o eglurder ynghylch pryd yn union y bydd penderfyniad yn cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru ar yr ymgynghoriad sydd wedi bod yn mynd rhagddo ar y mater hwnnw.

Rwy'n meddwl mai'r mater arall sydd hefyd yn poeni cymdeithasau tai ynghylch hyn yw'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cynnig dod â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i mewn i'r sector cyhoeddus, y credaf sydd eisoes yn digwydd yn Lloegr, ac maent yn awr yn troi eu sylw at Gymru. Bydd hynny i bob pwrpas yn rhoi buddsoddiad cyfalaf mewn tai ar drugaredd Canghellor y Trysorlys ac yn cyfyngu ar le i symud ar gyfer cymdeithasau tai. Rwy'n credu mai'r unig ffordd yr ydym yn mynd i rwystr hynny o bosibl yw newid y gyfundrefn reoleiddio ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Byddai gennyf ddiddordeb pe gallech roi syniad i ni o ran yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i osgoi'r broblem benodol honno.

16:41

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Now, the Minister has tabled a take-note motion on the affordable housing figures, and really, the motion just simply states the statistics. So, I think it would be churlish to vote against it, but we should, at the same time, I think, be congratulating the sector on their efforts to deliver on this Government target, although I don't think any of us would pretend that this is sufficient to meet the number of homes that are needed.

Nawr, mae'r Gweinidog wedi cyflwyno cynnig cymryd sylw ar y ffigurau tai fforddiadwy, ac mewn gwirionedd, dim ond datgan yr ystadegau y mae'r cynnig. Felly, rwy'n meddwl y byddai'n anfoesgar i bleidleisio yn ei erbyn, ond dylem, ar yr un pryd, rwy'n meddwl, longyfarch y sector ar ei ymdrechion i gyflawni ar y targed hwn sydd gan y Llywodraeth, er nad wyf yn credu y byddai unrhyw un ohonom yn esgus bod hyn yn ddigonol i ddiwallu nifer y cartrefi sydd eu hangen.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Of course, affordable housing is a more complex problem than just building a target number of homes, and there are multiple factors that affect whether a home is affordable for families in Wales or not. The rising cost of living is having a huge impact, particularly on lower-income families, and housing costs make up a significant part of that increase. Around a quarter of people in poverty are behind with at least one bill, and the number of repossessions, both landlord and mortgage repossessions, has increased across the UK in recent years. Over the last five years, the number of rented households in England and Wales that have been evicted has more than trebled. So, this suggests that there are a small but fast-growing number of people for whom keeping up with the bills has become an impossibility. In some cases, it's pushing them into homelessness.

Perhaps the most significant change has been the move from owner-occupied housing to private rented accommodation. This shift has been most notable for those who are under the age of 45, particularly families with children. The proportion of people living in poverty who live in the private rented sector has increased by a third. That's up from a fifth a decade ago. Now, this presents a host of new challenges. The conditions in the private rented sector are often worse than in other tenures, making the cost of keeping a home comfortable and warm more than just an issue. There are also significant costs attached to short-term unstable tenancies. Each move means producing an often substantial deposit and incurring another round of letting agents' fees. In this environment, saving for the future becomes incredibly difficult and makes an escape from poverty even more unlikely.

Now, delivering affordable homes means more than house building. It means addressing the high housing costs that many households face day to day, and Plaid Cymru is committed to reforming the private rented sector so that it truly works for everyone. Controlling rents, banning unfair letting agents' fees, offering more long-term stable tenancies, and pushing up standards in the sector, would all contribute to making housing in Wales more affordable, particularly for the working low-paid households who are facing a real struggle to find housing that is right for them.

Wrth gwrs, mae tai fforddiadwy yn broblem fwy cymhleth na dim ond adeiladu nifer targed o gartrefi, ac mae ffactorau lluosog sy'n effeithio ar ba un a yw cartref yn fforddiadwy i deuluoedd yng Nghymru ai peidio. Mae cynnydd mewn costau byw yn cael effaith anferth, yn enwedig ar deuluoedd ar incwm is, ac mae costau tai yn ffurfio rhan sylweddol o'r cynnydd hwnnw. Mae tua chwarter y bobl sy'n byw mewn tlodi ar ei hôl hi gydag o leiaf un bil, ac mae nifer yr achosion o adfeddiannu, adfeddiannu landlord ac adfeddiannu morgais, wedi cynyddu ar draws y DU dros y blynnyddoedd diwethaf. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae nifer yr aelwydydd sy'n rhentu yng Nghymru a Lloegr sydd wedi cael eu troi allan wedi mwy na threblu. Felly, mae hyn yn awgrymu bod nifer fach ond sy'n tyfu'n gyflym o bobl y mae gallu talu'r biliau wedi dod yn amhosibl iddynt. Mewn rhai achosion, mae'n eu gwrthio i mewn i ddigartrefedd.

Efallai mai'r newid mwyaf sylweddol fu'r symudiad o dai perchen-feddianwyr i lety rhent preifat. Mae'r newid wedi bod fwyaf nodedig i'r rhai sydd o dan 45 oed, yn enwedig teuluoedd gyda phlant. Mae cyfran y bobl sy'n byw mewn tlodi sy'n byw yn y sector rhentu preifat wedi cynyddu gan draean. Mae hynny i fyny o un rhan o bump ddegawd yn ôl. Nawr, mae hyn yn cyflwyno llu o heriau newydd. Mae'r amodau yn y sector rhentu preifat yn aml yn waeth nag mewn deiliadaethau eraill, gan wneud y gost o gadw cartref yn gysurus ac yn gynnes yn fwy na dim ond problem. Mae costau sylweddol ynghlwm wrth denantiaethau ansefydlog tymor byr hefyd. Mae pob symudiad yn golygu cyflwyno blaendal sylweddol yn aml ac yn achosi cylch arall o ffioedd asiantau gosod. Yn yr amgylchedd hwn, mae cynilo ar gyfer y dyfodol yn dod yn hynod o anodd ac yn gwneud dianc rhag tlodi hyd yn oed yn fwy annhebygol.

Nawr, mae darparu tai fforddiadwy yn golygu mwy nag adeiladu tai. Mae'n golygu mynd i'r afael â'r costau tai uchel y mae llawer o deuluoedd yn eu hwynebu o ddydd i ddydd, ac mae Plaid Cymru wedi ymrwymo i ddiwygio'r sector rhentu preifat fel ei fod yn wirioneddol yn gweithio i bawb. Byddai rheoli rhenti, gwahardd ffioedd annheg asiantau gosod, cynnig mwy o denantiaethau sefydlog hir dymor, a gwrthio safonau i fyny yn y sector, i gyd yn cyfrannu at wneud tai yng Nghymru yn fwy fforddiadwy, yn enwedig ar gyfer yr aelwydydd sydd ar gyflog isel sy'n ei chael hi'n anodd dod o hyd i dai sy'n briodol ar eu cyfer hwy.

Now, the welfare cuts by the Conservative Government in Westminster have also had an impact on housing affordability. Reducing the level at which local housing allowance is set from 50 per cent to 30 per cent has put more rented housing out of the reach of those on housing benefit. The bedroom tax has been disastrous and has disproportionately affected those with disabilities. Seventy-eight per cent of landlords have seen an increase in rent arrears as a result. It has been estimated that another 400 homes in the social sector could have been built with the money housing associations have had to spend to mitigate the impact of the bedroom tax. Of course, if we are faced with the prospect of the forcing down of social housing rents, I think the sector will become unstable. So, today we can acknowledge, I think, some success in achieving good progress towards the affordable housing targets, while reflecting on the challenge that still faces us. The most effective way to tackle the housing crisis in Wales would be to take a holistic look at housing and attempt to understand the many factors that affect the affordability of housing. I think building new houses is just the start, but we must make the best use of existing stock.

Nawr, mae'r toriadau lles gan y Llywodraeth Geidwadol yn San Steffan hefyd wedi cael effaith ar fforddiadwyedd tai. Mae gostwng y lefel y gosodir lwfans tai lleol arno o 50 y cant i 30 y cant wedi rhoi mwy o dai ar rent allan o gyrraedd y rheini sydd ar fudd-dal tai. Mae'r dreth ystafell wely wedi bod yn drychinebus, ac mae wedi effeithio'n anghymesur ar y rhai sydd ag anabledau. Mae saith deg wyth y cant o landlordiaid wedi gweld cynnydd mewn ôl-ddyledion rhent o ganlyniad. Amcangyfrifwyd y gallai 400 o gartrefi eraill yn y sector cymdeithasol fod wedi cael eu hadeiladu gyda'r arian y mae cymdeithasau tai wedi gorfod ei wario i liniaru effaith y dreth ystafell wely. Wrth gwrs, os ydym yn wynebu'r posibilrwydd o orfodi rhenti tai cymdeithasol at i lawr, rwy'n credu y bydd y sector yn dod yn ansefydlog. Felly, heddiw, gallwn gydnabod, rwy'n credu, rhywfaint o lwyddiant o ran cyflawni cynnydd da tuag at y targedau tai fforddiadwy, gan fyfyririo ar yr her sy'n ein hwynebu o hyd. Y ffordd fwyaf effeithiol o fynd i'r afael â'r argyfwng tai yng Nghymru fyddai drwy gymryd golwg cyfannol ar dai a cheisio deall y lluo o ffactorau sy'n effeithio ar fforddiadwyedd tai. Rwy'n meddwl mai dechrau yn unig yw adeiladu tai newydd, ond mae'n rhaid i ni wneud y defnydd gorau o'r stoc bresennol.

16:45

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I believe everybody in Wales has the right to a good-quality home. I recognise that there is an acute need for more affordable homes right the way across Wales. I am pleased the Welsh Government has made it a priority to increase the supply of housing by focusing on a number of initiatives aimed at meeting its ambitious target to deliver 10,000 affordable homes in Wales during this Assembly. The most recent figures show that the Welsh Government has almost reached this ambitious target, with 9,108 completed, with another year to go. I also recognise that housing investment plays a major role as a driver in the Welsh economy, as well as in tackling poverty and improving health and wellbeing. Is it any surprise that cold and damp properties lead to poor health in both the young and the old? Is it any surprise that children who have been brought up in houses in a poor condition tend to underperform in schools?

Rwy'n credu bod gan bawb yng Nghymru yr hawl i gartref o ansawdd da. Rwy'n cydnabod bod angen dybryd am fwy o dai fforddiadwy ym mhob un cwr o Gymru. Rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru wedi ei gwneud yn flaenoriaeth i gynyddu'r cyflenwad o dai drwy ganolbwyntio ar nifer o fentrau sydd â'r nod o gyrraedd ei tharged uchelgeisiol i ddarparu 10,000 o gartrefi fforddiadwy yng Nghymru yn ystod y Cynulliad hwn. Dengys y ffigurau diweddaraf bod Llywodraeth Cymru bron wedi cyrraedd y targed uchelgeisiol, gan fod 9,108 wedi'u cwblhau, gyda blwyddyn arall i fynd. Rwyf hefyd yn cydnabod bod buddsoddi mewn tai yn chwarae rhan bwysig o ran sbarduno economi Cymru, yn ogystal ag o ran trechu tloedi a gwella iechyd a lles. A yw'n unrhyw syndod fod eiddo oer a llaith yn arwain at iechyd gwael yn yr ifanc a'r hen? A yw'n unrhyw syndod bod plant sydd wedi eu magu mewn tai sydd mewn cyflwr gwael yn tueddu i danberfformio yn yr ysgol?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The 2011 census highlighted two key changes over the decade since 2001, and Jocelyn Davies has highlighted part of this: a large-scale shift from council-owned social housing to housing associations, which includes stock transfers; and, more importantly, as Jocelyn Davies just said, the confirmation of the rise of privately rented housing balancing the fall in owner-occupied housing. Plasmarl in Swansea East, where I was born, is an example of housing change in the last 50 years. In the 1950s and 1960s, it was predominantly relatively cheap, privately rented accommodation, with many of the properties lacking facilities such as indoor toilets, bathrooms and central heating. These properties became owner-occupied, mainly by first-time buyers, between the late 1960s and the early 1980s, with very many benefiting from council improvement grants to provide proper kitchens, bathrooms, indoor toilets and central heating. Many of these properties are now being bought by private landlords, some of whom live hundreds of miles away, and are then rented out—a movement back to where we were in the 1950s and 60s. I don't blame these private landlords. They can buy houses for £60,000, and they can rent them out for £500 a week. I mean, where else can you get a 10 per cent rate of return and capital growth? Is it just coincidence that growth in owner-occupation and reduction in privately rented accommodation happened at the same time as the large scale building of council housing? I don't think it was a coincidence. The two are absolutely related.

I'm now going to highlight a housing development in Swansea East by Highgrove Homes, which is developing 300 affordable homes, including 20 for a housing association on a brownfield site near the Liberty Stadium that has been left empty for several years following the closure of Morris Bros bus company—urban regeneration, affordable housing and social housing. What a representative of the company told the First Minister and me when we visited the site was how important the Welsh Government's Help to Buy scheme was in allowing first-time buyers to purchase houses on the site.

A number of councils, now that the right to buy has been suspended in Wales, are looking to build accommodation again. In Swansea, the first council accommodation since the 1970 is being planned to be built—mainly older people's accommodation and smaller accommodation, but housing that is desperately needed. To me, housing is important. It is not just buildings; it is actually homes. It is good-quality homes that improve the life chances of children and reduce ill health. Each affordable new home changes someone's life for the better. We need more affordable new homes, and I commend the Government and the action it has taken so far.

16:49

Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think, while the Welsh Government's completion of 10,000 over the last four or five years is to be commended, it is obviously a drop in the ocean compared with the need. The Bevan Foundation report talks about the need to build 5,000 affordable homes every year in order to hope to keep pace with the demand. The other report, by Professor Holmans, talks about the need for 8,700 homes a year for the next 20 years.

Amygodd cyfrifiad 2011 ddau newid allweddol dros y degawd ers 2001, ac mae Jocelyn Davies wedi amlygu rhan o hyn: symudiad ar raddfa fawr o dai cymdeithasol sy'n eiddo i'r cyngor i gymdeithasau tai, sy'n cynnwys trosglwyddo stoc; ac, yn bwysicach, fel y mae Jocelyn Davies newydd ei ddweud, mae'r cadarnhad o'r cynnydd mewn tai rhent preifat yn cydbwysu'r gostyngiad mewn tai sy'n eiddo i berchen-feddianwyr. Mae Plasmarl yn Nwyrain Abertawe, lle cefais i fy ngeni, yn enghraifft o newid mewn tai yn y 50 mlynedd diwethaf. Yn y 1950au a'r 1960au, llety rhent preifat cymharol rad oedd ym yn bennaf, gyda llawer o'r eiddo heb gyfleusterau megis toiledau dan do, ystafelloedd ymolchi a gwres canolog. Daeth yr eiddo hwn yn eiddo i berchen-feddianwyr, prynwyr tro cyntaf yn bennaf, rhwng diwedd y 1960au a'r 1980au cynnar, gyda llawer iawn yn elwa ar grantiau gwella'r cyngor i ddarparu ceginau, ystafelloedd ymolchi, toiledau dan do a gwres canolog priodol. Mae llawer o'r tai hyn bellach yn cael eu prynu gan landlordiaid preifat, rhai ohonynt yn byw gannoedd o filltiroedd i ffordd, ac yna yn cael eu rhentu—symudiad yn ôl at ble'r oeddem yn y 1950au a'r 60au. Nid wyf yn beio'r landlordiaid preifat hyn. Gallant brynu tai am £60,000 a gallant eu rhentu am £500 yr wythnos. O ddirif, ble arall y gallwch chi gael cyfradd elw a thwf cyfalaf o 10 y cant? Ai dim ond cyd-ddigwyddiad ydyw bod twf mewn perchen-feddiannaeth a gostyngiad mewn llety rhent preifat wedi digwydd ar yr un pryd â'r adeiladu tai cyngor ar raddfa fawr? Nid wyf yn credu bod hyn yn gyd-ddigwyddiad. Mae'r ddau yn gwbl gysylltiedig.

Rwyf nawr yn mynd i dynnu sylw at ddatblygiad tai yn Nwyrain Abertawe gan Gartrefi Highgrove, sy'n datblygu 300 o dai fforddiadwy, gan gynnwys 20 ar gyfer cymdeithas dai ar safle tir llwyd ger Stadiwm Liberty sydd wedi cael ei adael yn wag am nifer o flynyddoedd ar ôl cau cwmni bysiau Morris Bros—adfywio trefol, tai fforddiadwy a thai cymdeithasol. Yr hyn a ddywedodd cynrychiolydd o'r cwmni wrth y Prif Weinidog a minnau pan aethom i ymweld â'r safle oedd pa mor bwysig oedd cynllun Cymorth i Brynu Llywodraeth Cymru o ran caniatáu i brynwyr tro cyntaf brynu tai ar y safle.

Mae nifer o gynghorau, nawr bod yr hawl i brynu wedi ei atal dros dro yng Nghymru, yn gobeithio adeiladu llety eto. Yn Abertawe, mae'r llety cyngor cyntaf ers y 1970au yn cael ei gynllunio i gael ei adeiladu—llety pobl hŷn a llety llai yn bennaf, ond tai y mae angen dirfawr amdanynt. I mi, mae tai yn bwysig. Nid dim ond adeiladau y mae'n ei olygu; mae'n golygu cartrefi. Mae'n golygu cartrefi o ansawdd da sy'n gwella cyfleoedd bywyd plant a lleihau salwch. Mae pob cartref newydd fforddiadwy yn newid bywyd rhywun er gwell. Mae arnom angen mwy o gartrefi newydd fforddiadwy, ac rwy'n cymeradwyo'r Llywodraeth a'r camau y mae hi wedi'u cymryd hyd yn hyn.

Rwy'n credu, er bod cwblhau'r 10,000 gan Lywodraeth Cymru dros y pedair neu bum mlynedd diwethaf i'w ganmol, mae'n amlwg nad yw ond diferyn yn y môr o'i gymharu â'r angen. Mae adroddiad Sefydliad Bevan yn siarad am yr angen i adeiladu 5,000 o gartrefi fforddiadwy bob blwyddyn er mwyn gobeithio cadw i fyny â'r galw. Mae'r adroddiad arall, gan yr Athro Holmans, yn sôn am yr angen am 8,700 o gartrefi bob flwyddyn am yr 20 mlynedd nesaf.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

These are the statistics, but my advice surgeries are full of the human stories that go with them. Last week, I had a pensioner living in emergency accommodation, having been thrown out of her home by her son-in-law because his growing family could no longer accommodate her as well. The previous week, a woman who'd lived in her present home for 40 years, but unable to inherit the tenancy following the death of her parents, whom she nursed in their final years, because the bedroom tax dictates that the property is too large for her needs. The week before that, a woman with an autistic child whose home was being repossessed because her landlord had defaulted on his mortgage payments. The circumstances were so acute that, in this case, I pay tribute to the local authority, which did manage, despite having 12,000 on their housing waiting list, to rehouse this person permanently nearby, close to the child's school and the extended family connections that are an essential part of her ability to continue to look after her child in her own home.

It's no use berating the Government for not doing more when capital budgets are being slashed, as Mark Isherwood tried to do—40 per cent cuts in capital budgets, so where is the Government expected to get the money to build more homes? We have still not seen the benefits of local authorities being able to dig themselves out of a housing revenue account that, in the end, will enable them to use the guaranteed revenue streams from rents to borrow, either from the European Investment Bank or from the open market. In the meantime, the scale of the need is huge and is holding back our economic development. Maybe we will need to return to the example of the nineteenth century philanthropists, the Cadburys, the Peabodys and the Rowntrees, who built affordable homes for their workers in order to enable them to secure the workforce that they needed.

In the meantime, I'm interested in the statement from the Deputy Minister for Culture last week about what crowdfunding can do. In my mind, it isn't just about the Llandudno Museum trust and the Welsh Books Council reprinting an out-of-print women's classic, but this is something that we could use, potentially, to build serious money for new housing that we so desperately need. Plymouth City Council seems to be the first local authority to have grasped this possibility, followed also by Scotland, where you can now buy a virtual brick in order to build a community trust. I'm particularly struck by a crowdfunding page set up by a company called 4Vie—V I E for 'life'—which is all about using the affordable rented housing model based on approaches taken so successfully in mainland Europe. At the moment, they have—. They were only set up in September, but, so far, the amount of money they've actually been able to raise has been derisory, but they are not the only ones who are trying to do this and, hopefully, this is a model that could take off, as people are so desperate to find a home and are absolutely locked out of the possibility of buying, given that prices are completely out of kilter with what most people earn. So, this model could, if we are basing it on what happened in Europe, offer what tenants want: safe, secure and genuinely affordable homes—35 per cent of average local incomes.

Dyma'r ystadegau, ond mae fy nghymorthfeydd cynghori yn llawn o'r straeon dynol sy'n cyd-fynd â nhw. Yr wythnos diwethaf, cefais bensynwr sy'n byw mewn llety argyfwng, ar ôl cael ei thafu allan o'i chartref gan ei mab-ying-nghyfraith gan na allai ei deulu a oedd yn tyfu ddarparu ar ei chyfer hithau hefyd erbyn hyn. Yr wythnos flaenorol, menyw oedd wedi byw yn ei chartref presennol am 40 mlynedd, ond nad oedd yn cael etifeddu'r denantiaeth yn dilyn marwolaeth ei rhieni, yr oedd wedi eu nyrsio yn eu blynyddoedd olaf, oherwydd bod y dreth ystafell wely yn mynnu bod yr eiddo yn rhy fawr ar gyfer ei hanghenion. Yr wythnos cyn hynny, menyw sydd â phlentyn awtistig yr oedd ei chartref yn cael ei adfeddiannu oherwydd bod ei landlord wedi diffygdalu ei daliadau morgais. Roedd yr amgylchiadau mor ddirifol fel fy mod, yn yr achos hwn, yn talu teyrnged i'r awdurdod lleol, a lwyddodd, er bod 12,000 ar ei restr aros am dai, i ailgartrefu'r person hwn yn barhaol gerllaw, yn agos at ysgol y plentyn a'r cysylltiadau teulu estynedig sy'n rhan hanfodol o'i gallu i barhau i ofalu am ei phlentyn yn ei chartref ei hun.

Nid oes diben difrïo'r Llywodraeth am beidio â gwneud mwy pan fo cyllidebau cyfalaf yn cael eu torri, fel y ceisiodd Mark Isherwood ei wneud—toriadau 40 y cant mewn cyllidebau cyfalaf, felly o ble mae disgwyl i'r Llywodraeth gael yr arian i adeiladu mwy o gartrefi? Rydym yn dal i fod heb weld manteision awdurdodau lleol yn gallu cloddio eu hunain allan o gyfrif refeniw tai a fydd, yn y pen draw, yn eu galluogi i ddefnyddio'r ffrydiau refeniw gwarantedig o renti i fenthyl, naill ai o Fanc Buddsoddi Ewrop neu o'r farchnad agored. Yn y cyfamser, mae graddfa'r angen yn enfawr, ac mae'n dal ein datblygiad economaidd yn ei ôl. Efallai y bydd angen i ni ddychwelyd at enghraifft dyngarwyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg, y Cadburys, y Peabodys a'r Rowntrees, a adeiladodd dai fforddiadwy ar gyfer eu gweithwyr er mwyn eu galluogi i sicrhau'r gweithlu yr oedd ei angen arnynt.

Yn y cyfamser, mae gen i ddiddordeb yn y datganiad gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant yr wythnos diwethaf am yr hyn y gall cyllido torfol ei wneud. Yn fy marn i, nid yw'n ymwneud ag ymddiriedolaeth Amgueddfa Llandudno a Chyngor Llyfrau Cymru yn ailargraffu clasur menywod allan o brint, ond mae hyn yn rhywbeth y gallem ei ddefnyddio, o bosibl, i adeiladu gwir arian ar gyfer tai newydd yr ydym wir eu hangen. Ymddengys mai Cyngor Dinas Plymouth yw'r awdurdod lleol cyntaf i ddeall y posibilrwydd hwn, ac yna hefyd yr Alban, lle gallwch yn awr brynu bricsen rithwir er mwyn adeiladu ymddiriedolaeth gymunedol. Trawyd fi'n arbennig gan dudalen gyllido torfol a sefydlwyd gan gwmni o'r enw 4Vie—V I E for 'life'—sydd yn ymwneud â defnyddio'r model tai rhent fforddiadwy yn seiliedig ar ddulliau a weithredwyd mor llwyddiannus ar dir mawr Ewrop. Ar hyn o bryd, maent wedi—. Dim ond ym mis Medi y sefydlwyd nhw, ond, hyd yn hyn, mae'r swm o arian y maent wedi gallu ei godi mewn gwirionedd wedi bod yn chwerthinllyd, ond nid hwy yw'r unig rai sy'n ceisio gwneud hyn ac mae hwn, gobeithio, yn fodel a allai ddod yn boblogaidd, gan fod pobl mor daer i ddod o hyd i gartref ac yn cael eu cloi allan yn llwyr o'r posibilrwydd o brynu, o ystyried nad yw prisiau yn gyfatebol o gwbl i'r hyn y mae'r rhan fwyaf o bobl yn ei ennill. Felly, gallai'r model hwn, os ydym yn ei seilio ar yr hyn a ddigwyddodd yn Ewrop, gynnig yr hyn y mae tenantiaid ei eisiau: cartrefi diogel, saff a gwirioneddol fforddiadwy—35 y cant o incymau lleol cyfartalog.

There are other similar schemes, and I hope that savers can be persuaded that this would be a much more useful way of using the money they've accumulated than just leaving it in the bank, where it's earning absolutely nothing at all. I think there's also a word of warning on this, because, if we do nothing, we'll simply become prey to a different type of crowdfunding, which is about people clubbing together in order to get into the housing market in the buy-to-let market, which takes the meaning of a property-owning nation to the extreme. They all operate with a similar premise, of these various schemes that exist. You sign up to it online, you buy with a group of other people inside a company specifically created for the purpose that you are an instant buy-to-let landlord. This sort of boom-to-bust operation has eerie echoes of the earlier housing bubbles, which all ended in tears, and which, in 2008, nearly brought down the banking system.

Ceir cynlluniau tebyg eraill, ac rwy'n gobeithio y gellir perswadio cynilwyr y byddai hon yn ffordd llawer mwy defnyddiol o ddefnyddio'r arian y maent wedi'i gronni yn hytrach na dim ond ei adael yn y banc, lle nad yw'n ennill dim byd o gwbl. Rwy'n credu bod gair o rybudd ar hyn hefyd, oherwydd, os na fyddwn yn gwneud unrhyw beth, byddwn yn dod yn ysglyfaeth i fath gwahanol o gyllido torfol, sydd yn ymwneud â phobl yn clybio gyda'i gilydd er mwyn mynd i mewn i'r farchnad dai yn y farchnad prynu i osod, sy'n mynd ag ystyr cenedl sy'n berchen ar eiddo i'r eithaf. Maent i gyd yn gweithredu gyda chynsail tebyg, y cynlluniau gwahanol hyn sy'n bodoli. Rydych yn cofrestru ar ei gyfer ar-lein, byddwch yn prynu gyda grŵp o bobl eraill mewn cwmni a grëwyd yn benodol ar gyfer y diben eich bod yn landlord prynu i osod ar unwaith. Mae gan y math hwn o weithrediad ffyniant i fethiant adleisiau iasol o'r bwrllwm tai cynharach, a ddaeth i ben mewn dagrau, ac yn 2008, a fu bron â dymchwel y system fancio.

- 16:54 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I have been generous. You need to wind up. Rwyf wedi bod yn hael. Mae angen ichi ddirwyn i ben.
- 16:55 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
So, I would commend this source of funding as a way of trying to resolve some of the avenues for getting people the homes that they need. Felly, byddwn yn cymeradwyo'r ffynhonnell hon o gyllid fel ffordd o geisio datrys rhai o'r llwybrau ar gyfer cael y cartrefi sydd eu hangen arnynt i bobl.
- 16:55 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
And the Minister to reply to the debate. A'r Gweinidog i ymateb i'r ddadl.
- 16:55 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty
Thank you, Deputy Presiding Officer. I thank Members for their contributions. I think the debate really has highlighted the very positive progress that this Government's made in delivering affordable housing across Wales. Diolch, Ddirprwy Lywydd. Diolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau. Rwy'n credu bod y ddadl mewn gwirionedd wedi tynnu sylw at y cynnydd cadarnhaol iawn a wnaeth y Llywodraeth hon wrth ddarparu tai fforddiadwy ledled Cymru.
- If I can just turn to the amendments, amendment 1: we recognise, of course, that in housing there's always more that we can do, and as I mentioned earlier, we are taking a series of actions to maximise the delivery of affordable housing. We cannot, therefore, support amendment 1, tabled by the Welsh Conservatives. We're always keen to note and consider carefully the research of experts, and on that basis we support amendment 2, tabled by the Welsh Liberal Democrats. The target for affordable homes in the next Assembly is a matter for party manifestos, and that decision then, going forward, would be for the newly elected Government. So, I can't support amendment 3 from the Welsh Liberal Democrats, but I think Peter Black may have given his party's manifesto commitment in relation to affordable housing away. Os caf droi at y gwelliannau, gwelliant 1: rydym yn cydnabod, wrth gwrs, o ran tai, bod mwy bob amser y gallwn ei wneud, ac fel y soniais yn gynharach, rydym yn cymryd cyfres o gamau i gynyddu darparu tai fforddiadwy cymaint â phosib. Ni allwn, felly, gefnogi gwelliant 1, a gyflwynwyd gan y Ceidwadwyr Cymreig. Rydym bob amser yn awyddus i nodi ac ystyried yn ofalus ymchwil arbenigwyr, ac ar y sail honno rydym yn cefnogi gwelliant 2, a gyflwynwyd gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru. Mae'r targed ar gyfer tai fforddiadwy yn y Cynulliad nesaf yn fater i fanifestos pleidiau, a byddai'r penderfyniad hwnnw wedyn, wrth symud ymlaen, yn fater i'r Llywodraeth a fydd newydd ei hethol. Felly, ni allaf gefnogi gwelliant 3 gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru, ond rwy'n credu efallai fod Peter Black wedi datgelu ymrwymiad maniffesto ei blaid ynglŷn â thai fforddiadwy.
- I think it should be noted that the original target set by us at the beginning of this Government was 7,500 affordable homes, and that was then increased to 10,000. I think to have achieved 91 per cent of that target in four years is excellent news. Rwy'n credu y dylid nodi mai'r targed gwreiddiol a osodwyd gennym ni ar ddechrau'r Llywodraeth hon oedd 7,500 o gartrefi fforddiadwy, ac yna cafodd hynny ei gynyddu i 10,000. Rwy'n credu bod cyflawni 91 y cant o'r targed hwnnw mewn pedair blynedd yn newyddion ardderchog.

Just turning to Members' contributions now, Mark Isherwood talked about us missing targets; well, we've exceeded the targets on Houses into Homes. I just mentioned we've achieved 91 per cent of the affordable housing target with still a year to go, so I'm very confident we'll achieve that target also. I made very clear in my opening remarks around rent policy that I don't think we should go the same way as England, but whilst housing is a devolved matter, rents are clearly interlinked with the welfare budget, which remains the responsibility of the UK Government. There is very much an increased focus on social rents, since the UK Government are reducing social rents in England by 1 per cent in four years. I picked up today that it could possibly be 2 per cent after the first year. We currently have a five-year agreement here in Wales to uplift rents each year, and I absolutely understand how important rents are for social landlords.

Peter Black asked me when I will be making the decision. I will do it as quickly as possible after tomorrow's comprehensive spending review. I know that the timescales are very difficult for social landlords, and I'm working very closely with my colleague the Minister for Finance and Government Business to achieve the best possible outcome for Wales.

16:57 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

What property types other than social houses do you include in your affordable home targets? Do you include intermediate rent, shared ownership, low-cost ownership, or is it only social rent?

16:58 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It's a variety of different things, and that's included in the target.

Mark Isherwood talked about partnership working in a suite of schemes, and we absolutely have that. Last week I met with Community Housing Cymru, I opened their conference, and I'm very happy to work in partnership. I think it's vital, and the only way we're ever going to achieve our targets around affordable housing is to work in partnership and collaboratively.

Peter Black also mentioned reclassification of registered social landlords. Again, this is a very recent announcement by the Office for National Statistics. Whilst it clearly refers to England, it is obviously relevant to Wales, and we're awaiting a decision from the ONS on extending their review to the devolved administrations; but there are certainly indications that they may do that. So, I've asked officials to consider the implications if such a development were to apply to Wales, and we need to consider again how the Treasury and the Department for Communities and Local Government respond to this development. Officials are monitoring very closely the matter for me.

Gan droi at gyfraniadau Aelodau yn awr, soniodd Mark Isherwood amdanom ni'n methu targedau; wel, rydym wedi rhagori ar y targedau ar gyfer Troi Tai'n Gartrefi. Soniais ein bod wedi cyflawni 91 y cant o'r targed tai fforddiadwy gyda blwyddyn arall i fynd, felly rwy'n hyderus iawn y byddwn yn cyrraedd y targed hwnnw hefyd. Gwneuthum yn glir iawn yn fy sylwadau agoriadol o ran polisi rhent nad wyf yn credu y dylem fynd yr un ffordd â Lloegr, ond er bod tai yn fater datganoledig, mae rhenti yn cydgysylltu'n glir gyda'r gyllideb lles, sy'n parhau i fod yn gyfrifoldeb Llywodraeth y DU. Mae llawer iawn mwy o bwyslais ar renti cymdeithasol, gan fod Llywodraeth y DU yn gostwng rhenti cymdeithasol yn Lloegr gan 1 y cant mewn pedair blynedd. Clywais heddiw y gallai o bosibl fod yn 2 y cant ar ôl y flwyddyn gyntaf. Ar hyn o bryd mae gennym gytundeb pum mlynedd yma yng Nghymru i godi rhenti bob blwyddyn, ac rwy'n deall yn llwyr pa mor bwysig yw rhenti i landlordiaid cymdeithasol.

Gofynnodd Peter Black i mi pryd y byddaf yn gwneud y penderfyniad. Byddaf yn gwneud hynny cyn gynted â phosibl ar ôl yr adolygiad cynhwysfawr o wariant yfory. Gwn fod y graddfeydd amser yn anodd iawn i landlordiaid cymdeithasol, ac rwy'n gweithio'n agos iawn gyda fy nghydweithiwr Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth i gyflawni'r canlyniad gorau posibl i Gymru.

Pa fathau o eiddo ar wahân i dai cymdeithasol ydych chi'n eu cynnwys yn eich targedau cartref fforddiadwy? A ydych chi'n cynnwys rhent canolradd, perchnogaeth ar y cyd, perchnogaeth cost isel, neu ai dim ond rhent cymdeithasol yw hyn?

Mae'n amrywiaeth o wahanol bethau, ac mae hynny wedi'i gynnwys yn y targed.

Soniodd Mark Isherwood am weithio mewn partneriaeth mewn cyfres o gynlluniau, ac mae hynny gennym yn bendant. Yr wythnos diwethaf cefais gyfarfod gyda Cartrefi Cymunedol Cymru, agorais eu cynhadledd, ac rwy'n hapus iawn i weithio mewn partneriaeth. Rwy'n credu ei fod yn hanfodol, a'r unig ffordd yr ydym fyth yn mynd i gyflawni ein targedau o ran tai fforddiadwy yw gweithio mewn partneriaeth ac ar y cyd.

Soniodd Peter Black hefyd am ailddosbarthu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Unwaith eto, mae hwn yn gyhoeddiad diweddar iawn gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Er ei fod yn amlwg yn cyfeirio at Loegr, mae'n amlwg yn berthnasol i Gymru, ac rydym yn disgwyl penderfyniad gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar ymestyn eu hadolygiad i'r gweinyddiaethau datganoledig; ond yn sicr mae arwyddion y gallant wneud hynny. Felly, rwyf wedi gofyn i swyddogion ystyried y goblygiadau os bydd datblygiad o'r fath yn berthnasol i Gymru, a bod angen inni ystyried eto sut y mae'r Trysorlys a'r Adran Gymunedau a Llywodraeth Leol yn ymateb i'r datblygiad hwn. Mae swyddogion yn monitro'r mater yn ofalus iawn ar fy rhan.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The British-Irish Council meetings of housing Ministers in Edinburgh earlier this month also raised concerns about rent policy, and you mentioned the issue about Scotland today, Peter. But it's clear that we have very strong views on it. We have an agreement, as I say, about the rents that I hold very strongly. It's very important that we are able to discuss with the Treasury those concerns.

Jocelyn Davies said that, of course, there's always more to do. You talked about the impact of the bedroom tax and you're absolutely right. That's why we've put £40 million into building smaller properties, one or two-bedroomed properties, because clearly there's been a move away from building smaller properties over the years and now we're having to go back to that. I'm concerned that we do absolutely have a stable sector. As you say, we've got so many people now in rent arrears because of the bedroom tax, it is a shame that we haven't been able to put that money into building more.

Mike Hedges referred to the Welsh housing quality standard, and, by 2020, all local authorities have been told the housing stock has to be brought up to standard. Ten thousand more homes have been brought up to WHQS this last year. You referred to the houses that are now in the private rented sector that have been bought through right to buy. Clearly, this is of concern to us and why we will move to end right to buy if we are re-elected in May.

Jenny Rathbone spoke about a variety of innovative models of providing funding for affordable housing, all of which I'm very happy to look at. Again, there's a 40 per cent reduction in our capital budgets, yet the Conservatives expect us to build more houses. I'm not quite sure how they equate that.

So, finally, I think, it's just to say that of course there's more to be done, of course we can't be complacent. There is obviously more we can do to increase the supply of homes, affordable and market, for the people of Wales. I think we've been innovating at times of really huge financial pressure. We will continue to work collaboratively with the housing sector. It's very important that we find new ways of delivering. We'll continue to support the delivery of affordable housing in Wales with our investment in the social housing grant. Again, £400 million we've invested in the social housing grant this term of Government, with initiatives such as the housing finance grant.

As a Government, we've also looked at the wider housing supply issues. We've supported a sustained increase in new homes being built with Help to Buy. Mike Hedges asked about the next tranche of Help to Buy, and I announced earlier this year that my intention is to extend Help to Buy, but, again, our hands are tied until the CSR. But as soon as I'm in a position to make a further announcement, I will be doing so. Thank you very much.

Cododd cyfarfodydd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig o Weinidogion tai yng Nghaeredin yn gynharach y mis hwn hefyd bryderon am bolisi rhent, ac roeddech yn sôn am fater yr Alban heddiw, Peter. Ond mae'n amlwg bod gennym farn gref iawn arno. Mae gennym gytundeb, fel y dywedais, am y rhenti yr wyf yn eu harddel yn gryf iawn. Mae'n bwysig iawn ein bod yn gallu trafod y pryderon hynny gyda'r Trysorlys.

Dywedodd Jocelyn Davies fod mwy, wrth gwrs, i'w wneud bob amser. Soniasoch am effaith y dreth ystafell wely ac rydych yn hollol gywir. Dyna pam yr ydym wedi rhoi £40 miliwn ar gyfer adeiladu eiddo llai, eiddo un neu ddwy ystafell wely, oherwydd yn amlwg bu symud i ffwrdd oddi wrth adeiladu eiddo llai dros y blynyddoedd ac erbyn hyn rydym yn gorfod mynd yn ôl at hynny. Rwy'n awyddus i sicrhau bod gennym sector gwbl sefydlog. Fel y dywedwch, mae gennym gymaint o bobl mewn ôl-ddyledion rhent bellach oherwydd y dreth ystafell wely, mae'n drueni nad ydym wedi gallu rhoi'r arian hwnnw ar gyfer adeiladu mwy.

Cyfeiriodd Mike Hedges at safon ansawdd tai Cymru, ac, erbyn 2020, mae pob awdurdod lleol wedi cael gwybod bod yn rhaid dod â'r stoc dai i fyny i safon. Mae deng mil mwy o gartrefi wedi eu codi i safon SATC yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Cyfeiriasoch at y tai sydd bellach yn y sector rhentu preifat sydd wedi cael eu prynu drwy hawl i brynu. Yn amlwg, mae hyn yn destun pryder i ni a dyna pam y byddwn yn symud i derfynu hawl i brynu os cawn ein hail-ethol ym mis Mai.

Siaradodd Jenny Rathbone am amrywiaeth o fodelau arloesol o ddarparu cyllid ar gyfer tai fforddiadwy, ac rwy'n hapus iawn i edrych ar bob un ohonynt. Unwaith eto, mae gostyngiad o 40 yn ein cyllidebau cyfalaf, ac eto mae'r Ceidwadwyr yn disgwyl i ni adeiladu mwy o dai. Nid wyf yn hollol siŵr sut y maent yn cydraddoli hynny.

Felly, yn olaf, rwy'n meddwl, dim ond i ddweud, wrth gwrs, bod mwy i'w wneud, wrth gwrs, ni allwn fod yn hunanfodlon. Mae'n amlwg bod mwy y gallwn ei wneud i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy ac ar y farchnad agored, ar gyfer pobl Cymru. Rwy'n credu ein bod wedi bod yn arloesol mewn cyfnod o bwysau ariannol gwirioneddol enfawr. Byddwn yn parhau i weithio ar y cyd gyda'r sector tai. Mae'n bwysig iawn ein bod yn dod o hyd i ffyrdd newydd o ddarparu. Byddwn yn parhau i gefnogi darparu tai fforddiadwy yng Nghymru gyda'n buddsoddi yn y grant tai cymdeithasol. Eto, rydym wedi buddsoddi £400 miliwn yn y grant tai cymdeithasol yn ystod y tymor Llywodraethu hwn, drwy fentrau fel y grant cyllid tai.

Fel Llywodraeth, rydym hefyd wedi edrych ar y materion cyflenwad tai ehangach. Rydym wedi cefnogi cynnydd parhaus mewn cartrefi newydd yn cael eu hadeiladu gyda Chymorth i Brynu. Gofynnodd Mike Hedges am y gyfran nesaf o Cymorth i Brynu, a chyhoeddais yn gynharach eleni mai fy mwriad yw ymestyn Cymorth i Brynu, ond, unwaith eto, mae ein dwylo wedi'u clymu tan yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant. Ond, cyn gynted ag fy mod mewn sefyllfa i wneud cyhoeddiad pellach, byddaf yn gwneud hynny. Diolch yn fawr iawn.

17:02	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? [Objection.] I defer all voting to voting time.</p> <p><i>Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.</i></p>	<p>Y cynnig yw derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y pleidleisio tan yr amser pleidleisio.</p> <p><i>Voting deferred until voting time.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:02	<p>8. Cyfnod Pleidleisio</p> <p>Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Voting time now follows. Before I conduct the vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not. So, we are voting, then, on the debate on affordable housing targets. I call for a vote on amendment 1, tabled in the name of Paul Davies. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 15, there voted against 33. Therefore, amendment 1 is not agreed.</p> <p><i>Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 15, Yn erbyn 33, Ymatal 0.</i></p> <p>Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnis NDM5884</p>	<p>8. Voting Time</p> <p>Mae amser pleidleisio yn dilyn yn awr. Cyn i mi gynnal y bleidlais, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nid oes. Felly, rydym yn pleidleisio, felly, ar y ddadl ar dargedau tai fforddiadwy. Galwaf am bleidlais ar welliant 1, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 15 o blaid, pleidleisiodd 33 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 1 wedi'i dderbyn.</p> <p><i>Amendment not agreed: For 15, Against 33, Abstain 0.</i></p> <p>Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5884</p>	<p>Y Senedd.tv Fideo Video</p>
17:02	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I call for a vote on amendment 2, tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 49, there were no votes against. Therefore, amendment 2 is agreed.</p> <p><i>Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 49, Yn erbyn 0, Ymatal 0.</i></p> <p>Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnis NDM5884</p>	<p>Galwaf am bleidlais ar welliant 2, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 49 o blaid, nid oedd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly, mae gwelliant 2 wedi ei dderbyn.</p> <p><i>Amendment agreed: For 49, Against 0, Abstain 0.</i></p> <p>Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5884</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:03	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I call for a vote on amendment 3, tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 16, there voted against 33. Therefore, amendment 3 is not agreed.</p> <p><i>Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 16, Yn erbyn 33, Ymatal 0.</i></p> <p>Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnis NDM5884</p>	<p>Galwaf am bleidlais ar welliant 3, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 16 o blaid, pleidleisiodd 33 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 3 wedi ei dderbyn.</p> <p><i>Amendment not agreed: For 16, Against 33, Abstain 0.</i></p> <p>Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5884</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:03	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I now call for a vote on the motion as amended, tabled in the name of Jane Hutt.</p> <p>Cynnig NDM5884 fel y'i diwygiwyd:</p> <p>Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:</p> <p>1. Yn nodi'r cynnydd diweddaraf tuag at gyflawni targed uwch Llywodraeth Cymru o 10,000 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ystod y Cynulliad hwn, a bod 91 y cant o'r targed hwn wedi'i gyflawni.</p>	<p>Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd, a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt.</p> <p>Motion NDM5884 as amended:</p> <p>To propose the National Assembly for Wales:</p> <p>1. Notes the latest progress towards the Welsh Government's increased target of 10,000 additional affordable homes during this Assembly, and that 91 per cent of that target has been achieved.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

2. Yn nodi gwaith ymchwil yr Athro Holmans sy'n nodi os bwriedir cwrdd â'r angen a'r galw am dai yng Nghymru yn y dyfodol, mae angen dychwelyd i gyfraddau adeiladu tai nas gwelwyd ers bron 20 mlynedd a chynnydd yng nghyfradd twf tai fforddiadwy.

2. Notes the research of Professor Holmans which states that 'if future need and demand for housing in Wales is to be met, there needs to be a return to rates of house building not seen for almost 20 years, and an increase in the rate of growth of affordable housing.'

17:03

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Open the vote. Close the vote. There voted in favour 49. No votes against. Therefore, the motion as amended is agreed.

Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 49 o blaid. Dim pleidleisiau yn erbyn. Felly, mae'r cynnig fel y'i diwygiwyd wedi ei dderbyn.

Derbyniwyd cynnig NDM5884 fel y'i diwygiwyd: O blaid 49, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

Motion NDM5884 as amended agreed: For 49, Against 0, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5884 fel y'i diwygiwyd](#)

[Result of the vote on motion NDM5884 as amended](#)

17:03

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

That concludes today's business. Thank you very much.

Dyna ddiwedd busnes heddiw. Diolch yn fawr iawn.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:03.

The meeting ended at 17:03.